# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 20/10/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Bil Cymru Drafft
3. Statement: The Draft Wales Bill

4. Datganiad: Yr Uwchgynhadledd ar Ddur
4. Statement: The Steel Summit

5. Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015
5. The Microchipping of Dogs (Wales) Regulations 2015

6. Dadl ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg
6. Debate on the Welsh Government's Response to the Welsh Language Commissioner's Annual Report

7. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
7. Debate on the General Principles of the Historic Environment (Wales) Bill

8. Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
8. Debate on the Financial Resolution of the Historic Environment (Wales) Bill

9. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru)
9. Debate on the General Principles of the Environment (Wales) Bill

10. Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd (Cymru)
10. Debate on the Financial Resolution of the Environment (Wales) Bill

11. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)
11. Stage 4 Debate on the Local Government (Wales) Bill

12. Cyfnod Pleidleisio
12. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly of Wales is now in session.

Prynhawn Da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before I call the First Minister, it is my pleasure to welcome a delegation of the Baden Württemberg State Parliament's Petitions Committee, who are with us in the public gallery today. I'm sure they're very welcome.

Cyn i mi alw ar y Prif Weinidog, mae'n bleser gennyf groesawu dirprwyaeth o Bwyllgor Deisebau Senedd Talaith Baden Württemberg, sydd gyda ni yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Rwy'n siŵr bod croeso mawr iddynt.

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

*Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

*[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to item 1, which is questions to the First Minister, and question 1 is Llyr Gruffydd.

Symudwn at eitem 1 nawr, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog, a daw cwestiwn 1 gan Llyr Gruffydd.

### Ecsbloetio Nwy Anghonfensiynol

### Unconventional Gas Exploitation

13:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ecsbloetio nwy anghonfensiynol yng Nghymru? OAQ(4)2519(FM)[W]*

*1. Will the First Minister make a statement on unconventional gas exploitation in Wales? OAQ(4)2519(FM)[W]*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni wedi mabwysiadu agwedd ragofalus at weithgarwch nwy anghonfensiynol yng Nghymru.

We have adopted a precautionary approach to unconventional gas activity in Wales.

13:31 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am eich ateb. Mae'ch Gweinidog Cyfoeth Naturiol chi, wrth gwrs, yn dweud wrthym ni fod gennym ni foratoriwm ar ffracio yng Nghymru. Yn awr, fe allwn ni gytuno bod yna foratoriwm ar awdurdodau cynllunio yn gwneud penderfyniad ar ffracio, oherwydd mae'n rhaid iddyn nhw gyfeirio penderfyniad yn awr at y Gweinidog. Ond, mae'r Gweinidog hefyd wedi dweud na all e roi sicrwydd y byddai'n gwrthod cais o'r fath. Felly, a ydych chi'n cytuno â fi nad yw hynny'n foratoriwm mewn gwirionedd?

Thank you for that response. Your Minister for Natural Resources, of course, tells us that we have a moratorium on fracking in Wales. We can agree that there is a moratorium on planning authorities taking decisions on fracking, because they now have to refer decisions to the Minister. But, the Minister has also said that he can't give us an assurance that he wouldn't reject such applications. So, would you agree with me that that isn't really a moratorium at all?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid wyf yn credu ei fod wedi dweud hynny, ond, fel rwyf i wedi'i ddweud o'r blaen, mae yna foratoriwm wedi cael ei ddodi, fwy neu lai, ynglŷn â'r system gynllunio ar y math hyn o ffracio. Wrth gwrs, nid yw'r system drwyddedu wedi cael ei datganoli eto, ond bydd hynny'n dod mewn amser.

I don't think he has said that, but, as I've said before, a moratorium has been in place in terms of the planning system and this type of fracking. Of course, licensing has not yet been devolved, but it is only a matter of time before that happens.

13:31 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm very pleased that the moratorium is in place, particularly in fracking, and also on coal-bed methane extraction, because that's another unconventional gas extraction. But, one of the problems we have is perception by the public on bore holes that are being applied for, for testing whether gas exists or not, and they perceive that as a fracking, or other extraction, process. Is there any way we can look at the planning rules to ensure that bore holes can be linked, perhaps, to future possibilities, because they definitely are intended to look for gas, with a consideration of exploration, and that puts fear into people?

Brif Weinidog, rwy'n falch iawn bod y moratoriwm wedi'i sefydlu, yn enwedig o ran ffracio, a hefyd o ran echdynnu methan gwely glo, oherwydd mae hwnnw'n fodd arall anghonfensiynol o echdynnu nwy. Ond, un o'r problemau sydd gennym ni yw canfyddiad y cyhoedd o dyllau turio y mae ceisiadau'n cael eu gwneud ar eu cyfer, ar gyfer profi a oes nwy ar gael ai peidio, ac maen nhw'n tybio mai ffracio, neu broses echdynnu arall, yw hynny. A oes unrhyw ffordd y gallwn ni edrych ar y rheolau cynllunio i sicrhau y gellir cysylltu tyllau turio, efallai, â phosibiliadau yn y dyfodol, gan mai eu bwriad, yn sicr, yw chwilio am nwy, gydag ystyriaeth o archwilio, ac mae hynny'n codi ofn ar bobl?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, let me just make it absolutely clear: the notification direction issued by the Minister prevents local authorities from granting permission for unconventional oil and gas development, which represents the precautionary approach in terms of planning. As it is a temporary prohibition, it is a moratorium—let's be absolutely clear about that, and that's something that we announced long before Scotland, in fact, that would be in place. But, he raises the point about bore holes, and those are matters that individual local authorities will have to consider. The necessary consents would have to be considered as well, by Natural Resources Wales. But, let's be absolutely clear: we have a set position, as a Government, that we are not looking to change in terms of the moratorium.

Wel, gadewch i mi ei gwneud hi'n gwbl eglur: mae'r cyfarwyddyd hysbysu a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn atal awdurdodau lleol rhag rhoi caniatâd ar gyfer datblygiad olew a nwy anghonfensiynol, sef y dull rhagofalus o ran cynllunio. Gan mai gwaharddiad dros dro yw hwn, moratoriwm ydyw—gadewch i ni fod yn gwbl eglur am hynny, ac mae hynny'n rhywbeth a gyhoeddwyd gennym y byddai'n cael ei sefydlu, a hynny ymhell o flaen yr Alban, a dweud y gwir. Ond, mae e'n codi'r pwynt am dyllau turio, ac mae'r rheini'n faterion y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol unigol eu hystyried. Byddai'n rhaid i'r cydsyniadau angenrheidiol gael eu hystyried gan Gyfoeth Naturiol Cymru hefyd. Ond, gadewch i ni fod yn gwbl eglur: mae gennym ni safbwynt pendant, fel Llywodraeth, nad ydym eisiau newid o ran y moratoriwm.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

First Minister, I'm delighted to finally see the publication of the draft Wales Bill today. Will you join me in welcoming the extra powers that will now be granted over the energy sector?

Brif Weinidog, rwyf wrth fy modd o weld cyhoeddi o'r diwedd y Bil Cymru drafft heddiw. A wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r pwerau ychwanegol a fydd yn cael eu rhoi dros y sector ynni bellach?

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

This is about gas exploration.

Mae hyn yn ymwneud ag archwilio nwy.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Sorry, Minister, I've asked you the wrong question. Just bear with me.

Mae'n ddrwg gennyf, Weinidog, rwyf wedi gofyn y cwestiwn anghywir i chi. Byddwch yn amyneddgar â mi.

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I think we'll move on to the next speaker, and then you can —

Rwy'n meddwl y gwnawn ni symud ymlaen at y siaradwr nesaf, ac yna gallwch—

Senedd.tv Fideo Video

13:33 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

I'm sure you will agree with me that it is important that we need as wide a range as possible of energy production. Therefore, we should not be ruling nothing in or out. When planning for our future energy needs, will you reassure me that any decision taken by your Government, surrounding unconventional gas exploration, will be taken purely on scientific and environmental evidence?

Rwy'n siŵr y byddwch chi'n cytuno â mi ei bod yn bwysig bod arnom angen amrywiaeth mor eang â phosibl o ddulliau cynhyrchu ynni. Felly, ni ddylem gadarnhau na diystyru unrhyw beth. Wrth gynllunio ar gyfer ein hanghenion ynni yn y dyfodol, a wnewch chi fy sicrhau y bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan eich Llywodraeth, o ran archwilio nwy anghonfensiynol, yn cael ei wneud ar sail tystiolaeth wyddonol ac amgylcheddol yn unig?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I'm surprised at the Member's question, because, as her party has made it quite clear, they don't like solar and they don't like onshore wind. So, that's already been ruled out by the Conservatives. We do not accept that fracking is, in some way, a more beneficial activity to the environment than wind turbines. And so, we will continue with a moratorium and the precautionary approach, and we hope the UK Government makes its mind up soon as to what it wants to do with energy policy.

Wel, rwy'n synnu at gwestiwn yr Aelod, oherwydd, fel y mae ei phlaid wedi ei wneud yn gwbl eglur, nid ydynt yn hoffi ynni'r haul ac nid ydynt yn hoffi ynni'r gwynt ar y tir. Felly, mae hynny eisoes wedi ei ddiystyru gan y Ceidwadwyr. Nid ydym yn derbyn bod ffracio, mewn rhyw ffordd, yn weithgaredd mwy buddiol i'r amgylchedd na thyrbinau gwynt. Ac felly, byddwn yn parhau gyda moratoriwm a'r dull rhagofalus, a gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu'n fuan ar yr hyn y mae eisiau ei wneud gyda pholisi ynni.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I'm very supportive of the precautionary approach you're taking, but it has become very difficult in practice for local authorities to resist applications for test drilling. In the Vale of Glamorgan, we have seen that, because they cannot link the test drilling to the actual fracking. Will you bring forward a new technical advice note that encompasses test drilling, to enable local authorities to better resist these applications when they do come forward?

Brif Weinidog, rwy'n gefnogol iawn i'r dull rhagofalus yr ydych chi'n ei fabwysiadu, ond mae wedi dod yn anodd iawn yn ymarferol i awdurdodau lleol wrthsefyll ceisiadau ar gyfer drilio prawf. Rydym ni wedi gweld hynny ym Mro Morgannwg, gan na allant gysylltu'r drilio prawf â'r ffracio go iawn. A wnewch chi gyflwyno nodyn cyngor technegol newydd sy'n cynnwys drilio prawf, i alluogi awdurdodau lleol i wrthsefyll y ceisiadau hyn yn well pan fyddant yn cael eu cyflwyno?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, it's true to say the direction doesn't affect exploration bore holes not proposing to use unconventional techniques. Nevertheless, I will ask the Minister to write to you in order to give you reassurance in that regard.

Wel, mae'n wir i ddweud nad yw'r cyfarwyddyd yn effeithio ar dyllau turio archwilio nad ydynt yn bwriadu defnyddio technegau anghonfensiynol. Er hynny, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu atoch er mwyn rhoi sicrwydd i chi yn hynny o beth.

### Adfywio Canol Tref Llanelli

### Regenerating Llanelli Town Centre

13:35 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredoedd Llywodraeth Cymru i adfywio canol tref Llanelli? OAQ(4)2524(FM)[W]*

*2. Will the First Minister provide an update on Welsh Government actions to regenerate Llanelli town centre? OAQ(4)2524(FM)[W]*

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llanelli yn un o'n hardaloedd trechu tlodi ac mae wedi cael £1 filiwn ar gyfer datblygiad defnydd cymysg yng nghanol y dref. Rydym ni hefyd yn cefnogi'r ardal gwella busnes sy'n mynd i gael ei greu, ac mae'r dref yn derbyn cymorth o dan y cynllun benthyciadau canol tref ar gyfer mynd i'r afael ag adeiladau gwag.

Llanelli is one of our tackling poverty areas and has been awarded £1 million to deliver a mixed-use development in the town centre. We are also supporting the creation of a business improvement district and it is one of our town-centre loans scheme areas aimed at tackling empty buildings.

13:35 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch am hynny. Rwy'n falch i glywed am ddefnydd cymysg, achos un peth sy'n fy mhryderu i yng nghanol tref Llanelli yw bod rhai cynlluniau gan y cyngor sir i droi'r siopau gwag i mewn i unedau yn unig, a chael swyddfeydd uwch eu pen nhw. Byddwn i'n meddwl ei bod yn bwysig mewn canol tref, os ydym yn mynd i gael adfywiad yno, ein bod ni'n cael llefydd i bobl i fyw ynddynt hefyd.

Thank you for that. I'm pleased to hear about the mixed-use development, because one thing that concerns me about Llanelli town centre is that there are some proposals by the county council to turn vacant shops only into units and to have offices above them. Now, I would have thought that it would be important in a town centre, if we are to see regeneration, that we have places for people to live as well.

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n iawn. Mae'n bwysig dros ben bod trefi yn newid gyda'r drefn. Mae hynny'n meddwl ein bod ni'n sicrhau bod mwy o bobl yn byw mewn trefi er mwyn sicrhau eu bod nhw ar gael fel cwsmeriaid i'r siopau, yn enwedig yn y nos, a busnesau eraill, ac, wrth gwrs, mae'n bwysig cael swyddfeydd. Mae cael y gymysgedd yn bwysig dros ben o ran dyfodol unrhyw dref. Ond, ni allwn ni osgoi'r angen i sicrhau bod mwy o gyfleon ar gael i bobl i fyw mewn tref, fel sy'n digwydd mewn gwledydd eraill, er mwyn creu'r cwsmeriaid yna i'r busnesau.

That is right. It's extremely important that towns move with the times, which means that it's important to make sure that more people live in town centres so that they are available as customers for the shops, especially in the evenings, along with other businesses, and, of course, it's also important to have offices. So, having that mixed use is extremely important for the future of any town. However, we cannot ignore the need to ensure that there are more opportunities for people to live in town centres, as is the case in other countries, in order to generate custom for businesses.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:36

### Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr, ac arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:36

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. First Minister, who sets the policy in Government—is it Ministers or civil servants?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, pwy sy'n pennu'r polisi yn y Llywodraeth— Gweinidogion neu weision sifil?

13:36

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

What a silly question; Ministers.

Am gwestiwn hurt; Gweinidogion.

13:36

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm very pleased that you've confirmed that. I regret you think it's a silly answer, a silly question, I should say—[Laughter.]

Rwy'n falch iawn eich bod wedi cadarnhau hynny. Rwy'n gresynu'r ffaith eich bod yn credu ei fod yn ateb hurt, yn gwestiwn hurt, ddylwn i ddweud—[Chwerthin.]

13:37

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yes, it is a silly answer.

Ydy, mae yn ateb hurt.

13:37

### Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

James Price, last week in his evidence to the Public Accounts Committee on the disposal of the regeneration investment fund for Wales land, who is the deputy permanent secretary, stated that discussions had gone on in Government that if the disposal resulted in the loss of half the value, that would be completely acceptable, and this was from a policy perspective. Now, those were the discussions that were going on in Government; that's a direct quote of what he said to the committee. So, the policy perspective, as agreed by Ministers, was that a loss, if the disposal of RIFW land went forward, would be agreeable. Do you recognise that statement from the deputy permanent secretary, that it would have been agreeable to lose such a vast amount of taxpayers' money in the disposal of the land?

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gael gwared ar dir cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio yr wythnos diwethaf, dywedodd James Price, sef y dirprwy ysgrifennydd parhaol, bod trafodaethau wedi eu cynnal yn y Llywodraeth, pe byddai'r gwaredu yn arwain at golli hanner y gwerth, y byddai hynny'n gwbl dderbyniol, ac roedd hynnny o safbwynt polisi. Nawr, dyna oedd y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal yn y Llywodraeth; mae hwnna'n ddyfyniad uniongyrchol o'r hyn a ddywedodd wrth y pwyllgor. Felly, y safbwynt polisi, fel a gytunwyd gan y Gweinidogion, oedd y byddai colled, pe byddai gwaredu tir cronfa buddsoddi Cymru mewn adfywio yn digwydd, yn dderbyniol. A ydych chi'n cydnabod y datganiad gan y dirprwy ysgrifennydd parhaol, y byddai wedi bod yn dderbyniol colli swm mor enfawr o arian y trethdalwyr wrth gael gwared ar y tir?

13:37

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

That is his spin on it and I'm not going to make a comment on an ongoing inquiry; it would be disrespectful to the committee.

Dyna'r sbin y mae ef yn ei roi ar y mater ac nid wyf i'n mynd i wneud sylw ar ymchwiliad sy'n parhau; byddai'n amharchus i'r pwyllgor.

13:37 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It's not spin; it's in the public domain. It was given, it's been reported in the media and it's been commented on. I think it's perfectly reasonable to try and ascertain, given the auditor general's report that has been out there since July, the values that have been placed and the loss to the taxpayer, which is clearly defined in the figures that have been put forward by the auditor general, of several millions of pounds, if not tens of millions of pounds. Now, a senior civil servant says, from a policy perspective, that the loss was 'agreeable'. Now, that's perfectly reasonable; I think most people watching this would say that's reasonable. Do you not agree with that, and do you not think that that disposal has proven to be the single biggest loss to the Welsh taxpayer since devolution began?

Nid sbin mohono; mae hyn ar gael yn gyhoeddus. Fe'i gwnaed, fe'i hadroddwyd yn y cyfryngau a gwnaed sylwadau arno. Rwy'n meddwl ei bod yn berffaith resymol ceisio canfod, o gofio adroddiad yr archwilydd cyffredinol sydd wedi bod ar gael ers mis Gorffennaf, y gwerth sydd wedi ei osod a'r golled i'r trethdalwr, a ddiffinnir yn eglur yn y ffigurau a gyflwynwyd gan yr archwilydd cyffredinol, o filiynau lawer o bunnoedd, os nad degau o filiynau o bunnoedd. Nawr, mae uwch was sifil yn dweud, o safbwynt polisi, bod y golled yn 'dderbyniol'. Nawr, mae hynny'n berffaith resymol; rwy'n credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl sy'n gwylio hyn yn dweud bod hynny'n rhesymol. Onid ydych chi'n cytuno â hynny, ac onid ydych chi'n credu mai'r achos hwn o gael gwared ar dir fu'r golled unigol fwyaf i drethdalwyr Cymru ers dechrau datganoli?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The leader of the opposition is on the committee. What is he doing on it if he's already made his mind up before all the evidence is gathered? What is the point of a committee gathering evidence when somebody turns up before the committee's even finished and says 'This is my view on it' and before all the evidence is gathered? I am not prepared to comment on any inquiry conducted by a committee; I think it's disrespectful to the committee and I think it's important that all the evidence is assessed, so that the committee can come up with a report. I regret the fact that he's clearly not listening to that evidence.

Mae arweinydd yr wrthblaid ar y pwyllgor. Beth mae'n ei wneud arno os yw eisoes wedi gwneud ei feddwl i fyny cyn i'r holl dystiolaeth gael ei chasglu? Beth yw'r pwynt i bwyllgor gasglu tystiolaeth pan fydd rhywun yn troi i fyny cyn i'r pwyllgor ddod i ben hyd yn oed a dweud 'Dyma fy marn i ar y mater' a chyn i'r holl dystiolaeth gael ei chasglu? Nid wyf yn fodlon gwneud sylwadau ar unrhyw ymchwiliad a gynhaliwyd gan bwyllgor; rwy'n credu ei fod yn amharchus i'r pwyllgor ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i asesu'r holl dystiolaeth, fel y gall y pwyllgor lunio adroddiad. Rwy'n gresynu'r ffaith ei bod yn amlwg nad yw'n gwrando ar y dystiolaeth honno.

13:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, no comment.

Felly, dim sylw.

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Diolch, Lywydd. First Minister, today marks another sad day in the history of steel production in the UK. In addition to the loss of jobs in Scunthorpe and Lanarkshire, the steel firm Caparo has gone into partial administration, with job losses expected in Wrexham and Tredegar. Can you please make a statement on what action the Welsh Government is taking to defend the remaining steel jobs that are left in Wales?

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, mae heddiw'n ddiwrnod trist arall yn hanes cynhyrchu dur yn y DU. Yn ogystal â cholli swyddi yn Scunthorpe a Swydd Lanark, mae'r cwmni dur Caparo wedi mynd yn rhannol i ddwylo'r gweinyddwyr, a disgwylir y bydd swyddi'n cael eu colli yn Wrecsam a Thredegar. A allwch chi wneud datganiad os gwelwch yn dda ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i amddiffyn y swyddi dur sydd ar ôl yng Nghymru?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Minister will be making a statement on this. We work very closely with steel producers. We saw some good news in the south-east of Wales recently, and I know that the economy Minister attended a steel summit last week, at which the Scottish Government were not represented by a Minister.

Bydd y Gweinidog yn gwneud datganiad ar hyn. Rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda chynhyrchwyr dur. Gwelsom rywfaint o newyddion da yn y de-ddwyrain yn ddiweddar, a gwn fod Gweinidog yr economi yn bresennol mewn uwchgynhadledd dur yr wythnos diwethaf, lle na chynrychiolwyd Llywodraeth yr Alban gan Weinidog.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm not quite sure what that's got to do with the question that I asked you, First Minister. I'm sure that you'll be aware that global prices are causing particular vulnerabilities in the UK steel industry, but it's also true to say that we can take steps ourselves. We are yet to restore our country to past manufacturing glories. What steps has the Welsh Government taken to create manufacturing cycles within Wales, so that materials such as Welsh steel can feed the indigenous manufacturing sector and therefore be less susceptible to global shocks or trends?

Nid wyf yn hollol siŵr beth sydd a wnelo hynny â'r cwestiwn a ofynnais i chi, Brif Weinidog. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol bod prisiau byd-eang yn achosi gwendidau penodol yn y diwydiant dur yn y DU, ond mae hefyd yn wir i ddweud y gallwn gymryd camau ein hunain. Ni ydym ni wedi dychwelyd ein gwlad i ogoniannau gweithgynhyrchu'r gorffennol hyd yn hyn. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i greu cylchoedd gweithgynhyrchu yng Nghymru, fel y gall deunyddiau fel dur Cymru fwydo'r sector gweithgynhyrchu cynhenid ac felly bod yn llai agored i siociau neu dueddiadau byd-eang?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

That's a naive comment, I must say. The steel industry operates in a global environment. It's right to say that procurement can be helpful, but there's no point trying to pretend that, somehow, procurement in Wales can actually support the Welsh steel industry by itself; it can't. There are a number of issues that she identified which are true: global steel prices are not where we would want them to be; and energy prices in the UK are far too high, which is a point we've made many times both orally and in writing to the UK Government. We've had no response, and the Minister, as I said, attended the steel summit last week to represent Wales's interest.

Mae hwnna'n sylw naïf, mae'n rhaid i mi ddweud. Mae'r diwydiant dur yn gweithredu mewn amgylchedd byd-eang. Mae'n iawn i ddweud y gall caffael fod o gymorth, ond nid oes unrhyw bwynt ceisio esgus, rywsut, y gall caffael yng Nghymru gefnogi diwydiant dur Cymru ar ei ben ei hun; na all wneud hynny. Mae nifer o faterion a nodwyd ganddi sy'n wir: nid yw prisiau dur byd-eang lle y byddem ni'n hoffi iddyn nhw fod; ac mae prisiau ynni yn y DU yn llawer rhy uchel, sy'n bwynt yr ydym ni wedi ei wneud sawl gwaith ar lafar ac yn ysgrifenedig i Lywodraeth y DU. Nid ydym wedi cael unrhyw ymateb ac, fel y dywedais, roedd y Gweinidog yn bresennol yn yr uwchgynhadledd dur yr wythnos diwethaf i gynrychioli buddiannau Cymru.

13:41 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I don't accept that we can do nothing about this. There is much, much more that we can do to recreate a manufacturing centre for Wales in its own right. We've seen the continuous decline of our country as a manufacturing powerhouse. When this Assembly first convened in 1999, almost 12,000 people were employed in the iron and steel industry in this country, and fewer than 7,000 were by 2012. All remaining workers in the sector will be deeply concerned about the uncertainty within the industry now, and we're all aware, of course, of the dreadful treatment of the former Allied Steel and Wire workers who were stitched up over their pensions. What is the Welsh Government doing to ensure the fair treatment of workers within the steel industry in Wales and what contingency planning is being made for their wellbeing?

Brif Weinidog, nid wyf yn derbyn na allwn ni wneud dim am hyn. Mae llawer, llawer iawn mwy y gallwn ni ei wneud i ail-greu canolfan weithgynhyrchu i Gymru yn ei rhinwedd ei hun. Rydym ni wedi gweld dirywiad parhaus ein gwlad fel pwerdy gweithgynhyrchu. Pan alwyd y Cynulliad hwn gyntaf yn 1999, roedd bron i 12,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y diwydiant haearn a dur yn y wlad hon, ond roedd llai na 7,000 erbyn 2012. Bydd yr holl weithwyr sydd ar ôl yn y sector yn pryderu'n fawr am yr ansicrwydd yn y diwydiant nawr, ac rydym ni i gyd yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r driniaeth erchyll a gafodd cyn-weithwyr Allied Steel and Wire a gafodd eu twyllo o ran eu pensiynau. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu trin yn deg yn y diwydiant dur yng Nghymru a pha gynlluniau wrth gefn sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu lles?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The ASW workers were treated scandalously. It's an issue we've raised with the UK Governments of both parties, or three parties, over many, many years. It's a matter that, really, needs to be resolved at a UK level, but, sadly, it hasn't been done yet. In terms of the steel industry as a whole, we work very closely with Tata, not as the only employer, but as a major employer. We have looked to assist Tata, as they've invested hundreds of millions of pounds, for example, in Port Talbot to turn the plant around. It was losing money, there's no question about that. That investment has meant that the plant has a better future. It's still difficult—I'm not going to pretend it's not difficult—with the price of steel as it is. From our point of view, I don't accept that manufacturing is not important in Wales. It's true to say that the numbers employed in steel have declined, but we still have a large automotive sector, an aeronautic sector, we have a large life sciences sector and creative industries are growing at the rate of knots. That doesn't mean we forget, of course, about the steel industry, but we do work very closely with steel employers to make sure that we understand their problems, and we have raised issues with the UK Government, particularly about high energy prices.

Cafodd gweithwyr ASW eu trin yn warthus. Mae'n fater yr ydym ni wedi ei godi gyda Llywodraethau DU y ddwy blaid, neu dair plaid, dros lawer iawn o flynyddoedd. Mae'n fater y mae wir angen ei ddatrys ar lefel y DU, ond, yn anffodus, nid yw wedi ei wneud hyd yn hyn. O ran y diwydiant dur yn ei gyfanrwydd, rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda Tata, nid fel yr unig gyflogwr, ond fel cyflogwr pwysig. Rydym ni wedi ceisio cynorthwyo Tata, gan ei fod wedi buddsoddi cannoedd o filiynau o bunnoedd, er enghraifft, ym Mhort Talbot i wella pethau yn y ffatri. Roedd yn colli arian, nid oes amheuaeth am hynny. Mae'r buddsoddiad hwnnw wedi golygu bod gan y ffatri ddyfodol gwell. Mae'n dal yn anodd—nid wyf yn mynd i esgus nad yw'n anodd—gyda phris dur fel ag y mae. O'n safbwynt ni, nid wyf yn derbyn nad yw gweithgynhyrchu yn bwysig yng Nghymru. Mae'n wir dweud bod y niferoedd a gyflogir ym maes dur wedi gostwng, ond mae gennym ni sector moduron mawr, sector awyrennau, mae gennym ni sector gwyddorau bywyd mawr ac mae diwydiannau creadigol yn tyfu'n gyflym iawn. Nid yw hynny'n golygu ein bod ni'n anghofio, wrth gwrs, am y diwydiant dur, ond rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr dur i wneud yn siŵr ein bod yn deall eu problemau, ac rydym ni wedi codi materion gyda Llywodraeth y DU, yn enwedig ynghylch prisiau ynni uchel.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

And now the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

A nawr, arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, yesterday saw the publication of another report that makes sombre reading for the Welsh economy. This time, it was about digital skills. According to Go On UK, over a third of Welsh people don't possess the basic five digital skills that they need to participate fully in the digital world. Why do you think that is?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddwyd adroddiad arall ddoe sy'n dangos darlun prudd o economi Cymru. Roedd yn ymwneud â sgiliau digidol y tro hwn. Yn ôl Go On UK, mae dros draean o bobl Cymru nad ydynt yn meddu ar y pum sgìl digidol sylfaenol sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan lawn yn y byd digidol. Pam ydych chi'n credu bod hynny'n wir?

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, other surveys show a different picture. The survey that you are referring to, we understand, surveyed 4,000 people and they've not been able to tell us how many people were surveyed in Wales. So, forgive my scepticism on that.

Wel, yn gyntaf oll, mae arolygon eraill yn dangos darlun gwahanol. Arolygwyd 4,000 o bobl yn yr arolwg yr ydych chi'n cyfeirio ato, rydym ni'n deall, ac nid ydynt wedi gallu dweud wrthym faint o bobl a arolygwyd yng Nghymru. Felly, maddewch fy amheuon am hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The report goes on to say that whilst Ofcom have said that Wales, indeed, has greater access to superfast broadband speeds than anywhere else in the UK, some 40 per cent of adults in some parts of Wales have never been online. So, we're investing in infrastructure, but people are not choosing to use that infrastructure. Now, being excluded from the internet has a whole host of disadvantages for individuals, from missing out on the cheapest energy tariffs or insurance deals to being hampered in accessing a range of Government services that are increasingly delivered online. Even if you don't believe the contents of this report, what steps is your Government taking to ensure that nobody in Wales has to suffer from the disadvantages of digital exclusion?

Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud, er bod Ofcom wedi dweud bod gan Gymru, yn wir, fwy o fynediad at fand eang cyflym iawn nag unman arall yn y DU, mae tua 40 y cant o oedolion mewn rhai rhannau o Gymru nad ydynt erioed wedi bod ar-lein. Felly, rydym ni'n buddsoddi mewn seilwaith, ond nid yw pobl yn dewis defnyddio'r seilwaith hwnnw. Nawr, mae cael eich allgau o'r rhyngrwyd yn arwain at lu o anfanteision i unigolion, o golli allan ar y tariffau ynni neu'r cytundebau yswiriant rhataf i gael eich rhwystro o ran cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau'r Llywodraeth sy'n cael eu darparu fwyfwy ar-lein. Hyd yn oed os nad ydych chi'n credu cynnwys yr adroddiad hwn, pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad oes unrhyw un yng Nghymru yn dioddef o anfanteision allgau digidol?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, regarding the report itself, when we see the methodology and the numbers involved, then, of course, we'll be able to offer a view; that's not been reviewed through us.

Yn gyntaf oll, o ran yr adroddiad ei hun, pan welwn ni'r fethodoleg a'r niferoedd dan sylw, yna, wrth gwrs, byddwn yn gallu cynnig barn; nid yw hynny wedi cael ei adolygu drwom ni.

More broadly, there is a major difference in terms of age when it comes to accessing the internet. Some 99 per cent of young people access the internet; it drops to below half for those over 65. So, we know that, as young people get IT education in schools, they're more comfortable with using IT, they have access to the internet in a way that wouldn't be possible without the intervention that we have made as a Government. Therefore, the emphasis has to be on older people. Sometimes that's done via organisations like U3A, who do a very good job of informing people how the internet works, and through adult community education, where there are courses where that can also be taken forward. So, aiming at that age group via those two examples there will be important, but amongst young people, we know that internet usage is much higher.

Yn fwy cyffredinol, mae gwahaniaeth mawr o ran oedran pan ddaw i ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae tua 99 y cant o bobl ifanc yn defnyddio'r rhyngrwyd; mae'n gostwng i lai na hanner y rhai sydd dros 65 oed. Felly, rydym ni'n gwybod, wrth i bobl ifanc gael addysg TG mewn ysgolion, eu bod yn fwy cyfforddus wrth ddefnyddio TG, mae ganddyn nhw fynediad at y rhyngrwyd mewn ffordd na fyddai'n bosibl heb yr ymyrraeth yr ydym ni wedi ei gwneud fel Llywodraeth. Felly, mae'n rhaid i'r pwyslais fod ar bobl hŷn. Gwneir hynny weithiau trwy sefydliadau fel U3A, sy'n gwneud gwaith da iawn o hysbysu pobl sut mae'r rhyngrwyd yn gweithio, a thrwy addysg i oedolion yn y gymuned, lle ceir cyrsiau y gellir bwrw ymlaen â hynny hefyd. Felly, bydd targedu'r grŵp oedran hwnnw trwy gyfrwng y ddwy enghraifft hynny'n bwysig, ond ymhlith pobl ifanc, rydym ni'n gwybod bod y defnydd o'r rhyngrwyd yn llawer uwch.

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Indeed, First Minister, as the parent of teenage children, it's sometimes very difficult to get them off the internet when you would like them to concentrate on something else. But, Minister, as you will be aware, many working people in Wales find themselves in jobs that are low paid, and not as skilled as they would like them to be. What steps are you particularly taking to equip those already in the workplace with good digital skills to ensure that they can progress their careers and look to move on to better paid jobs, which is good news for them, and good news for the Welsh economy?

Yn wir, Brif Weinidog, fel rhiant i blant yn eu harddegau, mae weithiau'n anodd iawn eu cael nhw oddi ar y rhyngrwyd pan y byddech chi'n hoffi iddyn nhw ganolbwyntio ar rywbeth arall. Ond, Weinidog, fel y gwyddoch, mae llawer o bobl sy'n gweithio yng Nghymru yn canfod eu hunain mewn swyddi â chyflogau isel, a heb fod mor fedrus ag yr hoffent iddynt fod. Pa gamau ydych chi'n eu cymryd yn benodol i ddarparu sgiliau digidol da i'r rheini sydd eisoes yn y gweithle er mwyn sicrhau y gallant symud ymlaen yn eu gyrfaoedd a cheisio symud ymlaen i swyddi sy'n talu'n well, sy'n newyddion da iddyn nhw, ac yn newyddion da i economi Cymru?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

She will be aware, of course, of the schemes that we have in place with the European funding—schemes that were criticised by the Conservatives last week—to help people to improve their skills. We know that, when it comes to younger people, they tend to have those digital skills. As I say, they learn those skills at school, and they were brought up with machines that they are familiar with. It tends to be older people who lack the skills, not because they need the skills necessarily for work, but for the other reasons that she's outlined—being able to access better tariffs when it comes to energy, being able to access digital services at a time when we know that there have been pressures on services that have been delivered traditionally, particularly over the years by the post office. That's the area, I think, where we need to see an improvement in people's digital skills. But of course, in order for people to be able to utilise those skills, they need to have the structure in place. Superfast Cymru is putting that structure in place and, once it's there, I've no doubt that people will be able to see that they have something there that they can use, and will want to know more about it.

Bydd hi'n ymwybodol, wrth gwrs, o'r cynlluniau sydd gennym ar waith gyda'r cyllid Ewropeaidd—cynlluniau a feirniadwyd gan y Ceidwadwyr yr wythnos diwethaf—i helpu pobl i wella eu sgiliau. Rydym ni'n gwybod, pan ddaw i bobl iau, eu bod yn tueddu i fod â'r sgiliau digidol hynny. Fel y dywedais, maen nhw'n dysgu'r sgiliau hynny yn yr ysgol, a chawsant eu magu gyda pheiriannau y maent yn gyfarwydd â nhw. Pobl hŷn sy'n dueddol o fod heb y sgiliau, nid oherwydd eu bod angen y sgiliau ar gyfer gwaith o reidrwydd, ond am y rhesymau eraill y mae wedi eu hamlinellu—gallu cael mynediad at well tariffau pan ddaw i ynni, y gallu i gael mynediad at wasanaethau digidol ar adeg pan ein bod ni'n gwybod y bu pwysau ar wasanaethau a ddarparwyd yn draddodiadol, dros y blynyddoedd gan swyddfa'r post yn enwedig. Dyna'r maes, rwy'n credu, lle mae angen i ni weld gwelliant i sgiliau digidol pobl. Ond wrth gwrs, er mwyn i bobl allu defnyddio'r sgiliau hynny, mae angen iddyn nhw fod â'r strwythur ar waith. Mae Cyflymu Cymru yn rhoi'r strwythur hwnnw ar waith a, phan fydd yno, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd pobl yn gallu gweld bod ganddynt rywbeth yno y gallant ei ddefnyddio, ac y byddant eisiau gwybod mwy amdano.

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper, and question 3 is Gwenda Thomas.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur nawr, a daw cwestiwn 3 gan Gwenda Thomas.

### Cydlynydd Gwrthgaethwasiaeth

### The Anti-slavery Co-ordinator

13:46 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar rôl cydlynydd gwrthgaethwasiaeth Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2512(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on the role of the Welsh Government's anti-slavery coordinator? OAQ(4)2512(FM)*

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Thank you. The co-ordinator works closely with a range of organisations to raise awareness of slavery, to increase referrals and, importantly, to provide support for survivors. As a result of our work in Wales, we have seen an increase in both the number of survivors identified and cases being investigated.

Diolch. Mae'r cydgysylltydd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau i godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth, er mwyn cynyddu atgyfeiriadau ac, yn bwysig, er mwyn darparu cymorth i oroeswyr. O ganlyniad i'n gwaith yng Nghymru, rydym ni wedi gweld cynnydd yn nifer y goroeswyr a nodwyd a'r achosion sy'n cael eu hymchwilio.

13:47

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Sunday marked the fifth British Anti-Slavery Day. When the day was created by Act of Parliament in 2010, the number of victims in Wales was thought to be around 15. In 2014, there were 70 identified victims of slavery in our country, and I emphasise 'identified'. By its very nature, this is a crime that is underreported. The Welsh Government is committed to stamping out this evil trade—I've no doubt of that. I take it as a very good sign, First Minister, that police officers from around the whole of the UK are now coming to Wales to be trained on how to deal with the problem, and yet the increase in cases demonstrates the scale of the challenge to us. Will our anti-slavery co-ordinator, Steve Chapman, be working with police forces to help them share their expertise and provide training to other public and private sector bodies in Wales?

Dydd Sul oedd pumed Diwrnod Gwrth-Gaethwasiaeth Prydain. Pan grëwyd y diwrnod gan Ddeddf Seneddol yn 2010, tybiwyd mai tua 15 oedd nifer y dioddefwyr yng Nghymru. Yn 2014, roedd 70 o ddioddefwyr o gaethwasiaeth a nodwyd yn ein gwlad, ac rwy'n pwysleisio 'a nodwyd'. Yn ôl ei natur, mae hon yn drosedd nad yw'n cael ei hadrodd yn ddigonol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i roi terfyn ar y fasnach anfad hon—nid oes gennyf unrhyw amheuaeth am hynny. Rwy'n ei gymryd fel arwydd da iawn, Brif Weinidog, bod heddweision o bob cwr o'r DU gyfan yn dod i Gymru bellach i gael eu hyfforddi ar sut i ymdrin â'r broblem, ac eto mae'r cynnydd yn yr achosion yn dangos maint yr her i ni. A fydd ein cydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth, Steve Chapman, yn gweithio gyda heddluoedd i'w helpu i rannu eu harbenigedd ac yn darparu hyfforddiant i gyrff sector cyhoeddus a sector preifat eraill yng Nghymru?

13:48

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I was at an event on Saturday morning in my constituency, organised by the local soroptimists, on this very issue. I listened to Steve give a presentation as well as a police officer, and they were very powerful presentations. One of the issues that is sometimes difficult to resolve is that many of the victims exhibit what they describe as Stockholm syndrome; in other words, they don't see themselves as victims. They see what they've gone through as a normal part of life, even though those outside would see levels of exploitation that amount to slavery, and working with the victims in order for them to be able to, ultimately, give evidence to prosecute their exploiters is exceptionally important.

Bydd, roeddwn i mewn digwyddiad fore Sadwrn yn fy etholaeth i, a drefnwyd gan y soroptimyddion lleol, ar yr union fater hwn. Gwrandewais ar Steve yn gwneud cyflwyniad yn ogystal â swyddog heddlu, ac roedden nhw'n gyflwyniadau grymus iawn. Un o'r problemau sydd weithiau'n anodd ei datrys yw bod llawer o'r dioddefwyr yn dangos yr hyn a ddisgrifir fel syndrom Stockholm; mewn geiriau eraill, nid ydyn nhw'n gweld eu hunain fel dioddefwyr. Maen nhw'n ystyried yr hyn y maen nhw wedi bod drwyddo yn rhan arferol o fywyd, er y byddai'r rhai y tu allan yn gweld lefelau o gam-fanteisio sy'n cyfateb i gaethwasiaeth, ac mae gweithio gyda'r dioddefwyr er mwyn iddynt allu, yn y pen draw, rhoi tystiolaeth i erlyn y rhai a gam-fanteisiodd arnynt yn eithriadol o bwysig.

The other issue, of course, that we have emphasised is giving people the training to identify slavery. The point I made on Saturday morning at the event was that people's idea of slavery tends to be something that happened and, with the end of the United States civil war, it disappeared. Slavery is not seen as something that necessarily exists as people of think of it in the modern era, even though it does. So, in the first six months of this year, over 2,000 people in Wales received anti-slavery awareness training, delivered to a consistent standard, and we have worked with other partners, including police senior investigating officers and Crown prosecutors, in order to overcome some of the difficulties that exist despite the new law being introduced in 2010 in terms of taking a case to a successful prosecution.

Y mater arall, wrth gwrs, yr ydym ni wedi ei bwysleisio yw rhoi'r hyfforddiant i bobl nodi caethwasiaeth. Y pwynt a wneuthum fore Sadwrn yn y digwyddiad oedd bod syniad pobl o gaethwasiaeth yn tueddu i fod yn rhywbeth a ddigwyddodd ac, ar ddiwedd rhyfel cartref yr Unol Daleithiau, a ddiflannodd. Nid yw caethwasiaeth yn cael ei ystyried fel rhywbeth sy'n bodoli o reidrwydd fel y mae pobl yn meddwl amdano yn yr oes fodern, er ei fod yn bodoli. Felly, yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn hon, derbyniodd dros 2,000 o bobl yng Nghymru hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-gaethwasiaeth, a ddarparwyd i safon gyson, ac rydym ni wedi gweithio gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys uwch swyddogion ymchwilio'r heddlu ac erlynwyr y Goron, er mwyn goresgyn rhai o'r anawsterau sy'n bodoli er gwaethaf cyflwyno'r gyfraith newydd yn 2010 o ran mynd ag achos ymlaen i erlyniad llwyddiannus.

13:49

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, one of the roles of the anti-slavery co-ordinator is to raise awareness of modern slavery in Wales. Recognising the behavioural signs that someone may be a victim is absolutely vital in this field. What guidance has the Welsh Government issued to local authorities and health boards outlining the signs to look out for that show someone could be a victim of slavery in Wales?

Brif Weinidog, un o swyddogaethau'r cydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth yw codi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru. Mae adnabod yr arwyddion ymddygiadol sy'n dangos y gallai rhywun fod yn ddioddefwr yn gwbl hanfodol yn y maes hwn. Pa ganllawiau mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn amlinellu'r arwyddion i chwilio amdanynt sy'n dangos y gallai rhywun fod yn ddioddefwr caethwasiaeth yng Nghymru?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

As I mentioned earlier on in the answer I gave to the Member for Neath, we have delivered anti-slavery training to over 2,000 people in Wales. In addition to that, we have the Wales anti-slavery leadership group, which is providing oversight and direction in order for us to take forward our delivery plan for 2015-16.

Fel y soniais yn gynharach yn yr ateb a roddais i'r Aelod dros Gastell-nedd, rydym ni wedi darparu hyfforddiant gwrth-gaethwasiaeth i dros 2,000 o bobl yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, mae gennym ni grŵp arweinyddiaeth gwrth-gaethwasiaeth Cymru, sy'n darparu trosolwg a chyfeiriad er mwyn i ni fwrw ymlaen â'n cynllun cyflawni ar gyfer 2015-16.

13:50 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, is an update on the anti-slavery co-ordinator's role in relation to the ongoing refugee crisis in terms of Wales's preparedness—? I know that the Minister for Communities and Tackling Poverty is liaising with the UK Government to ensure unaccompanied asylum-seeking children receive support here in Wales. Is this something that the anti-slavery co-ordinator will be taking on board, because we all know that unaccompanied minors are probably the most vulnerable group subject to falling prey to slavery?

Brif Weinidog, a oes diweddariad ar swyddogaeth y cydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth ynglŷn â'r argyfwng ffoaduriaid parhaus o ran parodrwydd Cymru—? Gwn fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn trafod â Llywodraeth y DU i sicrhau bod plant sydd ar eu pennau eu hunain yn ceisio lloches yn derbyn cymorth yma yng Nghymru. A yw hyn yn rhywbeth y bydd y cydgysylltydd gwrth-gaethwasiaeth yn ei ystyried, gan ein bod i gyd yn gwybod ei bod yn debygol mai plant sydd ar eu pennau eu hunain yw'r grŵp mwyaf agored i niwed o ran dioddef o gaethwasiaeth?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. What I can say is that the numbers of identified survivors being referred to the National Crime Agency human-trafficking centre has increased from 34 in 2012 to 71 in 2014. That's the tip of the iceberg, I suspect. Unaccompanied minors are at particular risk, and we'd expect them, of course, to be identified at an early stage as they reach the UK. As with so many crimes, the incidence of a crime is only apparent dependent on the incidence of its reporting, not on the incidence of it actually occurring, so identifying more of these crimes, seeing them prosecuted, is important in order to identify those people who are victims, because I'm in no doubt there are still people out there who are victims who've not yet, unfortunately, been identified.

Ydy, yn sicr. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod nifer y goroeswyr a nodwyd sy'n cael eu hatgyfeirio at ganolfan masnachu dynol yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol wedi cynyddu o 34 yn 2012 i 71 yn 2014. Dim ond crafu'r wyneb y mae hynny, rwy'n amau. Mae plant ar eu pennau eu hunain mewn perygl arbennig, a byddem yn disgwyl, wrth gwrs, iddyn nhw gael eu nodi'n gynnar wrth iddynt gyrraedd y DU. Fel gyda chymaint o droseddau, daw nifer yr achosion o drosedd yn amlwg dim ond yn ddibynnol ar nifer yr achosion yr hysbysir amdanynt, nid ar nifer yr achosion o hynny'n digwydd mewn gwirionedd, felly mae nodi mwy o'r troseddau hyn, eu gweld yn cael eu herlyn, yn bwysig er mwyn nodi'r bobl hynny sy'n ddioddefwyr, oherwydd nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod pobl allan yna sy'n ddioddefwyr nad ydynt wedi cael eu nodi hyd yn hyn, yn anffodus.

## Y Fasnachfraint Etholiadol

## The Electoral Franchise

13:52 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch ymestyn y fasnachfraint etholiadol i bobl 16 ac 17 oed cyn etholiad y Cynulliad flwyddyn nesaf? OAQ(4)02518(FM)*

*4. What discussions has the First Minister had regarding extending the electoral franchise to 16 and 17-year-olds ahead of the Assembly election next year? OAQ(4)02518(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It became clear that there was no prospect of this being done by the UK Government, within whose remit this is at the moment, because we don't have the power to legislate at this moment in time, although, of course, that will change in the future.

Daeth yn amlwg nad oedd unrhyw obaith i hyn gael ei wneud gan Lywodraeth y DU, y mae hyn yn rhan o'i chylch gwaith ar hyn o bryd, oherwydd nid yw'r pŵer gennym i ddeddfu ar hyn o bryd, er, wrth gwrs, y bydd hynny'n newid yn y dyfodol.

13:52

## Julie Morgan [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Now that a cross-party amendment is going to be moved in the House of Lords as an amendment to the European Union Referendum Bill that will enable 16 and 17-year-olds to vote in the EU referendum, if it is successful—but, obviously, it is cross party, so there's some chance—and, of course, 16 and 17-year-olds voted in the Scottish referendum, can the First Minister think of any way that we could extend the franchise before next year's Assembly election? Because it would add so much to those elections if we had 16 and 17-year-olds voting.

Gan fod gwelliant trawsbleidiol yn mynd i gael ei gynnig yn Nhŷ'r Arglwyddi fel gwelliant i Fil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd a fydd yn galluogi pobl ifanc 16 a 17 oed i bleidleisio yn refferendwm yr UE, os bydd yn llwyddiannus—ond, yn amlwg, mae'n drawsbleidiol, felly mae rhywfaint o siawns—ac, wrth gwrs, pleidleisiodd pobl ifanc 16 a 17 oed yn refferendwm yr Alban, a all y Prif Weinidog feddwl am unrhyw ffordd y gallem ni ymestyn yr etholfraint cyn etholiad y Cynulliad y flwyddyn nesaf? Oherwydd byddai hynny'n ychwanegu cymaint at yr etholiadau hynny pe byddai gennym ni bobl ifanc 16 ac 17 oed yn pleidleisio.

13:53

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

It's not in our hands, unfortunately, but I do agree with the Member, as she knows. I think voting should now be extended to those who are 16 and over. It happened in Scotland in the referendum; you can't argue then that it shouldn't happen elsewhere in the UK in relation to other votes. I would like to see 16 and 17-year-olds being able to vote in the Assembly election in May. At the next Assembly election in 2021, when, hopefully, these will be powers that the Assembly itself possesses, we will finally be able to do that.

Nid yw yn ein dwylo ni, yn anffodus, ond rwy'n cytuno â'r Aelod, fel y mae hi'n ymwybodol. Rwy'n credu y dylai pleidleisio gael ei ymestyn i'r rhai sy'n 16 oed a hŷn bellach. Digwyddodd yn yr Alban yn y refferendwm; ni allwch ddadlau wedyn na ddylai ddigwydd mewn rhannau eraill o'r DU o ran pleidleisiau eraill. Hoffwn weld pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael pleidleisio yn etholiad y Cynulliad ym mis Mai. Yn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021, pryd, gobeithio, y bydd y rhain yn bwerau y bydd gan y Cynulliad ei hun, byddwn yn gallu gwneud hynny o'r diwedd.

13:53

## Paul Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Fel rwyf yn siŵr eich bod chi'n ymwybodol, Brif Weinidog, yn bersonol rwyf o blaid gostwng yr oedran pleidleisio i 16. Rwy'n gwybod bod y Llywydd wedi bod yn gwneud gwaith da dros yr haf yn y maes hwn, ond pa waith a ydych chi, fel Llywodraeth, wedi ei wneud yn benodol, o ystyried eich ymrwymiad i ostwng yr oedran pleidleisio?

As I'm sure you're aware, First Minister, personally I am in favour of reducing the voting age to 16. I know that the Presiding Officer has been doing good work over the summer months in this area, but what work have you as a Government done, specifically given your commitment to reducing the voting age?

13:53

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Wrth gwrs, rŷm ni'n siarad â ac yn gwrando ar bobl ifanc, ond mae hwn yn rhywbeth, byddwn i'n dweud, i'r Comisiwn ac i'r Llywydd. Nid ydym ni fel Llywodraeth yn ei weld e fel rhyw fath o rôl i ni sicrhau bod mwy o bobl 18 oed ac yn henach yn pleidleisio—dylai hynny fod yn rhywbeth sy'n ddi-blaid, trwy'r Llywydd ei hun—ond, yn fy marn i, mae'n drueni bod rheini sy'n 16 ac yn henach yn mynd i ffaelu â chael cyfle i bleidleisio ym mis Mai.

Of course, we are talking and listening to young people, but this is something, I would say, for the Commission and the Presiding Officer. As a Government, we don't see it as a role for us to ensure that more people of 18 and above are voting—that needs to be non-partisan, through the Presiding Officer herself—but, in my opinion, it is a pity that those aged 16 and over can't have an opportunity to vote in May.

13:54

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

First Minister, it is heartening to see that a recent Assembly consultation shows that over half of young people who were asked, between the ages of 11 and 25, wanted to have votes for 16 and 17-year-olds, and I know that there are young people in the public gallery today who also support that call, thinking that it's important for them to be able to take part in our democracy, as was evident in the event in Swansea that I and other Assembly Members took part in last week. I am led to understand, however, that, in discussions with the Secretary of State, you had agreed that it would not be possible to put this forward for the Assembly elections next year. Despite going on record as saying that it would be ambitious to be able to do so, can you give us some more reasoning as to why it would not be possible, and how much you are pushing the UK Government to make this a realisation for Wales?

Brif Weinidog , mae'n galonogol gweld bod ymgynghoriad Cynulliad diweddar yn dangos bod dros hanner y bobl ifanc a holwyd, rhwng 11 a 25 oed, eisiau cael pleidleisiau i bobl ifanc 16 a 17 oed, a gwn fod pobl ifanc yn yr oriel gyhoeddus heddiw, sydd hefyd yn cefnogi'r galwad hwnnw, gan feddwl ei bod yn bwysig iddyn nhw allu cymryd rhan yn ein democratiaeth, fel oedd yn amlwg yn y digwyddiad yn Abertawe y cymerais i ac Aelodau Cynulliad eraill ran ynddo yr wythnos diwethaf. Rwyf ar ddeall, fodd bynnag, eich bod, mewn trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, wedi cytuno na fyddai'n bosibl cyflwyno hyn ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Er i chi fynd ar goedd yn dweud y byddai'n uchelgeisiol gallu gwneud hynny, a allwch chi roi rhagor o resymau i ni pam na fyddai'n bosibl, a faint ydych chi'n gwthio Llywodraeth y DU i wireddu hyn i Gymru?

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The UK Government are not in favour of extending the franchise to 16 and 17-year-olds for this Assembly election. That is the problem. We don't have this power devolved as yet. It's a shame; I wish that was the case. I think there is another issue that we have to consider as well, in that we tend to regard 18 as the age of adulthood. If we're saying that 16-year-olds should be able to vote, then we have to consider what impact that might have in terms of the age we perceive adulthood as starting at, but that needn't be a barrier to 16-year-olds voting.

Nid yw Llywodraeth y DU o blaid ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed ar gyfer yr etholiad Cynulliad hwn. Dyna'r broblem. Nid yw'r pŵer hwn wedi ei ddatganoli i ni hyd yma. Mae'n drueni; hoffwn i hynny fod yn wir. Rwy'n meddwl bod mater arall y mae'n rhaid i ni ei ystyried hefyd, o'r safbwynt ein bod yn tueddu i ystyried 18 fel yr oedran ar gyfer bod yn oedolyn. Os ydym ni'n dweud y dylai pobl ifanc 16 oed gael pleidleisio, yna mae'n rhaid i ni ystyried pa effaith y gallai hynny ei chael o ran yr oedran yr ydym ni'n credu bod rhywun yn dechrau bod yn oedolyn, ond nid oes yn rhaid i hynny rwystro pobl ifanc 16 oed rhag pleidleisio.

## Pobl sydd mewn Dyled

## People in Debt

13:55 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa gymorth a chyngor y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig i bobl sydd mewn dyled? OAQ(4)2510(FM)*

*5. What Welsh Government support and advice is available for people in debt? OAQ(4)2510(FM)*

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Almost £2.2 million is committed in the current financial year to support front-line advice services for the Better Advice, Better Lives project.

Mae bron i £2.2 miliwn wedi ei ymrwymo yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen ar gyfer y prosiect Cyngor Da, Iechyd Da.

13:56 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Money Advice Trust, which runs the National Debtline has found that almost 73,000 debts were passed to bailiffs by local authorities in Wales in 2014-15. Although we know that instructing bailiffs can deepen debt problems for people in arrears, and that councils that use bailiffs the most to collect council tax are actually less successful on average in collecting arrears from previous taxes, eight out of the 19 local authorities in Wales for which comparison was possible increased bailiff use between 2012 and 2014-15. What action can, or will, the Welsh Government take to have a dialogue with local authorities in Wales to ensure that they share good practice in the interests of people who are in debt, to support, rather than penalise, to the mutual benefit of councils and individuals?

Mae'r Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol, sy'n rhedeg y Llinell Ddyled Genedlaethol wedi canfod y trosglwyddwyd bron i 73,000 o ddyledion i feilïaid gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2014-15. Er ein bod yn gwybod bod cyfarwyddo beilïaid yn gallu gwaethygu problemau dyled i bobl ag ôl-ddyledion, a bod cynghorau sy'n defnyddio beilïaid fwyaf i gasglu'r dreth gyngor mewn gwirionedd yn llai llwyddiannus ar gyfartaledd o ran casglu ôl-ddyledion o drethi blaenorol, cynyddodd wyth o'r 19 awdurdod lleol yng Nghymru yr oedd eu cymharu'n bosibl, y defnydd o feilïaid rhwng 2012 a 2014-15. Pa gamau y gall, neu y bydd, Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau eu bod yn rhannu arfer da er budd pobl sydd mewn dyled, i gefnogi, yn hytrach na chosbi, er budd cynghorau ac unigolion?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, many of the problems that people face, and will face from April onwards, are really the responsibility of his party. We know what's going to happen with tax credits—we know what will happen in December and we know what will happen in April. It's causing chaos and consternation within the Conservative Party at Westminster. The point he makes is that—[Interruption.] Apparently it's not, apparently it's all unity in Westminster; there we are. The point he makes is: should councils take a sympathetic approach to people who cannot pay? I agree with that. I think bailiffs should be very much the last resort as far as recouping money, and I would expect all local authorities to be able to work with people to help them to repay, only seeing court orders and, therefore, the use of bailiffs, as a very last resort.

Wel, cyfrifoldeb ei blaid ef yw llawer o'r problemau y mae pobl yn eu hwynebu, ac y byddant yn eu hwynebu o fis Ebrill ymlaen, mewn gwirionedd. Rydym ni'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd gyda chredydau treth—rydym ni'n gwybod beth fydd yn digwydd ym mis Rhagfyr ac rydym ni'n gwybod beth fydd yn digwydd ym mis Ebrill. Mae'n achosi anhrefn a phryder yn y Blaid Geidwadol yn San Steffan. Y pwynt y mae'n ei wneud yw—[Torri ar draws.] Mae'n debyg nad yw, mae'n debyg bod undod llwyr yn San Steffan; dyna ni. Y pwynt y mae'n ei wneud yw: a ddylai cynghorau fabwysiadu agwedd o gydymdeimlad tuag at bobl na allant dalu? Rwy'n cytuno â hynny. Rwy'n credu'n bendant y dylai beilïaid fod y dewis olaf o ran adennill arian, a byddwn yn disgwyl i bob awdurdod lleol allu gweithio gyda phobl i'w helpu i ad-dalu, gan ystyried gorchmynion llys ac, felly, y defnydd o feilïaid, dim ond fel y dewis olaf un.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Un o'r ffyrdd gorau i helpu pobl mewn dyled ydy eu harwain i ddefnyddio undebau credyd, wrth gwrs. Yn America, mi gewch chi gyfran uchel iawn o bobl yn prynu ceir drwy ddefnyddio undebau credyd. Ond araf iawn yw'r twf yn aelodaeth undebau credyd yng Nghymru. Oni ddylid cydlynu gwaith undebau credyd Cymru a chael ymgyrch genedlaethol i gynyddu'r aelodaeth yn sylweddol?

One of the best ways of helping people in debt is to lead them to use credit unions, of course. In America, you have a high proportion of people buying cars by using credit unions. But the growth of membership of credit unions in Wales is very slow. Shouldn't the work of credit unions be co-ordinated, with a national campaign to increase the membership substantially?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hwn yn rhywbeth rŷm ni'n mynd i'w ystyried. Mae'n wir i ddweud nad yw aelodaeth undebau credyd mor uchel ag y mae mewn rhai rhannau eraill o'r byd. Rhaid inni gofio, wrth gwrs, nad yw hanes undebau credyd yng Nghymru mor hen ag ydyw yng Nghanada, er enghraifft, lle y dechreuon nhw, neu hefyd yn Iwerddon, lle maen nhw llawer yn fwy—mae pobl yn prynu tai, os rwy'n deall yn iawn, drwy'r undebau credyd. Rŷm ni'n moyn, wrth gwrs, helpu pobl i fod yn aelodau o undebau credyd, yn enwedig lle mae yna ddewis rhwng yr undeb gredyd neu fenthyg arian gan rywun sy'n mynd i godi gormod o arian nôl ganddynt. Felly, mae hwn yn rhywbeth rŷm ni wastad yn ei ystyried, ynglŷn ag ym mha ffordd y gallwn ni sicrhau bod mwy o bobl yn aelodau o undebau credyd.

That is something that we would consider. It's true to say that credit union membership isn't as high here as it is in some other parts of the world. We must bear in mind that the history of credit unions in Wales doesn't go back as far as in Canada, for example, where they started, or in Ireland, where they are far larger—people buy homes through the credit unions there. We do want to assist people to become members of the credit unions, particularly where there is an option to choose between the credit unions or borrowing from a lender who will charge excessive interest. Therefore, that is something that we are constantly considering, as to how we can ensure that more people do become members of credit unions.

Senedd.tv Fideo Video

## Gwasanaethau'r Galon

## Cardiac Services

13:58 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at wasanaethau'r galon ar gyfer pobl ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)02516(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on access to cardiac services for the people of Brecon and Radnorshire? OAQ(4)02516(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. At the end of August, there were no residents from Powys waiting over 36 weeks for cardiac surgery, and there were two people waiting over 36 weeks for a cardiology appointment.

Gwnaf. Ddiwedd mis Awst, nid oedd unrhyw drigolion o Bowys yn aros dros 36 wythnos am lawdriniaeth ar y galon, ac roedd dau o bobl yn aros dros 36 wythnos am apwyntiad cardioleg.

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. In recent years, through the dedication and determination of clinicians, there have been big improvements to access to stenting for people suffering from a STEMI type of heart attack. However, many of my constituents who suffer a non-STEMI heart attack find that they are delayed in having access to stenting. Recent clinical guidance says that, even for non-STEMI heart attacks, people should be stented within 24 hours. For many people who are admitted to Prince Charles or Nevill Hall hospitals, they can wait up to 10 days before they have that operation. What's the Welsh Government doing to improve hospital transfers for these patients, so that they can make it to centres where stenting is carried out? Would the First Minister look favourably at a proposal to add a second catheterisation lab at the Royal Gwent Hospital that could greatly assist access to stenting for non-STEMI heart attack patients from Brecon and Radnorshire?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yn y blynyddoedd diwethaf, trwy ymroddiad a phenderfyniad clinigwyr, bu gwelliannau mawr i fynediad at stentau i bobl sy'n dioddef trawiad ar y galon o fath STEMI. Fodd bynnag, mae llawer o'm hetholwyr sy'n dioddef trawiad ar y galon nad yw o fath STEMI yn canfod eu bod yn cael eu hoedi cyn cael mynediad at driniaeth stentio. Dywed canllawiau clinigol diweddar y dylai pobl gael triniaeth stentio o fewn 24 awr, hyd yn oed ar gyfer trawiadau ar y galon nad ydynt o fath STEMI. I lawer o bobl sy'n cael eu derbyn i ysbytai Tywysog Siarl neu Nevill Hall, gallant fod yn aros hyd at 10 diwrnod cyn iddynt gael y llawdriniaeth honno. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella trosglwyddiadau ysbyty i'r cleifion hyn, fel y gallant gyrraedd canolfannau lle y darperir triniaeth stentio? A fyddai'r Prif Weinidog yn edrych yn ffafriol ar gynnig i ychwanegu ail labordy cathetr yn Ysbyty Brenhinol Gwent a allai gynorthwyo mynediad at stentau ar gyfer cleifion trawiad ar y galon nad yw o fath STEMI o Aberhonddu a Sir Faesyfed yn fawr?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That's a matter, of course, for the local health board to consider. I know there were some delays last week in Nevill Hall Hospital due to some capacity pressures at the University Hospital of Wales. They had all been resolved by the weekend. I know as well that a referral pathway from, for example, Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board to Cardiff and Vale University Local Health Board to deal with recurrent demand during 2015-16 is in place while capacity is increased at Morriston. But we know, of course, that that capacity is increasing at Morriston and that is due to finish by June of next year. Given the fact, of course, that cardiac procedures are carried out on a regional basis, that should help in terms of being able to release more resources for stenting to be done as quickly as possible. I'm not aware of the situation at Prince Charles, but I'd be grateful for any information you could provide.

Mater i'r bwrdd iechyd lleol ei ystyried yw hwnnw, wrth gwrs. Gwn y bu rhai oediadau yr wythnos diwethaf yn Ysbyty Nevill Hall yn sgil peth pwysau ar y capasiti yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Roeddent i gyd wedi eu datrys erbyn y penwythnos. Gwn hefyd bod llwybr atgyfeirio o, er enghraifft, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro i ymdrin â galw ailadroddus yn ystod 2015-16 ar waith tra bod capasiti'n cael ei gynyddu yn Nhreforys. Ond gwyddom, wrth gwrs, fod y capasiti hwnnw'n cynyddu yn Nhreforys a disgwylir i hynny ddod i ben erbyn mis Mehefin y flwyddyn nesaf. O gofio'r ffaith, wrth gwrs, bod llawdriniaethau ar y galon yn cael eu cyflawni ar sail ranbarthol, dylai hynny helpu o ran gallu rhyddhau rhagor o adnoddau i driniaeth stentio gael ei darparu cyn gynted â phosibl. Nid wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, ond byddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth y gallech chi ei rhoi.

Senedd.tv Fideo Video

## Recriwtio Doctoriaid a Nyrsys

## The Recruitment of Doctors and Nurses

14:00 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am recriwtio doctoriaid a nyrsys yng Nghymru? OAQ(4)2509(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on the recruitment of doctors and nurses in Wales? OAQ(4)2509(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Whilst there are challenges in some specialities today, we must remember there are now more doctors, nurses, midwives, paramedics and dental staff in the Welsh NHS today than there were 10 years ago. That includes a 50 per cent increase in hospital consultants.

Er bod heriau mewn rhai arbenigeddau heddiw, mae'n rhaid i ni gofio bod mwy o feddygon, nyrsys, bydwragedd, parafeddygon a staff deintyddol yn y GIG yng Nghymru heddiw nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Mae hynny'n cynnwys cynnydd o 50 y cant yn nifer y meddygon ymgynghorol mewn ysbytai.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you'll be aware of reports earlier this week that there are dire financial consequences in the English NHS, with record numbers of hospitals there now in the red and potentially going into special measures. There have been a number of reports earlier this week that up to 35,000 doctors and nurses in the English NHS are potentially at risk of losing their jobs and redundancy. Now, although, obviously, that's a terrible situation, in the event that there are redundancies of doctors and nurses in the English NHS, what measures are the Welsh Government putting in place so that we could potentially recruit and provide employment for those losing their jobs in England?

Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol o adroddiadau yn gynharach yr wythnos hon bod canlyniadau ariannol dybryd yn y GIG yn Lloegr, gyda'r niferoedd uchaf erioed o ysbytai yno yn y coch erbyn hyn ac o bosibl yn mynd i fod yn destun mesurau arbennig. Bu nifer o adroddiadau yn gynharach yr wythnos hon bod hyd at 35,000 o feddygon a nyrsys yn y GIG yn Lloegr o bosibl mewn perygl o golli eu swyddi a chael eu diswyddo. Nawr, er, yn amlwg, bod honno'n sefyllfa drychinebus, os caiff meddygon a nyrsys eu diswyddo yn y GIG yn Lloegr, pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith fel y gallem o bosibl recriwtio a darparu cyflogaeth i'r rhai sy'n colli eu swyddi yn Lloegr?

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, as we know, we've seen the £3 billion debt that exists in the English NHS and they have the nerve to lecture us. We see the sheer numbers of hospitals in—. Addenbrooke's is now in special measures—that's a sign of the way the Tories run the NHS in England.

Wel, fel y gwyddom, rydym ni wedi gweld y ddyled o £3 biliwn sy'n bodoli yn y GIG yn Lloegr ac mae ganddyn nhw'r wyneb i bregethu wrthym ni. Rydym ni'n gweld y nifer fawr o ysbytai yn—. Mae Addenbrooke mewn mesurau arbennig erbyn hyn—mae hynny'n arwydd o'r ffordd y mae'r Torïaid yn rhedeg y GIG yn Lloegr.

As far as junior doctors are concerned, I can say that a refreshed recruitment campaign is being developed to attract junior doctors to Wales in light of the uncertain contractual position in England. I've already instructed officials to investigate what pressures there might be on the Welsh NHS from people coming to Wales for treatment because of the lack of availability in England, and, of course, the effect on Welsh patients using English hospitals due to the non-availability of junior doctors in those hospitals. There will be a negative effect on the people of Wales, because, of course, of the policy of the UK Government to seek a fight with the junior doctors rather than work with them—not an approach we've taken in Wales.

Cyn belled ag y mae meddygon iau yn y cwestiwn, gallaf ddweud bod ymgyrch recriwtio ar newydd wedd yn cael ei datblygu i ddenu meddygon iau i Gymru yng ngoleuni'r sefyllfa gytundebol ansicr yn Lloegr. Rwyf eisoes wedi cyfarwyddo swyddogion i ymchwilio i ba bwysau allai fod ar y GIG yng Nghymru gan bobl sy'n dod i Gymru i gael triniaeth oherwydd gan nad yw ar gael yn Lloegr, ac, wrth gwrs, yr effaith ar gleifion o Gymru sy'n defnyddio ysbytai yn Lloegr oherwydd gan nad oes meddygon iau ar gael yn yr ysbytai hynny. Bydd effaith negyddol ar bobl Cymru, oherwydd, wrth gwrs, polisi Llywodraeth y DU i geisio cael brwydr â'r meddygon iau yn hytrach na gweithio gyda nhw—nid dyna'r dull sydd gennym ni yng Nghymru.

14:02 **Altaf Hussain** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, working practices such as Hospital at Night and five-day on-call are having an impact on the recruitment and retention of doctors, as well as impacting on patient care. Hospital at Night and five-day on-call are a recipe for disaster, with increased litigation and the impact on continuation of care in our NHS. What is the Welsh Government doing to address the concerns of clinicians about these practices? Thank you.

Brif Weinidog, mae arferion gwaith fel Ysbytai Liw Nos a phum niwrnod ar alwad yn cael effaith ar recriwtio a chadw meddygon, a hefyd yn effeithio ar ofal cleifion. Mae Ysbytai Liw Nos a phum niwrnod ar alwad yn gofyn am drwbl, gyda mwy o ymgyfreithio a'r effaith ar barhad gofal yn ein GIG. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â phryderon clinigwyr am yr arferion hyn? Diolch.

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I have to say it's an ironic question, given what's happening in England now with junior doctors and the fact that we see junior doctors in England in dispute with the UK Government. We know that junior doctors see Wales as a better place to come and train and come and work, and we will be aiming our recruitment campaign at them. As I say, for a long time the party opposite liked to lecture us about the situation of the NHS in Wales and they have bequeathed to the people of England a £3 billion debt and an industrial dispute with junior doctors that is not happening in Wales. We must be vigilant to make sure that the effect of that potential strike does not have a negative effect on the people of Wales, despite the fact that the dispute is happening between the Government in London and junior doctors in England.

Wel, mae'n rhaid i mi ddweud ei fod yn gwestiwn eironig, o ystyried yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd gyda meddygon iau a'r ffaith ein bod yn gweld meddygon iau yn Lloegr mewn anghydfod gyda Llywodraeth y DU. Rydym ni'n gwybod bod meddygon iau yn ystyried Cymru yn lle gwell i ddod i hyfforddi ac i ddod i weithio, a byddwn yn targedu ein hymgyrch recriwtio atyn nhw. Fel y dywedais, roedd y blaid gyferbyn yn hoffi pregethu wrthym ni am amser maith am sefyllfa'r GIG yng Nghymru ac maen nhw wedi cymynroddi dyled o £3 biliwn i bobl Lloegr ac anghydfod diwydiannol gyda meddygon iau nad yw'n digwydd yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni fod yn wyliadwrus i sicrhau nad yw effaith y streic bosibl yn cael effaith negyddol ar bobl Cymru, er gwaethaf y ffaith fod yr anghydfod yn digwydd rhwng y Llywodraeth yn Llundain a meddygon iau yn Lloegr.

14:04 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Brif Weinidog, fel rydych chi wedi'i amlinellu'n barod, rydych chi'n ymwybodol bod meddygon iau yn Lloegr ar fin cymryd y penderfyniad syfrdanol i, o bosib, fynd ar streic i wrthod cytundeb yr Ysgrifennydd iechyd, Jeremy Hunt, a fydd yn newid ac yn dirywio eu hamodau gwaith nhw'n sylweddol iawn. Rwy'n cytuno â safbwynt eich Llywodraeth chi ar hyn, i wrthod cyflwyno cytundeb o'r math yma yng Nghymru. Nawr, rŷch chi wedi dweud eich bod chi'n barod i ddefnyddio hyn at bwrpasau recriwtio posib—denu meddygon yn ôl i Gymru, neu feddygon newydd i Gymru o Loegr—ac nid wyf yn anghytuno â chi ar hynny o gwbl, ond pa sicrwydd allwch chi ei roi i'r doctoriaid a fyddai, o bosib, yn ystyried gwneud hynny, bod yr amodau gwaith yng Nghymru, o ran yr NHS yma yng Nghymru—ei bod yn mynd i fod ag adnoddau digon da i sicrhau eu gyrfaoedd hirdymor nhw yma yng Nghymru?

First Minister, as you've already highlighted, you're aware that junior doctors in England are about to take the shocking decision to perhaps go on strike to reject the proposals made by the health Secretary, Jeremy Hunt, which will have a serious impact on their working conditions. I agree with the stance of your Government on this, to refuse to introduce such a contract here in Wales. Now, you have said that you are willing to use this for possible recruitment purposes—to attract doctors back to Wales, or to attract doctors to Wales from England—and I wouldn't disagree with you on that, but what assurances can you give to those doctors who may consider moving to Wales, that the working conditions in Wales, from the point of view of the NHS here in Wales—that it's going to have sufficient resources to ensure their long-term careers here in Wales?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n credu bod hwnnw'n cael ei roi iddyn nhw yn barod. O gymharu beth sy'n digwydd yn Lloegr ar hyn o bryd â beth sydd ar gael yng Nghymru, rwy'n credu bod y gymhariaeth yn un ffafriol o ran Cymru. Rŷm ni'n edrych ymlaen i groesawu doctoriaid sydd yn moyn gweithio yng Nghymru i ddod i wlad lle mae'r sgiliau sydd ganddyn nhw yn cael eu parchu.

I think that is being given to them already. To compare what is happening in England at the moment with what is available in Wales, I think that the comparison is a favourable one to Wales. We are looking forward to welcoming doctors who want to work in Wales to come to a country where the skills they have are respected.

14:05 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the Home Secretary's dramatic u-turn last week in terms of placing nurses on the shortage occupation list, on an interim basis, is no doubt a victory for common sense, but nevertheless it is only an interim decision. In that context, First Minister, do you agree with me that, because of the uncertainty that remains around the longer term future, it's actually desirable for us, here in this Assembly, to bring additional pressure to bear on the UK Government to give greater certainty in the long term, to ensure that we do have a sufficient quantity of qualified, overseas nurses for the time to come to work within our national health service?

Brif Weinidog, nid oes amheuaeth bod tro pedol dramatig yr Ysgrifennydd Cartref yr wythnos diwethaf, o ran rhoi nyrsys ar y rhestr galwedigaethau lle ceir prinder, dros dro, yn fuddugoliaeth i synnwyr cyffredin, ond dim ond penderfyniad dros dro ydyw, serch hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi, oherwydd yr ansicrwydd sy'n parhau am y dyfodol mwy hirdymor, ei bod yn ddymunol mewn gwirionedd i ni, yma yn y Cynulliad hwn, roi pwysau ychwanegol ar Lywodraeth y DU i roi mwy o sicrwydd yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau bod gennym ni gyflenwad digonol o nyrsys tramor cymwysedig am y tro i ddod i weithio yn ein gwasanaeth iechyd gwladol?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I'm pleased that the Home Secretary listened to the views expressed by the Welsh Government and NHS employers and is taking steps to ensure immigration arrangements support the delivery of safe care in health services across the UK. It will allow us, of course, to ensure that overseas nurses already working in Wales can continue in their employment. It should allow us to continue to recruit, but, as the Member rightly says, it creates uncertainty and we do need to see an end to the dithering that we see from the Home Office when it comes to being able to recruit very highly qualified people to work in our health service.

Rwy'n falch bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi gwrando ar y safbwyntiau a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru a chyflogwyr y GIG ac wedi cymryd camau i sicrhau bod trefniadau mewnfudo yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel mewn gwasanaethau iechyd ledled y DU. Bydd yn caniatáu i ni, wrth gwrs, sicrhau y gall nyrsys tramor sydd eisoes yn gweithio yng Nghymru barhau yn eu cyflogaeth. Dylai ein galluogi i barhau i recriwtio, ond, fel y mae'r Aelod yn ei ddweud yn hollol gywir, mae'n creu ansicrwydd ac mae angen i ni weld diwedd ar yr oedi a welwn gan y Swyddfa Gartref pan ddaw i allu recriwtio pobl hynod gymwysedig i weithio yn ein gwasanaeth iechyd.

## Cyffuriau Canser yn Nhorfaen

## Cancer Drugs in Torfaen

14:06 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad at gyffuriau canser yn Nhorfaen? OAQ(4)2069(FM)*

*8. Will the First Minister make a statement on access to cancer drugs in Torfaen? OAQ(4)2523(FM)*

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We take an evidence-based approach to making treatment available, guided by expert advice from the National Institute for Health and Care Excellence and our own appraisal body, the All Wales Medicines Strategy Group. The result is rapid access for Welsh patients to drugs that are both clinically safe and cost-effective.

Gwnaf. Rydym ni'n mabwysiadu dull seiliedig ar dystiolaeth o sicrhau bod triniaeth ar gael, dan arweiniad cyngor arbenigol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a'n corff gwerthuso ein hunain, Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. Y canlyniad yw mynediad cyflym i gleifion yng Nghymru at gyffuriau sydd yn glinigol ddiogel ac yn gost-effeithiol.

14:07 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm very grateful to you, First Minister, for meeting with me recently to discuss my constituent Carolyn Davies who has breast cancer, and who is currently on her third individual patient funding request application to access trastuzumab emtansine, with her most recent application being considered this very afternoon by the health board. As you're aware, Carolyn has been initially funding her treatment on the drug privately, following a local fundraising campaign. I'm pleased to say that the treatment is showing excellent early results. Would you agree with me that, where patients do demonstrate an excellent response to these drugs, they should be able to obtain funding for them via the IPFR process? Following our discussion about my longstanding concerns that the need to demonstrate exceptionality is proving to be too high a hurdle for many patients and clinicians to meet, what further consideration have you given to revising Welsh Government policy in this area?

Rwy'n ddiolchgar iawn i chi, Brif Weinidog, am gyfarfod â mi yn ddiweddar i drafod fy etholwr Carolyn Davies sydd â chanser y fron, ac sydd ar ei thrydydd cais am gyllid cleifion unigol ar hyn o bryd i allu cael trastuzumab emtansine, ac mae ei chais diweddaraf yn cael ei ystyried y prynhawn yma gan y bwrdd iechyd. Fel y gwyddoch, mae Carolyn wedi bod yn ariannu ei thriniaeth ar y cyffur yn breifat yn y lle cyntaf, yn dilyn ymgyrch codi arian leol. Rwy'n falch o ddweud bod y driniaeth yn dangos canlyniadau cynnar ardderchog. A fyddech chi'n cytuno â mi, lle mae cleifion yn dangos ymateb gwych i'r cyffuriau hyn, y dylent allu cael cyllid ar eu cyfer drwy'r broses IPFR? Yn dilyn ein trafodaeth am fy mhryderon hirsefydlog bod yr angen i ddangos bod yr achos yn un eithriadol yn rhwystr rhy anodd i lawer o gleifion a chlinigwyr ei oresgyn, pa ystyriaeth bellach ydych chi wedi ei rhoi i ddiwygio polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for the question. The IPFR process was reviewed in 2014 by an independent group. They did conclude that the IPFR process supports rational evidence-based medicine, but they did identify some changes that had to be made. They did endorse the exceptionality criteria, but they did recognise the need to further support clinicians in evidencing clinical exceptionality—that's important—and of course to ensure that's applied consistently. Two of the issues that I know that Members raised with me are what appears to be a lack of consistency—or what has appeared to be a lack of consistency—across Wales, and the difficulties, as she said, of demonstrating exceptionality. The guidance will be in place to assist clinicians in that regard and, furthermore, the guidance will help to ensure that there is consistency across the board so that we don't see different decisions being taken in different parts of Wales.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Adolygwyd y broses IPFR gan grŵp annibynnol yn 2014. Daethant i'r casgliad bod y broses IPFR yn cefnogi meddygaeth seiliedig ar dystiolaeth resymegol, ond nodwyd rhai newidiadau ganddynt y byddai'n rhaid eu gwneud. Cymeradwywyd y meini prawf achos eithriadol ganddynt, ond roedden nhw yn cydnabod yr angen i gefnogi clinigwyr ymhellach o ran darparu tystiolaeth bod achos yn glinigol eithriadol—mae hynny'n bwysig—ac wrth gwrs i sicrhau bod hynny'n cael ei ddefnyddio mewn modd cyson. Dau o'r materion y gwn fod Aelodau wedi eu codi gyda mi yw'r hyn sy'n ymddangos fel diffyg cysondeb—neu sydd wedi ymddangos fel diffyg cysondeb—ledled Cymru, a'r anawsterau, fel y dywedodd, o ddangos bod achos yn eithriadol. Bydd y canllawiau ar waith i gynorthwyo clinigwyr yn hynny o beth a, hefyd, bydd y canllawiau yn helpu i sicrhau y ceir cysondeb cyffredinol fel nad ydym yn gweld gwahanol benderfyniadau'n cael eu gwneud mewn gwahanol rannau o Gymru.

14:08 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I recently met a constituent who has to travel to Sussex in the south of England, every three weeks, to access cancer treatment because the drugs she requires are not available in Wales. Will the First Minister explain to the Chamber and the people living in Torfaen, and elsewhere in Wales, why he opposes a cancer drugs fund that would help my constituent to get the treatment she needs in Wales?

Brif Weinidog, cyfarfûm yn ddiweddar ag etholwr y mae'n rhaid iddo deithio i Sussex yn ne Lloegr, bob tair wythnos, i gael mynediad at driniaeth canser gan nad yw'r cyffuriau sydd eu hangen arni ar gael yng Nghymru. A wnaiff y Prif Weinidog egluro i'r Siambr a'r bobl sy'n byw yn Nhorfaen, ac mewn mannau eraill yng Nghymru, pam mae'n gwrthwynebu cronfa cyffuriau canser a fyddai'n helpu fy etholwr i gael y driniaeth sydd ei hangen arni yng Nghymru?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, I can't comment on individual circumstances. What I can say is that the cancer drugs fund in England has been destroyed by stealth and is disappearing next March anyway. So, if the cancer drugs fund is such a wonderful policy, why is his own party getting rid of it in March, and why has his own party removed many drugs from that list already? That's a question that they don't like to answer.

Yn gyntaf oll, ni allaf wneud sylw ar amgylchiadau unigol. Yr hyn y gallaf ei ddweud yw bod y gronfa cyffuriau canser yn Lloegr wedi cael ei chwalu'n ddistaw bach a'i bod yn diflannu fis Mawrth nesaf beth bynnag. Felly, os yw'r gronfa cyffuriau canser yn bolisi mor wych, pam mae ei blaid ei hun yn cael gwared arni ym mis Mawrth, a pham mae ei blaid ei hun wedi tynnu llawer o gyffuriau oddi ar y rhestr honno eisoes? Mae hwnw'n gwestiwn nad ydynt yn hoffi ei ateb.

14:09 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, with new research and the growth of stratified medicine, it's likely that the effectiveness of these treatments will increase for many. But, at the moment, routine molecular diagnostic testing of patients to find those who would benefit from targeted treatments is not applied in Wales. As a result, in 2014, it's estimated that 237 cancer patients missed out on targeted treatments. This number will only grow with advances in stratified medicine, until the Welsh Government makes these tests routine. When can we expect such testing to be routine, please?

Brif Weinidog, gyda gwaith ymchwil newydd a thwf meddyginiaeth haenedig, mae'n debygol y bydd effeithiolrwydd y triniaethau hyn yn cynyddu i lawer. Ond, ar hyn o bryd, ni ddefnyddir profion diagnostig moleciwlaidd rheolaidd ar gleifion er mwyn dod o hyd i'r rhai a fyddai'n elwa ar driniaethau wedi'u targedu yng Nghymru. O ganlyniad, yn 2014, amcangyfrifir bod 237 o gleifion canser na chawsant driniaethau wedi'u targedu. Dim ond tyfu wnaiff y nifer hwn yn sgil datblygiadau ym maes meddygaeth haenedig, tan y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y profion hyn yn fater o drefn. Pryd y gallwn ni ddisgwyl profion o'r fath i fod yn fater o drefn, os gwelwch yn dda?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What the Member, I think, is talking about is the tests that examine whether somebody has a particular genetic make-up that makes them particularly susceptible to the beneficial effects of a particular drug; that's true. I've come across a situation like that already. When I looked at this, it does seem that these tests are funded, in the main, and, naturally so, because, if you can examine whether somebody could have a beneficial effect from a drug that is above and beyond the normal population, then, naturally, you would expect that test to take place. It is something I've looked at in relation to one individual, who I'm not going to name in the Chamber, and it does appear that the test is available, although there seems to be some confusion as to whether it was offered properly to that individual. But he's quite right. We know that, the way cancer treatment is going, there'll be much more emphasis on DNA testing. At the moment, cancer treatment, you know, is a very large sledgehammer that is used to crack a disease. In the future, we will have a much better understanding of what works best for whom and when, which is where the testing is going and, of course, we'll have to ensure that that testing is available.

Yr hyn y mae'r Aelod yn sôn amdano, rwy'n meddwl, yw'r profion sy'n archwilio a oes gan rywun gyfansoddiad genetig penodol sy'n ei wneud yn arbennig o agored i effeithiau llesol cyffur penodol; mae hynny'n wir. Rwyf wedi gweld sefyllfa felly eisoes. Pan edrychais ar hyn, mae'n ymddangos bod y profion hyn yn cael eu hariannu, ar y cyfan, ac, yn naturiol, felly, oherwydd, os gallwch archwilio pa un a allai rhywun gael effaith fuddiol o gyffur sydd y tu hwnt i'r boblogaeth arferol, yna, yn naturiol, byddech yn disgwyl i'r prawf hwnnw gael ei gynnal. Mae'n rhywbeth yr wyf i wedi edrych arno o ran un unigolyn, nad wyf yn mynd i'w enwi yn y Siambr, ac mae'n ymddangos bod y prawf ar gael, er ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch ynghylch pa un a gafodd ei gynnig yn briodol i'r unigolyn hwnnw. Ond mae'n gwbl gywir. Rydym ni'n gwybod, o'r ffordd y mae triniaeth canser yn mynd, y bydd llawer mwy o bwyslais ar brofion DNA. Ar hyn o bryd, mae triniaeth canser, wyddoch chi, yn ordd fawr iawn sy'n cael ei defnyddio i chwalu clefyd. Yn y dyfodol, bydd gennym ddealltwriaeth lawer gwell o'r hyn sy'n gweithio orau i bwy a phryd, sef y cyfeiriad y mae'r profion yn mynd iddo ac, wrth gwrs, bydd yn rhaid i ni sicrhau bod y profion hynny ar gael.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015

14:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? OAQ(4)2508(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the implementation of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015? OAQ(4)2508(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. Yesterday, we issued 40 draft indicators to measure our nation's progress, and, last month, the Minister for Natural Resources and the Minister for Public Services issued draft guidance, and we work with public bodies to help them realise the benefits of the Act.

Gwnaf. Cyhoeddwyd 40 o ddangosyddion drafft gennym ddoe i fesur cynnydd ein cenedl, a, fis diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ganllawiau drafft, ac rydym ni'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus i'w helpu i wireddu manteision y Ddeddf.

14:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You'll be aware, of course, that community councils with a budget of over £200,000 per annum are subject to the Act and have a series of requirements of them that are quite expensive and quite difficult without a proper bureaucracy behind that. Given your Government's commitment to fund any new burdens in local government, could you tell me what resources have been made available to those community councils to help them fund these particular requirements, given that they haven't got the sort of resources that a county council might have at their disposal?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, bod cynghorau cymuned sydd â chyllideb o fwy na £200,000 y flwyddyn yn ddarostyngedig i'r Ddeddf a bod cyfres o ofynion arnynt sydd yn eithaf drud ac yn eithaf anodd heb fiwrocratiaeth briodol y tu ôl i hynny. O gofio ymrwymiad eich Llywodraeth i ariannu unrhyw feichiau newydd mewn llywodraeth leol, a allech chi ddweud wrthyf pa adnoddau sydd wedi cael eu rhoi ar gael i'r cynghorau cymuned hynny i'w helpu i ariannu'r gofynion penodol hyn, o gofio nad yw'r math o adnoddau ganddynt a allai fod ar gael i gyngor sir?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will work, of course, with the representative body of the community councils to identify where those burdens might be and see what assistance might be made available if such burdens are identified.

Byddwn yn gweithio, wrth gwrs, gyda'r corff sy'n cynrychioli cynghorau cymuned i nodi lle allai'r beichiau hynny fod ac i weld pa gymorth y gellid ei roi ar gael os nodir beichiau o'r fath.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Jeff Cuthbert** Bywgraffiad Biography

First Minister, one of the key components of the wellbeing of future generations Act, of course, is the seven goals that are contained within it. They'll be particularly important when we link into other Acts, such as the Planning (Wales) Act 2015 and, indeed, the Environment (Wales) Bill, which we'll be discussing later. Do you agree with me, First Minister, that all seven goals should be seen as equally important and it is, therefore, critical that public bodies show how they're going to contribute to all seven goals, rather than picking one or two?

Brif Weinidog, un o elfennau allweddol y Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol, wrth gwrs, yw'r saith nod sydd wedi'u cynnwys ynddi. Byddant yn arbennig o bwysig pan fyddwn yn cysylltu â Deddfau eraill, fel Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ac, yn wir, Bil yr Amgylchedd (Cymru), y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, y dylai pob un o'r saith nod gael ei ystyried yr un mor bwysig â'i gilydd a'i bod yn hanfodol, felly, bod cyrff cyhoeddus yn dangos sut y maen nhw'n mynd i gyfrannu at bob un o'r saith nod, yn hytrach na dewis un neu ddau?

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely; I agree with the Member. The seven goals are there to be observed, to be taken forward, and to ensure the implementation of the Act.

Yn sicr; rwy'n cytuno â'r Aelod. Mae'r saith nod yno i gael eu harsylwi, i'w datblygu, ac i sicrhau gweithredu'r Ddeddf.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Russell George** Bywgraffiad Biography

I'd be grateful if the First Minister could outline the date when the Welsh Government expects public bodies in Wales to publish and adopt their wellbeing objectives.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog amlinellu'r dyddiad pan fo Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi a mabwysiadu eu hamcanion lles.

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

At the moment, that is a matter that—. It does not have a date attached to it. I am encouraged by the conversations that we've had with the public bodies that are implementing the Act itself. Soon, of course, the future generations commissioner will be appointed. That is a matter that we can take forward with her, or him. I can say the consultation on the draft statutory guidance under the Act, covering both the wellbeing duties and public service boards, was published in September, and that consultation runs until 11 January 2016.

Ar hyn o bryd, mae hwnnw'n fater sydd—. Nid oes dyddiad ynghlwm iddo. Rwyf wedi fy nghalonogi gan y sgyrsiau yr ydym ni wedi eu cael gyda'r cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu'r Ddeddf ei hun. Yn fuan, wrth gwrs, bydd comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael ei benodi. Mae hwnnw'n fater y gallwn fwrw ymlaen ag ef gyda hi, neu gydag ef. Gallaf ddweud y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft o dan y Ddeddf, sy'n cynnwys y dyletswyddau lles a byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ym mis Medi, a bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n parhau tan 11 Ionawr 2016.

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Mae Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol, wrth gwrs, yn rhoi sawl cyfrifoldeb a dyletswydd newydd ar ysgwyddau Cyfoeth Naturiol Cymru. Maen nhw hefyd wedi cael dyletswyddau ychwanegol trwy'r Ddeddf cynllunio, ac mae Bil yr amgylchedd, wrth gwrs, yn mynd trwy'r Senedd yma ar hyn o bryd. A allwch chi roi sicrwydd inni y bydd yr adnoddau angenrheidiol yn cael eu rhoi i Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r capasiti angenrheidiol, nid yn unig i ddelifro'r dyletswyddau presennol ond i ddelifro'r rafft o ddyletswyddau ychwanegol yma sydd yn cael eu rhoi ar eu hysgwyddau nhw mewn hinsawdd lle mae adnoddau'n crebachu a lle mae llai a llai o weithwyr yn gweithio yn y corff?

The wellbeing of future generations Act, of course, places a number of new responsibilities and duties on Natural Resources Wales. They've also been given new responsibilities through the planning Act, and the environment Bill is going through this Senedd at present. Can you give us an assurance that the necessary resources will be given to NRW in order to ensure that they have the capacity necessary not only to deliver their current duties, but also to deliver the raft of additional duties that are being placed on their shoulders in a climate where resources are shrinking and fewer and fewer staff are working for the organisation?

Senedd.tv Fideo Video

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rydym ni'n deall hynny, wrth gwrs, ac rydym ni'n moyn sicrhau bod adnoddau ar gael. Rwy'n gweld ymateb y Gweinidog ynglŷn â hynny. Rydym ni'n deall, wrth gwrs, lle mae eisiau adnoddau, ein bod yn fodlon ystyried, o gofio'r sefyllfa ariannol bresennol, faint o adnoddau, felly, byddai ar gael.

We understand that, of course, and we want to ensure that resources are available. I can see the response of the Minister in regard to that. We understand that, where resources are needed, we are willing to consider, given the current financial situation, how many resources will be available.

### Amseroedd Aros Ambiwlansys

### Ambulance Waiting Times

14:14 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros ambiwlansys yng ngogledd Cymru? OAQ(4)2521(FM)[W]*

*10. Will the First Minister make a statement on ambulance waiting times in north Wales? OAQ(4)2521(FM)[W]*

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Wel, yn ôl y data diweddaraf i gael eu cyhoeddi ar gyfer Cymru, yn y gogledd y cafwyd yr amser ymateb safonol gorau i argyfyngau yn ystod mis Awst; chwe munud a phum eiliad yn unig oedd yr amser hwnnw. Cafodd mwy na 78 y cant o'r galwadau mwyaf difrifol ymateb o fewn wyth munud: yr ail berfformiad gorau yn y Deyrnas Unedig.

Well, according to the latest published data, the standard emergency response time across north Wales for August was the best in Wales at just six minutes and five seconds. More than 78 per cent of the most serious calls were responded to within eight minutes: the second-best performance in the UK.

14:15 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog iechyd heddiw i dynnu sylw at ddigwyddiad difrifol ym mhorthladd Caergybi yn ddiweddar, pan gafodd teithiwr ar fwrdd un o longau Stena Line drawiad ar y galon. Mi gymerodd hanner awr ar ôl yr alwad am ambiwlans i'r ymatebwr cyntaf gyrraedd. Roedd hi'n dri chwarter awr arall cyn i'r ambiwlans gyrraedd. Adawodd hi ddim am Ysbyty Gwynedd tan dros awr a hanner ar ôl i'r alwad gael ei gwneud. Yn amlwg, nid yw hyn yn dderbyniol. Mae penaethiaid porthladd Caergybi yn bryderus am ddiogelwch teithwyr a staff, mewn porthladd, wrth gwrs, sy'n hollbwysig o ran cysylltedd rhyngwladol, ac rwy'n poeni am ddiogelwch pobl Caergybi a Môn. Mae pobl Môn a Chymru yn prysur golli ffydd yn y gwasanaeth. Mae staff ambiwlans rhagorol yn teimlo dan fwy a mwy o straen. Pa bryd bydd y Llywodraeth yma yn gallu cynllunio am wasanaeth ambiwlans sy'n deilwng o bobl Cymru, a sut ydych chi'n gallu adfer ffydd pobl Caergybi a Môn yn y gwasanaeth ar ôl y digwyddiad yma?

Thank you. I have written to the health Minister today to draw attention to a serious incident in the port of Holyhead recently, when a passenger on board a Stena Line ferry had a heart attack. It took half an hour after the call for an ambulance for the first responder to arrive. Then it was another 45 minutes before the ambulance arrived. The passenger didn't leave for Ysbyty Gwynedd until over an hour and a half after the first call was made. This obviously isn't acceptable. The heads of the port at Holyhead are concerned about the safety of its passengers and the staff in a port that is, of course, extremely important in terms of its connectivity internationally, and I'm concerned about the safety of the people of Holyhead and Anglesey. Now, the people of Anglesey and Wales are rapidly losing faith in the service. Excellent ambulance staff feel under more and more pressure. When is this Government going to be able to plan for an ambulance service that the people of Wales deserve, and how are you going to restore the faith of the people of Holyhead and Anglesey in the service after this incident?

14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Wel, nid wyf am wneud unrhyw fath o ddatganiad ynglŷn ag unigolyn, ond rwy'n clywed bod yr Aelod wedi ysgrifennu at y Gweinidog, ac wrth gwrs byddwn i'n erfyn i'r Gweinidog roi ymateb llawn i'r Aelod. Rwy'n gwybod, os edrychwn ni ar y gogledd yn gyfan gwbl, bod y perfformiad yn y gogledd yn un sy'n dda.

Well, I'm not going to make a statement on any individual, but I hear that the Member has written to the Minister, and I would expect the Minister to give a full response to the Member. I know that if we look at north Wales as a whole, performance in north Wales is good.

14:16

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement. I call on the Minister for Finance and Government Business, Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes. Galwaf ar y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Jane Hutt.

14:16

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

There have been several changes to report to the business statement for this week's business. The First Minister will make a statement today on the draft Wales Bill. The Minister for Economy, Science and Transport will make a statement today on the steel summit. The debate led by the First Minister on the Welsh Government's response to the Welsh Language Commissioner's annual report has been moved to an earlier slot on the agenda today, and the time allocated for the Counsel General's oral questions on Wednesday has been reduced to 15 minutes as only two questions have been tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Bu nifer o newidiadau i'w hadrodd i'r datganiad busnes ar gyfer busnes yr wythnos hon. Bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad heddiw ar y Bil Cymru drafft. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad heddiw ar yr uwchgynhadledd dur. Symudwyd y ddadl dan arweiniad y Prif Weinidog ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg i slot cynharach ar yr agenda heddiw, ac mae'r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau llafar y Cwnsler Cyffredinol ddydd Mercher wedi ei leihau i 15 munud gan mai dim ond dau gwestiwn a gyflwynwyd. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:17

### Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, according to the Family and Childcare Trust, Monmouthshire is officially now the most family-friendly place in Wales. Perhaps we can have a statement from the Welsh Government on how we can make other parts of Wales equally family friendly, Minister. Do you share my concerns that Welsh Government proposals to abolish Monmouthshire would be a backward step, that would threaten this family-friendly success and do nothing to spread best practice across the rest of Wales?

Arweinydd y tŷ, yn ôl Ymddiriedolaeth y Teulu a Gofal Plant, Sir Fynwy, yn swyddogol, yw'r lle mwyaf ystyriol o deuluoedd yng Nghymru erbyn hyn. A allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru efallai ar sut y gallwn wneud rhannau eraill o Gymru yr un mor ystyriol o deuluoedd, Weinidog? A ydych chi'n rhannu fy mhryderon i y byddai cynigion Llywodraeth Cymru i ddileu Sir Fynwy yn gam gwag, a fyddai'n bygwth y llwyddiant hwn o ran bod yn ystyriol o deuluoedd ac na fyddai'n gwneud dim i ledaenu arfer gorau ar draws weddill Cymru?

14:17

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, well, of course, I mean, unfortunately, although we very much welcome any recognition of family-friendly practices for Monmouthshire, unfortunately, Monmouthshire falls short in terms of education as, of course, as you know, it is in special measures. So, there are lessons to be learned by Monmouthshire as well as praise due.

Ie, wel, wrth gwrs, hynny yw, yn anffodus, er ein bod yn croesawu unrhyw gydnabyddiaeth o arferion ystyriol o deuluoedd ar gyfer Sir Fynwy yn fawr iawn, yn anffodus, ceir diffygion yn Sir Fynwy o ran addysg fel, wrth gwrs, fel y gwyddoch, mae'n destun mesurau arbennig. Felly, mae gan Sir Fynwy wersi i'w dysgu yn ogystal â'i bod yn haeddu canmoliaeth ddyledus.

14:18

### Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could the Minister urgently schedule a statement on the latest position on the electrification of the main line from London to Cardiff and to Swansea, following the latest repercussions from George Osborne's reinstatement of the work to electrify the Midlands main line and Transpennine route, and whether this, in fact, has endangered Network Rail's ability to keep to their timetable of electrifying the line to Cardiff by the end of 2017, and Swansea by the end of 2018?

A allai'r Gweinidog drefnu ar frys datganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran trydaneiddio'r brif reilffordd o Lundain i Gaerdydd ac i Abertawe, yn dilyn yr ôl-effeithiau diweddaraf o adferiad George Osborne o'r gwaith i drydaneiddio prif reilffordd Canolbarth Lloegr a'r llwybr TransPennine, ac a yw hyn, mewn gwirionedd, wedi peryglu gallu Network Rail i gadw at ei amserlen o drydaneiddio'r rheilffordd i Gaerdydd erbyn diwedd 2017, ac i Abertawe erbyn diwedd 2018?

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Julie Morgan for that question. I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to update Members on that position.

Diolchaf i Julie Morgan am y cwestiwn yna. Byddaf yn gofyn i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa honno i'r Aelodau.

14:19 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Welsh Government make a statement on the 80 job losses that will result from the mothballing of the Selar opencast mine? Clearly, this is another blow for the Neath valley where, in recent times, we have seen the loss of Aberpergwm and Unity collieries and TRW at Resolven. But what I don't understand is why Celtic Energy Ltd cannot make this work when it is pushing ahead with hugely unpopular coaling at East Pit, and it recently won permission to start coaling at Bryn Defaid as well. I think I'm right in saying that since the Walters Group took over Celtic Energy Ltd in 2005, it is yet to fill in any hole that it has dug, and that has to be a crucial issue here. What talks has the Government had with the company in the wake of its decision, and has your Government secured any promises from the Government about the upkeep and restoration of the site, should it remain closed?

A wnaiff Llywodraeth Cymru wneud datganiad ar y golled o 80 swydd a fydd yn deillio o atal gweithio ym mhwll glo brig Selar? Yn amlwg, mae hon yn ergyd arall i gwm Nedd lle, yn ddiweddar, yr ydym ni wedi colli pyllau glo Aberpergwm ac Unity a TRW yn Resolfen. Ond yr hyn nad wyf yn ei ddeall yw pam na all Celtic Energy Ltd wneud y gwaith hwn pan ei fod yn bwrw ymlaen â'r cloddio hynod amhoblogaidd yn East Pit, a'i fod wedi cael caniatâd yn ddiweddar i ddechrau cloddio ym Mryn Defaid hefyd. Rwy'n meddwl fy mod yn iawn wrth ddweud nad yw Grŵp Walters wedi llenwi unrhyw dwll y mae wedi ei gloddio ers iddo gymryd Celtic Energy Ltd drosodd yn 2005, ac mae'n rhaid i hynny fod yn fater hollbwysig yma. Pa drafodaethau y mae'r Llywodraeth wedi eu cael gyda'r cwmni yn sgil ei benderfyniad, ac a yw eich Llywodraeth wedi sicrhau unrhyw addewidion gan y Llywodraeth o ran cynnal a chadw ac adfer y safle, os bydd yn aros ar gau?

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Bethan Jenkins, officials are in discussion with the company, so there's nothing further to report at this time. Of course, the Minister for Economy, Science and Transport has oral Assembly questions tomorrow, and Members will have the opportunity to raise any concerns.

Wel, Bethan Jenkins, mae swyddogion mewn trafodaethau gyda'r cwmni, felly nid oes unrhyw beth arall i'w adrodd ar hyn o bryd. Wrth gwrs, mae gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gwestiynau llafar yn y Cynulliad yfory, a bydd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon.

14:20 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, could I ask for two statements from the Government? First, later on this week, Westminster will be debating proposals for EVEL—English votes for English laws. My understanding is that it is the Speaker who will actually make a decision as to whether a law is applicable to England or to England and Wales. We know, on this side of the border, how difficult it is to make those distinctions, especially with regard to the impact of decisions on health services. Only recently, we've seen the rowing back from a decision on where to place emergency services in Shrewsbury, it seems, not taking into account the needs of Welsh patients, and purely taking into account the views of the Department of Health in Westminster. I would be grateful to learn from the Government what steps they have been taking to ensure that Welsh citizens' needs will be taken into consideration as these proposals are taken forward at Westminster.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan y Llywodraeth? Yn gyntaf, yn ddiweddarach yr wythnos hon, bydd San Steffan yn trafod cynigion ar gyfer pleidleisiau Lloegr ar gyfer deddfau Lloegr. Fy nealltwriaeth i yw mai'r Llefarydd fydd yn gwneud penderfyniad ar ba un a yw cyfraith yn berthnasol i Loegr, neu i Gymru a Lloegr. Rydym ni'n gwybod, ar yr ochr hon i'r ffin, pa mor anodd yw nodi'r gwahaniaethau hynny, yn enwedig o ran effaith penderfyniadau ar wasanaethau iechyd. Dim ond yn ddiweddar, rydym ni wedi gweld tro pedol o ran y penderfyniad ar ble i leoli gwasanaethau brys yn yr Amwythig, mae'n ymddangos, heb gymryd i ystyriaeth anghenion cleifion yng Nghymru, gan gymryd barn yr Adran Iechyd yn San Steffan i ystyriaeth yn unig. Byddwn yn ddiolchgar o gael gwybod gan y Llywodraeth pa gamau y mae wedi bod yn eu cymryd i sicrhau y bydd anghenion dinasyddion Cymru yn cael eu hystyried wrth i'r cynigion hyn gael eu datblygu yn San Steffan.

Secondly, in First Minister's questions, there was a great deal of discussion around the impact of the dispute between junior doctors and the Department of Health. Minister, would you agree with me—. Would the Government make a statement on the opportunity that affords us, as a Welsh NHS, to recruit new staff to services in Wales, because we are not making the same mistakes as the Westminster Government with regard to junior doctor contracts? Also, what steps is the Welsh Government going to take to safeguard the interests of my constituents and many other Welsh constituents, who have to go across the border for district general hospital services? It was raised with me just this very weekend: people were very concerned that there will simply not be an adequate number of doctors working in border hospitals to be able to meet their needs. I would be grateful to hear from the Government what steps they are taking to take advantage in recruiting new doctors but also in safeguarding the interests of Welsh patients.

Yn ail, yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog, roedd llawer iawn o drafodaeth ynghylch effaith yr anghydfod rhwng meddygon iau a'r Adran Iechyd. Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi—. A wnaiff y Llywodraeth gyflwyno datganiad ar y cyfle y mae hynny'n ei gynnig i ni, fel GIG yng Nghymru, i recriwtio staff newydd i wasanaethau yng Nghymru, gan nad ydym yn gwneud yr un camgymeriadau â Llywodraeth San Steffan o ran contractau meddygon iau? Hefyd, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'w cymryd i ddiogelu buddiannau fy etholwyr i a llawer o etholwyr eraill yng Nghymru, y mae'n rhaid iddynt fynd dros y ffin ar gyfer gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth? Fe'i codwyd gyda mi yn ystod y penwythnos hwn: roedd pobl yn bryderus iawn na fydd nifer ddigonol o feddygon yn gweithio mewn ysbytai ar y ffin i allu diwallu eu hanghenion. Byddwn yn ddiolchgar o gael clywed gan y Llywodraeth pa gamau y mae'n eu cymryd i fanteisio trwy recriwtio meddygon newydd ond hefyd i ddiogelu buddiannau cleifion yng Nghymru.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for those questions; of course, they are connected. It is quite clear, from what the First Minister said in response to questions earlier on this afternoon, that we are looking at this in terms of the opportunities to particularly recruit those junior doctors—and possibly other healthcare staff—who could be displaced as a result of the mismanagement of the English national health service by the Department of Health. I'm sure you will welcome that the First Minister has said that he has called for this work to be undertaken, in terms of the work that can be done. Of course, that also is in context with the work that we are doing constantly to safeguard the cross-border care that, of course, Welsh patients require and have relied upon, through partnership arrangements, in terms of access to district general hospitals and, indeed, other healthcare.

Diolchaf i Kirsty Williams am y cwestiynau yna; wrth gwrs, maen nhw'n gysylltiedig. Mae'n eithaf eglur, o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog mewn ymateb i gwestiynau yn gynharach y prynhawn yma, ein bod yn edrych ar hyn o safbwynt y cyfleoedd i recriwtio meddygon iau yn arbennig —a staff gofal iechyd eraill o bosibl—a allai gael eu dadleoli o ganlyniad i gamreolaeth y gwasanaeth iechyd gwladol yn Lloegr gan yr Adran Iechyd. Rwy'n siŵr y byddwch yn croesawu'r ffaith fod y Prif Weinidog wedi dweud ei fod wedi galw i'r gwaith hwn gael ei wneud, o ran y gwaith y gellir ei wneud. Wrth gwrs, mae hynny hefyd yng nghyd-destun y gwaith yr ydym ni'n ei wneud yn gyson i ddiogelu'r gofal trawsffiniol y mae ei angen, wrth gwrs, ar gleifion yng Nghymru ac y maent wedi dibynnu arno, trwy drefniadau partneriaeth, o ran mynediad at ysbytai cyffredinol dosbarth ac, yn wir, mathau eraill o ofal iechyd.

14:23 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you'll recall that, several years ago, you commissioned research on behalf of the Welsh Government on the issue of regional pay, which was being proposed then by the Conservative-Lib Dem coalition Government. We now know that the proposals in respect of working tax credits are going to have a massive impact on the people of Wales, taking at least £900 million, but pushing many working families into poverty. Will you make a statement on the possibility of the Welsh Government commissioning similar research to evaluate the full impact of the tax credit withdrawal by the UK Government on poverty levels in Wales, perhaps even on a constituency-by-constituency basis, and the measures the Welsh Government can take to try and counter the impact of those Tory proposals?

Weinidog, byddwch yn cofio, sawl blwyddyn yn ôl, i chi gomisiynu gwaith ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru ar y mater o gyflogau rhanbarthol, a oedd yn cael ei gynnig ar y pryd gan Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Gwyddom bellach fod y cynigion o ran credydau treth gwaith yn mynd i gael effaith enfawr ar bobl Cymru, gan gymryd o leiaf £900 miliwn, ond yn gwthio llawer o deuluoedd sy'n gweithio i dlodi. A wnewch chi wneud datganiad ar y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu gwaith ymchwil tebyg i werthuso effaith lawn diddymu'r credyd treth gan Lywodraeth y DU ar lefelau tlodi yng Nghymru, efallai ar sail etholaethau unigol hyd yn oed, a'r mesurau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i geisio gwrthweithio effaith y cynigion hynny gan y Torïaid?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Mick Antoniw is right to highlight the adverse impact of the cut to tax credits on Welsh people and households. Up to 160,000 families in Wales will be affected by the reduction in income thresholds in tax credits and work allowances in universal credit, with an average loss of £1,000 a year. Around 200,000 families in Wales are affected by the removal of the family element in tax credits and universal credit, and 117,000 families currently in receipt of tax credits in Wales will be affected by the limiting of the child element to two children if they have any more children after 2017. Indeed, the evidence is quite clear from the Resolution Foundation, which estimates that these two changes will lead to some families facing losses of around £3,500 a year by 2020. But your question about commissioning further research—we have already commissioned the IFS, the Institute for Fiscal Studies, to undertake analysis at a Wales level of the impact of the UK Government's personal tax, welfare and national living wage changes, and we currently expect those to be published later this month.

Wel, mae Mick Antoniw yn iawn i dynnu sylw at effaith andwyol y toriad i gredydau treth ar bobl ac aelwydydd Cymru. Bydd hyd at 160,000 o deuluoedd yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y gostyngiad i drothwyon incwm o ran credydau treth a lwfansau gwaith mewn credyd cynhwysol, gyda cholled o £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae tua 200,000 o deuluoedd yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan ddiddymiad elfen deuluol credydau treth a chredyd cynhwysol, a bydd 117,000 o deuluoedd sy'n derbyn credydau treth yng Nghymru ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio gan gyfyngu'r elfen plant i ddau blentyn os byddant yn cael mwy o blant ar ôl 2017. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn gwbl eglur gan y Resolution Foundation, sy'n amcangyfrif y bydd y ddau newid hyn yn arwain at rai teuluoedd yn wynebu colledion o tua £3,500 y flwyddyn erbyn 2020. Ond o ran eich cwestiwn am gomisiynu rhagor o waith ymchwil—rydym ni eisoes wedi comisiynu'r IFS, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, i gynnal dadansoddiad ar lefel Cymru o effaith newidiadau Llywodraeth y DU i dreth bersonol, lles a chyflog byw cenedlaethol, ac, ar hyn o bryd, rydym ni'n disgwyl i'r rheini gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn.

14:25 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, rwy'n ei ffeindio'n anodd weithiau deall pam mae rhai datganiadau'n cael eu gwneud yn ysgrifenedig a rhai'n cael eu gwneud ar lafar yn y lle hwn. Yr wythnos diwethaf, cawsom ni lu o ddatganiadau gan y Llywodraeth—da i ddim, a bod yn onest—a oedd ar lafar. Heddiw mae gyda ni lond agenda o ddatganiadau pwysig iawn. Ond roedd yna ddau ddatganiad ysgrifenedig ddiwedd yr wythnos diwethaf gan Huw Lewis, y Gweinidog addysg, sy'n haeddu cael eu gwneud ar lafar, rwy'n meddwl, yn y lle hwn. Rwy'n gofyn i chi felly weld ym mha ffordd y gallwn ni gael datganiad neu ddadl ar y pynciau hyn. Y datganiad cyntaf oedd un ynglŷn â dyfodol Cymraeg ail iaith yn y cwricwlwm cenedlaethol—ymateb i adroddiad Sioned Davies. Mae yna le i gredu bod eisiau holi'r Gweinidog mwy am yr hyn y mae wedi ei ddweud, ac a ydy e wir wedi ymgymryd ag argymhellion Sioned Davies yng nghyd-destun adroddiad Graham Donaldson.

Roedd yr ail adroddiad yn un lle roedd y Gweinidog, yn syml iawn, yn dweud ei fod e eisiau gweddnewid addysg i athrawon yng Nghymru—ymarfer dysgu cychwynnol. Ac eto, nid oedd dim manylion y gallwn ni ddeall o hynny ym mha ffordd y mae'r Llywodraeth nawr yn mynd i symud y broses yma gerbron. A oes modd, felly, aildrefnu i'r datganiadau hynny gael eu gwneud ar lafar, fel bod modd i bob un ohonom ni ofyn cwestiynau i'r Gweinidog?

Minister, I do find it difficult on occasion to understand why some statements are made in written form and some are made orally in this place. Last week, we had a number of statements from the Government which were virtually good for nothing, if I'm honest, and they were oral statements. Today, we have an agenda full of very important statements. But there were two written statements issued at the end of last week by Huw Lewis, the education Minister, which deserved to be made in this Chamber. I would ask you therefore to consider how we can have a statement or a debate on these issues. The first was on the future of Welsh as a second language in the national curriculum, in response to the Sioned Davies report. There is room to believe that we should question the Minister further on what he's said on that issue and whether he has truly taken on board Sioned Davies's recommendations in the context of the Donaldson review.

The second was one where the Minister quite simply said that he wanted to transform teacher training in Wales—initial teacher training. Again, there were no details that we could understand how the Government is now going to progress this process. Will it be possible, therefore, to arrange for those statements to be made orally, so that each and every one of us can question the Minister on them?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I would say, in terms of the opportunities to question Ministers following written statements, of course, the oral Assembly question slots, which, of course, for the Minister for Education and Skills, the next one is on 4 November, is an ideal opportunity, as well as, of course, appearance at committees as well, to ensure that you can question following written statements. But, of course, the Minister comes regularly to make oral statements of an important nature in terms of education policy.

Wel, byddwn i'n dweud, o ran y cyfleoedd i holi Gweinidogion yn dilyn datganiadau ysgrifenedig, wrth gwrs, bod y slotiau cwestiynau llafar yn y Cynulliad, y bydd yr un nesaf, wrth gwrs, ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau, ar 4 Tachwedd, yn gyfle delfrydol, yn ogystal, wrth gwrs, ag ymddangosiad mewn pwyllgorau hefyd, i sicrhau eich bod yn gallu holi yn dilyn datganiadau ysgrifenedig. Ond, wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn dod yn rheolaidd i wneud datganiadau llafar o natur bwysig o ran polisi addysg.

14:27 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, it's recently been reported that the British Bill of rights is to be fast-tracked through the House of Commons, going straight to the Commons without either a Green or White Paper, with a consultation being launched before Christmas and, allegedly, also, with a charm offensive by Mr Michael Gove going to Edinburgh and, possibly, coming up the M4 to us. Given that your own party, and Plaid Cymru, united behind emotion that was proposed by the Welsh Liberal Democrats as recently as last June to get together to oppose the Conservative Government's proposals to repeal the Human Rights Act 1998, would it be possible to have a Government update as soon as possible on how we go forward with that important plan?

Arweinydd y tŷ, adroddwyd yn ddiweddar y bydd y Ddeddf Hawliau Dynol Brydeinig yn cael ei rhoi ar lwybr cyflym trwy Dŷ'r Cyffredin, gan fynd yn syth i Dŷ'r Cyffredin heb Bapur Gwyrdd na Phapur Gwyn, gydag ymgynghoriad yn cael ei lansio cyn y Nadolig ac, yn honedig, hefyd, ynghyd â thaith swyno gan Mr Michael Gove i Gaeredin ac, o bosibl, yn dod i fyny'r M4 atom ni. O gofio bod eich plaid eich hun, a Phlaid Cymru, wedi uno y tu ôl i gynnig a wnaed gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru mor ddiweddar â mis Mehefin eleni i ddod at ein gilydd i wrthwynebu cynigion y Llywodraeth Geidwadol i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998, a fyddai'n bosibl cael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Llywodraeth cyn gynted â phosibl am sut yr ydym ni'n bwrw ymlaen gyda'r cynllun pwysig hwnnw?

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I thank William Powell for drawing this to our attention and for drawing it to the attention of the whole Assembly. I think a charm offensive by Michael Gove might be counter-productive. [Laughter.] Clearly and seriously, we must also take stock of what is happening in terms of our commitment to human rights, and, of course, that is shared across part of this Assembly—not on that side of the Assembly.

Wel, diolchaf i William Powell am dynnu ein sylw at hyn ac am dynnu sylw'r Cynulliad cyfan at y mater. Rwy'n meddwl y gallai taith swyno gan Michael Gove fod yn wrthgynhyrchiol. [Chwerthin.] Yn amlwg ac o ddifrif, mae'n rhaid i ni hefyd ystyried yr hyn sy'n digwydd o ran ein hymrwymiad i hawliau dynol, ac, wrth gwrs, rhennir hynny ar draws rhan o'r Cynulliad hwn—nid ar yr ochr yna i'r Cynulliad.

14:28 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm sure that that would be all charm and no offensive. Minister, I understand that, further to the review of the LDPs, Cardiff council has been instructed to change the green belt around the north of the city to a green wedge, protecting the Nant Fawr corridor. Now, while protesters—and, indeed, I—are delighted to see that Llanishen reservoir, which we've been fighting to protect, is likely to be included in that protected area, I understand that green belts have a specific definition in law, whereas green wedges may not. I wonder if I could ask for a statement to clarify the legal position of green wedges. It's also quite clear that a wedge may be a different shape to a belt, and some of the land to the north of Cardiff is, of course, a little controversial at present. So, may I ask also that the statement could cover whether or not any discussions have been held over the inclusion of the so-called site F in Lisvane within the LDP's green wedge, particularly as I believe that this parcel of land is one of those sold by RIFW, and any changes in its value as a result of changes to the LDP may well be of interest to the inquiry into the RIFW affair?

Rwy'n siŵr y byddai'r daith swyno yn un lwyddiannus. Weinidog, rwy'n deall, yn dilyn yr adolygiad o'r CDLlau, bod cyngor Caerdydd wedi cael ei gyfarwyddo i newid y llain las o gwmpas gogledd y ddinas yn lletem las, gan ddiogelu coridor Nant Fawr. Nawr, er bod protestwyr—a minnau, yn wir—yn falch iawn o weld bod cronfa ddŵr Llanisien, yr ydym ni wedi bod yn ymladd i'w hamddiffyn, yn debygol o gael ei chynnwys yn yr ardal warchodedig honno, rwy'n deall bod gan leiniau glas ddiffiniad penodol yn y gyfraith, ac efallai nad oes gan letemau glas. Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad i egluro sefyllfa gyfreithiol lletemau glas. Mae hefyd yn eithaf eglur y gall lletem fod yn wahanol siâp i lain, ac mae rhywfaint o'r tir i'r gogledd o Gaerdydd, wrth gwrs, braidd yn ddadleuol ar hyn o bryd. Felly, a gaf i ofyn hefyd i'r datganiad gynnwys pa un a oes unrhyw drafodaethau wedi eu cynnal ar gynnwys y safle a elwir yn safle F yn Llys-faen o fewn lletem werdd y CDLl, yn enwedig gan fy mod i'n credu bod y parsel hwn o dir yn un o'r rhai a werthwyd gan CBCA, ac y gallai unrhyw newidiadau i'w werth o ganlyniad i newidiadau i'r CDLl fod o ddiddordeb i'r ymchwiliad i'r mater CBCA?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, Eluned Parrott, any matters relating to a green belt are for the appointed inspector to consider, not the Welsh Government.

Wel, Eluned Parrott, mae unrhyw faterion yn ymwneud â llain las i'r arolygydd penodedig eu hystyried, nid Llywodraeth Cymru.

14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

14:29 **3. Datganiad: Bil Cymru Drafft** | **3. Statement: The Draft Wales Bill** Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

## Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 3, which is a statement by the First Minister on the draft Wales Bill. First Minister.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan y Prif Weinidog am y Bil Cymru drafft. Brif Weinidog.

14:29

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Diolch, Lywydd. Hoffwn i wneud datganiad ynglŷn â'r Bil Cymru drafft, a gafodd ei gyhoeddi am sgrwtini cyn deddfu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig heddiw.

Thank you, Presiding Officer. I would like to make a statement on the draft Wales Bill, published for pre-legislative scrutiny by the UK Government today.

Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod Bil ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru'n rhywbeth sydd o bwysigrwydd mawr. Mae hwnnw, wrth gwrs, o achos y ffaith bod ein pwerau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu defnyddio yn rhoi inni'r modd i weithredu beth sydd yn bwysig i bobl Cymru, sef gwell iechyd, gwell addysg, a hefyd economi sydd yn gryfach. Dylai'r Bil—neu'r Bil—roi inni gyfle i sicrhau bod gyda ni setliad sydd yn rhwyddach, a hefyd yn gliriach, sydd yn sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gallu deddfu yn effeithiol, o gofio, wrth gwrs, beth ddigwyddodd ynglŷn â chanlyniad refferendwm 2011.

We know, of course, that a Bill on Wales's constitutional future is clearly of major importance. That's because, of course, our powers, and the way in which they're exercised, give us the tools to deliver what matters to the people of Wales—better health, better education, and also a better economy. The Bill should give us an opportunity to achieve a simpler and clearer settlement that enables the National Assembly to legislate effectively, bearing in mind, of course, the outcome of the referendum in 2011.

Llywydd, I've been in discussion with the Secretary of State for some months now, but the bulk of the Bill—31 of its 33 clauses—were not seen by the Welsh Government until yesterday. These will need detailed scrutiny in the coming days and weeks. The new material includes clauses relating to elections, the National Assembly's structure and internal arrangements, and constitutional provisions, which reflect proposals for the Scottish Parliament. And subject to examination of the detail, these elements can be welcomed.

Lywydd, rwyf wedi bod yn trafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ers rhai misoedd bellach, ond ni chafodd Llywodraeth Cymru weld y rhan fwyaf o'r Bil—31 o'i 33 chymal—tan ddoe. Bydd angen craffu'n fanwl ar y rhain yn y dyddiau a'r wythnosau nesaf. Mae'r deunydd newydd yn cynnwys cymalau sy'n ymwneud ag etholiadau, strwythur a threfniadau mewnol y Cynulliad Cenedlaethol, a darpariaethau cyfansoddiadol, sy'n adlewyrchu cynigion ar gyfer Senedd yr Alban. Ac yn amodol ar archwiliad o'r manylion, gellir croesawu'r elfennau hyn.

Over the summer, we've seen draft provisions, which redefine the legislative competence of the National Assembly. These provisions purport to implement the move to a reserved-powers model of devolution, a form of restructuring that was recommended by the Silk commission, and that enjoys cross-party support in the Assembly.

Dros yr haf, rydym wedi gweld darpariaethau drafft, sy'n ailddiffinio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Diben y darpariaethau hyn yw gweithredu'r newid i fodel datganoli cadw pwerau, math o ailstrwythuro a gafodd ei argymell gan gomisiwn Silk, ac sy'n mwynhau cefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad.

Regrettably, these provisions, as drafted, give us great cause for concern. They place new restrictions on the National Assembly's ability to legislate, which would make our settlement more complex, and less powerful, than it currently is. For example, the Bill contains extensive new requirements for Whitehall—in the shape of English Ministers—to consent to Assembly Bills, something that would be both inappropriate in principle and bureaucratic in practice. They amount to nothing less than an English veto on Welsh laws. In pursuing its legislation, the Assembly would be subject to a new test of necessity, which would introduce new areas of legal doubt and uncertainty. And if these provisions had been in place during this administration, lawyers advise that less than one third of our Bills could have been passed without the prior approval of the UK Government. What kind of devolution would that be?

Yn anffodus, mae'r darpariaethau hyn, fel y'u drafftiwyd, yn destun pryder mawr inni. Maent yn gosod cyfyngiadau newydd ar allu'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu, a fyddai'n gwneud ein setliad yn fwy cymhleth, ac yn llai pwerus, nag ydyw ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae'r Bil yn cynnwys gofynion newydd helaeth i Whitehall—hynny yw, Gweinidogion Lloegr—i gydsynio â Biliau'r Cynulliad, rhywbeth a fyddai'n amhriodol mewn egwyddor ac yn fiwrocrataidd yn ymarferol. Nid yw hyn yn ddim llai na feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru. Wrth ddeddfu, byddai'r Cynulliad yn wynebu prawf newydd o reidrwydd, a fyddai'n cyflwyno meysydd newydd o amheuaeth ac ansicrwydd cyfreithiol. A phe bai'r darpariaethau hyn wedi bod ar waith yn ystod y weinyddiaeth hon, mae cyfreithwyr yn cynghori mai llai na thraean o'n Biliau allai fod wedi'u pasio heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Lywodraeth y DU. Pa fath o ddatganoli fyddai hynny?

The draft Bill, which reverses the two unanimous decisions of the Supreme Court, in the bye-laws and the agricultural wages board cases, proposes a type of reserved-powers model that, if implemented, would be a major step backwards for devolution in Wales. Without major improvement, the Bill is a recipe for ever more referrals to the Supreme Court, and ever more inter-governmental disputes. That can't be in the interests of the National Assembly, the Welsh Government or, indeed, the UK Government. So, the Bill as drafted will not provide the coherent and durable devolution settlement that the people of Wales deserve.

Mae'r Bil drafft, sy'n gwrthdroi dau benderfyniad unfrydol y Goruchaf Lys, yn yr is-ddeddfau a'r achosion bwrdd cyflogau amaethyddol, yn cynnig math o fodel cadw pwerau a fyddai, pe câi ei roi ar waith, yn gam mawr yn ôl i ddatganoli yng Nghymru. Heb welliant mawr, mae'r Bil yn rysáit ar gyfer mwy fyth o atgyfeiriadau i'r Goruchaf Lys, a mwy fyth o anghydfodau rhwng y llywodraethau. Ni all hynny fod yn dda i'r Cynulliad Cenedlaethol, i Lywodraeth Cymru nac, yn wir, i Lywodraeth y DU. Felly, ni fydd y Bil fel y'i drafftiwyd yn darparu'r setliad datganoli cydlynol a gwydn y mae pobl Cymru'n ei haeddu.

We have expressed our concerns to the UK Government, in extensive correspondence and discussion. We first saw the relevant provisions at the end of July, and we've provided detailed analysis of their effects. In order to assist Members, I am today placing in the Assembly library copies of the letters and supporting material I have sent to the Secretary of State since June about both the possible content of the Bill and his specific proposals.

Rydym wedi mynegi ein pryderon i Lywodraeth y DU, mewn gohebiaeth a thrafodaethau helaeth. Gwelsom y darpariaethau perthnasol am y tro cyntaf ddiwedd mis Gorffennaf, ac rydym wedi darparu dadansoddiad manwl o'u heffeithiau. Er mwyn cynorthwyo'r Aelodau, rwyf heddiw'n rhoi yn llyfrgell y Cynulliad gopïau o'r llythyrau a'r deunydd ategol yr wyf wedi'u hanfon at yr Ysgrifennydd Gwladol ers mis Mehefin ynglŷn â chynnwys posibl y Bil ac ynglŷn â'i gynigion penodol ef.

The provisions published today have not addressed our concerns in any meaningful way. But the Welsh Government's objective is to improve this Bill, so that it provides the clear, stable and lasting settlement promised in the UK Government's St David's Day command paper, and, indeed, promised personally by the Prime Minister, and the Secretary of State for Wales. We will benefit from having the views of Members to inform that process of improvement, of course. So, if we can agree to suspend Standing Orders for this purpose, I propose that we have a debate, in Government time, immediately after the half-term recess.

Nid yw'r darpariaethau a gyhoeddwyd heddiw wedi rhoi sylw i'n pryderon mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Ond amcan Llywodraeth Cymru yw gwella'r Bil hwn, fel ei fod yn darparu'r setliad clir, sefydlog a pharhaol a addawyd ym mhapur gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU, ac, yn wir, a addawyd yn bersonol gan y Prif Weinidog, a gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Byddwn yn elwa o farn yr Aelodau i lywio'r broses honno o welliant, wrth gwrs. Felly, os gallwn gytuno i atal Rheolau Sefydlog at y diben hwn, cynigiaf ein bod yn cael dadl, yn amser y Llywodraeth, yn syth ar ôl y toriad hanner tymor.

A Wales Bill should provide an opportunity to improve the way Wales is governed. But unless significant changes are made to make it fit for purpose, that opportunity will be lost. We will continue our constructive dialogue to help achieve that, and we look to the UK Government to respond accordingly, in line with the needs of the people of Wales.

Dylai Bil Cymru roi cyfle i wella'r ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu. Ond oni fydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'w wneud yn addas at ei ddiben, caiff y cyfle hwnnw ei golli. Byddwn yn parhau â'n trafodaethau adeiladol i helpu i gyflawni hynny, ac rydym yn disgwyl i Lywodraeth y DU ymateb yn briodol, yn unol ag anghenion pobl Cymru.

14:34 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the opportunity to address the statement that the First Minister has brought forward today. Obviously, I do note that the First Minister has given a press statement first of all, and a press conference in Cathays park—something that I'm sure wouldn't have been allowed up in Westminster, if a statement was scheduled. [Interruption.]

Rwy'n croesawu'r cyfle i roi sylw i'r datganiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i gyflwyno heddiw. Yn amlwg, rwy'n sylwi bod y Prif Weinidog wedi rhoi datganiad i'r wasg yn gyntaf oll, a chynhadledd i'r wasg ym Mharc Cathays—rhywbeth yr wyf yn siŵr na fyddai wedi cael ei ganiatáu i fyny yn San Steffan, pe bai datganiad wedi ei drefnu. [Torri ar draws.]

14:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That's the naivest comment of the day.

Dyna sylw mwyaf naïf y dydd.

14:34 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We can quite clearly see that there isn't a consensus here. [Interruption.]

Gallwn weld yn eithaf clir nad oes consensws yma. [Torri ar draws.]

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:34 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We can quite clearly see that—. There was a statement scheduled for this afternoon, and it would have been nice to have been able to have questioned the First Minister. And the language, obviously, that the First Minister has used today, in particular saying 'English veto over Welsh laws', really doesn't bode well for progress to be made on this draft Bill. [Interruption.] Well, you can shout and rant as much as you want, but the fact of the matter is that there is a Bill. It is in draft form and it is a Bill that will empower considerable powers to Wales and to the Assembly and will make a big difference. We will never reach the goal of what the independence party, Plaid Cymru, want, and it is disingenuous for them to keep talking about a second-class nation all the time. I appreciate that might be their ambition for Wales, but it's not our ambition on this side of the Chamber. I do believe the raft of powers that are on offer will substantially reinforce this institution's capability to legislate and actually resonate across the whole of Wales. And that's the important thing: that what most people want is actually for this place to be relevant to their everyday lives. On a day when we've seen accident and emergency stats come out that are the worst for five months, and 700 more people are waiting over 12 hours—[Interruption.] Those are the issues that the people of Wales want their politicians to address, not the constant constitutional shenanigans that the other parties in this Chamber constantly want to be bringing forward.

Gallwn weld yn eithaf clir—. Roedd datganiad wedi'i drefnu ar gyfer y prynhawn yma, a byddai wedi bod yn braf gallu cwestiynu'r Prif Weinidog. Ac yn amlwg, dydy'r iaith y mae'r Prif Weinidog wedi'i defnyddio heddiw, yn enwedig wrth ddweud 'feto i Loegr dros gyfreithiau Cymru', wir ddim yn argoeli'n dda ar gyfer gwneud cynnydd ar y Bil drafft hwn. [Torri ar draws.] Wel, gallwch weiddi a rhefru gymaint ag y dymunwch, ond y ffaith amdani yw bod y Bil yn bodoli. Mae ar ffurf drafft ac mae'n Fil a fydd yn grymuso pwerau sylweddol i Gymru ac i'r Cynulliad ac a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr. Ni wnawn byth gyrraedd nod y blaid annibyniaeth, Plaid Cymru, ac maent yn ffuantus i barhau i sôn am genedl ail ddosbarth drwy'r amser. Rwy'n deall mai dyna yw eu huchelgais ar gyfer Cymru, ond nid dyna yw ein huchelgais ni ar yr ochr hon i'r Siambr. Rwy'n credu y bydd y llu o bwerau sydd ar gael yn atgyfnerthu'n sylweddol allu'r sefydliad hwn i ddeddfu ac yn atseinio'n wirioneddol ledled Cymru gyfan. A dyna'r peth pwysig: yr hyn sydd ei eisiau ar y rhan fwyaf o bobl mewn gwirionedd yw i'r lle hwn fod yn berthnasol i'w bywydau bob dydd. Ar ddiwrnod pan ydym wedi gweld rhyddhau'r ystadegau damweiniau ac achosion brys gwaethaf ers pum mis, pan fo 700 yn fwy o bobl yn aros dros 12 awr—[Torri ar draws.] Dyna'r materion y mae pobl Cymru am i'w gwleidyddion roi sylw iddynt, nid y ffwlbri cyfansoddiadol cyson y mae'r pleidiau eraill yn y Siambr hon yn gyson yn ceisio sôn amdano.

I fully endorse the comments of the Secretary of State when he does say that, actually, devolution does need to have a purpose. This place does need to have a sense of direction, and I do believe that this Welsh draft Bill offers that opportunity. The St David's Day process was reached with all-party consensus. Many of the measures in the draft Bill clearly show that there can be progress made on many of these issues, and with the draft form of the Bill, and the final Bill coming forward in the early part of the new year, I would really hope that the First Minister will row back from the rhetoric that he's using just to stoke up the political ante on this and work more collaboratively with the UK Government. I look to him to give an assertive answer on that, to make sure that we can move forward on this, rather than continue—.

Rwy'n cymeradwyo sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn llwyr bod angen pwrpas i ddatganoli. Mae angen ymdeimlad o gyfeiriad yn y lle hwn, ac nid wyf yn credu bod y Bil drafft Cymru hwn yn cynnig y cyfle hwnnw. Cafwyd consensws gan bob plaid i broses Dydd Gŵyl Dewi. Mae llawer o'r mesurau yn y Bil drafft yn dangos yn glir y gellir gwneud cynnydd ar nifer o'r materion hyn, a gyda ffurf ddrafft y Bil, a'r Bil terfynol a gyflwynir yn gynnar yn y flwyddyn newydd, byddwn yn gobeithio'n wir y gwnaiff y Prif Weinidog rwyfo'n ôl oddi wrth y rhethreg y mae'n ei defnyddio i dwymo'r ernes wleidyddol ar hyn a gweithio'n fwy cydweithredol â Llywodraeth y DU. Rwy'n gobeithio y gwnaiff roi ateb pendant am hynny, i wneud yn siŵr y gallwn symud ymlaen ar hyn, yn hytrach na pharhau—.

Back in the summer, after the Conservatives won a majority mandate at the general election, we had six weeks of the First Minister constantly saying that there was not going to be a Wales draft Bill in the Queen's Speech, and what happened? There was a Bill. Now, there's a draft Bill before us that has substantial transfers of power, and ultimately, with the collaboration of all parties working, if there does need to progress on some of the matters within the draft Bill, I believe progress can and will be made. On that, I give a commitment to work with all the parties in this Chamber to succeed in doing that, but what we've got to remember is what the people of Wales want the politicians in this institution to be doing is dealing with the bread-and-butter issues that affect them on a day-by-day basis—health, education and the economy. So, First Minister, the only question I want answered from you today is whether you will work collaboratively with the Secretary of State, and other parties, to make sure that the Wales Bill can be as robust and as strong as possible when it finally comes forward in February of next year.

Yn ôl yn yr haf, ar ôl i'r Ceidwadwyr ennill mandad mwyafrif yn yr etholiad cyffredinol, cawsom chwe wythnos o'r Prif Weinidog yn dweud yn gyson na fyddai Bil Cymru drafft yn Araith y Frenhines, a beth ddigwyddodd? Roedd yna Fil. Nawr, mae 'na Fil drafft ger ein bron sy'n cynnwys trosglwyddo pŵer sylweddol, ac yn y pen draw, gyda chydweithrediad yr holl bartïon, os oes angen gwneud cynnydd ar rai o'r materion o fewn y Bil drafft, rwy'n credu y gallwn ac y gwnawn wneud y cynnydd hwnnw . Ar hynny, rwy'n rhoi ymrwymiad i weithio gyda'r holl bleidiau yn y Siambr hon i lwyddo i wneud hynny, ond yr hyn y mae'n rhaid inni ei gofio yw mai'r hyn y mae pobl Cymru am i'r gwleidyddion yn y sefydliad hwn fod yn ei wneud yw ymdrin â'r materion sylfaenol sy'n effeithio arnynt o ddydd i ddydd—iechyd, addysg a'r economi. Felly, Brif Weinidog, yr unig gwestiwn yr hoffwn ateb iddo gennych heddiw yw a wnewch weithio ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol, a phleidiau eraill, i wneud yn siŵr y gall y Bil Cymru fod mor gadarn ac mor gryf â phosibl pan gaiff ei gyflwyno o'r diwedd ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf.

14:38

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I have to say that the leader of the opposition gave an excellent example of someone who doesn't have the faintest clue about what he's talking about in terms of the Bill. First of all, I have to say to him that we've engaged with the UK Government for many, many months. People can see the correspondence if they wish; it's in the library. I sat with him in two meetings, as did the other party leaders, in Cardiff and in Westminster, and his total contribution was two sentences in both meetings. Two sentences in the first meeting; he said nothing whatsoever in the second. That was his contribution to the process. He has to demonstrate that he is not a wholly owned subsidiary of the Secretary of State, and stand up for Wales in terms of his party.

Rhaid imi ddweud bod arweinydd yr wrthblaid wedi rhoi enghraifft ragorol o rywun sydd heb ddim clem beth mae'n sôn amdano o ran y Bil. Yn gyntaf oll, rhaid imi ddweud wrtho ein bod wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ers misoedd lawer. Gall pobl weld yr ohebiaeth os hoffent; mae yn y llyfrgell. Eisteddais gydag ef mewn dau gyfarfod, fel y gwnaeth arweinwyr y pleidiau eraill, yng Nghaerdydd ac yn San Steffan, a chyfanswm ei gyfraniad at y ddau gyfarfod oedd dwy frawddeg. Dwy frawddeg yn y cyfarfod cyntaf; ni ddywedodd air yn yr ail gyfarfod. Dyna oedd ei gyfraniad at y broses. Mae'n rhaid iddo ddangos nad yw'n weithiwr isradd sy'n eiddo llwyr i'r Ysgrifennydd Gwladol, a sefyll yn gadarn dros Gymru o ran ei blaid.

Of course we'll work with the Secretary of State—we've been doing it for months—but he will not listen. He doesn't understand—and I'd be interested to hear the leader of the opposition's views on this—why it is that Minister of the Crown consents are needed, and why it is, for example, that it's proposed to extend those, because that means that legislation cannot be passed freely by this place without consent of an English Minister. The proposal is to extend it, not even to get rid of it. It happens at the moment—that's the excuse, is it? It happens now, so it should happen always. Let me tell him that when it comes to legislation, we could have passed five Bills freely in the last Assembly for four years. We could not have passed the organ donation Bill. Paul Davies last week said that there was a difficulty with competence; I can tell him that this does nothing to address it. We could not have passed the Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015. We could have not have passed the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. We could not have passed the Qualifications Wales Act 2015. All of these things—[Interruption.]

Wrth gwrs byddwn yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol—rydym wedi bod yn gwneud hynny ers misoedd—ond ni wnaiff wrando. Nid yw'n deall—a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed barn arweinydd yr wrthblaid am hyn—pam mae angen caniatâd Gweinidogion y Goron, a pham, er enghraifft, mae cynnig i ymestyn y rheini, oherwydd mae hynny'n golygu na all y lle hwn basio deddfwriaeth yn rhydd heb ganiatâd un o Weinidogion Lloegr. Y cynnig yw ei ymestyn, nid hyd yn oed cael gwared ohono. Mae'n digwydd ar hyn o bryd—dyna'r esgus, ie? Mae'n digwydd nawr, felly dylai ddigwydd bob amser. Dewch imi ddweud wrtho, o ran deddfwriaeth, gallem fod wedi pasio pum Bil yn rhydd yn y Cynulliad diwethaf am bedair blynedd. Ni allem fod wedi pasio'r Bil rhoi organau. Dywedodd Paul Davies yr wythnos diwethaf fod yna anhawster gyda chymhwysedd; gallaf ddweud wrtho nad yw hyn yn gwneud dim i unioni hynny. Ni allem fod wedi pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ni allem fod wedi pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ni allem fod wedi pasio Deddf Cymwysterau Cymru 2015. Mae'r pethau hyn i gyd—[Torri ar draws.]

14:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Will he explain to the people of Wales—[Interruption.]

A wnaiff egluro i bobl Cymru—[Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—why they have to be treated like second-class citizens compared to Scotland and Northern Ireland?

[Yn parhau.]—pam mae'n rhaid iddynt gael eu trin fel dinasyddion eilradd o'u cymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon?

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order.

Trefn.

Senedd.tv Fideo Video

14:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Why is it that the people of Wales have to be told, 'You can't pass legislation freely via the place that you elect without the consent of English Ministers'? Why doesn't he answer that? Because he doesn't understand it and that's the problem. We have a Secretary of State and a leader of the opposition who don't see the consequences of what is proposed. The powers contained in the Schedule take us back to the days before the Supreme Court judgment—before the Supreme Court judgment. The local government bye-laws Bill—we couldn't have passed it. It couldn't even have gone to the Supreme Court on the basis of this Bill, because it would've needed a Minister of the Crown's consent, and if that had not been forthcoming, refused by the previous Secretary of State, the local government bye-laws Bill could not have been passed. Let's hear an explanation for that one—why it is that the people of Wales have to have this system where there has to be Whitehall interference in consenting Welsh legislation. [Interruption.] The human transplantation Act. Paul Davies mentioned it last week. We couldn't have passed it. The Bill does nothing to actually explain the competence issues. In fact, it takes us backwards.

I'm more than willing to work with the other parties on this. I'd prefer it if they understood the actual questions and actually came up with answers. I'd prefer it if Wales was not treated as a kind of second-class nation compared to Scotland and Northern Ireland. I'd appreciate it if we didn't see an English veto on Welsh laws, which is what Minister of the Crown consents are. I'd appreciate it if we saw an extension of devolution, as promised by the Prime Minister and the Secretary of State, and I'd appreciate it if the legislation didn't say that we can only change the law with regard to criminal, civil and family law, effectively in exceptional circumstances. That's not what the people of Wales voted for in 2011. There is no way that a rational First Minister of any party acting in the interests of Wales could accept this Bill as it is.

Pam mae'n rhaid dweud wrth bobl Cymru, 'Chewch chi ddim pasio deddfwriaeth yn rhydd yn y lle yr ydych yn ei ddewis heb gydsyniad Gweinidogion Lloegr'? Pam nad yw'n ateb hynny? Am nad yw'n deall, a dyna'r broblem. Mae gennym Ysgrifennydd Gwladol ac arweinydd yr wrthblaid sydd ddim yn gweld canlyniadau'r hyn a gynigir. Mae'r pwerau a geir yn yr Atodlen yn mynd â ni'n ôl i'r dyddiau cyn dyfarniad y Goruchaf Lys—cyn dyfarniad y Goruchaf Lys. Y Bil is-ddeddfau llywodraeth leol—ni allem fod wedi'i basio. Ni allai hyd yn oed fod wedi cyrraedd y Goruchaf Lys ar sail y Bil hwn, oherwydd byddai wedi bod angen caniatâd un o Weinidogion y Goron, a phe na bai wedi ei gael, pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol blaenorol wedi'i wrthod, ni allem fod wedi pasio'r Bil is-ddeddfau llywodraeth leol. Dewch inni glywed esboniad am hynny—pam mae'n rhaid i bobl Cymru gael y system hon lle mae'n rhaid cael ymyrraeth Whitehall i ganiatáu deddfu yng Nghymru. [Torri ar draws.] Y Ddeddf trawsblannu dynol. Soniodd Paul Davies amdani yr wythnos diwethaf. Ni allem fod wedi ei phasio. Nid yw'r Bil yn gwneud dim i egluro'r materion cymhwysedd mewn gwirionedd. Yn wir, mae'n mynd â ni tuag yn ôl.

Rydw i'n fwy na pharod i weithio gyda'r pleidiau eraill ar hyn. Byddai'n well gen i pe baent yn deall y cwestiynau'n iawn ac yn rhoi atebion go iawn. Byddai'n well gen i pe na bai Cymru'n cael ei thrin fel rhyw fath o genedl eilradd o'i chymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn hoff o beidio â gweld feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru; dyna beth yw cydsyniadau Gweinidogion y Goron. Byddwn yn gwerthfawrogi pe baem yn gweld estyniad o ddatganoli, fel yr addawodd y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol, a byddwn yn gwerthfawrogi pe na bai'r ddeddfwriaeth yn dweud mai dim ond dan amgylchiadau eithriadol, i bob diben, y gallwn newid y gyfraith o ran cyfraith droseddol, sifil a theulu. Nid dyna beth y pleidleisiodd pobl Cymru amdano yn 2011. Nid oes dim ffordd y gallai Prif Weinidog rhesymegol o unrhyw blaid sy'n gweithredu er budd Cymru dderbyn y Bil hwn fel y mae.

Senedd.tv Fideo Video

One of the things I'm confused about is that the Secretary of State said that the draft Bill was there and he would listen to representations that were made, and what the leader of the opposition said is, 'This draft Bill I have to support, regardless of whatever it looks like.' Well, I'm sorry, that's not good enough, nor is it good enough to imply, as the Secretary of State said, that somehow this was linked to fair funding for Wales: we accept the flawed constitutional settlement in order for funding for Wales to be addressed. Let's get this Bill right for the people of Wales. Let's make sure we don't have the flawed Bill that we have at the moment. Let's not take devolution backwards and, for goodness' sake, let the Prime Minister stay true to his word and his party—allegedly—and treat the people of Wales with respect.

Un o'r pethau sy'n fy nrysu yw bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud bod y Bil drafft yno ac y byddai'n gwrando ar sylwadau a wnaed, ac mai'r hyn a ddywedodd arweinydd yr wrthblaid yw, 'Rhaid imi gefnogi'r Bil drafft hwn, ni waeth sut y mae'n edrych.' Wel, mae'n ddrwg gen i, nid yw hynny'n ddigon da, ac nid yw'n ddigon da ychwaith i awgrymu, fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol, bod hyn rywsut yn gysylltiedig â chyllid teg i Gymru: rydym yn derbyn y setliad cyfansoddiadol diffygiol er mwyn i gyllid Cymru gael sylw. Dewch inni gael y Bil hwn yn iawn er mwyn pobl Cymru. Dewch inni wneud yn siŵr nad ydym yn cael y Bil diffygiol sydd gennym ar hyn o bryd. Dewch inni beidio â mynd â datganoli tuag yn ôl ac, er mwyn dyn, beth am i'r Prif Weinidog aros yn driw i'w air a'i blaid—yn honedig—a thrin pobl Cymru â pharch.

14:42

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Today's draft Bill confirms our worst fears. We know that there has not been any kind of rational exercise looking at the relationship between Wales and England, and there has been little consideration as to what responsibility should be exercised at the UK level. First Minister, as you said, we were both in the negotiations during the St David's Day process—something that I still see being described as an agreement, even though no agreement was reached. I have been critical of your party at the other end of the M4 for being so close to the Secretary of State than you were, as First Minister. But my focus now is not on a party political fight, but on what happens to this draft Bill and how we can secure a better outcome, which enables the improvements that people deserve here.

Mae Bil drafft heddiw'n cadarnhau ein hofnau gwaethaf. Rydym yn gwybod na fu unrhyw fath o ymarfer rhesymegol i edrych ar y berthynas rhwng Cymru a Lloegr, ac ni fu prin ddim ystyriaeth ynghylch pa gyfrifoldeb y dylid ei arfer ar lefel y DU. Brif Weinidog, fel y dywedasoch, roeddem ill dau yn y trafodaethau yn ystod proses Dydd Gŵyl Dewi—rhywbeth yr wyf yn dal i'w weld yn cael ei ddisgrifio fel cytundeb, er na ddaethpwyd i gytundeb. Rwyf wedi bod yn feirniadol o'ch plaid ym mhen arall yr M4 am fod mor agos at yr Ysgrifennydd Gwladol nag yr oeddech chi, fel Prif Weinidog. Ond mae fy ffocws nawr, nid ar frwydr rhwng pleidiau gwleidyddol, ond ar yr hyn sy'n digwydd i'r Bil drafft hwn a sut y gallwn sicrhau canlyniad gwell, sy'n galluogi'r gwelliannau y mae pobl yn eu haeddu yma.

First Minister, would you agree with Plaid Cymru that the set of powers and responsibilities to be reserved to Westminster clearly demarcate our status as being a second-rate nation in comparison to the other devolved countries?

Brif Weinidog, a fyddech yn cytuno â Phlaid Cymru bod y set o bwerau a chyfrifoldebau a gaiff eu cadw yn San Steffan yn diffinio ein statws yn glir fel cenedl eilradd o'u cymharu â'r gwledydd datganoledig eraill?

First Minister, I addressed some of the other issues during the Plaid Cymru debate on this question last week, and I looked at the non-reservation of policing and criminal justice and the creation of a distinct legal jurisdiction. We now have majority support in this Assembly for the Plaid Cymru motion on those matters. So, what strategy will you now undertake on those matters relating to justice?

Brif Weinidog, rhoddais sylw i rai o'r materion eraill yn ystod dadl Plaid Cymru ar y cwestiwn hwn yr wythnos diwethaf, a bûm yn edrych ar beidio â chadw pwerau plismona a chyfiawnder troseddol a chreu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Erbyn hyn mae gennym gefnogaeth y mwyafrif yn y Cynulliad hwn i gynnig Plaid Cymru ar y materion hynny. Felly, pa strategaeth y byddwch yn ei defnyddio nawr ar y materion hynny sy'n ymwneud â chyfiawnder?

Touching on the issue of criminal and civil penalties, you'll be aware that Schedule 7B to today's draft Bill contains an attempt to enable the Assembly to legislate in a way that will have no greater effect on the reserved powers than is necessary. Do you agree, First Minister, that the entire set of restrictions is needlessly complex and unworkable? The provisions requiring Westminster consent to Assembly Bills brings back bad memories of the dreaded legislative competence Order system. Would you agree with me that it is unacceptable for the UK Government to seek English votes for English laws in the House of Commons whilst introducing an English veto on Welsh laws here?

A sôn am fater cosbau troseddol a sifil, byddwch yn ymwybodol bod Atodlen 7B i Fil drafft heddiw'n cynnwys ymgais i alluogi'r Cynulliad i ddeddfu mewn ffordd na fydd yn cael dim mwy o effaith ar y pwerau a gedwir nag sydd ei hangen. A ydych yn cytuno, Brif Weinidog, bod yr holl gyfres o gyfyngiadau'n ddiangen o gymhleth ac yn anymarferol? Mae'r darpariaethau sy'n gofyn caniatâd San Steffan i Filiau'r Cynulliad yn dod ag atgofion drwg o'r system Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol bondigrybwyll. A fyddech yn cytuno â mi ei bod yn annerbyniol i Lywodraeth y DU geisio pleidleisiau o Loegr ar gyfer cyfreithiau Lloegr yn Nhŷ'r Cyffredin a chyflwyno feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru yma ar yr un pryd?

The final point I make is that this Bill is too big and too significant to be dealt with by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, in our view. Would you agree, First Minister, that it should be a matter dealt with by the whole of this Assembly—a committee of the whole Senedd? I would finally appeal to all Members here: let's all work together to make sure that this is not a massive missed opportunity.

Y pwynt olaf yr wyf yn ei wneud yw bod y Bil hwn yn rhy fawr ac yn rhy bwysig i gael ei drin gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn ein barn ni. A fyddech yn cytuno, Brif Weinidog, y dylai fod yn fater i'r Cynulliad cyfan ymdrin ag ef—pwyllgor o'r Senedd gyfan? Yn olaf, byddwn yn apelio at bob Aelod yma: dewch i ni gyd weithio gyda'n gilydd i wneud yn siŵr nad ydym yn colli'r cyfle enfawr hwn.

14:45

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The difficulty with it as it stands is that, even though it purports to be a reserved-powers model, it actually reserves the law. That's a huge area. It basically has a conferred-powers model for the law. What it effectively says is that, where the Assembly wishes to change the law, or impose penalties, for example, in terms of the criminal law, there should be no greater effect on the law than is necessary to enforce the legislation. What on earth does that mean? It doesn't mean anything. At its extreme, you could say that the Assembly doesn't need to enforce legislation because Westminster can do it for the Assembly, but it doesn't make sense from a drafting point of view. It is lifted from the Scotland Act, but the problem is that the Scottish devolution settlement's much broader, so it doesn't catch in the same way. Why is the community infrastructure levy not devolved, for example, just to give you one example there? Why is it, for example, that the Assembly doesn't have a free hand to change the law in the areas that are devolved? It doesn't, with the test that's being applied here. It's just pettiness; petty controls and rules that have to be applied somehow to Wales. Why should Wales not be able to make consequential and incidental amendments to Minister of the Crown powers as it has been able to do up until now? Oh no, that goes—we can't do that.

Yr anhawster ag ef fel y mae yw, er ei fod yn honni ei fod yn fodel cadw pwerau, mewn gwirionedd mae'n cadw'r gyfraith. Mae hwnnw'n faes enfawr. Yn y bôn, mae'n defnyddio model rhoi pwerau ar gyfer y gyfraith. Yr hyn y mae'n ei ddweud, i bob diben, yw lle bo'r Cynulliad yn dymuno newid y gyfraith, neu osod cosbau, er enghraifft, o ran y gyfraith droseddol, na ddylai fod dim mwy o effaith ar y gyfraith nag sydd ei angen i orfodi'r ddeddfwriaeth. Beth ar y ddaear mae hynny'n ei olygu? Nid yw'n golygu dim. Yn ei eithaf, gallech ddweud nad oes angen i'r Cynulliad orfodi deddfwriaeth oherwydd gall San Steffan wneud hynny ar ran y Cynulliad, ond nid yw'n gwneud synnwyr o safbwynt drafftio. Mae wedi'i gymryd o Ddeddf yr Alban, ond y broblem yw bod setliad datganoli'r Alban yn llawer ehangach, felly nid yw'n dal yn yr un ffordd. Pam nad yw'r ardoll seilwaith cymunedol wedi'i datganoli, er enghraifft, i roi dim ond un enghraifft ichi? Pam, er enghraifft, nad oes gan y Cynulliad law rydd i newid y gyfraith yn y meysydd sydd wedi'u datganoli? Nid oes ganddo hynny, gyda'r prawf sy'n cael ei gymhwyso yn y fan hyn. Maent yn ddibwys; rheolaethau a rheolau pitw y mae'n rhaid eu cymhwyso rywsut i Gymru. Pam na ddylai Cymru allu gwneud diwygiadau canlyniadol ac atodol i bwerau Gweinidogion y Goron fel y mae wedi gallu ei wneud hyd yn hyn? O na, mae hynny'n mynd—allwn ni ddim gwneud hynny.

The problem is that it will not be possible, on this current Bill, for any party to go into next May's election with any certainty as to what the Assembly's powers are. That's bad for democracy. We will all, as parties, have proposals for legislation. These restrictions don't exist in Scotland and they don't exist in England. Why is it that, in Wales, parties have to think, 'Hang on a second. Can we do that? Or can we do it in part? Can we do it totally?'. What's devolved should be devolved. Let's get rid of these Minister of the Crown consents. All they do is impose petty, nonsensical rules on Welsh legislation and this institution. We need to look again at the specific powers, because what's happened is that, where there's uncertainty—it's right to say that clarity's been brought—it's shifted the balance back in favour of Whitehall. If you ask Whitehall departments what they think should be devolved, they're going to tell you what they think should be devolved, and that's what's in this Bill. That's what the Secretary of State actually did, rather than thinking, 'Hang on a second, that's not right for Wales. That area's already devolved. We don't want Whitehall impinging on that'.

Y broblem yw na fydd yn bosibl, ar y Bil presennol hwn, i unrhyw blaid fynd i mewn i etholiad mis Mai nesaf ag unrhyw sicrwydd ynghylch beth yw pwerau'r Cynulliad. Mae hynny'n ddrwg i ddemocratiaeth. Bydd gennym i gyd, fel pleidiau, gynigion ar gyfer deddfwriaeth. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn bodoli yn yr Alban ac nid ydynt yn bodoli yn Lloegr. Pam mae'n rhaid i bleidiau, yng Nghymru, feddwl, 'Arhoswch eiliad. Allwn ni wneud hynny? Neu allwn ni ei wneud yn rhannol? Allwn ni ei wneud yn llwyr?'. Os yw rhywbeth wedi'i ddatganoli, dylai fod wedi'i ddatganoli. Dewch inni gael gwared ar y cydsyniadau Gweinidogion y Goron hyn. Yr oll y maent yn ei wneud yw gosod rheolau pitw, disynnwyr ar ddeddfwriaeth Cymru a'r sefydliad hwn. Mae angen inni edrych eto ar y pwerau penodol, oherwydd yr hyn sydd wedi digwydd yw, lle mae ansicrwydd—mae'n deg dweud bod eglurder wedi dod—mae wedi symud y cydbwysedd yn ôl o blaid Whitehall. Os gofynnwch i adrannau Whitehall beth maent yn meddwl y dylid ei ddatganoli, byddant yn dweud wrthych beth maent yn meddwl y dylid ei ddatganoli, a dyna beth sydd yn y Bil hwn. Dyna beth wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol mewn gwirionedd, yn hytrach na meddwl, 'Arhoswch eiliad, nid yw hynny'n iawn i Gymru. Mae'r maes hwnnw eisoes wedi'i ddatganoli. Nid ydym am i Whitehall amharu ar hynny'.

This is a huge opportunity. We will continue—. We're not breaking off relations with the UK Government. It's a huge opportunity to discuss it at a political level, and to discuss it at an Assembly level. I wrote to the Prime Minister on 1 October asking for a meeting on this. He hasn't responded yet. It's important that we get this right. The consequences are a constitutional crisis. I don't want to see that. I don't think the party opposite wants to see that, either. But we need to understand that what's on the table is badly flawed, and trying to defend it gives the impression that nothing will be acceptable in terms of trying to improve it, which is unfortunate. We've gone through this legislation with a fine-toothed comb. We can see the difficulties that it would cause. The human transplantation Act, as I said, if a Secretary of State decided not to give Minister of the Crown consent, would not have happened—same with the well-being Bill, same with the Qualifications Wales Act, and the same with 19 pieces of legislation. It is an English veto on Welsh laws, and that is not acceptable either now or remembering what happened in the 2011 referendum when the people of Wales thought that they were voting to make sure that this legislature, which represents them, should have a free hand in the areas that are devolved.

Mae hwn yn gyfle enfawr. Byddwn yn parhau—. Nid ydym yn torri cysylltiadau â Llywodraeth y DU. Mae'n gyfle enfawr i drafod hyn ar lefel wleidyddol, ac i'w drafod ar lefel y Cynulliad. Ysgrifennais at y Prif Weinidog ar 1 Hydref i ofyn am gyfarfod ar hyn. Nid yw wedi ymateb hyd yma. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Y canlyniadau yw argyfwng cyfansoddiadol. Ni hoffwn weld hynny. Nid wyf yn credu yr hoffai'r blaid gyferbyn weld hynny, ychwaith. Ond mae angen inni ddeall bod yr hyn sydd ar y bwrdd yn ddiffygiol iawn, ac mae ceisio ei amddiffyn yn rhoi'r argraff na fydd dim byd yn dderbyniol o ran ceisio ei wella, sy'n anffodus. Rydym wedi mynd drwy'r ddeddfwriaeth hon â chrib fân. Gallwn weld yr anawsterau y byddai'n eu hachosi. Ni fyddai'r Ddeddf trawsblannu dynol, fel y dywedais, pe bai Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu peidio â rhoi caniatâd Gweinidog y Goron, wedi digwydd—yr un fath gyda'r Bil llesiant, yr un fath gyda Deddf Cymwysterau Cymru, a'r un fath gyda 19 darn o ddeddfwriaeth. Feto i Loegr ar gyfreithiau Cymru yw hyn, ac nid yw hynny'n dderbyniol nawr nac o gofio beth ddigwyddodd yn refferendwm 2011 pan oedd pobl Cymru yn meddwl eu bod yn pleidleisio i wneud yn siŵr y dylai'r ddeddfwrfa hon, sy'n eu cynrychioli, gael llaw rydd yn y meysydd sydd wedi'u datganoli.

14:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It was with some sadness that, having watched over the last five years all the hard work of politicians and, more importantly, non-politicians who participated in the Silk process, and the many hours that have been spent trying to deliver the St David's Day agreement, that what has resulted is the draft Bill that is before us today. First Minister, I don't know whether you would agree with me—your last sentence seems to suggest that you will—that the people of Wales at the last referendum rejected the principle that this institution should have to seek permission from Westminster to legislate, and they did so having had many years of experience of what that system meant. It meant that, even when there was a cross-party agreement in this Chamber to introduce new, progressive mental health laws, they were delayed because of the hoops we had to jump through at a Westminster level. What is before us today potentially takes us back to a situation where the democratically elected Members of this Chamber, on behalf of the people of Wales, will have their actions thwarted by a UK Government who may or may not decide they like what we are doing. That cannot be acceptable to the people of Wales who rejected that system in the last referendum vote that we had.

Mae'n eithaf trist, ar ôl gwylio'r holl waith caled dros y pum mlynedd diwethaf gan wleidyddion ac, yn bwysicach, gan bobl sydd ddim yn wleidyddion a gymerodd ran ym mhroses Silk, a'r oriau lawer a dreuliwyd yn ceisio cyflawni'r cytundeb Dydd Gŵyl Dewi, bod hynny i gyd wedi arwain at y Bil drafft sydd ger ein bron heddiw. Brif Weinidog, ni wn a fyddech yn cytuno â mi—mae'n ymddangos bod eich brawddeg olaf yn awgrymu y byddech—bod pobl Cymru yn y refferendwm diwethaf wedi gwrthod yr egwyddor y dylai fod rhaid i'r sefydliad hwn ofyn am ganiatâd gan San Steffan i ddeddfu, a'u bod wedi gwneud hynny ar ôl cael nifer o flynyddoedd o brofiad o'r hyn yr oedd y system honno'n ei olygu. Roedd yn golygu, hyd yn oed pan oedd cytundeb trawsbleidiol yn y Siambr hon i gyflwyno cyfreithiau iechyd meddwl newydd, blaengar, y cawsant eu gohirio oherwydd y cylchoedd yr oedd rhaid inni neidio drwyddynt ar lefel San Steffan. Mae'r hyn sydd ger ein bron heddiw'n rhywbeth a allai fynd â ni'n ôl at sefyllfa lle mae'r Aelodau o'r Siambr hon sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, ar ran pobl Cymru, yn cael eu rhwystro gan Lywodraeth y DU os ydynt yn penderfynu nad ydynt yn hoff o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Ni all hynny fod yn dderbyniol i bobl Cymru a wrthododd y system honno yn y bleidlais refferendwm diwethaf a gawsom.

Could the First Minister also give further clarity to the Chamber around this 'test of necessity' and what that will actually mean in reality for the ability of this Chamber and the Welsh Government to take decisions?

A allai'r Prif Weinidog hefyd roi mwy o eglurder i'r Siambr ynglŷn â'r 'prawf o reidrwydd' hwn a beth y bydd yn ei olygu mewn gwirionedd i allu'r Siambr hon a Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau?

First Minister, would you also consider how best we can move this situation forward? The legislative opportunity is in front of us. I and my party don't want to see the momentum of taking the devolution project forward lost. What can we all do now to ensure that we can have our voices heard during this pre-legislative scrutiny phase? Hopefully, the Bill that will emerge from that process is a Bill that achieves what I want to achieve and my party wants to achieve, and that is a strong, secure and clear devolution settlement for the people of Wales; one that is coherent and one that doesn't say, 'Yes, you can make a decision about speed limits, but you can't do anything about the drink driving laws'. If I can correct you, First Minister, the leader of the Conservative Party did say something at the meeting in London—he explained to us why we shouldn't be able to have drink driving laws. So, you were unfair to the Member. Why should we have a system that has such peculiarities and such inconsistencies, which will do nothing to deliver what we all want to deliver, which is great public services for the people of Wales?

Brif Weinidog, a wnewch hefyd ystyried beth yw'r ffordd orau inni symud y sefyllfa hon ymlaen? Mae'r cyfle deddfwriaethol o'n blaenau. Nid wyf fi na fy mhlaid am weld colli'r momentwm o fwrw ymlaen â phrosiect datganoli. Beth allwn ni i gyd ei wneud yn awr i sicrhau y cawn ddweud ein dweud yn ystod y cyfnod craffu cyn deddfu hwn? Gobeithio y bydd y Bil a fydd yn deillio o'r broses honno'n Fil sy'n cyflawni'r hyn yr hoffwn i ei gyflawni ac yr hoffai fy mhlaid ei gyflawni, sef setliad datganoli cryf, diogel a chlir i bobl Cymru; un sy'n gydlynol ac un nad yw'n dweud, 'Cewch, cewch chi wneud penderfyniad am gyfyngiadau cyflymder, ond chewch chi ddim gwneud dim byd am y deddfau yfed a gyrru'. Os caf eich cywiro, Brif Weinidog, dywedodd arweinydd y Blaid Geidwadol rywbeth yn y cyfarfod yn Llundain—eglurodd wrthym pam na ddylem allu cael cyfreithiau yfed a gyrru. Felly, roeddech yn annheg â'r Aelod. Pam ddylai fod gennym system â hynodion o'r fath ac anghysondebau o'r fath, na fydd yn gwneud dim i gyflawni'r hyn yr ydym i gyd am ei gyflawni, sef gwasanaethau cyhoeddus gwych i bobl Cymru?

14:52

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is the great constitutional question that transcends, to my mind, party politics. It's important that we have a scenario where we don't have the UK Government saying this is political games. I offered the chance for the Secretary of State to delay the Bill for the simple reason I didn't think it was right. I said, 'Look, this hasn't been thought through. We haven't seen most of it. Let's work on it to get it right'. 'I won't criticise you'—I said to him, 'I won't criticise you if you delay it. But, let's get it right further on down the line'. Then, we had the Secretary of State criticising me for playing political games at the very moment his officials were meeting mine, would you believe. You couldn't make it up, but that's actually true. There it is.

Dyma'r cwestiwn cyfansoddiadol mawr sy'n bwysicach, yn fy marn i, na gwleidyddiaeth bleidiol. Mae'n bwysig bod gennym sefyllfa lle nad yw Llywodraeth y DU yn dweud mai gemau gwleidyddol yw hyn. Rhoddais gyfle i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio'r Bil am y rheswm syml nad oeddwn yn meddwl ei fod yn iawn. Dywedais, 'Edrychwch, nid yw hwn wedi cael ei ystyried yn drwyadl. Nid ydym wedi gweld y rhan fwyaf ohono. Dewch inni weithio arno i'w gael yn iawn'. 'Ni wnaf eich beirniadu'—dywedais wrtho, 'ni wnaf eich beirniadu am ei ohirio. Ond, dewch inni ei gael yn iawn yn nes ymlaen'. Yna, cefais i fy meirniadu gan yr Ysgrifennydd Gwladol am chwarae gemau gwleidyddol ar yr union foment yr oedd ei swyddogion yn cyfarfod â fy rhai i, credwch neu beidio. Mae'r peth yn anhygoel, ond mae'n wir. Dyna chi.

As far as what the leader of the Liberal Democrats has said, this is precisely the point—this is an important issue and it needs to stand the test of time. Any old rubbish as a settlement won't do. We've lived with that. My own party can hold its hand up as well in that regard. I make that point—what we have done in the past has not been clear in terms of the devolution settlement. It's right that we recognise that. It's right that the Conservatives recognise the point about this devolution settlement as well.

O ran yr hyn a ddywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, dyma'n union yw'r pwynt—mae hwn yn fater pwysig ac mae angen iddo sefyll prawf amser. Ni wnaiff unrhyw hen sothach o setliad y tro. Rydym wedi byw gyda hynny. Gall fy mhlaid fy hun godi ei llaw hefyd yn hynny o beth. Rwy'n gwneud y pwynt hwnnw—dydy'r hyn yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol ddim wedi bod yn glir o ran y setliad datganoli. Mae'n iawn ein bod yn cydnabod hynny. Mae'n iawn bod y Ceidwadwyr yn cydnabod y pwynt am y setliad datganoli hwn hefyd.

I have no idea what the 'necessity test' means; it was not my suggestion. My fear is—well, I can give you some of the background, because the suggestion has been made to me that it's designed to make sure there's not too much divergence between the laws of England and Wales, as if there was a quota system in place for Welsh law. Well, that's ludicrous. All because of the single jurisdiction—we can't have much of a difference between England and Wales as part of the single jurisdiction. It's nonsensical. The people of Wales weren't told, 'Yes, you can have law-making powers, but there's a limit every year, pretty much, in terms of what you can do'. That's ridiculous.

Nid oes gennyf syniad beth yw ystyr y 'prawf anghenraid'; nid fy awgrym i ydoedd. Fy ofn yw—wel, gallaf roi rhywfaint o'r cefndir ichi, oherwydd rwyf wedi clywed awgrym ei fod wedi'i gynllunio i wneud yn siŵr nad oes gormod o wahaniaeth rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr, fel pe bai system gwota wedi'i gosod ar gyfer cyfraith Cymru. Wel, mae hynny'n chwerthinllyd. Hyn i gyd oherwydd yr awdurdodaeth sengl—ni allwn gael llawer o wahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr fel rhan o'r awdurdodaeth sengl. Mae'n hurt. Ni wnaeth neb ddweud wrth bobl Cymru, 'Iawn, cewch chi gael pwerau deddfu, ond mae cyfyngiad bob blwyddyn, fwy neu lai, o ran yr hyn y cewch chi ei wneud'. Mae hynny'n hurt.

I have to say, in relation to what the leader of the opposition said, his speech, I have to say, was a weak speech. Why go on to A&E figures? I mean, it's nothing to do with the issue before us today. People will want to know that, when parties say they will deliver legislation, it'll be delivered and there won't be an English veto on that legislation. That's important to people. It's important to people that the human transplantation Act went through. It couldn't have done under this new arrangement. It's important that the legislation on qualifications and social services went through. That couldn't have happened under this new arrangement. It's not some kind of constitutional wonkery; it goes to the very heart of what this Assembly can actually do.

Rhaid imi ddweud, o ran yr hyn a ddywedodd arweinydd yr wrthblaid, roedd ei araith, rhaid imi ddweud, yn araith wan. Pam mynd ymlaen i sôn am ffigurau adrannau damweiniau ac achosion brys? Hynny yw, does gan hynny ddim i'w wneud â'r mater ger ein bron heddiw. Bydd pobl eisiau gwybod, pan fo pleidiau'n dweud eu bod am gyflwyno deddfwriaeth, y caiff ei chyflwyno ac na fydd feto o Loegr ar y ddeddfwriaeth honno. Mae hynny'n bwysig i bobl. Mae'n bwysig i bobl bod y Ddeddf trawsblannu dynol wedi mynd drwodd. Ni allai fod wedi digwydd dan y trefniant newydd hwn. Mae'n bwysig bod y ddeddfwriaeth ar gymwysterau a gwasanaethau cymdeithasol wedi mynd drwodd. Ni allai hynny fod wedi digwydd o dan y trefniant newydd hwn. Nid rhyw fath o ffwlbri cyfansoddiadol yw hyn; mae'n mynd at wraidd yr hyn y gall y Cynulliad hwn ei wneud mewn gwirionedd.

We talk about the police. I've heard many times from the party opposite that the police can't be devolved. It's good enough for the north-east of England and it's good enough for the north-west of England, but it's not good enough for Wales. I've got to say to the party opposite, because I know that there are different views on those benches, that I'm not looking to lay into the Conservative Party as a whole, of course not, and I know there are more thoughtful voices who understand the issues on the benches opposite as well, but I do have to make the point that it's important to ensure that there is proper consultation on the draft Bill, and that this Assembly, which represents the people of Wales and was elected by the people of Wales, has an opportunity to shape this Bill and we don't end up in a situation where the Bill is imposed on the people of Wales. I can't imagine a more aggressive or stupid constitutional action to take than that. Now, I don't start from that basis; I don't start from the basis that we need to oppose this Bill in principle. I don't. I want to see a Bill that works, and I'm happy to put the effort in to make sure that happens. We need to see that effort replicated by the UK Government.

Rydym yn sôn am yr heddlu. Rydw i wedi clywed lawer gwaith gan y blaid gyferbyn nad oes modd datganoli'r heddlu. Mae'n ddigon da i ogledd-ddwyrain Lloegr ac mae'n ddigon da i ogledd-orllewin Lloegr, ond nid yw'n ddigon da i Gymru. Mae'n rhaid imi ddweud wrth y blaid gyferbyn, gan fy mod yn gwybod bod yna farn wahanol ar y meinciau hynny, nad wyf yn bwriadu ymosod ar y Blaid Geidwadol yn ei chyfanrwydd, wrth gwrs nad wyf, ac rwy'n gwybod bod rhai lleisiau mwy ystyriol sy'n deall y materion ar y meinciau gyferbyn hefyd, ond mae'n rhaid imi wneud y pwynt ei bod yn bwysig sicrhau bod yna ymgynghori priodol ar y Bil drafft, a bod y Cynulliad hwn, sy'n cynrychioli pobl Cymru ac a gafodd ei ethol gan bobl Cymru, yn cael cyfle i lunio'r Bil hwn ac na fyddwn yn y pen draw mewn sefyllfa lle mae'r Bil yn cael ei osod ar bobl Cymru. Ni allaf ddychmygu gweithred gyfansoddiadol fwy ymosodol na gwirion i'w gwneud na hynny. Nawr, nid wyf yn dechrau o'r sail honno; nid wyf yn dechrau o'r sail bod angen inni wrthwynebu'r Bil hwn mewn egwyddor. Nid wyf. Hoffwn weld Bil sy'n gweithio, ac rwy'n hapus i ymdrechu i wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd. Mae angen inni weld Llywodraeth y DU yn gwneud yr un ymdrech.

14:55

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, may I firstly welcome the proposal you made about the suspension of Standing Orders in order to enable proper debate on this, because, like most Members of the Assembly, we've only just today seen the actual draft Bill, and it obviously requires quite an amount of working through? But, can I say that, in the debate so far, and the debate that has been taking place within the media, I've listened very carefully to what the Secretary of State for Wales has previously said, and not once has he actually addressed the key to the issue, and that is that the legislation has to be fit for purpose? It's all very well having a tick-box approach to various powers and the delivery of a Bill, but legislation has to be fit for purpose.

Brif Weinidog, a gaf i ddechrau drwy groesawu'r cynnig a wnaethoch am atal Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi dadl briodol am hyn, oherwydd, fel y rhan fwyaf o Aelodau'r Cynulliad, dim ond heddiw yr ydym wedi gweld y Bil drafft ei hun, ac mae'n amlwg bod angen cryn dipyn o waith darllen arno? Ond, a gaf i ddweud, yn y ddadl hyd yn hyn, a'r ddadl sydd wedi bod yn digwydd o fewn y cyfryngau, rwyf wedi gwrando'n ofalus iawn ar yr hyn y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi'i ddweud o'r blaen, ac nid yw unwaith wedi rhoi sylw i'r mater allweddol go iawn, sef bod rhaid i'r ddeddfwriaeth fod yn addas i'w diben? Mae'n ddigon teg defnyddio dull ticio blychau ar gyfer pwerau amrywiol ac wrth gyflwyno Bil, ond mae'n rhaid i ddeddfwriaeth fod yn addas i'w diben.

Now, I had presumed maybe it was the Secretary of State for Wales's lack of understanding of constitutional issues, until one actually hears the leader of the opposition and understands that this is actually quite a deep-rooted problem within the Tory party, because I haven't heard the leader of the opposition once talk about the fact that this Bill needs to be fit for purpose. The moment you talk about fitness for purpose, you actually get to the nub of what was discussed in the agricultural judgment about how legislation and constitutional legislation actually works. If the legislation does not have clarity, if it does not have simplicity and workability, then it will fail and we will be down the road of another five or 10 years of constitutional confusion and delay in our ability to develop and implement policies and particular laws.

Nawr, roeddwn wedi tybio efallai mai diffyg dealltwriaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru o faterion cyfansoddiadol oedd hyn, nes i rywun wrando ar arweinydd yr wrthblaid a deall bod hon mewn gwirionedd yn broblem eithaf dwfn o fewn y blaid Dorïaidd, oherwydd nid wyf erioed wedi clywed arweinydd yr wrthblaid yn sôn am y ffaith bod angen i'r Bil hwn fod yn addas i'w ddiben. Cyn gynted â'ch bod yn sôn am addasrwydd i'r diben, rydych mewn gwirionedd yn cyrraedd craidd yr hyn a drafodwyd yn y dyfarniad amaethyddol ynglŷn â sut y mae deddfwriaeth a deddfwriaeth gyfansoddiadol yn gweithio mewn gwirionedd. Os nad yw'r ddeddfwriaeth yn glir, os nad yw'n syml ac yn ymarferol, bydd yn methu a byddwn ar y ffordd at bump neu 10 mlynedd arall o ddryswch cyfansoddiadol ac oedi o ran ein gallu i ddatblygu a gweithredu polisïau a deddfau penodol.

There are many aspects of the reserved powers that I am not particularly happy with. I think there are things that could be added or removed, but that will take place in that further debate. Can I just say this, First Minister: hopefully there will be further meetings and there will be an opportunity to actually discuss the fitness for purpose? Can we perhaps try and seek an assurance from the Secretary of State for Wales and, perhaps, from the leader of the opposition here, that they are in agreement that this legislation has to be fit for purpose, and perhaps ask them if they could define what they actually understand 'fitness for purpose' to mean, because until they have an understanding of that, it is very difficult to move on with the constitutional debate?

Mae sawl agwedd ar y pwerau a gedwir nad wyf yn arbennig o hapus â nhw. Rwy'n meddwl bod yna bethau y gellid eu hychwanegu neu eu dileu, ond bydd hynny'n digwydd yn y drafodaeth bellach honno. Gaf i ddweud hyn, Brif Weinidog: gobeithio y bydd cyfarfodydd pellach ac y bydd cyfle i drafod addasrwydd i'r diben yn iawn? A allwn ni o bosibl geisio cael sicrwydd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac, efallai, gan arweinydd yr wrthblaid yma, eu bod yn cytuno bod rhaid i'r ddeddfwriaeth hon fod yn addas i'w diben, a gofyn iddynt efallai a allent ddiffinio beth yw ystyr 'addasrwydd i'r diben' iddynt hwy mewn gwirionedd, oherwydd hyd nes eu bod yn deall hynny, mae'n anodd iawn bwrw ymlaen â'r ddadl gyfansoddiadol?

14:58

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It was noticeable that there was a lack of understanding about what 'Minister of the Crown consents' meant on the benches opposite—not all of them, but some on the benches opposite. The reality is, saying 'It happens now', which is what the leader of opposition said, shows why we need to have it clarified. That's the whole point. I thought the whole idea of this Bill was to make sure we had greater clarity, and he's arguing for that clarity to be further muddied. Now, it's important that Members have the ability to look at the Bill in its entirety. It's not a simple piece of legislation, far from it. It's the equivalent of trying to construct a road from Wrexham to London and building a few bridges and going via the Shetland Islands, in terms of what it's trying to achieve. But, there we are, it can be worked on in that regard.

Roedd yn amlwg bod yna ddiffyg dealltwriaeth o ystyr 'cydsyniadau Gweinidogion y Goron' ar y meinciau gyferbyn—nid pawb ar y meinciau gyferbyn, ond rhai ohonynt. Y gwir amdani yw bod dweud 'Mae'n digwydd nawr', sef yr hyn a ddywedodd arweinydd yr wrthblaid, yn dangos pam mae angen cael eglurhad. Dyna'r holl bwynt. Roeddwn yn meddwl mai holl syniad y Bil hwn oedd gwneud yn siŵr bod gennym fwy o eglurder, ac mae ef yn dadlau dros gymylu'r eglurder hwnnw ymhellach. Nawr, mae'n bwysig bod yr Aelodau'n cael y gallu i edrych ar y Bil yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n ddarn syml o ddeddfwriaeth, o bell ffordd. Mae'n debyg i geisio adeiladu ffordd o Wrecsam i Lundain ac adeiladu rhai pontydd a mynd drwy Ynysoedd Shetland, o ran yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni. Ond, dyna ni, gellir gweithio arno yn hynny o beth.

Do I think this is something that is fit for purpose? No. To give you another example, there is a question in the Bill as drafted as to whether we could even have passed the NHS Redress (Wales) Measure 2008. That's how restrictive the Bill can be. Now, the odd thing is, when I speak to the Secretary of State, he says to me, 'Look, that's not the intention. The intention is to extend the Assembly's powers, to make it easier to legislate'. The Prime Minister said the same to me. Fine, but that's got to be demonstrated by actions as well, and we have to make sure that what we're being told is the same as what actually happens. That's why it's important that the Bill is scrutinised further. I say this now, and I don't believe I'm speaking on behalf just of my own party: we're not going to accept the Bill as presented as a fait accompli. It's not happening. You wouldn't expect David Cameron to do that, so why on earth would you expect the First Minister of Wales or, indeed, other parties in the Assembly to do that? There has to be proper engagement, there has to be a listening process, there has to be consultation to make sure that people know where the Bill can be extended and improved. If that is what we see, then I very much welcome that, but so far, we've not seen a sign of it. The Secretary of State has said that's what'll happen; I look forward to him keeping to his word.

Ydw i'n meddwl bod hwn yn rhywbeth sy'n addas i'w ddiben? Na. I roi enghraifft arall ichi, mae cwestiwn yn y Bil fel y'i drafftiwyd ynghylch a allem hyd yn oed wedi pasio Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008. Dyna pa mor gyfyngol y gall y Bil fod. Nawr, y peth rhyfedd yw, pan wyf yn siarad â'r Ysgrifennydd Gwladol, mae'n dweud wrthyf, 'Edrychwch, nid dyna'r bwriad. Y bwriad yw ymestyn pwerau'r Cynulliad, i'w gwneud yn haws deddfu'. Dywedodd y Prif Weinidog yr un peth wrthyf. Iawn, ond mae'n rhaid gweithredu i ddangos hynny hefyd, ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod yr hyn yr ydym yn ei glywed yr un fath â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd. Dyna pam mae'n bwysig ein bod yn craffu ymhellach ar y Bil. Rwy'n dweud hyn yn awr, ac nid wyf yn credu fy mod yn siarad ar ran fy mhlaid fy hun yn unig: nid ydym yn mynd i dderbyn y Bil fel mae wedi'i gyflwyno fel fait accompli. Nid yw'n digwydd. Ni fyddech yn disgwyl i David Cameron wneud hynny, felly pam ar y ddaear y byddech yn disgwyl i Brif Weinidog Cymru neu, yn wir, i bleidiau eraill yn y Cynulliad wneud hynny? Mae'n rhaid cael ymgysylltiad priodol, mae'n rhaid cael proses wrando, mae'n rhaid cael ymgynghoriad i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod lle y gallwn ymestyn a gwella'r Bil. Os mai dyna beth welwn ni, rwy'n croesawu hynny'n fawr, ond hyd yn hyn, nid ydym wedi gweld arwydd o hynny. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dweud mai dyna beth fydd yn digwydd; rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn cadw at ei air.

14:59

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I've got two questions. I have to be honest, I have some reservations also about the way that this Bill is constructed. I can understand the principle that the UK Government is trying to follow in terms of the requirement for Minister of the Crown consent where there's an impact on non-devolved areas, in exactly the same way as this National Assembly has to give consent when there's an impact on devolved areas of UK legislation that is proposed. I think it is fair for this to be an issue for discussion during the draft Bill's passage. But, you've made reference on a number of occasions now to specific Bills, and where you think that the National Assembly for Wales would not have been able to pass those Bills had these new arrangements been in place. Would you be able to publish your analysis of those Bills and precisely where those issues might arise, in order to aid the discussion as we inch forward to February next year?

Brif Weinidog, mae gen i ddau gwestiwn. Mae'n rhaid imi fod yn onest, mae gennyf rai amheuon hefyd am y ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i lunio. Gallaf ddeall yr egwyddor y mae Llywodraeth y DU yn ceisio ei dilyn o ran y gofyniad am gydsyniad Gweinidogion y Goron lle ceir effaith ar feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, yn union yr un ffordd ag y mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cydsyniad pan mae deddfwriaeth y DU yn cael ei chynnig sy'n effeithio ar feysydd datganoledig. Credaf ei bod yn deg trafod y mater hwn yn ystod proses y Bil drafft. Ond, rydych wedi cyfeirio ar nifer o achlysuron nawr at Filiau penodol, a lle'r ydych yn credu na fyddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gallu pasio'r Biliau hynny pe bai'r trefniadau newydd hyn wedi bod ar waith. A allech gyhoeddi eich dadansoddiad o'r Biliau hynny ac o ble yn union y gallai'r materion hynny godi, er mwyn cynorthwyo'r drafodaeth wrth inni ymlwybro ymlaen at fis Chwefror y flwyddyn nesaf?

15:00

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that's a reasonable request, and I thank the Member for the question and his candidness. I think we have to accept that there are different views in different parties, which is why I've tried to be clear that I don't see this as a particular attack on any particular party, but on particular viewpoints perhaps. The point I was making was that, initially, we thought it was three; having seen the entire Bill, it's now five Bills that the Assembly could have passed freely without the need for Minister of the Crown consent at some point. I've given some examples there. I have no difficulty in providing a list to Members—they understand the difficulties—and a brief analysis of why we're saying that's the case. Quite often, it will be because there is a need for Minister of the Crown consent, and there's no guarantee that that might be forthcoming. In other areas, it's a question of what appears to be a shifting back in terms of competence, but I've no difficulty in that analysis being made available to aid the debate.

Rwy'n meddwl bod hwnnw'n gais rhesymol, ac rwy'n diolch i'r Aelod am y cwestiwn ac am ei ddidwylledd. Rwy'n credu bod rhaid inni dderbyn bod gwahanol safbwyntiau mewn gwahanol bleidiau, a dyna pam yr wyf wedi ceisio bod yn glir nad wyf yn gweld hyn fel ymosodiad arbennig ar unrhyw blaid benodol, ond ar safbwyntiau penodol efallai. Y pwynt oeddwn yn ei wneud oedd ein bod, i ddechrau, yn meddwl mai tri oedd; ar ôl gweld y Bil cyfan, mae'n awr yn bum Bil y gallai'r Cynulliad fod wedi'u pasio'n rhydd heb fod ag angen cydsyniad Gweinidogion y Goron ar ryw adeg. Rwyf wedi rhoi rhai enghreifftiau. Nid oes gennyf anhawster o ran darparu rhestr i'r Aelodau—maent yn deall yr anawsterau—a dadansoddiad byr o pam yr ydym yn dweud hynny. Yn aml iawn, bydd hynny oherwydd bod angen cydsyniad Gweinidogion y Goron, a does dim sicrwydd y byddem yn ei gael. Mewn meysydd eraill, mae'n fater o ymddangos ein bod yn symud tuag yn ôl o ran cymhwysedd, ond rwy'n fodlon darparu'r dadansoddiad hwnnw i gynorthwyo'r drafodaeth.

15:01

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

I think, like other Members here this afternoon, I was pretty shocked when I saw the Bill this morning. Shocked because it's quite clear that despite a long-trumpeted respect agenda between two Governments, this Bill was not shared largely with the Welsh Government until yesterday. That does not demonstrate respect, it does not demonstrate inter-governmental working and it shows that the UK Government isn't interested in talking to us here and to the Welsh Government, and that is unacceptable—it's completely unacceptable.

Rwy'n meddwl, fel Aelodau eraill yma y prynhawn yma, fy mod wedi cael tipyn o sioc pan welais y Bil y bore yma. Sioc am ei bod yn gwbl glir, er gwaethaf agenda o barch hir-honedig rhwng dwy Lywodraeth, na chafodd y Bil hwn ei rannu i raddau helaeth â Llywodraeth Cymru tan ddoe. Nid yw hynny'n dangos parch, nid yw'n dangos gwaith rhyng-lywodraethol ac mae'n dangos nad oes gan Lywodraeth y DU ddiddordeb mewn siarad â ni yma ac â Llywodraeth Cymru, ac mae hynny'n annerbyniol—mae'n hollol annerbyniol.

Secondly, in terms of the legislation itself, the Secretary of State when he was here in June spoke, I thought, very generously about a settlement that would be a lasting settlement, a stronger settlement, a fairer settlement and a clearer settlement. I'd like to know if the First Minister believes he's achieved any of those objectives in publishing the draft Bill today. In doing so, the Secretary of State also said that there have to be powers with a purpose. Of course, in a reserved model, the powers that are reserved must have a purpose, and I wonder if the Secretary of State has yet explained why those powers are reserved and what is the purpose of those powers.

Yn ail, o ran y ddeddfwriaeth ei hun, roeddwn yn meddwl bod yr Ysgrifennydd Gwladol, pan oedd yma ym mis Mehefin, wedi siarad yn hael iawn am setliad a fyddai'n setliad parhaol, yn setliad cryfach, yn setliad tecach ac yn setliad cliriach. Hoffwn wybod a yw'r Prif Weinidog yn credu ei fod wedi cyflawni unrhyw rai o'r amcanion hynny wrth gyhoeddi'r Bil drafft heddiw. Wrth wneud hynny, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd fod rhaid cael pwerau gyda phwrpas. Wrth gwrs, mewn model cadw, rhaid cael pwrpas i'r pwerau sy'n cael eu cadw, ac rwy'n meddwl tybed a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi esbonio eto pam mae'r pwerau hynny'n cael eu cadw a beth yw diben y pwerau hynny.

Finally, First Minister, we have, over a number of years, as you indicated in your earlier answer, seen a succession of Government of Wales Acts, all of which appear to concede the very minimum with the most difficulty. Is it not time, if the United Kingdom Government isn't prepared to concede a constitutional convention, that we lead one here in this country, and that we lead a debate and a consensus as to what the people of Wales want for the future of their country? Because, having listened to the leader of the opposition this afternoon and having heard what the Secretary of State has said, frankly, I am not prepared to trust those people with the future of my country.

Yn olaf, Brif Weinidog, rydym, dros nifer o flynyddoedd, fel y dywedasoch yn eich ateb cynharach, wedi gweld cyfres o Ddeddfau Llywodraeth Cymru, a phob un ohonynt yn ymddangos i ildio cyn lleied â phosibl gyda'r anhawster mwyaf. Onid yw'n bryd, os nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn barod i ildio confensiwn cyfansoddiadol, inni arwain un yma yn y wlad hon, ac arwain dadl a chonsensws ynghylch yr hyn sydd ei eisiau ar bobl Cymru ar gyfer dyfodol eu gwlad? Oherwydd, ar ôl gwrando ar arweinydd yr wrthblaid y prynhawn yma ac ar ôl clywed yr hyn y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i ddweud, a dweud y gwir, nid wyf yn barod i ymddiried dyfodol fy ngwlad i'r bobl hynny.

15:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

A constitutional convention is something that I first suggested, so I would advocate it, I suppose. I think it does need buy-in from the UK Government for it to be particularly effective; that's not to say there can't be some kind of process if the UK Government are not interested in the future of the UK. In terms of the process, it is a great shame that there wasn't early engagement so that the Secretary of State was able to sit down with us. You know, we have far greater resources than the Wales Office as well; the Wales Office is a small Government department; we have far greater resources. We could have sat down and worked this through from the very beginning, rather than being presented with a bit of a Bill, and then being presented with the rest of it the day before publication. This could have been a joint enterprise; it could have been a joint effort.

Mae confensiwn cyfansoddiadol yn rhywbeth y gwnes i ei awgrymu'n gyntaf, felly byddwn o'i blaid, mae'n debyg. Rwy'n credu bod angen i Lywodraeth y DU ei gymeradwyo er mwyn iddo fod yn arbennig o effeithiol; nid yw hynny'n dweud na ellir cael rhyw fath o broses os nad oes gan Lywodraeth y DU ddiddordeb yn nyfodol y Deyrnas Unedig. O ran y broses, mae'n drueni mawr nad oedd ymgysylltiad cynnar er mwyn i'r Ysgrifennydd Gwladol allu eistedd i lawr gyda ni. Wyddoch chi, mae gennym lawer mwy o adnoddau na Swyddfa Cymru hefyd; adran Lywodraeth fach yw Swyddfa Cymru; mae gennym ni lawer mwy o adnoddau. Gallem fod wedi eistedd a gweithio drwy hyn o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na bod darn o Fil wedi'i gyflwyno inni, ac yna weddill y Bil yn cael ei gyflwyno inni y diwrnod cyn ei gyhoeddi. Gallai hyn fod wedi bod yn fenter ar y cyd; gallai fod wedi bod yn ymdrech ar y cyd.

We had a St David's Day process; it wasn't an agreement, but we got to a particular point, as it were, when there was an element of common agreement, and that could have formed the basis for the Bill and its structure, and we could have worked on this collectively. This is, as I say, a constitutional issue—it shouldn't be a party political issue—and the opportunity was there, but unfortunately it was lost. And I agree with him: 'powers for a purpose' is still a doctrine that is relevant, but not in the way that it's always been. It's not for the people of Wales to demonstrate that there is a purpose to powers that they might be given; rather, it's for Westminster to demonstrate why a particular power should remain at Westminster. I believe that these powers are powers that are inherent to the people of Wales. There are some powers, to my mind, that make sense in terms of being delivered at UK level: immigration is one, for example; general taxation is another, of course. But it's not for the people of Wales to have to beg all the time. The people of Scotland don't do this. The people of Northern Ireland don't do this. It is for Westminster to justify why, for example, the north-east of England gets policing devolved but Wales doesn't. That is a question that's never been satisfactorily answered, mainly because we live in this world where the conversations about devolution take place in different rooms. What happens in the north-east of England isn't relevant to Wales in some way; what happens in Scotland isn't seen as relevant to Wales. That's not the way the world works. Much better to have a convention process. I agree on that point.

Cawsom broses Dydd Gŵyl Dewi; nid oedd yn gytundeb, ond gwnaethom gyrraedd pwynt penodol, fel petai, lle'r oedd elfen o gytundeb cyffredin, a gallai hynny fod wedi bod yn sail i'r Bil a'i strwythur, a gallem fod wedi gweithio ar hyn ar y cyd. Mae hwn, fel y dywedais, yn fater cyfansoddiadol—ni ddylai fod yn fater pleidiol—ac roedd y cyfle yno, ond yn anffodus cafodd ei golli. Ac rwy'n cytuno ag ef: mae 'pwerau i bwrpas' yn dal i fod yn athrawiaeth sy'n berthnasol, ond nid fel y mae bob amser wedi bod. Nid lle pobl Cymru yw dangos pwrpas pwerau y gellid eu rhoi iddynt; yn hytrach, lle San Steffan yw dangos pam y dylai pŵer arbennig aros yn San Steffan. Credaf fod y pwerau hyn yn bwerau sy'n gynhenid i bobl Cymru. Mae rhai pwerau, yn fy marn i, sy'n gwneud synnwyr o ran eu cyflwyno ar lefel y DU: mae mewnfudo yn un, er enghraifft; mae trethiant cyffredinol yn un arall, wrth gwrs. Ond ni ddylai pobl Cymru orfod cardota drwy'r amser. Nid yw pobl yr Alban yn gwneud hyn. Nid yw pobl Gogledd Iwerddon yn gwneud hyn. Mater i San Steffan yw cyfiawnhau pam, er enghraifft, mae plismona wedi'i ddatganoli i ogledd-ddwyrain Lloegr, ond nid i Gymru. Mae hwnnw'n gwestiwn nad yw erioed wedi'i ateb yn foddhaol, yn bennaf am ein bod yn byw yn y byd hwn lle mae'r sgyrsiau am ddatganoli'n digwydd mewn ystafelloedd gwahanol. Dydy'r hyn sy'n digwydd yng ngogledd-ddwyrain Lloegr ddim yn berthnasol i Gymru mewn rhyw ffordd; dydy'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban ddim yn cael ei ystyried yn berthnasol i Gymru. Nid dyna sut y mae'r byd yn gweithio. Mae'n llawer gwell cael proses confensiwn. Rwy'n cytuno ar y pwynt hwnnw.

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch, Brif Weinidog.

15:06

## 4. Datganiad: Yr Uwchgynhadledd ar Ddur

## 4. Statement: The Steel Summit

Senedd.tv
Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is a statement by the Minister for Economy, Science and Transport on the steel summit, and I call on Edwina Hart.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth am yr uwchgynhadledd dur, ac rwy'n galw ar Edwina Hart.

15:06 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. On Friday, I attended a high-level summit at the Advanced Manufacturing Park Technology Centre in Rotherham, convened by the UK Government in recognition of the challenges currently facing the global steel industry. The summit was attended by Ministers, steel companies, Members of Parliament, unions and trade bodies. The purpose of the summit was to explore the opportunities for collaborative working between the public and private sectors, and to identify potential solutions to address the unprecedented challenges currently facing the UK steel industry. I'm updating Members today on the outcomes of our discussions, which were based around global market trends and current issues facing the industry and future prospects.

Diolch, Lywydd. Ddydd Gwener, bûm mewn uwchgynhadledd lefel uchel yng Nghanolfan Dechnoleg y Parc Gweithgynhyrchu Uwch yn Rotherham, a gynullwyd gan Lywodraeth y DU i gydnabod yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant dur byd-eang ar hyn o bryd. Roedd Gweinidogion, cwmnïau dur, Aelodau Seneddol, undebau a chyrff masnach yn bresennol yn yr uwchgynhadledd. Pwrpas yr uwchgynhadledd oedd archwilio'r cyfleoedd i gydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, a chanfod atebion posibl i ymdrin â'r heriau digynsail sy'n wynebu'r diwydiant dur yn y DU ar hyn o bryd. Rwy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau heddiw am ganlyniadau ein trafodaethau, a oedd yn seiliedig ar dueddiadau yn y farchnad fyd-eang a'r materion cyfoes sy'n wynebu'r diwydiant a'r rhagolygon yn y dyfodol.

Global steel demand remains below pre-recession levels, but is also now being impacted by a surge in steel imports, particularly from China. The steel industry in Wales, and across the UK, also continues to be seriously disadvantaged by high energy costs. These combined pressures mean that a number of Wales-based steel companies are reaching critical point. At the summit, the steel industry called on the Government for action in five key areas. These were energy costs, demand for steel, cheap imports, business rates and regulation.

Mae'r galw byd-eang am ddur yn parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y dirwasgiad, ond mae ymchwydd mewn mewnforion dur hefyd yn effeithio arno nawr, yn enwedig o Tsieina. Mae'r diwydiant dur yng Nghymru, a ledled y DU, hefyd yn parhau i fod dan anfantais ddifrifol oherwydd costau ynni uchel. Mae'r pwysau cyfunol hwn yn golygu bod nifer o gwmnïau dur sydd wedi'u lleoli yng Nghymru'n cyrraedd pwynt critigol. Yn yr uwchgynhadledd, galwodd y diwydiant dur ar y Llywodraeth i weithredu mewn pum maes allweddol. Y rhain oedd costau ynni, y galw am ddur, mewnforion rhad, trethi busnes a rheoleiddio.

As a result of the summit, working groups chaired by Ministers will now be set up to gather evidence, including from industry and work through three key areas of public procurement, international comparisons, and competitiveness and productivity. In terms of public procurement, the aim is to increase the number of contracts won by UK steel manufacturers in fair and open competition. In terms of international comparisons, the aim is to consider what lessons can be learned from other countries. And, in terms of competitiveness and productivity, the aim is to to look at energy and environmental costs, business rates, regulation and what action industry can take to drive up their competitiveness, including skills, training and maximising their assets.

O ganlyniad i'r uwchgynhadledd, bydd gweithgorau o dan gadeiryddiaeth Gweinidogion nawr yn cael eu sefydlu i gasglu tystiolaeth, gan gynnwys o ddiwydiant a gwaith drwy dri maes allweddol caffael cyhoeddus, cymariaethau rhyngwladol, a chystadleurwydd a chynhyrchiant. O ran caffael cyhoeddus, y nod yw cynyddu nifer y contractau a enillir gan wneuthurwyr dur yn y DU mewn cystadleuaeth deg ac agored. O ran cymariaethau rhyngwladol, y nod yw ystyried pa wersi y gellir eu dysgu gan wledydd eraill. Ac, o ran cystadleurwydd a chynhyrchiant, y nod yw edrych ar gostau ynni a chostau amgylcheddol, trethi busnes, rheoleiddio a pha gamau y gall diwydiant eu cymryd i wella eu cystadleurwydd, gan gynnwys sgiliau, hyfforddiant a gwneud y gorau o'u hasedau.

These working groups must work quickly to produce the necessary practical actions for Governments, industry and key organisations to implement. The UK Government can no longer be complacent in its response to these issues and this must change if we're to be able to protect against further job losses in the industry. We will fully engage with the working groups to ensure the Welsh position is pressed. We will also continue to provide considerable support to the steel industry across areas such as skills and training, research, development and innovation and, of course, environmental improvements to increase competitiveness throughout the supply chain.

Mae'n rhaid i'r gweithgorau hyn weithio'n gyflym i gynhyrchu'r camau ymarferol y mae angen i Lywodraethau, y diwydiant a sefydliadau allweddol eu cymryd. Ni all Llywodraeth y DU fod yn hunanfodlon mwyach wrth ymateb i'r materion hyn ac mae'n rhaid i hyn newid er mwyn inni allu amddiffyn yn erbyn colli swyddi pellach yn y diwydiant. Byddwn yn ymgysylltu'n llawn â'r gweithgorau i sicrhau ein bod yn pwysleisio'r sefyllfa yng Nghymru. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cefnogaeth sylweddol i'r diwydiant dur ar draws meysydd fel sgiliau a hyfforddiant, ymchwil, datblygu ac arloesi ac, wrth gwrs, gwelliannau amgylcheddol i gynyddu cystadleurwydd ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi.

We've seen a number of announcements recently about substantial job losses in the steel industry across the UK, namely the closure of SSI UK on Teesside, a loss of contractor and agency jobs at Tata Steel's Llanwern operations due to a mothballing of facilities, and a further 30 to 40 jobs at Tata Steel on Deeside following a decision to mothball one of its galvanized steel lines. Only yesterday, we heard that another company, Caparo Industries, is facing difficulties and has been placed in administration. One of the companies in the group affected is Caparo Precision Strip Ltd, which includes the Wrexham based wire business, and, of course, Caparo Precision Tubes Ltd, which includes the Tredegar operation. This demonstrates that it's never been more important to have a co-ordinated response. We will therefore be convening a meeting of interested parties to continue discussions on what action can be taken to find a sustainable way forward in Wales.

Rydym wedi gweld nifer o gyhoeddiadau yn ddiweddar am golli llawer o swyddi yn y diwydiant dur ledled y DU, sef cau gwaith SSI UK ar Teesside, colli swyddi contractwyr a swyddi asiantaeth yng ngweithrediadau Tata Steel yn Llanwern oherwydd cadw'r cyfleusterau'n segur, a cholli 30 i 40 o swyddi eraill yn Tata Steel ar Lannau Dyfrdwy ar ôl penderfyniad i gadw un o'u llinellau dur galfanedig yn segur. Dim ond ddoe, clywsom fod cwmni arall, Caparo Industries, yn wynebu anawsterau ac wedi'i roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Un o'r cwmnïau yn y grŵp yr effeithir arno yw Caparo Precision Strip Ltd, sy'n cynnwys y busnes gwifrau yn Wrecsam, ac, wrth gwrs, Caparo Precision Tubes Ltd, sy'n cynnwys y gwaith yn Nhredegar. Mae hyn yn dangos nad yw hi erioed wedi bod mor bwysig cael ymateb cydgysylltiedig. Felly, byddwn yn galw cyfarfod o'r partïon sydd â diddordeb i barhau â thrafodaethau am ba gamau y gellir eu cymryd i ddod o hyd i ffordd gynaliadwy ymlaen yng Nghymru.

15:09

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Clearly, no Government can simply change the global price of steel or dictate foreign exchange rates. That's why I'm so grateful to the Minister for her welcome statement today outlining what can be done to try to minimise this very serious problem, affecting not only Wales, but the steel industry in the United Kingdom, so we can continue building a strong economy in Wales and the United Kingdom that will lead to job creation and security. Clearly, the ambition must be to increase the number of contracts won by UK steel manufacturers in fair and open competition, as the Minister has acknowledged. Clearly, nobody is under any illusions about the significant challenges the industry faces. Clearly, it is a worldwide problem and will not be solved quickly.

Yn amlwg, ni all unrhyw Lywodraeth newid pris byd-eang dur na phennu cyfraddau cyfnewid tramor. Dyna pam rydw i mor ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad sydd i'w groesawu heddiw i amlinellu'r hyn y gellir ei wneud i geisio lleihau'r broblem ddifrifol iawn hon, sy'n effeithio nid yn unig ar Gymru, ond ar y diwydiant dur yn y Deyrnas Unedig, fel y gallwn barhau i adeiladu economi gref yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig a fydd yn arwain at greu swyddi a diogelwch swyddi. Yn amlwg, yr uchelgais yw cynyddu nifer y contractau a enillir gan wneuthurwyr dur yn y DU mewn cystadleuaeth deg ac agored, fel y mae'r Gweinidog wedi'i gydnabod. Yn amlwg, mae pawb yn ymwybodol o'r heriau sylweddol sy'n wynebu'r diwydiant. Yn amlwg, mae'n broblem fyd-eang, ac ni chaiff ei datrys yn gyflym.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:09.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:09.*

## William Graham Bywgraffiad Biography

However, the steel industry does play a very crucial part in the manufacturing sector in Wales and is important to so many communities. I think we must look to the potential of our industry in Wales, particularly the Zodiac plant in Newport. We ought to announce, loud and clear, that steel is still being used in Newport to manufacture—steel that is very necessary for the automotive industry—and we anticipate, confidently, that there will be not only greater demand, but increasing competitiveness, to make sure that our huge motor industry in the United Kingdom remains using Welsh steel. Think to the future of where our steel can go: an awful lot of steel will be used on the M4 relief road when that comes about and on Circuit of Wales. In terms of energy costs, the proposals for the lagoon at Port Talbot, and other programmes, will lead, eventually, to lower energy costs.

Fodd bynnag, mae'r diwydiant dur yn chwarae rhan bwysig iawn yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ac mae'n bwysig i gynifer o gymunedau. Rwy'n meddwl bod rhaid inni edrych ar botensial ein diwydiant yng Nghymru, yn enwedig y ffatri Zodiac yng Nghasnewydd. Dylem gyhoeddi, yn uchel ac yn glir, bod dur yn dal i gael ei ddefnyddio yng Nghasnewydd i weithgynhyrchu—dur sy'n angenrheidiol iawn i'r diwydiant modurol—a'n bod yn rhagweld, yn hyderus, nid yn unig y bydd mwy o alw, ond mwy o gystadleurwydd, i wneud yn siŵr bod ein diwydiant moduron enfawr yn y Deyrnas Unedig yn parhau i ddefnyddio dur Cymru. Meddyliwch am lle y gall ein dur fynd yn y dyfodol: caiff llawer iawn o ddur ei ddefnyddio ar ffordd liniaru'r M4 pan ddaw honno ac ar Gylchdaith Cymru. O ran costau ynni, bydd y cynigion ar gyfer y lagŵn ym Mhort Talbot, a rhaglenni eraill, yn y pen draw, yn arwain at ostwng costau ynni.

Already, Tate Steel in Port Talbot is some 50 per cent of the way towards making themselves self-sufficient in energy. If they can raise capital for further improvements in a power plant, that could rise above 80 per cent. So, there's a great deal that we can look forward to. I would also, if I may, Minister, give you the last example of Liberty Steel in Newport, which has taken advantage of the 30 per cent lower costs of Chinese slab to use that innovatively to create jobs in Newport, and to make sure the steel industry not only remains in south-east Wales, but becomes a vital part and continues to be a vital part of our economy.

Eisoes, mae Tate Steel ym Mhort Talbot tua 50 y cant o'r ffordd tuag at eu gwneud eu hunain yn hunangynhaliol o ran ynni. Os gallant godi cyfalaf ar gyfer gwelliannau pellach mewn gwaith pŵer, gallai hynny godi dros 80 y cant. Felly, mae llawer iawn y gallwn edrych ymlaen ato. Byddwn hefyd, os caf, Weinidog, yn rhoi'r enghraifft olaf ichi o Liberty Steel yng Nghasnewydd, sydd wedi manteisio ar y ffaith bod slabiau o Dsieina'n costio 30 y cant yn llai i'w defnyddio'n arloesol i greu swyddi yng Nghasnewydd, ac i wneud yn siŵr nid yn unig bod y diwydiant dur yn aros yn y de-ddwyrain, ond yn dod yn rhan hanfodol o'n heconomi ac yn parhau i fod yn rhan hanfodol ohoni.

15:12

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the opposition Member for the comments on this. In terms of Liberty Steel, there I was, of course, attending the steel summit on Friday and there, of course, we were having the opening of Liberty Steel in Newport. Of course, they bought it in July 2013. The important thing is to recognise they continue to pay the workforce 50 per cent of the wages to keep the skills and they're very hopeful that they will be successful in terms of what they're delivering.

Diolch i'r Aelod o'r wrthblaid am y sylwadau ar hyn. O ran Liberty Steel, roeddwn i, wrth gwrs, yn bresennol yn yr uwchgynhadledd dur ddydd Gwener ac yno, wrth gwrs, cawsom agoriad Liberty Steel yng Nghasnewydd. Wrth gwrs, prynwyd ef ganddynt ym mis Gorffennaf 2013. Y peth pwysig yw cydnabod eu bod yn dal i dalu 50 y cant o'r cyflog i'r gweithlu i gadw'r sgiliau ac maent yn obeithiol iawn y byddant yn llwyddiannus o ran yr hyn y maent yn ei gyflawni.

But, there are some issues arising from William Graham's comments. The issue is energy costs. We have been going on—myself and the First Minister—about energy costs since about 2011. We've written previously to previous Ministers in that area, and we're seeing this is not making us internationally competitive. We only have to look at the analysis that Celsa did of its costs within the UK compared to its European costs and what is happening in other countries, in terms of subsidies, really, effectively, to the steel industry in terms of energy costs. The UK Government has obviously been looking at a scheme, it's got to have permission from the Commission, but, as the industry said on Friday, we're talking too long and, by that time, the industry might well have disappeared.

Ond mae rhai materion yn codi o sylwadau William Graham. Y mater yw costau ynni. Rydym wedi bod yn rhygnu ymlaen—fi a'r Prif Weinidog—am gostau ynni ers tua 2011. Rydym wedi ysgrifennu o'r blaen at Weinidogion blaenorol yn y maes hwnnw, ac rydym yn gweld nad yw hyn yn ein gwneud yn gystadleuol yn rhyngwladol. Does ond rhaid inni edrych ar y dadansoddiad a wnaeth Celsa o'u costau yn y DU o'u cymharu â'u costau Ewropeaidd a'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill, o ran cymorthdaliadau, a dweud y gwir, i bob diben, i'r diwydiant dur o ran costau ynni. Yn amlwg, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ystyried cynllun, mae'n rhaid iddynt gael caniatâd gan y Comisiwn, ond, fel y dywedodd y diwydiant ddydd Gwener, rydym yn siarad am yn rhy hir ac, erbyn hynny, gallai'r diwydiant fod wedi diflannu.

For me, what came across on Friday quite clearly was: how can we as a nation exist as a manufacturing nation without having a steel industry? At the end of the day, with the lack of manufacturing policy at the centre in terms of Government, and with the lack of understanding about the impact on steel, there's a complacency there that I found quite strange, because I regard this as quite urgent in terms of the number of jobs that we've got in the Welsh economy. So, I've tried to take a positive response. I think the UK Government needs to deal with energy costs sooner rather than later in terms of any scheme—and not wait until April 2016. We've got to be more active in procurement, because, in terms of procurement, we've got the rules in place that allow us to look at who can procure for various jobs, et cetera, whether it can be steel, and we need to make more of it. We also need to know what support is available because in terms of support, as you know, that's governed by the regulations within the European Union, about how difficult it is to give the steel industry support.

I mi, y cwestiwn a gafodd ei ofyn yn ddigon clir ddydd Gwener oedd: sut y gallwn ni fel cenedl fodoli fel cenedl sy'n gweithgynhyrchu heb ddiwydiant dur? Ar ddiwedd y dydd, gyda'r diffyg polisi gweithgynhyrchu o'r canol o ran y Llywodraeth, a'r diffyg dealltwriaeth o'r effaith ar y diwydiant dur, roeddwn yn gweld yr hunanfoddhad yno'n eithaf rhyfedd, oherwydd rwy'n ystyried bod hwn yn fater brys o ran nifer y swyddi sydd gennym yn economi Cymru. Felly, rwyf wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol. Credaf fod angen i Lywodraeth y DU ymdrin â chostau ynni'n fuan o ran unrhyw gynllun—a pheidio ag aros tan fis Ebrill 2016. Mae'n rhaid inni fod yn fwy gweithgar ym maes caffael, oherwydd, o ran caffael, mae gennym y rheolau yn eu lle sy'n ein galluogi i edrych ar bwy sy'n gallu caffael ar gyfer gwahanol swyddi, ac ati, ac a all hynny fod yn ddur, ac mae angen inni wneud mwy o hynny. Mae angen inni wybod hefyd pa gymorth sydd ar gael oherwydd o ran cymorth, fel y gwyddoch, mae hynny'n cael ei reoli gan y rheoliadau o fewn yr Undeb Ewropeaidd, ynghylch pa mor anodd yw hi i roi cymorth i'r diwydiant dur.

But, there are so many issues in this. There's the dumping—the dumping of Chinese steel is really real in terms of how it's impacting on the steel industry. Even though there's talk about what we can do in Europe and how we can do it collectively, that is all very well, but when you look at the Americans and how effectively they've dealt with the issues around dumping, we could effectively deal with the issues around dumping. Now, I know we might be in a rapprochement arrangement with China in terms of new investment, and I welcome the investment that is coming to Wales from that, but let's be realistic: we've got to have this discussion about dumping, otherwise there'll be no industry for us to actually discuss. I think these are the key issues in terms of what we're going to do.

Ond, mae cynifer o faterion yn hyn. Mae'r dympio—mae dympio dur Tsieina'n real iawn o ran sut y mae'n effeithio ar y diwydiant dur. Er bod sôn am yr hyn y gallwn ei wneud yn Ewrop a sut y gallwn ei wneud gyda'n gilydd, mae hynny i gyd yn ddigon teg, ond pan edrychwch ar yr Americanwyr a pha mor effeithiol y maen nhw wedi ymdrin â materion yn ymwneud â dympio, gallem ninnau ymdrin yn effeithiol â'r materion sy'n ymwneud â dympio. Nawr, rwy'n gwybod y gallem fod mewn trefniant o adsefydlu perthynas â Tsieina o ran buddsoddiad newydd, ac rwy'n croesawu'r buddsoddiad sy'n dod i Gymru o hynny, ond dewch inni fod yn realistig: mae'n rhaid i ni gael y drafodaeth hon ynglŷn â dympio, neu ni fydd gennym ddiwydiant 'w drafod. Rwy'n meddwl mai'r rhain yw'r materion allweddol o ran yr hyn yr ydym yn mynd i'w wneud.

In the Welsh context, we will be bringing all parties together, so if there's anything practical that we can do to help and assist the steel industry within Wales—because you can imagine, the way it's going now, it will almost be that the last steelworks standing will actually be in Wales in terms of what's going on within the UK. That's terrifying if you go back to what used to be manufactured in Scotland, and what used to be manufactured in the north-east. It is a very frightening prospect, I think, for us as a nation that we have no security in terms of steel production in the future.

Yng nghyd-destun Cymru, byddwn yn dod â'r holl bleidiau at ei gilydd, felly os oes unrhyw beth ymarferol y gallwn ei wneud i helpu a chynorthwyo'r diwydiant dur yng Nghymru—oherwydd gallwch ddychmygu, fel mae pethau'n mynd yn awr, mai yng Nghymru mewn gwirionedd y bydd y gwaith dur olaf, o ran yr hyn sy'n digwydd o fewn y DU. Mae hynny'n frawychus os ewch chi'n ôl at yr hyn a arferai gael ei weithgynhyrchu yn yr Alban, a'r hyn a arferai gael ei weithgynhyrchu yn y gogledd-ddwyrain. Mae'n syniad brawychus iawn, rwy'n meddwl, i ni fel cenedl nad oes gennym sicrwydd o ran cynhyrchu dur yn y dyfodol.

15:15

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, thank you for the statement today on the summit from last week. As the constituency Assembly Member for a proud steel town, which has been making steel for over three centuries, it's important that we address the steel industry and a major manufacturing industry here in Wales. You identify those working task groups that have been set up, but, to be fair, they're late in the day. They should have been set up a long time ago, because we are now facing crisis point in the steel industry. Particularly with Scunthorpe and the Long Products division, Gary Klesch, who was supposed to buy that actually indicated that one of the reasons he pulled out was that the UK Government failed to take action seriously enough. To be honest, when I saw the Secretary of State, Sajid Javid, walking out of the summit last week to the press, he showed no interest and no understanding of the steel industry, nor a desire to actually do something about it. He says that there is no straightforward solution to complex problems; I agree, there is no straightforward solution, but at least you have to have an interest and the commitment to get a solution, and I think that that was severely lacking last week in his approach to the whole summit.

Weinidog, diolch am y datganiad heddiw am yr uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf. Fel Aelod Cynulliad dros etholaeth sy'n cynnwys tref ddur falch, sydd wedi bod yn cynhyrchu dur ers dros dair canrif, mae'n bwysig ein bod yn rhoi sylw i'r diwydiant dur a diwydiant gweithgynhyrchu mawr yma yng Nghymru. Rydych yn nodi'r grwpiau gorchwyl gwaith hynny sydd wedi cael eu sefydlu, ond, a bod yn deg, maent yn hwyr yn y dydd. Dylent fod wedi cael eu sefydlu amser maith yn ôl, oherwydd rydym nawr yn wynebu argyfwng yn y diwydiant dur. Yn enwedig gyda Scunthorpe a'r adran Long Products, dywedodd Gary Klesch, a oedd i fod i'w phrynu, mai un o'r rhesymau pam iddo dynnu yn ôl oedd bod Llywodraeth y DU wedi methu â chymryd camau digon difrifol. I fod yn onest, pan welais yr Ysgrifennydd Gwladol, Sajid Javid, yn cerdded allan o'r uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf at y wasg, ni ddangosodd unrhyw ddiddordeb na dim dealltwriaeth o'r diwydiant dur, nac awydd i wneud rhywbeth am y peth. Mae'n dweud nad oes ateb syml i broblemau cymhleth; rwy'n cytuno, nid oes ateb syml, ond o leiaf mae'n rhaid ichi ddangos diddordeb ac ymrwymo i ddod o hyd i ateb, a chredaf fod diffyg difrifol o hynny yr wythnos diwethaf yn ei ymagwedd tuag at yr uwchgynhadledd gyfan.

Minister, you covered a couple of points. Can I raise questions with you? Are you talking to Tata in particular about the future of the plants here in Wales, because, effectively, most of those plants are Tata-based? Port Talbot clearly could well be the only steelmaking plant left in the UK the way things are moving, but what discussions are you having about their future for the industry, and their future for investment here in Wales? Will you be able to undertake an economic impact analysis of the area around Port Talbot and the region to look at how the steel industry does impact upon the local economy in that?

Weinidog, gwnaethoch sôn am un neu ddau o bwyntiau. A gaf i ofyn cwestiynau ichi? A ydych yn siarad â Tata yn benodol am ddyfodol y gweithfeydd yma yng Nghymru, oherwydd, i bob diben, gweithfeydd Tata yw'r rhan fwyaf o'r rheini? Mae'n glir y gallai Port Talbot fod yr unig waith cynhyrchu dur ar ôl yn y DU fel y mae pethau'n mynd, ond pa drafodaethau yr ydych yn eu cael am eu dyfodol ar gyfer y diwydiant, a'u dyfodol ar gyfer buddsoddi yma yng Nghymru? A allwch gynnal dadansoddiad o'r effaith economaidd yn yr ardal o amgylch Port Talbot a'r rhanbarth i edrych ar sut y mae'r diwydiant dur yn effeithio ar yr economi leol yn hynny o beth?

Yes, I agree with you on the call for EU action on dumping of steel. We are seeing steel from China being dumped in Europe—and some is already sitting in Newport docks, I understand—again having a major impact here. Will you get the UK Government to take serious action on this to ensure that the EU does deliver on EU dumping? Will you look also, perhaps, at business rates? You mentioned business rates as one of the considerations of those task groups. Will you also look at business rates here in Wales to see how we can tackle the issues that affect the steel industry here in Wales?

Ydw, rwy'n cytuno â chi am yr alwad ar yr UE i weithredu ar ddympio dur. Rydym yn gweld dur o Tsieina'n cael ei ddympio yn Ewrop—ac mae rhywfaint ohono eisoes yn eistedd yn nociau Casnewydd, rwyf ar ddeall—eto'n cael effaith fawr yma. A wnewch berswadio Llywodraeth y DU i gymryd camau difrifol ar hyn i sicrhau bod yr UE yn gweithredu o ran dympio yn yr UE? A wnewch chi edrych hefyd, efallai, ar ardrethi busnes? Soniasoch am ardrethi busnes fel un o ystyriaethau'r grwpiau gorchwyl hynny. A wnewch chi hefyd edrych ar ardrethi busnes yma yng Nghymru i weld sut y gallwn ymdrin â'r materion sy'n effeithio ar y diwydiant dur yma yng Nghymru?

15:17

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If I can say, we obviously talk to Tata all the time. In fact, the head of Tata Steel in Europe, Dr Köhler, was actually making a presentation to the summit last week. We're obviously taking a great interest in what's happening in Port Talbot, what's happening in Llanwern and what happens in Trostre. There are major issues for us in terms of what we are producing reducing in the context of Wales. So, those are ongoing discussions. Also as well, we have been fortunate in the investment that we've had, but I think we have to look for more investment if we want to keep the steel plants alive and kicking and profitable in Wales. So, that is a dialogue we're having.

Os caf ddweud, rydym yn amlwg yn siarad â Tata drwy'r amser. Yn wir, roedd pennaeth Tata Steel yn Ewrop, Dr Kohler, yn gwneud cyflwyniad i'r uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf. Rydym yn amlwg yn dangos diddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ym Mhort Talbot, yr hyn sy'n digwydd yn Llanwern a'r hyn sy'n digwydd yn Nhrostre. Mae yna faterion o bwys inni o ran lleihau'r hyn yr ydym yn ei gynhyrchu yng nghyd-destun Cymru. Felly, mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Hefyd, yn ogystal â hyn, rydym wedi bod yn ffodus i gael y buddsoddiad a gawsom, ond rwy'n meddwl bod rhaid inni chwilio am fwy o fuddsoddi os ydym am gadw'r gweithfeydd dur yn fyw ac yn iach ac yn broffidiol yng Nghymru. Felly, mae hynny'n ddeialog yr ydym yn ei chael.

I'll be very happy when I bring the groups together to look at whether we can do an economic impact assessment on the whole issues around steel production in Wales. The implications for the supply chain are horrendous if any of these plants were to close in the Welsh context. That could devastate the economy. We only have to look to the north—what happened when Ravenscraig closed and, when other plants went, what happened to the local economies there. They went totally in on themselves, and it's very difficult to bring anything back.

Byddaf yn hapus iawn pan fyddaf yn dod â'r grwpiau ynghyd i ystyried a allwn gynnal asesiad o'r effaith economaidd ar yr holl faterion o gwmpas cynhyrchu dur yng Nghymru. Mae'r goblygiadau ar gyfer y gadwyn gyflenwi'n erchyll os bydd unrhyw un o'r gweithfeydd hyn yn cau yng nghyd-destun Cymru. Gallai hynny ddinistrio'r economi. Does ond rhaid inni edrych tua'r gogledd—beth ddigwyddodd pan gaeodd Ravenscraig a, phan aeth gweithfeydd eraill, yr hyn a ddigwyddodd i'r economïau lleol yno. Aeth yr hwch drwy'r siop yn llwyr, ac mae'n anodd iawn dod ag unrhyw beth yn ôl.

In terms of dumping, we share totally the concerns of the industry, and we want the UK Government to carry on pressing the EU in a timely and appropriate manner. This is taking far too long in terms of discussions within the European Union about doing something about the dumping that is going on. I think that it’s very important that we realise that there might well be issues about quality in some of the steel, which the steel unions and various people have raised, that we have to actually have a look at, because we produce really high-quality steel in the UK, and it’s absolutely awful to think that perhaps not such a quality of steel is going to be used in some of the projects that we’ve got in the UK.

O ran dympio, rydym yn rhannu pryderon y diwydiant yn llwyr, a hoffem i Lywodraeth y DU barhau i roi pwysau ar yr UE mewn modd amserol a phriodol. Mae hyn yn cymryd llawer gormod o amser o ran y trafodaethau o fewn yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â gwneud rhywbeth am y dympio sy'n digwydd. Rwy’n meddwl ei bod yn bwysig iawn ein bod yn sylweddoli y gallai yn hawdd fod materion ynghylch ansawdd rhywfaint o'r dur, rhywbeth sydd wedi’i godi gan yr undebau dur ac amryw o bobl, a bod rhaid inni edrych ar hynny mewn gwirionedd, oherwydd rydym yn cynhyrchu dur o safon uchel iawn yn y DU, ac mae'n hollol erchyll meddwl efallai y caiff dur o safon is ei ddefnyddio yn rhai o'r prosiectau sydd gennym yn y DU.

In terms of the business rates, there is a wide issue here, because we now have devolution of business rates, but, as I indicated, if the UK Government is serious about looking at business rates, can they pass some of the cash on, if they choose to do that, from the Treasury to us so that we can have a serious look? Because we have to balance our books on business rates. We have competing pressures all the time in terms of business rates, but it is something that we’ll obviously look at. But, of course, you’ll appreciate that, when you give any help to something to do with steel, state aid comes up. We’ve got to be very careful how we negotiate our way through that. But I can assure you that all the issues that you raised today will be taken, and I will be coming back to Members after the recess to report further on the discussions I’ve had on this issue, because I know that there’s interest across the Chamber and, of course, concern across the Chamber.

O ran ardrethi busnes, mae mater eang yma, oherwydd mae ardrethi busnes bellach wedi'u datganoli, ond, fel y dywedais, os yw Llywodraeth y DU o ddifrif am edrych ar ardrethi busnes, a allant basio rhywfaint o'r arian hwnnw ymlaen, os ydynt yn dewis gwneud hynny, o’r Trysorlys i ni fel y gallwn gael golwg ddifrifol ar y mater? Oherwydd mae’n rhaid inni gydbwyso ein llyfrau ar ardrethi busnes. Mae gennym bwysau’n cystadlu â’i gilydd drwy'r amser o ran cyfraddau busnes, ond mae'n rhywbeth y byddwn yn amlwg yn edrych arno. Ond, wrth gwrs, byddwch yn deall, pan fyddwch yn rhoi unrhyw gymorth i rywbeth sy’n ymwneud â dur, mae cymorth gwladwriaethol yn codi. Mae'n rhaid inni fod yn ofalus iawn sut yr ydym yn llywio drwy hynny. Ond gallaf eich sicrhau y bydd yr holl faterion a godwyd gennych heddiw yn cael eu hystyried, a byddaf yn dod yn ôl at yr Aelodau ar ôl y toriad i adrodd ymhellach ar y trafodaethau yr wyf wedi’u cael am y mater hwn, oherwydd rwy’n gwybod bod yna ddiddordeb ar draws y Siambr ac, wrth gwrs, pryder ar draws y Siambr.

15:20

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement today? I’d like to add my voice to the concerns raised, not only about the overall challenges and threats to the steel industry in Wales and UK-wide, but also about the recent job losses and threats of further job losses within the industry. Some have described the situation that we currently face as the perfect storm in many ways, in that challenges over energy prices, business rates, and then, of course, cheap imports, really are putting our steel industry at a competitive disadvantage. The question is: while recognising that steel is a global industry, how creative is Welsh Government willing to be, and how creative is the Welsh Government going to seek to be, in looking at ways of giving the Welsh steel industry a fighting chance?

A gaf i ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw? Hoffwn ychwanegu fy llais at y pryderon a godwyd, nid yn unig am yr heriau a'r bygythiadau cyffredinol i'r diwydiant dur yng Nghymru a ledled y DU, ond hefyd am y colledion swyddi diweddar a’r bygythiadau o golli swyddi pellach o fewn y diwydiant. Mae rhai wedi disgrifio'r sefyllfa sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd fel y storm berffaith mewn llawer o ffyrdd—mae heriau dros brisiau ynni, ardrethi busnes, ac yna, wrth gwrs, mewnforion rhad, yn wir yn rhoi ein diwydiant dur o dan anfantais gystadleuol. Y cwestiwn yw: gan gydnabod bod dur yn ddiwydiant byd-eang, pa mor greadigol y mae Llywodraeth Cymru’n fodlon bod, a pha mor greadigol y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i geisio bod, wrth edrych ar ffyrdd o roi cyfle teg i ddiwydiant dur Cymru?

I have a series of questions. I will leave business rates for the time being, as the Minister has already addressed that. I appreciate that you say Welsh Government will fully engage with the working group set up by UK Government. Perhaps you could tell us a little bit more about the nature of that engagement as you see it, and how proactive, perhaps, you think the Welsh Government could be. You also say that Welsh Government will convene a meeting of interested parties. Of course, the circumstances that we find ourselves in now aren't circumstances that have come about overnight. What solid proposals has Welsh Government got in place already to identify ways forward to help the Welsh steel industry? Plaid Cymru's 'Energy Wales' proposal to bring down energy prices has obvious advantages for domestic customers. I wonder what thought the Minister has given to ways of adapting that specifically for the needs of energy-intensive businesses in Wales. And will the Government, finally, now consider adopting a much-needed industrial strategy in order to support the steel industry in Wales?

Mae gen i gyfres o gwestiynau. Gadawaf ardrethi busnes am y tro; mae'r Gweinidog eisoes wedi ymdrin â hynny. Rwy'n gwerthfawrogi eich bod yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu'n llawn â'r gweithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU. Efallai y gallech ddweud ychydig mwy wrthym am natur yr ymgysylltu hwnnw fel yr ydych chi'n ei weld, a pha mor rhagweithiol, efallai, yr ydych yn meddwl y gallai Llywodraeth Cymru fod. Rydych hefyd yn dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn galw cyfarfod o bartïon â diddordeb. Wrth gwrs, dydy'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu ni nawr ddim yn amgylchiadau sydd wedi digwydd dros nos. Pa gynigion cadarn sydd gan Lywodraeth Cymru yn eu lle eisoes i nodi ffyrdd ymlaen i helpu diwydiant dur Cymru? Mae cynnig Plaid Cymru 'Ynni Cymru' i ostwng prisiau ynni'n rhoi manteision amlwg i gwsmeriaid domestig. Tybed a yw'r Gweinidog wedi meddwl am ffyrdd o addasu hynny'n benodol ar gyfer anghenion busnesau sy'n defnyddio llawer o ynni yng Nghymru. Ac a wnaiff y Llywodraeth, o'r diwedd, nawr ystyried mabwysiadu strategaeth ddiwydiannol y mae mawr angen amdani er mwyn cefnogi'r diwydiant dur yng Nghymru?

15:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I actually do have an industrial strategy across all sectors, including steel. That's why we are ahead of the game in terms of discussions with the UK Government. Actually, I think steelmaking and the whole industry is actually in the bones of most people, particularly in areas where there has been heavy industry. Can I say on this that it is an absolutely perfect storm, with the global market and the impact of energy? But higher energy—of course, this is the way the energy market works, and there are real issues in the way that the energy market works in relation to energy-intensive industries within the UK. When they do the comparisons with their continental cousins, of course, the balance of energy costs goes on to the consumer in Germany, because the consumer in Germany, really, effectively helps industry out. When you look at how the French have used their nuclear and everything to look at how they produce in terms of costs, and also, to an extent, in Spain—. So, there is a big issue here in terms of how we deal with it within a UK context. The UK Government are looking at a package of measures, but we need the implementation of that done very quickly.

Wel, mae gennyf strategaeth ddiwydiannol ar draws pob sector, gan gynnwys dur. Dyna pam yr ydym ar flaen y gad o ran trafodaethau â Llywodraeth y DU. A dweud y gwir, rwy'n meddwl bod gwneud dur a'r holl ddiwydiant yn wir ym mêr esgyrn y rhan fwyaf o bobl, yn enwedig mewn ardaloedd lle bu diwydiant trwm. A gaf i ddweud am hyn ei bod yn storm hollol berffaith, rhwng y farchnad fyd-eang ac effaith ynni? Ond mae ynni uwch—wrth gwrs, dyma sut y mae'r farchnad ynni'n gweithio, ac mae problemau gwirioneddol â'r ffordd y mae'r farchnad ynni'n gweithio mewn perthynas â diwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni o fewn y DU. O'u cymharu â'u cefndryd cyfandirol, wrth gwrs, mae cydbwysedd y costau ynni'n mynd ymlaen i'r defnyddiwr yn yr Almaen, oherwydd mae'r defnyddiwr yn yr Almaen, mewn gwirionedd, i bob diben yn rhoi help i'r diwydiant. Pan edrychwch chi ar sut y mae'r Ffrancwyr wedi defnyddio eu niwclear a phopeth i edrych ar sut y maent yn cynhyrchu o ran costau, a hefyd, i raddau, yn Sbaen—. Felly, mae hwn yn fater mawr o ran sut yr ydym yn ymdrin ag ef o fewn cyd-destun y DU. Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar becyn o fesurau, ond mae angen inni gael hwnnw ar waith yn gyflym iawn.

We've talked at length, I have to say, to heavy industry across the piece, including steel, about what mitigation they could have in terms of what they are doing in terms of energy. As you know, we had considerable discussions at one time with Tata about the sinking of another mine, and there are all these issues. This is an ongoing dialogue that we have consistently had about how you can help and assist them in terms of energy costs. They were the ones who lobbied very heavily with us, as part of the steel community, to get the Government to rethink on looking at high-energy industries, which it has. But I don't think it's sufficient, and I think it's too late. I think that this is a key issue for them.

Rydym wedi siarad yn helaeth, rhaid imi ddweud, â diwydiant trwm yn gyffredinol, gan gynnwys dur, am y camau lliniaru posibl o ran yr hyn maent yn ei wneud ynglŷn ag ynni. Fel y gwyddoch, cawsom drafodaethau sylweddol ar un adeg gyda Tata am suddo pwll arall, ac mae'r holl faterion hyn yn parhau. Mae hon yn ddeialog barhaus yr ydym wedi'i chael yn gyson am sut y gallwch chi eu helpu a'u cynorthwyo o ran costau ynni. Nhw oedd y rhai a lobïodd yn drwm iawn gyda ni, fel rhan o'r gymuned ddur, i berswadio'r Llywodraeth i ailfeddwl am edrych ar ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer o ynni, ac maent wedi gwneud hynny. Ond nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon, ac rwy'n credu ei bod yn rhy hwyr. Rwy'n meddwl bod hwn yn fater allweddol iddynt.

In terms of what we have got that's constructive in terms of solid proposals, we've done a tremendous amount, can I say, in the training agenda with steel. Of course, we had that very innovative scheme that we had running when there were problems before. We've also supported them through things like SPECIFIC, the Sustainable Product Engineering Centre for Innovative Functional Industrial Coatings. We've helped them with environmental protection and all those issues. And, of course, the STRIP Materials Education Training and Learning project—we've looked at that as well. So, we've put very positive measures in. I have to say that, if you speak to the steel industry in Wales, you will find that we are held in good regard in terms of the level of support we have undertaken.

O ran yr hyn sydd gennym sy'n adeiladol o ran cynigion cadarn, rydym wedi gwneud llawer iawn, a gaf i ddweud, yn yr agenda hyfforddi gyda dur. Wrth gwrs, roedd gennym y cynllun arloesol iawn hwnnw y buom yn ei gynnal pan fu problemau o'r blaen. Rydym hefyd wedi eu cefnogi drwy bethau fel SPECIFIC, y Ganolfan Beirianneg Cynnyrch Cynaliadwy ar gyfer Haenau Diwydiannol Gweithredol Arloesol. Rydym wedi eu helpu gyda gwarchod yr amgylchedd a'r materion hynny i gyd. Ac, wrth gwrs, y prosiect Hyfforddiant a Dysgu Addysg Defnyddiau STRIP—rydym wedi edrych ar hynny hefyd. Felly, rydym wedi rhoi mesurau cadarnhaol iawn i mewn. Mae'n rhaid imi ddweud, os ydych yn siarad â'r diwydiant dur yng Nghymru, fe welwch fod ganddynt feddwl mawr ohonom o ran lefel y gefnogaeth yr ydym wedi'i rhoi.

In speaking to the unions, particularly, they are very keen that we carry on with what we're doing in terms of the support for training and innovation. So, I will be returning to what we can do, but I wouldn't want to underestimate the difficulties of support for the steel industry in the European context. I think we've got to look again at what Europe needs to do in terms of steel with the Commission, and I think it's very useful that we will be having discussions, I think, in Brussels about what you can do in terms of state aid, what you can't do, and, of course, what's feasible in terms of our own budget, because this is not just an issue for us in Wales; this is an issue for the UK. At the end of the day, does the UK Government wish to have a steel industry? If it doesn't wish to have a steel industry, it can continue to sit on its hands. If it wishes to have a strategic steel industry, which I think it should—in terms of some of the other positive proposals that they've got in terms of what they want to do, they'll need a steel industry—they then have to help that steel industry, and they might have to help us budgetary-wise to also help the steel industry in Wales.

Wrth siarad â'r undebau, yn benodol, maent yn awyddus iawn inni barhau â'r hyn yr ydym yn ei wneud o ran y cymorth ar gyfer hyfforddiant ac arloesi. Felly, gwnaf ddychwelyd at yr hyn y gallwn ei wneud, ond ni fyddwn am danbrisio anawsterau cefnogaeth i'r diwydiant dur yn y cyd-destun Ewropeaidd. Rwy'n meddwl bod rhaid inni edrych eto ar yr hyn y mae angen i Ewrop ei wneud o ran dur gyda'r Comisiwn, ac rwy'n meddwl ei bod yn ddefnyddiol iawn y byddwn yn cynnal trafodaethau, rwy'n meddwl, ym Mrwsel am yr hyn y gallwch ei wneud o ran cymorth gwladwriaethol, yr hyn na allwch ei wneud, ac, wrth gwrs, yr hyn sy'n ymarferol o ran ein cyllideb ni, oherwydd nid dim ond problem i ni yng Nghymru yw hon; mae hi'n broblem i'r DU. Ar ddiwedd y dydd, a yw Llywodraeth y DU yn dymuno cael diwydiant dur? Os nad ydynt yn dymuno cael diwydiant dur, gallant barhau i eistedd yn ôl. Os ydynt yn dymuno cael diwydiant dur strategol, fel yr wyf yn credu y dylent—o ran rhai o'r cynigion cadarnhaol eraill sydd ganddynt o ran yr hyn y maent am ei wneud, bydd angen diwydiant dur arnynt—mae'n rhaid iddynt helpu'r diwydiant dur hwnnw, ac efallai y bydd rhaid iddynt ein helpu ninnau o ran ein cyllideb er mwyn helpu'r diwydiant dur yng Nghymru hefyd.

And, can I say, there are opportunities for steel. You've only got to look at the quality of steel that Celsa can produce into the nuclear programme, right? They've got the best quality steel that could ever go into the programme, and we are very hopeful that Wylfa will proceed, but then you hear an announcement about a Chinese deal about a nuclear plant elsewhere—now, is Wylfa going to be third or second? Those are crucial issues for us as well, in terms of the steel industry and its survival in Wales.

Ac, os caf ddweud, mae cyfleoedd ar gyfer dur. Does ond rhaid ichi edrych ar ansawdd y dur y mae Celsa yn gallu ei gynhyrchu i'r rhaglen niwclear, iawn? Mae ganddyn nhw'r dur o ansawdd gorau a allai byth fynd i mewn i'r rhaglen, ac rydym yn obeithiol iawn y bydd Wylfa yn symud ymlaen, ond yna byddwch yn clywed cyhoeddiad am fargen â Tsieina am atomfa yn rhywle arall—nawr, ai Wylfa fydd y drydedd ynteu'r ail? Mae'r rhain yn faterion hollbwysig i ninnau, o ran y diwydiant dur a'i oroesiad yng Nghymru.

15:26 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, thank you for your statement. It's clear that the steel industry here in Wales and in Britain is caught in a pincer movement between those increasing costs and a collapsing market, and it is a very dangerous time, but, whilst I agree with the spokesperson for the Conservative party that no Government can control a market, surely a Government can respond appropriately to market conditions and help our industries to adapt to the market conditions as they change. There are, of course, lots of things that are outside of our powers here in this place, but there are areas where the Welsh Government does have influence and does have the ability to act, and I want to reflect on some of those. I have asked you on many occasions, Minister, for a manufacturing strategy. If you do have one, I would be interested to know, perhaps in a written statement at a later date, how that manufacturing strategy has been working over the last two years in support of steel in Wales.

I'd like to ask about business rates, because, again, this is an area that you do have influence over. What progress has your Government made towards costing the proposal in the business rates review of removing the business rates from plant and machinery? Because, clearly, this is a huge potential cost and an opportunity for the steel industry, whose investments in their plant and machinery have been absolutely immense. Secondly, the importance of projects that the Welsh Government and others can bring forward in Wales, particularly, perhaps, the tidal lagoon: the construction phase, obviously, is a major opportunity for the kind of steel made by Celsa. The then fabrication possibilities for Tata and others could be a massive boost to the Welsh economy, not just in the short term, to protect the steel industry through this very difficult period now, but in the long term to recreate the fabrication of heavy industry in Wales. It is a fantastic opportunity, and we need to push for that as far as possible.

A third area is clearly procurement. You say in your statement it's important, obviously, that there is a fair and open procurement practice, but 'fair' is the key, isn't it? There are many in the steel industry here in Britain who would say that that procurement process isn't necessarily as fair as it might be. Are we making sure that there is effective enforcement of standards? It's not just an issue about quality; it's an issue about safety, and if there is steel bar coming into the UK where the ribbing isn't high enough and doesn't quite meet the standards, if we're allowing those kind of substandard products to get into the supply chain in Britain, then we will have safety issues in the long term.

Then there's the effective tracking of products, to tackle things like grey imports, where there is a suspicion that products might leave one place as an alloy product, not susceptible to VAT, and then arrive somewhere else, across the other side of the globe, as a steel product, where, suddenly, it does attract VAT. This is just not acceptable. We are able to chemically track products in this way, and we need to perhaps look at procurement to see whether we can make sure that we are insisting that products used in Welsh procurement are meeting those tracking standards.

Weinidog, diolch am eich datganiad. Mae'n amlwg bod y diwydiant dur yma yng Nghymru ac ym Mhrydain wedi'i ddal mewn cyrch deupen rhwng y costau cynyddol hynny a marchnad sy'n cwympo, ac mae'n gyfnod peryglus iawn. Ond, er fy mod yn cytuno â llefarydd y blaid Geidwadol na all unrhyw Lywodraeth reoli marchnad, yn sicr gall Llywodraeth ymateb yn briodol i amodau'r farchnad a helpu ein diwydiannau i addasu i amodau'r farchnad wrth iddynt newid. Wrth gwrs, mae llawer o bethau sydd y tu hwnt i'n pwerau ni yma yn y lle hwn, ond mae gan Lywodraeth Cymru ddylanwad a gallu i weithredu mewn rhai meysydd, a hoffwn fyfyrio ar rai o'r rheini. Rwyf wedi gofyn ichi droeon, Weinidog, am strategaeth gweithgynhyrchu. Os oes gennych un, byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod, o bosibl mewn datganiad ysgrifenedig yn ddiweddarach, sut y mae'r strategaeth gweithgynhyrchu honno wedi bod yn gweithio dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gefnogi dur yng Nghymru.

Hoffwn ofyn am ardrethi busnes, oherwydd, unwaith eto, mae hwn yn faes y mae gennych ddylanwad drosto. Pa gynnydd y mae eich Llywodraeth wedi ei wneud tuag at gostio'r cynnig yn yr adolygiad ardrethi busnes o gael gwared ar ardrethi busnes ar offer a pheiriannau? Oherwydd, yn amlwg, mae hon yn gost bosibl enfawr ac yn gyfle i'r diwydiant dur, sydd wedi gwneud buddsoddiadau hollol aruthrol yn eu hoffer a'u peiriannau. Yn ail, pwysigrwydd prosiectau y gall Llywodraeth Cymru ac eraill eu cyflwyno yng Nghymru, yn arbennig, efallai, y morlyn llanw: mae'r cam adeiladu, yn amlwg, yn gyfle mawr i'r math o ddur y mae Celsa yn ei wneud. Yna, gallai'r posibiliadau gwneuthuriad ar gyfer Tata ac eraill fod yn hwb enfawr i economi Cymru, nid dim ond yn y tymor byr, i ddiogelu'r diwydiant dur drwy'r cyfnod anodd iawn hwn nawr, ond yn y tymor hir i ail-greu ffabrig diwydiant trwm yng Nghymru. Mae'n gyfle gwych, ac mae angen inni bwyso am hynny gymaint ag y bo modd.

Y trydydd maes amlwg yw caffael. Rydych yn dweud yn eich datganiad ei bod yn bwysig, yn amlwg, bod arferion caffael yn deg ac agored, ond 'teg' yw'r un allweddol, ynte? Mae llawer o bobl yn y diwydiant dur yma ym Mhrydain a fyddai'n dweud nad yw'r broses gaffael o reidrwydd mor deg ag y gallai fod. A ydym yn gwneud yn siŵr bod safonau'n cael eu gorfodi'n effeithiol? Nid mater o ansawdd yn unig yw hyn; mae'n fater o ddiogelwch, ac os oes bar dur yn dod i mewn i'r DU heb rib digon uchel a heb gyrraedd y safonau'n gyfan gwbl, os ydym yn caniatáu i gynhyrchion is-safonol fel hyn i fynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi ym Mhrydain, bydd gennym broblemau diogelwch yn y tymor hir.

Yna mae mater tracio cynhyrchion yn effeithiol, i ymdrin â phethau fel mewnforion llwyd, lle mae amheuaeth y gallai cynhyrchion adael un lle fel cynnyrch aloi, sydd ddim yn denu TAW, ac yna gyrraedd rhywle arall, ym mhendraw'r byd, fel cynnyrch dur, lle, yn sydyn, mae'n denu TAW. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Rydym yn gallu tracio cynnyrch yn gemegol fel hyn, ac mae angen inni edrych efallai ar gaffael i weld a allwn wneud yn siŵr ein bod yn mynnu bod cynhyrchion a ddefnyddir mewn caffael yng Nghymru'n bodloni'r safonau tracio hynny.

And then we can look at social clauses on things like the environmental performance of the steel that we're using. It's one area where British steel performs far better than most of the rest of the world. We have some of the best quality, cleanest, greenest steel in the entire world—why aren't we using social clauses in procurement, perfectly legally, to demand the highest possible standards that we can get hold of?

Ac yna gallwn edrych ar gymalau cymdeithasol ar bethau fel perfformiad amgylcheddol y dur yr ydym yn ei ddefnyddio. Mae'n un maes lle mae dur Prydain yn perfformio'n llawer gwell na'r rhan fwyaf o weddill y byd. Mae gennym rywfaint o'r dur o'r ansawdd gorau, glanaf, gwyrddaf yn y byd—pam nad ydym yn defnyddio cymalau cymdeithasol wrth gaffael, sy'n berffaith gyfreithlon, i fynnu'r safonau uchaf posibl sydd ar gael inni?

Finally, you mentioned the Chinese investment into Wales. Now, clearly, we're all going to welcome jobs, but we have to make sure that, when we are seeing inward investment into Wales, those investments are investing in our supply chains as well, and I was very concerned by a statement hidden in one of those press articles that 60 per cent of the goods going into building that investment will actually be sourced from China. We need to make sure that inward investment is embedding itself in its supply chain here, not just because it's an immediate boost to industries like steel in Wales, but also because, in the long term, we know that those embedded companies are more likely to stay longer. I wonder what discussions you've had with the UK Government about that investment, to see what we can do to ensure that the absolute maximum value is derived for British workers, and for British industry.

Yn olaf, soniasoch am fuddsoddiad Tsieina yng Nghymru. Nawr, yn amlwg, rydym i gyd yn mynd i groesawu swyddi, ond mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr, pan fyddwn yn gweld mewnfuddsoddiad i Gymru, bod y buddsoddiadau hynny'n buddsoddi yn ein cadwyni cyflenwi hefyd, ac roeddwn yn bryderus iawn am ddatganiad cudd yn un o'r erthyglau hynny i'r wasg y bydd 60 y cant o'r nwyddau sy'n mynd i mewn i adeiladu'r buddsoddiad hwnnw'n dod o Tsieina yn wreiddiol. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y mewnfuddsoddiad hwnnw'n ei ymgorffori ei hun yn ei gadwyn gyflenwi yma, nid dim ond oherwydd ei fod yn hwb ar unwaith i ddiwydiannau fel dur yng Nghymru, ond hefyd oherwydd, yn y tymor hir, rydym yn gwybod bod y cwmnïau hynny sydd wedi'u hymgorffori'n fwy tebygol o aros yn hirach. Tybed pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch y buddsoddiad hwnnw, i weld beth y gallwn ei wneud i sicrhau y gwerth mwyaf posibl i weithwyr Prydain, ac i ddiwydiant Prydain?

15:30

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

On your final point, I concur totally with the points that you've made about the Chinese investment, and where the supply chain should come from. This is an issue—now that we have a full statement of what is happening on this—that I will be taking up with the UK Government.

O ran eich pwynt olaf, rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwyntiau yr ydych wedi eu gwneud am y buddsoddiad o Dsieina, ac o ble y dylai'r gadwyn gyflenwi ddod. Mae hwn yn fater—nawr bod gennym ddatganiad llawn o'r hyn sy'n digwydd ar hyn—y byddaf yn sôn amdano wrth Lywodraeth y DU.

In terms of the tracking of products, I think this is an issue we will have to look at within our group, and we need to see what can be done wider than just the Welsh context, but across the UK. This is certainly something I might be able to pick up through the various working groups, not only the one I'm having in Wales, but, of course, nationally.

O ran tracio cynnyrch, rwy'n credu bod hwn yn fater y bydd rhaid inni edrych arno o fewn ein grŵp, ac mae angen inni weld beth y gellir ei wneud yn ehangach na dim ond yng nghyd-destun Cymru, ond ledled y DU. Mae hyn yn sicr yn rhywbeth y gallaf efallai ei godi drwy'r amrywiol weithgorau, nid dim ond yr un yr wyf yn ei gael yng Nghymru, ond, wrth gwrs, yn genedlaethol.

In terms of procurement, I see procurement as being a key issue. Because if you look at our procurement statement, which we published in 2012, it's fully supportive, actually, of the charter's principles, in terms of the steel charter's principles, and, to this end, we consider the best approach is to adhere to a broad procurement policy that meets absolutely with the spirit of the charter. I think we've got that embedded in. I think, crucially, this approach enables us to deal with the issue that you raised, the impact of standards, of course—I think it's BES 6001—on the wider business community, including SMEs in Wales. So, that's very important as well.

O ran caffael, rwy'n ystyried bod caffael yn fater allweddol. Oherwydd os edrychwch chi ar ein datganiad caffael, a gyhoeddwyd gennym yn 2012, mae'n gwbl gefnogol, a dweud y gwir, o egwyddorion y siarter, o ran egwyddorion y siarter dur, ac, i'r perwyl hwn, rydym yn ystyried mai'r dull gorau yw cadw at bolisi caffael eang sy'n bodloni ysbryd y siarter yn llwyr. Rwy'n credu bod hynny wedi'i wreiddio gennym. Rwy'n meddwl, yn hollbwysig, bod y dull hwn yn ein galluogi i ymdrin â'r mater a godwyd gennych, sef effaith safonau, wrth gwrs—rwy'n meddwl mai BES 6001 ydyw—ar y gymuned fusnes ehangach, gan gynnwys busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Felly, mae hynny'n bwysig iawn hefyd.

There's no doubt in my mind that Welsh steel is used extensively as a basis for carbon steel reinforcement in infrastructure projects, and we need to make sure that we can get those infrastructure projects that we're doing in Wales certainly linked up to Welsh steel, and in the UK more widely. Raising the bar, via the British Steel charter, will safeguard, I think, Welsh jobs, and would offer extensive opportunities in this area, for Wylfa and Hinkley Point, and Celsa. I've already said about Celsa, and what they're doing in that particular area.

Does dim amheuaeth yn fy meddwl bod dur Cymru'n cael ei ddefnyddio'n helaeth fel sail ar gyfer atgyfnerthu dur carbon mewn prosiectau seilwaith, ac mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn gallu cysylltu'r prosiectau seilwaith hynny yr ydym yn eu gwneud yng Nghymru, yn sicr â dur Cymru, ac yn y DU yn ehangach. Bydd codi'r bar, drwy'r siarter Dur Prydain, yn diogelu, rwy'n meddwl, swyddi yng Nghymru, a byddai'n cynnig cyfleoedd helaeth yn y maes hwn, i Wylfa a Hinkley Point, a Celsa. Rwyf wedi sôn yn barod am Celsa, a beth maent yn ei wneud yn y maes penodol hwnnw.

Now, in terms of the tidal lagoon, that is another issue that the UK Government has to take a decision on. Now, I appreciate that you have to be firm in your own mind that the technology is correct for the tidal lagoon before you make such an expensive decision in terms of a strike price, but now it's a very difficult position for the tidal lagoon, because they have no certainty about investment, or anything that might be happening, until they have that strike price. So, the UK Government has to take a decision —'yes' or 'no'—so we can actually then go on and build the infrastructure that is necessary to build the tidal lagoon, and all the industries in between, all the contractors and everybody we will then have to support as part of that.

Nawr, o ran y morlyn llanw, mae hwnnw'n fater arall y mae Llywodraeth y DU yn gorfod gwneud penderfyniad yn ei gylch. Nawr, rwy'n deall bod rhaid ichi fod yn gadarn yn eich meddwl eich hun bod y dechnoleg yn gywir ar gyfer y morlyn llanw cyn ichi wneud penderfyniad mor ddrud â phris taro, ond nawr mae'n sefyllfa anodd iawn i'r morlyn llanw, oherwydd does ganddynt ddim sicrwydd am fuddsoddiad, nac unrhyw beth a allai fod yn digwydd, nes iddynt gael y pris taro hwnnw. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth y DU wneud penderfyniad—'ie' neu 'na'—er mwyn i ni wedyn, mewn gwirionedd, allu bwrw ymlaen i adeiladu'r seilwaith sydd ei angen i adeiladu'r morlyn llanw, a'r holl ddiwydiannau yn y canol, yr holl gontractwyr a phawb y bydd rhaid inni wedyn eu cefnogi fel rhan o hynny.

In terms of plant and machinery, we are looking at that in some detail now, about what you might be able to do in the future, about when there is an investment, what you can do in terms of plants and machinery. Also, I think it's a good point to look at, in the wider issue, and it is a point that was discussed as well in terms of the UK at the summit on Friday.

O ran offer a pheiriannau, rydym yn edrych ar hynny'n eithaf manwl nawr, am yr hyn y gallech efallai ei wneud yn y dyfodol, o ran pryd mae buddsoddiad, beth y gallwch ei wneud o ran gweithfeydd a pheiriannau. Hefyd, rwy'n meddwl ei fod yn bwynt da i edrych arno, yn y mater ehangach, ac mae'n bwynt a drafodwyd hefyd o ran y DU yn yr uwchgynhadledd ddydd Gwener.

So, I think these points are being addressed, and I'd be more than happy to come back on them all.

Felly, rwy'n meddwl bod y pwyntiau hyn yn cael sylw, a byddwn yn fwy na pharod i ddod yn ôl ar bob un ohonynt.

15:33

## John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, would you agree with me that we do need the UK Government to understand that steel is a strategic industry that our economy, in general, depends upon? There is a need for the UK Government to take a long-term view, and, indeed, for the industry to take a long-term view, because we may be seeing cheap imports 'dumped', as it's termed, on our market at the moment. But when capacity is taken out, we may see prices rising sharply, as the market conditions change, and then all of the companies and firms in the UK may be paying a much, much higher price without an indigenous steel industry.

Weinidog, a fyddech yn cytuno â mi bod arnom angen i Lywodraeth y DU ddeall bod dur yn ddiwydiant strategol y mae ein heconomi, yn gyffredinol, yn dibynnu arno? Mae angen i Lywodraeth y DU gymryd golwg tymor hir, ac, yn wir, i'r diwydiant gymryd golwg tymor hir, oherwydd efallai ein bod yn gweld mewnforion rhad yn cael eu 'dympio', fel a ddywedir, ar ein marchnad ar hyn o bryd. Ond ar ôl i'r capasiti gael ei gymryd allan, mae'n bosibl y byddwn yn gweld prisiau'n codi'n sydyn, wrth i amodau'r farchnad newid, ac yna gallai'r holl gwmnïau yn y DU fod yn talu pris llawer, llawer uwch heb ddiwydiant dur cynhenid.

We do have recent history of that sort of experience within Llanwern in Newport, prior to Tata Steel taking over, when there was a short-term restructuring, which removed capacity. Shortly thereafter, when market conditions improved, the company were very regretful of having taken out that capacity, because that short-term view had greatly damaged their ability to compete in the market, and prosper thereafter.

Mae gennym hanes diweddar o'r math hwnnw o brofiad yn Llanwern yng Nghasnewydd, cyn i Tata Steel gymryd yr awenau, pan fu ailstrwythuro tymor byr, a oedd yn lleihau capasiti. Yn fuan wedi hynny, pan oedd cyflwr y farchnad wedi gwella, roedd y cwmni'n difaru eu bod wedi cael gwared ar y capasiti hwnnw, gan fod y golwg tymor byr hwnnw wedi gwneud niwed mawr i'w gallu i gystadlu yn y farchnad, ac i ffynnu ar ôl hynny.

So, with that sort of background, Minister, would you agree with me that we do have a great deal of resource still in our steel industry—in Llanwern, for example—in terms of experience, knowledge, expertise of the workforce, redeployed though they are at the moment, in terms of the mothballing of the strip mill there? We heard earlier of the renewed production at Liberty steelworks, which I think shows that there is still a strong role for steel in our economy. Indeed, the Orb works in Newport produces very high quality electrical steels. Minister, there are many issues to consider in taking all of this forward, and I wonder if you would agree to meet with the steel unions at Llanwern, so that we could discuss these matters and the role of Welsh Government, not only in terms of working with the UK Government and the industry, but Welsh Government's own responsibilities.

Felly, gyda'r math hwnnw o gefndir, Weinidog, a fyddech yn cytuno â mi bod gennym lawer iawn o adnoddau o hyd yn ein diwydiant dur—yn Llanwern, er enghraifft—o ran profiad, gwybodaeth, arbenigedd y gweithlu, er eu bod wedi'u hadleoli ar hyn o bryd, o ran gwneud y felin stribed yno'n segur? Clywsom yn gynharach am y cynhyrchu o'r newydd yng ngwaith dur Liberty, sydd, rwy'n meddwl, yn dangos bod yna le cryf o hyd i ddur yn ein heconomi. Yn wir, mae'r gwaith Orb yng Nghasnewydd yn cynhyrchu dur trydanol o ansawdd uchel iawn. Weinidog, mae llawer o faterion i'w hystyried wrth fwrw ymlaen â hyn i gyd, ac rwy'n meddwl tybed a fyddech yn cytuno i gwrdd â'r undebau dur yn Llanwern, fel y gallem drafod y materion hyn a swyddogaeth Llywodraeth Cymru, nid dim ond o ran gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r diwydiant, ond cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ei hun.

15:35

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those points, John. I think you echo all of our understanding of what's been going on in the steel industry, particularly in Llanwern, and what type of future, perhaps, we can have for the steel industry within the UK. It's important that we value the resource and maintain it as we go through the difficult times with what happens with local steel production, because there will be a way out, hopefully, at the end. I would, of course, be delighted to meet the trade unions with you at Llanwern; I met representatives of the trade unions with David Rees recently down in Port Talbot. I think it's important, because you actually find that the greatest knowledge about what's going on in their companies actually comes from the shop floor. I tell you one thing; they give you better briefings sometimes that their senior management team about the reality of what's going on. I think it's important that workers in Wales, who are in this industry, recognise that we're in for the long haul with them and want to give them as much support as we can.

Diolch am y pwyntiau hynny, John. Rwy'n meddwl eich bod yn adleisio ein dealltwriaeth ni i gyd o beth sydd wedi bod yn digwydd yn y diwydiant dur, yn enwedig yn Llanwern, a pha fath o ddyfodol, efallai, y gallwn ei gael i'r diwydiant dur yn y DU. Mae'n bwysig ein bod yn gwerthfawrogi'r adnodd ac yn ei gadw wrth inni fynd drwy'r cyfnodau anodd o ran yr hyn sy'n digwydd gyda chynhyrchu dur lleol, oherwydd bydd yna ffordd allan, gobeithio, ar y diwedd. Byddwn, wrth gwrs, wrth fy modd o gwrdd â'r undebau llafur gyda chi yn Llanwern; cyfarfûm â chynrychiolwyr yr undebau llafur gyda David Rees yn ddiweddar i lawr ym Mhort Talbot. Rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig, oherwydd fe welwch mewn gwirionedd bod y wybodaeth fwyaf am yr hyn sy'n digwydd yn eu cwmnïau'n dod o lawr y ffatri. Rwy'n dweud un peth wrthych; maent yn rhoi gwell sesiynau briffio ichi weithiau na'u uwch dîm rheoli am realiti'r hyn sy'n digwydd. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig bod gweithwyr yng Nghymru, sydd yn y diwydiant hwn, yn sylwi ein bod yno am y tymor hir gyda nhw ac yn awyddus i roi cymaint o gefnogaeth ag y gallwn iddynt.

15:36

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

In asking a question this afternoon, I would like to declare a personal interest, in that my brother is employed by Caparo and is in the Tredegar plant today.

Wrth ofyn cwestiwn y prynhawn yma, hoffwn ddatgan buddiant personol, sef bod fy mrawd yn cael ei gyflogi gan Caparo a'i fod yn y gwaith yn Nhredegar heddiw.

It is deeply, deeply traumatic for communities that have been affected by these steel closures in Wales and elsewhere in the United Kingdom. The trauma of losing the plant, losing the works, is deepened by a very real sense that the Government of the United Kingdom is not on our side; that the Government of the United Kingdom stands by and watches a key strategic industry, an industry that has provided the base for our manufacturing and industrial industries for decades and centuries, being dismantled, and the United Kingdom Government stands by, wringing their hands, unwilling to take the necessary action to ensure that this industry will survive into the future. I think that's something which is important for people to recognise.

Mae'n drawmatig iawn, iawn i gymunedau sydd wedi dioddef effaith cau'r gweithfeydd dur hyn yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae trawma colli'r ffatri, colli'r gwaith, yn cael ei ddyfnhau gan ymdeimlad real iawn nad yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ein hochr ni; bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sefyll yno ac yn gwylio diwydiant strategol allweddol, diwydiant sydd wedi darparu sylfaen ein diwydiannau gweithgynhyrchu a diwydiannol ers degawdau a chanrifoedd, yn cael eu datgymalu, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sefyll yno, yn gwneud dim, yn amharod i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y bydd y diwydiant hwn yn goroesi yn y dyfodol. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae'n bwysig i bobl ei gydnabod.

In recognising the inability and the unwillingness of the United Kingdom Government to take action, I've been struck by the Welsh Government's engagement with the industry, with trade unions, with communities, to build and to look for a future for the steel industry across Wales. Minister, I wrote to you yesterday about the situation in Tredegar. I'd be grateful if we could meet to discuss what support the Welsh Government can provide to workers in Caparo in Tredegar, but also, to look at how the Welsh Government can ensure that this market failure is addressed. The real tragedy, the absolutely historic tragedy of this, is that we're seeing economic conditions across the world creating the over-supply, but as soon as those economic conditions change, other countries, other markets, will be supplying steel to this country and we will have lost an absolutely key strategic industry because a Government isn't prepared to stand by that industry. It's important, I think, that the Welsh Government seeks to protect and to work with the industry here in Wales, as demonstrated by your attendance at the summit last week. The words and the actions that you've taken, Minister, over the last few weeks, as we've seen this situation deteriorate, have been in stark contrast to that of the Government in London.

Wrth gydnabod anallu ac amharodrwydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i weithredu, rwyf wedi cael fy nharo gan ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â'r diwydiant, ag undebau llafur, â chymunedau, i adeiladu dyfodol a chwilio am ddyfodol i'r diwydiant dur ledled Cymru. Weinidog, ysgrifennais atoch ddoe am y sefyllfa yn Nhredegar. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gyfarfod i drafod pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei ddarparu i weithwyr yn Caparo yn Nhredegar, ond hefyd, i edrych ar sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod methiant y farchnad yn cael sylw. Y drychineb go iawn, trychineb hollol hanesyddol hyn, yw ein bod yn gweld amodau economaidd ar draws y byd yn creu gorgyflenwad, ond cyn gynted ag y bydd yr amodau economaidd hynny'n newid, bydd gwledydd eraill, marchnadoedd eraill, yn cyflenwi dur i'r wlad hon a byddwn wedi colli diwydiant strategol hollol allweddol oherwydd nad yw Llywodraeth yn barod i gefnogi'r diwydiant hwnnw. Mae'n bwysig, rwy'n meddwl, bod Llywodraeth Cymru'n ceisio diogelu'r diwydiant a gweithio gydag ef yma yng Nghymru, fel y dangosodd eich presenoldeb yn yr uwchgynhadledd yr wythnos diwethaf. Mae'r geiriau a'r camau yr ydych wedi'u cymryd, Weinidog, yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, wrth inni weld y sefyllfa hon yn gwaethygu, wedi bod yn wrthgyferbyniad llwyr i'r Llywodraeth yn Llundain.

I'd be grateful if we could meet to discuss the situation in Tredegar, the situation with Caparo, but to do that in the context of a Welsh Government standing up for people in Wales, standing up for a Welsh industry and creating a future for that industry.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gyfarfod i drafod y sefyllfa yn Nhredegar, sefyllfa Caparo, ond gwneud hynny yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru sy'n sefyll dros bobl Cymru, yn sefyll dros ddiwydiant yng Nghymru ac yn creu dyfodol i'r diwydiant hwnnw.

15:39 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, the situation in Caparo probably came as a shock to the workforce there. We are aware that the impact of steel prices and exchange rates has had an impact on some parts of the group, but that, actually, some businesses in the group that are not directly affected by steel prices, and have a strong customer demand and critical support, might be able to survive in terms of what's going. There's also the business in Wrexham which is part of the Caparo group. It will be my intention to visit Blaenau Gwent, Alun, with you, to perhaps go to the company, so that we can have a discussion about what we're able to do to help and assist. I know PwC have been appointed as the joint administrators for the 16 companies. There are 1,700 employees, generally, across the piece, so it will be important that we can have a discussion both in Wrexham and in Tredegar about any assistance we might be able to give, as a Government, if it is an endgame in terms of those plants in any way.

Yn amlwg, yn ôl pob tebyg roedd y sefyllfa yn Caparo yn sioc i'r gweithlu yno. Rydym yn ymwybodol bod effaith prisiau dur a chyfraddau cyfnewid wedi cael effaith ar rai rhannau o'r grŵp, ond, mewn gwirionedd, mae rhai busnesau yn y grŵp nad yw prisiau dur yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, ac mae ganddynt lawer o alw gan gwsmeriaid a chymorth critigol, ac efallai y gallai'r rheini oroesi o ran yr hyn sy'n digwydd. Hefyd, mae'r busnes yn Wrecsam, sy'n rhan o'r grŵp Caparo. Fy mwriad fydd ymweld â Blaenau Gwent, Alun, gyda chi, efallai i fynd i'r cwmni, fel y gallwn gael trafodaeth am yr hyn y gallwn ei wneud i helpu a chynorthwyo. Rwy'n gwybod bod PwC wedi cael eu penodi'n gyd-weinyddwyr ar gyfer yr 16 o gwmnïau. Mae cyfanswm o 1,700 o weithwyr, at ei gilydd, felly bydd yn bwysig inni allu cael trafodaeth yn Wrecsam ac yn Nhredegar am unrhyw gymorth y gallem ei roi, fel Llywodraeth, os mai dyna yw pen draw'r daith o ran y gweithfeydd hynny mewn unrhyw ffordd.

So, our door is always open here, as you said. We regard steel as really important. Steel is strategic for any industrialised nation and it's important to recognise that you require steel, and if we don't do something and act now—Alun; you're quite right—we won't have an industry to be talking about. It would be rather like coal mining in Wales, wouldn't it? You know, it went and it has never come back. That'll be steel. So, it'll all be in the history books and I certainly don't want the steel industry in the history books, because then, what does happen to manufacturing? That, for me, is a really serious issue. You can't have an economy that just relies on the bankers; you need an economy that actually produces things, and if our European cousins recognise this, why can't we recognise it in terms of industrial policy within the UK?

Felly, mae ein drws bob amser ar agor yma, fel y dywedasoch. Rydym yn ystyried bod dur yn wirioneddol bwysig. Mae dur yn strategol i unrhyw genedl ddiwydiannol ac mae'n bwysig cydnabod bod angen dur arnoch, ac os nad ydym yn gwneud rhywbeth ac yn gweithredu nawr—Alun; rydych yn llygad eich lle—ni fydd gennym ddiwydiant i siarad amdano. Byddai'n debyg i'r diwydiant glo yng Nghymru, oni fyddai? Wyddoch chi, aeth hwnnw i ffwrdd ac nid yw erioed wedi dod yn ôl. Fel yna fydd dur. Felly, bydd y cyfan yn y llyfrau hanes ac yn sicr, nid wyf fi am i'r diwydiant dur fod yn y llyfrau hanes, oherwydd wedyn, beth sy'n digwydd i weithgynhyrchu? Mae hynny, i mi, yn fater difrifol iawn. Ni allwch gael economi sy'n dibynnu ar y bancwyr yn unig; mae angen economi sy'n cynhyrchu pethau go iawn, ac os yw ein cefndryd Ewropeaidd yn cydnabod hyn, pam na allwn ninnau ei gydnabod fel polisi diwydiannol yn y DU?

15:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:41

## 5. Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

## 5. The Microchipping of Dogs (Wales) Regulations 2015

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Item 5 is the microchipping of dogs regulations and I call on the Deputy Minister for Farming and Food to move the motion. Rebecca Evans.

Eitem 5 yw rheoliadau microsglodynnu cŵn a galwaf ar y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gynnig y cynnig. Rebecca Evans.

Cynnig NDM5846 Jane Hutt

Motion NDM5846 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2015.

Approves that the draft The Microchipping of Dogs (Wales) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 29 September 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:41

## Rebecca Evans Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you. I move the motion.

Diolch. Cynigiaf y cynnig.

Thank you for the opportunity to briefly explain the background to today's debate on the Microchipping of Dogs (Wales) Regulations 2015. These regulations form part of a suite of legislation and other action to improve animal welfare and encourage responsible dog ownership.

Diolch am y cyfle i egluro yn gryno cefndir y ddadl heddiw ar Reoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015. Mae'r rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o gyfres o ddeddfwriaeth a chamau eraill i wella lles anifeiliaid ac annog perchnogaeth cŵn cyfrifol.

From 6 April 2016, these regulations will require the compulsory microchipping of any dog over eight weeks of age in Wales, unless it is a certified working dog for the purposes of the Animal Welfare Act 2006. Separate regulations already require a certified working dog to be microchipped.

O 6 Ebrill 2016, bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ficrosglodynnu unrhyw gi sydd dros wyth wythnos oed yng Nghymru, oni bai ei fod yn gi gwaith ardystiedig at ddibenion Deddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae rheoliadau ar wahân eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i gi gwaith ardystiedig gael ei ficrosglodynnu.

It's important to note that the requirement to microchip will not apply under circumstances where a vet certifies that microchipping would significantly compromise a puppy's or dog's health. The details of the keeper must be recorded on a database which meets the requirements set out in the regulations. The database entry in relation to any dog or puppy must be updated by the keeper when the dog or puppy is sold or gifted to another person. The traceability of microchipped dogs to their keepers should promote responsible dog ownership. If the keepers can be traced and held accountable for their dog's actions or behaviour, this could reduce incidents of out-of-control dogs, fouling and straying, and will help reunite lost dogs with their keepers, more quickly. More efficient reunification will also reduce the kennelling costs to charities and local authorities. Shorter stays in kennels should certainly reduce the impact on an animal's welfare.

Mae'n bwysig nodi na fydd y gofyniad i ficrosglodynnu yn berthnasol o dan amgylchiadau pan fydd milfeddyg yn ardystio bod microsglodynnu yn peryglu iechyd ci bach neu gi yn sylweddol. Mae'n rhaid i fanylion y perchennog gael eu cofnodi ar gronfa ddata sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn y rheoliadau. Mae'n rhaid i'r cofnod gronfa ddata ynglŷn ag unrhyw gi neu gi bach gael ei ddiweddaru gan geidwad y ci pan fydd y ci neu gi bach yn cael ei werthu neu ei roi yn anrheg i berson arall. Dylai'r gallu i gysylltu cŵn wedi'u microsglodynnu â'u ceidwaid hyrwyddo perchnogion cŵn i ymddwyn yn gyfrifol. Os yw perchnogion yn gallu cael eu holrhain a'u dwyn i gyfrif am weithredoedd neu ymddygiad eu cŵn, gallai hyn leihau nifer y digwyddiadau o gŵn nad ydynt dan reolaeth, sy'n baeddu ac yn crwydro. Bydd hyn hefyd yn helpu aduno cŵn sydd ar goll â'u perchnogion, yn gyflymach. Bydd ailuno mwy effeithlon hefyd yn lleihau costau llety cŵn i elusennau ac awdurdodau lleol. Dylai arosiadau byrrach yn y llety cŵn yn sicr leihau'r effaith ar les yr anifail.

In the 2012 consultation exercise, 84 per cent of respondents were supportive of introducing compulsory microchipping for dogs. A similar exercise in 2015 followed a similar pattern with responses to the questions ranging positively from 58 per cent to 84 per cent. The regulations, if passed, will come into force on 6 April 2016 in line with England and Scotland.

Yn ymarfer ymgynghori 2012, roedd 84 y cant o'r rhai a ymatebodd yn gefnogol i gyflwyno microsglodynnu gorfodol ar gyfer cŵn. Roedd ymarfer tebyg yn 2015 yn dilyn patrwm tebyg gydag ymatebion i'r cwestiynau yn amrywio yn gadarnhaol o 58 y cant i 84 y cant. Bydd y rheoliadau, os cânt eu pasio, yn dod i rym 6 Ebrill 2016 yn unol â Lloegr a'r Alban.

A guidance document is being developed to ensure cross-border consistency and to avoid confusion for members of the public and enforcers alike. I've asked my officials to work closely with local authorities and the third sector, as well as colleagues in the other UK administrations, to monitor the effectiveness of the legislation on an ongoing basis. I'm pleased to commend this motion to the Chamber.

Mae dogfen gyfarwyddyd yn cael ei datblygu i sicrhau cysondeb ar draws ffiniau ac er mwyn osgoi dryswch i aelodau o'r cyhoedd a gorfodwyr fel ei gilydd. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r trydydd sector, yn ogystal â chydweithwyr yng ngweinyddiaethau eraill y DU, i fonitro effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn barhaus. Rwyf yn falch o gymeradwyo'r cynnig hwn i'r Siambr.

15:43

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I want to thank you for introducing these regulations on microchipping, which are finally coming before us to this Assembly, after some delays in the legislative process.

Weinidog, rwyf eisiau diolch i chi am gyflwyno'r rheoliadau hyn ar ficrosglodynnu, sydd o'r diwedd yn dod ger ein bron yn y Cynulliad hwn, ar ôl peth oedi yn y broses ddeddfwriaethol.

Myself and my Welsh Conservative colleagues have long championed the hugely positive role that microchipping can play in improving the traceability and welfare of dogs. Microchipping dramatically boosts the chances of a lost or stolen dog being reunited with its owner. It plays a role in combatting animal cruelty, encourages responsible dog ownership, and results in cost savings for local authority budgets.

Rwyf i fy hun a'm cyd-Aelodau yng Ngheidwadwyr Cymru wedi hyrwyddo'r swyddogaeth hynod gadarnhaol y gall microsglodynnu ei chwarae o ran gwella olrhain a lles cŵn. Mae microsglodynnu yn rhoi hwb sylweddol i'r tebygolrwydd y bydd ci sydd ar goll neu wedi'i ddwyn yn cael ei aduno â'i berchennog. Mae'n chwarae rhan wrth frwydro yn erbyn creulondeb at anifeiliaid, yn annog perchnogaeth cŵn cyfrifol, ac yn arwain at arbedion mewn costau i gyllidebau awdurdodau lleol.

I do have to say that the record of the Welsh Government in legislating on this issue has been poor. The Constitutional and Legislative Affairs Committee indicated a series of issues with the proposals that were previously brought forward by the Welsh Government relating to legal standards and enforcement. I would therefore be interested in hearing what lessons have been learnt by the Welsh Government to ensure that future regulations on issues don't suffer from the same fate.

Mae'n rhaid i mi ddweud bod hanes Llywodraeth Cymru o ran deddfu ar y mater hwn wedi bod yn wael. Nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyfres o broblemau gyda'r cynigion a gafodd eu dwyn ymlaen yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â safonau cyfreithiol a gorfodi. Bydd o ddiddordeb imi glywed pa wersi a ddysgwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau na fydd rheoliadau yn y dyfodol ar faterion yn dioddef yr un dynged.

All said, Minister, and despite these issues, I am happy to indicate Welsh Conservative support for these regulations and will continue to champion the benefits of compulsory microchipping in Wales.

Ar ôl dweud hynny, Weinidog, ac er gwaethaf y problemau hyn, rwyf yn hapus i ddangos cefnogaeth y Ceidwadwyr Cymreig i'r rheoliadau hyn a byddaf yn parhau i hyrwyddo manteision microsglodynnu gorfodol yng Nghymru.

15:45

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I very much welcome these regulations today. I think compulsory microchipping will be a major step forward. Estimates indicate that we might have some 400,000 dogs in Wales, which is quite a number for 3 million or so people, and although the vast majority of dog owners are responsible, we do know, of course, that that's not universally the case. We see a string of problems in terms of dog attacks at one end of the spectrum—attacks on human beings as well as other dogs—and dog excrement at the other end of the spectrum. I'm sure I'm the only Assembly Member who finds considerable concern from local communities and regular correspondence as to the effects of that, and the inconvenience and, indeed, ill health it can cause. So, with that sort of background, I think anything that promotes greater responsibility amongst dog owners is very welcome indeed, and I think the greater traceability that this compulsory microchipping will involve is a step forward in those terms.

Croesawaf yn fawr iawn y rheoliadau hyn heddiw. Rwyf yn credu y bydd gorfodi microsglodynnu yn gam mawr ymlaen. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai fod gennym oddeutu 400,000 o gŵn yng Nghymru, sy'n nifer sylweddol ar gyfer tua 3 miliwn o bobl, ac er bod y mwyafrif helaeth o berchnogion cŵn yn gyfrifol, rydym yn gwybod, wrth gwrs, nad yw hynny'n wir am bawb. Rydym yn gweld nifer o broblemau o ran ymosodiadau gan gŵn ar un pen o'r sbectrwm—ymosodiadau ar bobl yn ogystal ag ar gŵn eraill—a baw ci ar ben arall y sbectrwm. Rwyf yn siŵr mai fi yw'r unig Aelod Cynulliad sy'n gweld cryn dipyn o bryder mewn cymunedau lleol ac yn cael gohebiaeth reolaidd ynghylch effeithiau hynny, a'r anghyfleustra, ac, yn wir, yr afiechyd y gall hynny ei achosi. Felly, gyda'r math hwnnw o gefndir, rwyf yn credu bod unrhyw beth sy'n hyrwyddo mwy o gyfrifoldeb ymhlith perchnogion cŵn wir i'w groesawu'n fawr iawn, ac rwyf yn credu bod y mwy o allu i olrhain sydd yn rhan o'r orfodaeth hon i ficrosglodynnu yn gam ymlaen yn hynny o beth.

I just wondered, Minister, whether you could say a little bit about two matters. One is what I understand to be a pilot scheme in an English local authority that involves DNA testing of dog excrement so that owners can be traced. This might seem ambitious to many people, but I understand there is a pilot in existence, and if that could be made an effective scheme, then I think those problems that many of us have experienced as Assembly Members, and which I mentioned earlier, could be effectively addressed. The other matter is an effective database, because obviously that's extremely important in terms of that traceability and accountability. I wonder whether you could say a little bit about engagement with database operators, and also confirm that there are no cross-border complications that could prevent the adoption of such a database.

Roeddwn i'n meddwl, tybed, Weinidog, a allech chi ddweud ychydig ynglŷn â dau fater. Mae un yn ymwneud â'r hyn yr wyf ar ddeall sydd yn gynllun arbrofol mewn awdurdod lleol yn Lloegr sy'n cynnwys profion DNA o faw cŵn fel y gall perchnogion gael eu holrhain. Gallai hyn ymddangos yn uchelgeisiol i lawer o bobl, ond rwyf yn deall bod cynllun arbrofol yn bodoli, ac os byddai modd gwneud hynny'n gynllun effeithiol, yna rwyf yn credu y gellid mynd i'r afael â'r problemau hynny y mae llawer ohonom ni wedi eu cael fel Aelodau Cynulliad, ac a grybwyllais yn gynharach, yn effeithiol. Y mater arall yw cronfa ddata effeithiol, oherwydd mae hynny yn amlwg yn eithriadol o bwysig o ran olrhain ac atebolrwydd. Tybed a allech chi ddweud ychydig bach am ymgysylltu â gweithredwyr cronfa ddata, a hefyd cadarnhau nad oes unrhyw gymhlethdodau trawsffiniol a allai atal mabwysiadu cronfa ddata o'r fath.

15:47

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mi fydd Plaid Cymru yn cefnogi'r rheoliadau yma ar ficrosglodynnu cŵn y prynhawn yma. Mi fyddwn ni'n gwneud hynny oherwydd, wrth gwrs, mi fydd y rheoliadau yn gwella lles cŵn, yn bennaf, fel yr ŷm ni wedi clywed, drwy sicrhau perchnogaeth fwy cyfrifol. Mi fydd yn arf syml ac effeithiol i ailuno cŵn strae a'u perchnogion. Ac, wrth gwrs, mi fydd yna arbedion cost yn hynny o beth, wrth i awdurdodau lleol orfod cadw'r cŵn hynny, gobeithio, am gyfnodau byrrach. Mi fydd hefyd yn caniatáu olrhain cŵn sydd wedi eu bridio gan fridwyr masnachol, ac mae hwn yn faes, wrth gwrs, y mae'r Cynulliad hwn wedi mynd i'r afael ag ef. Mi fydd hefyd yn gymorth i olrhain cŵn mewn sefyllfa lle mae angen rheoli clefydau, ac olrhain perchnogion cŵn peryglus, sydd yn faes arall, wrth gwrs, rŷm ni wedi trio mynd i'r afael ag ef—efallai nid mor effeithiol ag y dylem ni, ym marn rhai, ond dadl arall yw honno.

Plaid Cymru will be supporting these regulations on the microchipping of dogs this afternoon. We will be doing that because, of course, these regulations will improve dog welfare, mainly, as we've heard, through ensuring more responsible ownership. It will be a simple and effective tool to reunite stray dogs with their owners. And, of course, there will be cost savings in that regard, as local authorities will have to keep those dogs in kennels, hopefully, for shorter periods. It will also allow the tracing of dogs that have been bred by commercial breeders, and that is an area, of course, that this Assembly has tackled in the past. It will also assist with the tracing of dogs in a situation where we need to control diseases, and pursue the owners of dangerous dogs, which is another area, of course, that we've tried to tackle—perhaps not as effectively as we should have done, in some people's opinion, but that's a debate for another day.

Ond mae'n rhaid cydnabod, wrth gwrs, bod yna ambell i gwestiwn yn dal i fod, yn bennaf i mi ynghylch gorfodaeth y rheoliadau yma, oherwydd mae yna ddiffyg adnoddau gan awdurdodau lleol i gyflawni'r rôl honno, efallai, mor effeithiol ag y byddem ni i gyd yn ei obeithio. Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni gydnabod wrth edrych ar sut y mae'r rheolau yma yn cael eu gweithredu. Mae'r diffyg o ran un pwynt cyswllt canolog hefyd, rwy'n meddwl, ar gyfer y gwahanol fasau data sydd yna, yn cyflwyno her ymarferol a allai danseilio ychydig ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gyfundrefn yma yn ogystal. Ond, ar y cyfan, fel rwy'n dweud, mae'n hen bryd inni basio'r rheoliadau hyn, oherwydd mi gychwynnwyd ar y broses nôl yn 2009, ac mae'n resyn, a dweud y gwir, ei bod wedi cymryd cyhyd, ac yn enwedig bod y rheoliadau a osodwyd y llynedd wedi gorfod cael eu tynnu nôl am resymau technegol. Mi allai Cymru—yn wir mi ddylai Cymru fod ar flaen y gad yn hyn o beth, ond, wrth gwrs, o leiaf nawr bydd gennym sicrwydd y bydd y rheoliadau newydd yma yn dod i rym fis Ebrill nesaf, ac mae Plaid Cymru yn cefnogi hynny.

But it must be acknowledged, of course, that there are a few questions remaining, mainly on the enforcement of these regulations, because there is a lack of resources for local authorities perhaps to achieve that role as effectively as we would all wish to see. That's something that we must recognise as we look at how these regulations are to be implemented. The lack of a central contact point, I think, for the various databases that exist, also provides a practical challenge that could undermine a little the efficiency and effectiveness of this regime, too. But, on the whole, as I say, it's about time that we passed these regulations, because this process was started back in 2009, and it's regrettable, frankly, that it's taken so long, and particularly that the regulations that were tabled last year had to be withdrawn for technical reasons. Wales could—indeed, Wales should be in the vanguard in this regard, but, of course, at least now we can have assurances that these new regulations will come into force next April, and Plaid Cymru supports that.

15:49

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome these regulations. I'm very pleased that the Minister said they were part of an overall package of moves to promote responsible dog ownership. These regulations will obviously be very beneficial for the welfare of dogs, but will also help to identify situations where dogs have become out of control. I've been involved in a long campaign to bring about responsible dog ownership since my constituent Dilwar Ali's six-year-old son was savaged by an out-of-control Rhodesian ridgeback dog. So, I really welcome this further step today towards promoting responsible dog ownership, which I hope will help prevent incidents like that.

Rwyf yn croesawu'r rheoliadau hyn. Rwyf yn falch iawn bod y Gweinidog wedi dweud eu bod yn rhan o becyn cyffredinol o symudiadau i hyrwyddo perchnogaeth cŵn cyfrifol. Bydd y rheoliadau hyn yn amlwg yn fuddiol iawn ar gyfer lles cŵn, ond byddant hefyd yn helpu i nodi sefyllfaoedd pan na fydd cŵn dan reolaeth. Rwyf i wedi bod yn rhan o ymgyrch hir i sicrhau perchnogaeth cŵn cyfrifol ers i fab chwe blwydd oed fy etholwr Dilwar Ali gael ei niweidio'n erchyll gan helgi Rhodesaidd nad oedd dan reolaeth. Felly, rwyf wir yn croesawu'r cam pellach hwn heddiw tuag at hyrwyddo perchnogaeth cŵn gyfrifol, a gobeithiaf y bydd yn helpu i atal digwyddiadau fel hwnnw.

15:50

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'm very grateful to the Deputy Minister for bringing forward these regulations today, albeit with the delays that others have referred to. The microchipping of dogs has been central to Welsh Liberal Democrat policy in this area since the spring of 2012 and we'll certainly be supporting the regulations. Just a couple of points that I'd like to refer to: John Griffiths and Julie Morgan were right to mention the importance of responsible dog ownership and they cited particular examples where mircrochipping will be beneficial. I would add to that also the scourge in the countryside of livestock and poultry worrying, which is also a great concern to owners and can lead to very considerable cruelty. I think this will be of assistance also in that area.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am gyflwyno'r rheoliadau hyn heddiw, er gwaethaf yr oedi y mae eraill wedi cyfeirio ato. Mae microsgloynnu cŵn wedi bod yn ganolog i bolisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y maes hwn ers gwanwyn 2012 a byddwn yn sicr yn cefnogi'r rheoliadau. Dim ond un neu ddau o bwyntiau y byddwn i'n hoffi cyfeirio atynt: Roedd John Griffiths a Julie Morgan yn iawn i sôn am bwysigrwydd perchnogaeth cŵn cyfrifol a gwnaethant dynnu sylw at enghreifftiau penodol lle bydd microsglodynnu yn fuddiol. Byddwn yn ychwanegu at hynny hefyd y pla yng nghefn gwlad o ran cŵn yn aflonyddu ar y da byw a dofednod, sydd hefyd yn bryder mawr i berchnogion ac a all arwain at greulondeb sylweddol iawn. Rwyf yn credu y bydd hyn o gymorth hefyd yn y maes hwnnw.

I'd like to ask for the Minister's reassurance in terms of the onus being very much on the dog owner to ensure that the microchip data is up to date, because that accuracy is very important, as several colleagues have referred to. I would seek also clarity on the timescale within which the Minister would seek to review the legislation and its effectiveness. Finally, the Deputy Minister referred to the third sector in her statement, but I'd like, again, to have clarity on the fact that there will be very much an open partnership with organisations such as the Kennel Club and the Dogs Trust, which have got significant capacity to support responsible dog ownership, particularly at a time when local authority budgets are under strain and the ranks of dog wardens within local authorities are becoming very depleted indeed. Diolch yn fawr.

Hoffwn ofyn am sicrwydd y Gweinidog o ran y ffaith mai ar berchennog y ci i raddau helaeth y mae'r cyfrifoldeb i sicrhau bod y data microsglodynnu yn gyfredol, gan fod y cywirdeb hwnnw'n bwysig iawn, fel y mae sawl cyd -Aelod wedi ei nodi. Rwyf am ofyn hefyd am eglurder ynghylch yr amserlen y byddai'r Gweinidog yn ei cheisio ar gyfer adolygu'r ddeddfwriaeth a'i heffeithiolrwydd. Yn olaf, cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y trydydd sector yn ei datganiad, ond hoffwn, unwaith eto, gael eglurder ynghylch y ffaith y bydd partneriaeth agored iawn gyda sefydliadau megis y Kennel Club a'r Dogs Trust, sydd â gallu sylweddol i gefnogi perchnogaeth cŵn cyfrifol, yn enwedig ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol dan straen a bod y wardeniaid cŵn mewn awdurdodau lleol yn mynd yn brin iawn. Diolch yn fawr.

15:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

15:51 **Rebecca Evans** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

Thank you for those contributions. Thank you to Russell George for his warm welcome of the regulations being laid today. I can confirm that CLAC have no outstanding issues with the regulations and also the member states of the EC raised no issues during the technical standards directive three-month standstill, which has come to an end as well. With regard to the issues on greater responsibility raised by both John Griffiths and William Powell, I've asked the RSPCA to undertake a piece of work for me on the specific issue of improving dog ownership responsibility. I'm expecting that piece of work to be due and with me before Christmas. With regards to DNA testing, that was considered, but the cost of establishing such a database would probably be disproportionate to its effect. Getting dogs to be registered and to have their DNA taken would be more difficult than microchipping. However, I'd be interested to see the results of that pilot scheme to which you referred.

Diolch am y cyfraniadau yna. Diolch i Russell George am ei groeso cynnes i'r rheoliadau sy'n cael eu gosod heddiw. Gallaf gadarnhau nad oes gan CLAC unrhyw faterion heb eu datrys â'r rheoliadau ac nid yw aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd wedi codi unrhyw faterion yn ystod cyfnod digyfnewid tri mis y gyfarwyddeb safonau technegol, sydd wedi dod i ben hefyd. O ran y materion ynghylch mwy o gyfrifoldeb a godwyd gan John Griffiths a William Powell, rwyf wedi gofyn i'r RSPCA ymgymryd â darn o waith ar fy rhan ar y mater penodol o wella'r sefyllfa o ran cyfrifoldeb perchnogaeth cŵn. Rwyf yn disgwyl y bydd y darn o waith hwnnw wedi'i gwblhau ac wedi fy nghyrraedd cyn y Nadolig. O ran profion DNA, fe ystyriwyd hynny, ond byddai'r gost o sefydlu cronfa ddata o'r fath yn ôl pob tebyg yn anghymesur â'i heffaith. Mae cofrestru cŵn a chymryd eu DNA yn fwy anodd na microsglodynnu. Fodd bynnag, byddai gennyf ddiddordeb mewn gweld canlyniadau'r cynllun prawf y cyfeiriasoch ato.

With regard to the databases, we have had extensive engagement with database operators—I can confirm that—and also cross-border guidance will be in place as well to ensure that those cross-border issues are dealt with very smoothly.

O ran y cronfeydd data, rydym wedi cael ymgysylltu helaeth gyda gweithredwyr cronfeydd data—gallaf gadarnhau hynny—a bydd canllawiau trawsffiniol wedi'u sefydlu hefyd i sicrhau yr ymdrinnir â'r materion trawsffiniol hynny yn ddidrafferth.

With regard to the issues raised by Llyr Gruffydd on local authorities, you're absolutely right that it should reduce the quite huge cost that local authorities are under with regard to looking after stray dogs at the moment. It's over £20 just for one day. So, I'm looking forward to seeing local authorities being able to lower their costs there.

O ran y materion a godwyd gan Llyr Gruffydd ynglŷn ag awdurdodau lleol, rydych chi yn llygad eich lle y dylai hyn leihau'r gost eithaf enfawr i awdurdodau lleol o ran gofalu am gŵn crwydr ar hyn o bryd. Mae'n costio dros £20 am un diwrnod yn unig. Felly, rwyf yn edrych ymlaen at weld awdurdodau lleol yn gallu lleihau eu costau yn hynny o beth.

Julie, I'm very grateful to you for your continued interest in this. I found our meeting that we had with your constituent very useful and certainly informative in terms of how we take this piece of work forward. William, you mentioned that the issue of sheep is worrying. I'm really pleased that the farming unions have embraced this piece of work as well. They see these regulations as having an important role to play in reducing that. Yes, the onus will be on the owner and that's clear in the regulations. This will be kept under constant review. I would expect, after a period of three years, to undertake a more in-depth review.

Julie, rwy'n ddiolchgar iawn i chi am eich diddordeb parhaus yn hyn. Roedd y cyfarfod a gawsom gyda'ch etholwr yn ddefnyddiol iawn ac yn bendant yn cynnig gwybodaeth i ni am sut y dylem symud ymlaen â'r darn hwn o waith. William, soniasoch fod y broblem o aflonyddu ar ddefaid yn destun pryder. Rwy'n hynod falch bod yr undebau ffermio hefyd wedi croesawu'r darn hwn o waith. Maent yn gweld y rheoliadau hyn yn rhywbeth sydd â swyddogaeth bwysig o ran lleihau hynny. Bydd, bydd y cyfrifoldeb ar y perchennog ac mae hynny'n glir yn y rheoliadau. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson. Byddwn yn disgwyl, ar ôl cyfnod o dair blynedd, cynnal adolygiad mwy trylwyr.

So, the legislation is one product in a range of policies that have been developed by the Welsh Government through its road map on dog welfare. It does represent a clear step forward in terms of improving responsible dog ownership in Wales. I ask that Members give it their support. Thank you.

Felly, un cynnyrch yw'r ddeddfwriaeth ymhlith ystod o bolisïau sydd wedi eu datblygu gan Lywodraeth Cymru trwy ei bwriadau ar gyfer lles cŵn. Mae'n cynrychioli cam clir ymlaen o ran gwella perchnogaeth cŵn cyfrifol yng Nghymru. Rwyf yn gofyn i'r Aelodau ei chefnogi. Diolch.

15:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

# 6. Dadl ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg

# 6. Debate on the Welsh Government's Response to the Welsh Language Commissioner's Annual Report

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones.*

15:54

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Eitem 6 yw'r ddadl ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg. Galwaf ar y Prif Weinidog i wneud y cynnig.

Item 6 is the debate on the Welsh Government's response to the Welsh Language Commissioner's annual report. I call on the First Minister to move the motion.

Cynnig NDM5845 Jane Hutt

Motion NDM5845 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014-15, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 28 Medi 2015, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

Acknowledges the Welsh Language Commissioner's Annual Report for 2014-15, laid before the Assembly on 28 September 2015, which details the work undertaken by the Commissioner to promote and facilitate the use of the Welsh language.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:54

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n symud y cynnig sydd ar y rhestr.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the motion that is on the order paper.

Mae'n bleser unwaith eto cael arwain y ddadl hon ar adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg. Mae hwn wastad yn gyfle inni gymryd stoc o le'r ydym ni gyda'r Gymraeg, ac wrth gwrs nid yw eleni yn wahanol o ran hynny. Mae llawer wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, ac nid y lleiaf o'r rhain yw pasio'r set gyntaf o safonau i ganiatáu i'r comisiynydd fwrw ati i baratoi a chyflwyno'r hysbysiadau cydymffurfio cyntaf. Rydym ni fel Llywodraeth hefyd wedi dechrau gweithredu camau 'Bwrw mlaen', a byddaf yn sôn rhagor am hyn maes o law.

It's a pleasure once again to lead this debate on the Welsh Language Commissioner's annual report. This is always an opportunity for us to take stock of where we are with the Welsh language, and of course this year is no different in that regard. A great deal has happened over the past year, not the least of which is the passing of the first set of standards to allow the commissioner to prepare and issue the first compliance notices. We as a Government have started implementing the steps outlined in 'Bwrw mlaen', and I will be talking about that further in due course.

I ddechrau gyda'r comisiynydd, mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio sut y mae wedi adeiladu ar gamau cadarnhaol y ddwy flynedd flaenorol, gan barhau i wneud gwaith pwysig i reoleiddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu tystiolaeth i amrywiol bwyllgorau'r Cynulliad, ymateb i ymgynghoriadau, dylanwadu ar bolisïau Llywodraeth Prydain, a chynnal ymchwiliad hollbwysig. Mae'r comisiynydd hefyd wedi ymateb i gwynion gan y cyhoedd er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu mynnu cyfiawnder o ran eu defnydd o'r Gymraeg.

To start with the commissioner, the annual report describes how she's built on the positive steps taken in the previous two years, continuing to do important work to regulate and promote the Welsh language. This includes providing evidence for the various Assembly committees, responding to consultations, influencing UK Government policies, and conducting a vital investigation. The commissioner has also responded to complaints by the public to ensure that individuals can seek redress in terms of their use of the Welsh language.

I fynd ymlaen, felly, at y safonau, cafodd y set gyntaf o safonau ei gymeradwyo ar lawr y Siambr hon yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae'r hysbysiadau cydymffurfio terfynol nawr yn nwylo'r sefydliadau perthnasol, a byddan nhw yn dod i rym fis Mawrth nesaf.

To move on, therefore, to the standards, the first set of standards were approved on the floor of this Chamber earlier this year, and the final compliance notices are now in the hands of the relevant institutions, and they will come into force next March.

15:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

A wnaiff y Prif Weinidog ildio?

Will the Minister take an intervention?

15:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wrth gwrs.

Of course.

15:56 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Jest ar y pwynt hwnnw, a ydyw'n rhannu fy syndod i o weld rhai awdurdodau lleol, o ran y safonau hyn, yn dechrau codi arian a gwario arian yng nghyd-destun y safonau, er bod y safonau ond yn gosod allan y math o bethau y dylent fod yn eu gwneud o dan yr hen gynlluniau iaith beth bynnag?

Thank you, First Minister. Just on that point, does he share my surprise in seeing some local authorities, in terms of these standards, starting to raise funds and spend them in the context of these standards, although the standards only set out the kinds of things that they should have been doing under the old language schemes in any case?

15:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae hynny'n iawn. Ein barn ni yw, wrth gwrs, bod y safonau cyntaf, mwy neu lai, yn adeiladu ar beth oedd yna'n barod, ac yn ychwanegu at beth oedd yna'n barod. Felly, mae'n anodd gwybod ym mha ffordd, felly, mae mwy o gostau wedi cael eu hachosi o achos y set gyntaf o reoliadau eu hunain.

That's right. Our opinion, of course, is that the first standards, more or less, build on what was there already, and add to what was there already. So, it's difficult to know in which way, then, more costs have arisen because of the first set of regulations themselves.

Mae'r safonau, wrth gwrs, yn adlewyrchu prif egwyddorion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef gwella gwasanaethau trwy'r Gymraeg, rhoi hawliau clir i ddefnyddwyr ac adeiladu ar yr hyn a ddarperir trwy'r cynlluniau iaith. I edrych ymlaen, ddoe cyhoeddwyd ymateb Gweinidogion Cymru i adroddiadau'r comisiynydd ar y cyrff sydd yn yr ail set. Fy mwriad yw dechrau'r broses o gyflwyno rheoliadau i wneud safonau yn gymwys i'r cyrff yn yr ail ymchwiliad hwn cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd yn rhaid cyflwyno'r rheoliadau hyn yn raddol, a hynny oherwydd natur amrywiol y 119 o gyrff a gafodd eu cynnwys yn yr ail ymchwiliad safonau, sy'n golygu y bydd yn rhaid amrywio'r rheoliadau yn unol ag anghenion y sectorau.

The standards, of course, reflect the principles of the Welsh Language (Wales) Measure 2011, namely improving services through the medium of Welsh, giving clear rights to users and building on what is provided through the language schemes. Looking forward, yesterday the Welsh Ministers' response was published on the commissioner's reports on the bodies that are in the second set. My intention is to begin the process of introducing regulations to make standards applicable to bodies in this second investigation before the end of this year. These regulations will have to be introduced gradually, given the variable nature of the 119 bodies that were included in the second standards investigation, meaning that there will be a need to vary the regulations according to the needs of the sectors.

A gaf i droi, felly, at y gwelliannau, ac yn gyntaf at welliant rhif 2? O ran gwelliant 2 yn enw Elin Jones, mae'r Llywodraeth wrth gwrs yn gefnogol o'r syniad o osod dyletswyddau ar gwmnïau yn y sector preifat. Fe gwblhaodd y comisiynydd ei thrydydd ymchwiliad yn ystod yr haf, ac rwy'n disgwyl derbyn yr adroddiadau sy'n deillio o hyn yn hwyrach yn yr hydref. Roedd yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys rhai cwmnïau sector preifat, fel y Swyddfa Bost, a'r cwmnïau dŵr. Er mwyn inni allu llunio safonau, mae angen i'r comisiynydd fod wedi cynnal ymchwiliad i'r cwmnïau o dan sylw a darparu adroddiad i Weinidogion Cymru. Mater o broses ac o wneud pethau'n gywir yw hwn, ac rwy'n ffyddiog y byddwn yn gosod safonau pellach ar y sector breifat wrth i'r broses fynd yn ei flaen. Mae angen pwysleisio, wrth gwrs, y bydd dros 200 o sefydliadau yn destun safonau erbyn diwedd y Llywodraeth hon, sy'n gam sylweddol ymlaen, ac mae'r gwaith hwn wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer trefn rheoleiddio newydd i'r Gymraeg. Felly, ynglŷn â hynny, rydym yn barod i dderbyn y gwelliant.

May I therefore turn to the amendments, starting with amendment 2? In terms of amendment 2 in the name of Elin Jones, the Government is of course supportive of the idea of placing duties on private sector companies. The commissioner completed her third investigation over the summer, and we'll expect to receive the reports stemming from this later in the autumn. That investigation included some private sector companies, such as the Post Office, and water companies. In order for us to put together the standards, the commissioner will have to have held an investigation into those companies and provide a report to Welsh Ministers. This a matter of process and of doing things properly, and I am confident that we will impose further standards on the private sector as the process continues. There is a need to emphasise, of course, that more than 200 institutions will be subject to standards by the end of this Government, which is a very substantial step forward, and this work has laid firm foundations for the new regulatory regime for the Welsh language. Therefore, in relation to that, we're prepared to accept the amendment.

A gaf i droi at ddiwygio'r Mesur? Mae'r safonau yn ein harwain ni yn naturiol ymlaen at Fesur y Gymraeg. Un o'r prif bethau sy'n codi yn adroddiad blynyddol y comisiynydd yw'r angen i ddiwygio Mesur y Gymraeg. Yn sicr, mae ein profiad ni fel Llywodraeth o ddefnyddio'r Mesur yn awgrymu bod angen edrych arno eto er mwyn ei gryfhau a'i symleiddio. Roedd y Mesur, wrth gwrs, yn ddeddfwriaeth hynod bwysig a dylanwadol, ac nid yw hynny wedi newid. Ond wrth inni ei roi ar waith, mae'n ddigon naturiol inni dod ar draws elfennau sydd, efallai, yn orfiwrocrataidd neu'n ddiangen. Rydym yn gwybod y pasiwyd y Mesur yn ystod y trydydd Cynulliad, wrth gwrs, o dan yr hen drefn—a gobeithiaf fod y drefn honno wedi ei chladdu—sef yr LCO. Bydd llawer ohonom ni yn cofio'r dadleuon hirfaith ynglŷn ag LCO y Gymraeg, a oedd yn destun, byddwn i'n dweud, craffu manwl. Rydym nawr, wrth gwrs, mewn cyfnod gwahanol o ran datganoli, ac mae gennym bellach gymhwysedd llawer ehangach fel Cynulliad i ddeddfu ar y Gymraeg, ac mae hynny'n golygu bod gennym ni gyfle i adolygu'r ddeddfwriaeth yn ystod y Cynulliad nesaf.

May I turn to amending the Measure? The standards naturally lead us on to the Welsh language Measure. One of the main things that arise in the commissioner's annual report is the need to amend the Welsh language Measure. Certainly, our experience as a Government of using the Measure suggests that we need to look at it anew to strengthen and simplify it. The Measure, of course, was a vitally important and influential piece of legislation, and that hasn't changed. But as we implement it, it's natural that we come across elements that are, perhaps, overly bureaucratic or unnecessary. We know that the Measure was passed during the third Assembly, of course, under the old regime—and I hope that that regime has been buried–namely the LCO regime. Many of us will remember the long-winded discussions about the Welsh language LCO, which was subject to, I would say, very detailed scrutiny. We are now, of course, under a different regime in terms of devolution, and we now have much broader competence as an Assembly to legislate on the Welsh language, and that means that we have an opportunity to review the legislation during the next Assembly.

Er mwyn bod yn hollol eglur, rwy'n pwysleisio fy mod i'n gwbl ymrwymedig i'r ddeddfwriaeth bresennol; nid wyf am weld unrhyw rai o'r gofynion a osodir ar sefydliadau yn cael eu diddymu, ond rwy'n agored i unrhyw syniadau a fyddai'n gwella'r ddeddfwriaeth ac o ran y mathau o gyrff y dylai'r Mesur ymdrin â nhw.

To be entirely clear, I emphasise that I am completely committed to the current legislation; I do not want to see any of the requirements that were placed on institutions being revoked, but I'm open to any ideas that would improve the legislation and the kinds of bodies that the Measure should deal with.

Yn ogystal â rôl reoleiddio, mae gan y comisiynydd ran i'w chwarae yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. I'r perwyl hwn, mae wedi lansio'r wefan Hybu i annog busnesau a chyrff trydydd sector i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg, ac y mae wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch dylunio a thechnoleg ar wefannau ac ynghylch cynnal digwyddiadau dwyieithog, ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant ar gyfer amrywiol grwpiau ar hyd a lled y wlad. Mae'r gwaith hybu hwn mewn perthynas â'r sector preifat a'r trydydd sector yn bodoli ochr yn ochr â'n gwaith hybu cyffredinol, strategol, ninnau fel Llywodraeth.

As well as the regulatory role, the commissioner has a role to play in promoting and facilitating the use of the Welsh language. To this end, she has launched the Hybu website to encourage third sector bodies and businesses to develop their use of the Welsh language, and she has published guidance on design and technology for websites and on holding bilingual events, and has held several training events for various groups across the nation. This promotional work in relation to the private sector and the third sector exists side by side with our general, strategic promotion work as a Government.

A gaf i droi felly at welliant 1? Wrth i ni barhau i weithredu strategaeth 'Iaith fyw: iaith byw' a pholisi 'Bwrw mlaen', ac wrth i ni baratoi'r safonau, mae yna gyd-drafod a chyfathrebu cyson rhwng y Llywodraeth a'r comisiynydd, fel sy'n briodol. Ond, mae Mesur y Gymraeg yn gofyn ein bod yn ymatal rhag amharu yng ngweithgareddau, amserlenni a blaenoriaethau'r comisiynydd. Ymhellach, mae'r Llywodraeth bob blwyddyn yn cyhoeddi cynllun gweithredu ac adroddiad ar y camau a gymerwyd dros y flwyddyn honno er mwyn caniatáu i bawb weld ble rydym ni ar y daith. Felly, nid oes angen gwelliant 1 yn enw Elin Jones, felly ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant hynny.

May I turn therefore to amendment 1? As we continue to implement the 'A living language: a language for living' strategy and the 'Bwrw mlaen' policy, and as we prepare the standards, there is regular collaboration and communication between the Government and the commissioner, as is appropriate. But, the Welsh language Measure asks that we refrain from interfering in the activities, timetables and priorities of the commissioner. Every year, the Government publishes an implementation plan and a report on the steps taken that year in order to allow everyone to see where we are on the journey. So, amendment 1 in the name of Elin Jones is unnecessary, so we will not support that amendment.

Rwy'n falch iawn ynglŷn â'r cynnydd ers i mi lansio 'Bwrw mlaen' yn Eisteddfod Llanelli y llynedd, ac mae llawer wedi digwydd ers hynny. Mae Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghyd â safonau llunio polisi wedi rhoi sylfaen i gynllunio ieithyddol ar lefel awdurdodau lleol, sy'n gwthio'r agenda yn ei blaen. Rydym wedi ariannu 10 o ganolfannau Cymraeg ledled Cymru a fydd yn gatalyddion ar gyfer hybu'r Gymraeg yn lleol. Ac wythnos diwethaf, bues i'n agor Yr Atom yng Nghaerfyrddin, a dydd Iau bydd Canolfan Camu yn agor yn Wrecsam. Felly, mae sawl peth wedi digwydd yn ystod y flwyddyn hon.

I'm very pleased about the progress since we launched 'Bwrw mlaen' in Llanelli Eisteddfod last year, and a great deal has happened since then. The Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the policy making standards have produced a basis for language planning at the level of local authorities, which are pushing the agenda forward. We have funded 10 Welsh language centres across Wales that will be catalysts for promoting the Welsh language locally. Last week, I opened the Atom in Carmarthen and, on Thursday, the Camu centre will open in Wrexham. So, several things have happened over the past year.

Rwy'n gweld yr amser yn bwrw ymlaen, Ddirprwy Lywydd. A gaf i sôn hefyd am y cynllun yn Nyffryn Teifi, sef datblygu'r Gymraeg fel iaith busnes yn Nyffryn Teifi? Ac, wrth gwrs, mae gennym ni'r cynllun gweithredu technoleg a chyfryngau digidol Cymraeg sydd wedi datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cyfryngau digidol.

I see time is against me, Deputy Presiding Officer. May I also mention the Teifi valley scheme that is developing the Welsh language as a language of business in the Teifi valley? And, of course, we have the Welsh language technology and digital media action plan that has promoted the use of the Welsh language in that arena.

Mae siomau, wrth gwrs. Mae'r ffaith nad yw Apple Siri, Microsoft Cortana nag Amazon Echo yn gallu deall Cymraeg yn gonsyrn i ni. Felly, yn sgil cyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Canolfan Bedwyr ym Mangor yn gweithio ar broject i'w gwneud yn bosibl i adnabod lleferydd Cymraeg. Mae hyn yn hollbwysig fel ein bod yn creu seilwaith fodern i'r Gymraeg a fydd yn dod â buddion economaidd a chymdeithasol i'r iaith. Mae mwy i'w wneud, wrth gwrs, ond rwy'n falch o'r cynnydd sydd wedi digwydd lan at nawr, ac yn falch, wrth gwrs, o weld adroddiad y comisiynydd.

There are disappointments, of course. The fact that Apple Siri, Microsoft Cortana and Amazon Echo can't understand the Welsh language is of concern to us. So, as a result of funding from the Welsh Government, Canolfan Bedwyr in Bangor is working on a project to ensure that it's possible to recognise Welsh speech. This is very important to create a modern infrastructure to the Welsh language that will bring economic and social benefits to the language. There is more to do, of course, but I'm pleased with the progress that has happened up until now and I'm pleased to see the commissioner's report.

16:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I have selected the two amendments to the motion. I call on Simon Thomas to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i gydweithio er mwyn cyhoeddi amserlen ar gyfer cyflawni'r ymrwymiadau yn ei strategaeth iaith, 'Iaith fyw: iaith byw', erbyn diwedd y Cynulliad hwn.*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Calls on the Welsh Government and the Welsh Language Commissioner to collaborate to publish a timetable for fulfilling the commitments outlined in its language strategy, 'A living language: a language for living', by the end of this Assembly.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at the end of the motion:*

*Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei strategaeth iaith 'Iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'.*

*Notes that the Welsh Government has committed in its language strategy, 'A living language: a language for living', to 'make standards, which will enable the Commissioner to impose duties on private sector companies which fall within the scope of the Welsh Language Measure, including telecommunications companies, bus and train operators, and utility companies'.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1 a 2.*

*Amendments 1 and 2 moved.*

16:03

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac rwy'n cynnig y gwelliannau. Wrth groesawu adroddiad cynnydd y comisiynydd, hoffwn i ddechrau drwy sôn am yr hyn mae'r Prif Weinidog wedi gyfeirio ato hefyd, sef bod yr hyn mae'r comisiynydd yn ei wneud yn cael ei liwio gan Fesur o dan yr hen drefn LCO. Ac, yn adlewyrchu ar y drafodaeth a gawsom ni ond awr yn ôl, nid ydym eisiau mynd nôl i'r hen drefn yna, achos rŷm yn gweld mewn rhai o agweddau ar waith y comisiynydd, yn enwedig yn y ffordd mae'r comisiynydd yn gorfod gweithio gyda mathau arbennig o gyrff a thrwy system Mesur braidd yn drwsgl, pa mor anodd yw'r system i'w gweithio pan rydych yn gorfod deddfu gyda chaniatâd Gweinidogion y Goron. Rwy'n gobeithio felly y byddwn ni yn y Cynulliad nesaf yn gallu ailedrych ar hyn, fel mae'r comisiynydd ei hun yn argymell yn ei hadroddiad blynyddol, ac yn edrych ar ddiwygio'r Mesur neu, yn wir, efallai roi'r Mesur a rhai agweddau eraill ar ddatblygu'r Gymraeg ar sail statudol llawn y tu fewn i ddeddfwriaeth y lle hwn. Dyna beth yw'r dyfodol.

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I move the amendments. In welcoming the commissioner's progress report, I would like to start by mentioning what the First Minister has just referred to, namely that the work of the commissioner is guided by the Measure under the old LCO system. And, reflecting on the debate that we had just an hour ago, we don't want to return to that old regime, because we can see in certain aspects of the work of the commissioner, and particularly in the way that the commissioner has to work with particular kinds of organisations and through a clumsy Measure system, just how difficult the system is to implement when you have to legislate with the consent of Ministers of the Crown. I hope, therefore, that in the next Assembly we will be able to review this, as the commissioner herself suggests in her annual report, and look at amending the Measure or, indeed, placing the Measure and some other aspects of the development of the Welsh language on a full statutory basis within the legislation of this place. That is for the future.

Mae'r adroddiad, wrth gwrs, yn edrych nôl at rai o lwyddiannau a phroblemau'r gorffennol. Rwyf i'n falch iawn i weld bod y comisiynydd yn cyfeirio at y ffaith bod y lle hwn wedi rhoi yn y Bil cynllunio y Gymraeg a statws ystyriaeth berthnasol ym maes cynllunio. Roedd yna bwyso ar y Llywodraeth i gyrraedd y nod yna, ond rydym ni wedi gwneud hynny, ac mae'r comisiynydd, fel ninnau, yn cydnabod bod hwn yn gam pwysig ymlaen sydd yn mynd law yn llaw â Mesur y Gymraeg. Nid yn unig drwy'r Mesur iaith y mae cefnogi'r Gymraeg ar draws ystod o weithgareddau'r Llywodraeth, ond drwy edrych ar ddylanwad a'r ffordd y mae'r iaith yn gallu cael ei chefnogi mewn deddfwriaeth arall hefyd.

The report, of course, looks back at some of the successes and problems of the past. I am pleased to see that the commissioner makes reference to the fact that this place has placed in the planning Bill the Welsh language as a material consideration in planning. There was pressure on the Government to do that, and we have achieved that, and the commissioner, like us, acknowledges that this was an important step forward that goes hand-in-hand with the Welsh language Measure. It's not only through the language Measure that you support the Welsh language across the range of Government activities, but it's looking at the influence of the language and how it can be supported in legislation across the board.

Pwrpas y ddau welliant, yn syml iawn, yw pwyntio allan y gwendid sydd yn y system bresennol. Mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio at y ffaith bod yr ail set o reoliadau yn barod ac yn yr arfaeth, fel petai—yn mynd drwy'r broses—a'i fod yn dymuno rhannu'r set yna mewn o leiaf dwy, os nad mwy, o rannau. Mae hynny, efallai, yn peryglu amcanion y Llywodraeth i gyflwyno'r safonau'n llawn erbyn diwedd 2017, fel sydd wedi'i amlinellu yn adroddiad strategaeth iaith y Llywodraeth 'Iaith fyw; iaith byw'. Dyna pam rŷm ni wedi gosod y gwelliannau, er mwyn tynnu sylw'r Cynulliad at hynny, ac er mwyn gwneud yn siŵr ac i roi pwysau ar y Llywodraeth i weithio mor glou â phosib ar yr amserlen, law yn llaw â'r comisiynydd. Rwy'n derbyn y pwynt bod y comisiynydd yn annibynnol, ond rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig bod rhywfaint o gydweld rhwng y comisiynydd a'r Llywodraeth ar y mater yma, fel bod y neges yn cael ei gyrru at rai o'r cwmnïau hyn—cwmnïau telegyfathrebu, gweithwyr bysus a threnau, ac mae'r Prif Weinidog ei hun wedi sôn am ddiffyg Arriva Trains Cymru yn y gorffennol ynglŷn â'r iaith Gymraeg—ac rŷm ni eisiau gweld y rhain yn cael eu cynnwys yn y safonau iaith.

The purpose of the two amendments, quite simply, is to point out the weakness in the system as it currently exists. The First Minister has referred to the fact that the second round of standards is ready and is going through the process, as it were, but that he wishes to split that into at least two or more parts. That, perhaps, does put at risk the Government's objectives of introducing standards fully by the end of 2017, as has been outlined in the Government's language strategy, 'A living language: a language for living'. That's why we tabled these amendments, in order to draw the Assembly's attention to that point and to ensure and to put pressure on the Government to work as swiftly as possible on their timetable along with the commissioner. I accept the point that the commissioner is independent, but I also believe that it's important that there should be some joint understanding between the Government and the commissioner on this issue, so that the message is conveyed to some of these companies—telecommunications companies, bus and train operators, and the First Minister himself has referred to problems with Arriva Trains Wales on the Welsh language—and we want to see those included within language standards.

Peth arall rwyf eisiau cyfeirio sylw'r Cynulliad ato yn yr adroddiad blynyddol yw'r ffaith bod y comisiynydd yn trafod Cymraeg ail iaith, adolygiad Donaldson ac adroddiad Sioned Davies. Ers i'r comisiynydd ysgrifennu'r adroddiad, rŷm ni wedi derbyn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog addysg, yr wythnos diwethaf. Nid wyf yn siŵr, fy hunan, a yw hwnnw'n ymateb yn llawn i argymhellion Sioned Davies, ac, yn sicr, mae'n gofyn i Gymwysterau Cymru wneud mwy o waith ar yr adroddiad, ac rwy'n credu bod y gwaith yna wedi'i gyflawni eisoes gan Sioned Davies. Felly, rwy'n rhannu barn y comisiynydd wrth iddi ofni nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud yn y maes yma, ac rwy'n gobeithio, wrth ymateb, y bydd y Prif Weinidog yn gallu addo mwy o gynnydd a mwy o fynd, er mwyn troi y Gymraeg yn gontinwwm ieithyddol i bob un plentyn yng Nghymru, gyda llai o wahaniaeth rhwng Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith, ac i roi cyfoeth yr iaith Gymraeg i bob un plentyn fel sgìl y gall ei ddefnyddio yn ei fywyd pob dydd, ar ba bynnag lefel sy'n addas i'r plentyn hwnnw.

Another thing in the annual report to which I wanted to draw the Assembly's attention is the fact that the commissioner discusses Welsh as a second language, the Donaldson review and the Sioned Davies report. Since the commissioner wrote her report, we've received a written statement from the education Minister. That was issued last week. I'm not sure if that responds fully to the recommendations made by Sioned Davies, and, certainly, it requires further work by Qualifications Wales on that report, and I do think that has been completed already by Sioned Davies. So, I share the opinion of the commissioner and I fear that there hasn't been sufficient progress in this area. I hope that, in responding, the First Minister will be able to pledge further progress and a greater drive, in making the Welsh language a linguistic continuum for all children in Wales, and there being less of a separation between first and second-language Welsh so that every child in Wales can benefit from the Welsh language and have those skills to use in their daily lives at whatever level is appropriate for that child or pupil.

Rwy'n credu ei bod hi'n briodol hefyd ein bod ni'n sôn am y toriadau o 25 y cant sydd wedi bod mewn termau real i swyddfa'r comisiynydd. Rŷm ni'n gofyn i'r comisiynydd wneud lot o waith anstatudol, lot o waith hybu a hyrwyddo'r iaith, ar y cyd â'r Llywodraeth, mewn sefyllfa o doriadau i arian cyhoeddus. Rŷm ni'n gwybod am hynny, ond mae'n bwysig nad yw'r toriadau'n mynd mor llym fel nad yw'r comisiynydd yn gallu bod yn arweinydd yn y maes yma, a'i bod hi nid yn unig yn gosod y rheolau statudol, ond yn hybu yn wirfoddol hefyd.

I think it is also appropriate that we mentioned the cuts of 25 per cent that there have been in real terms to the commissioner's office. We're asking the commissioner to do a great deal of non-statutory work—promotion work—along with Government in a situation of cuts to public expenditure. We are aware of that, but it's important that those cuts aren't so severe that the commissioner cannot be a leader in this sphere, not only setting the statutory rules and regulations but also participating in promotion.

Y peth olaf rwyf eisiau ei grybwyll, wrth gloi, yw'r ffaith bod angen, yn fy marn i, i ddatblygu marchnad lafur Gymraeg bellach, fel y cam nesaf wrth sicrhau dyfodol economaidd i'r cymunedau Cymraeg, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn i'n dymuno gweld y Llywodraeth yn ei wneud gyda chefnogaeth y comisiynydd.

The final thing I want to mention in conclusion is the fact that, in my view, we do need to develop a Welsh labour market as the next step in ensuring the economic future of Welsh-speaking communities, and that is something that we would want to see the Government doing with the support of the commissioner.

16:09 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r comisiynydd am adroddiad eglur a syml arall, a diolch i'w thîm am eu cymorth parhaus. Yn arbennig, hoffwn ddiolch iddynt am ffeindio amser ar gyfer y cyfarfodydd chwarterol gyda llefarwyr y gwrthbleidiau yn ogystal â chwrdd â'r Llywodraeth. Mae'r cyfarfodydd yma yn ddefnyddiol iawn ac yn helpu sicrhau perthynas dda gyda'r Cynulliad hwn. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn, na'r ddadl hon, yn amnewid boddhaol i'r sefyllfa lle byddai'r Cynulliad ei hun yn penodi'r comisiynydd ac yn mynnu atebolrwydd uniongyrchol oddi wrtho fe neu hi.

Once again, I would like to thank the commissioner for another clear and concise report, and thank her team for their continuous support. In particular, I would like to thank them for finding the time for quarterly meetings with opposition spokespeople as well as meeting the Government. These meetings are very useful and help to maintain a good relationship with the Assembly. However, neither these meetings nor this debate are satisfactory compensation for the Assembly being enabled to appoint the commissioner and demand direct accountability from him or her.

Gall craffu ar Lywodraeth Cymru ar unrhyw beth i'w wneud â'r iaith Gymraeg fod yn rhwystredig—edrychwch ar beth wnaeth pawb i sicrhau newidiadau yn y Ddeddf gynllunio. Tair wythnos yn ôl, gofynnais i arweinydd y tŷ pryd y gallwn ddisgwyl cael ein diweddaru ar amserlen yr ail rownd o safonau. Roedd rheoliadau drafft i fod i gael eu drafftio'r hydref hwn ond nid oedd unrhyw sôn amdanynt. Dywedwyd wrthym bod Llywodraeth Cymru yn dymuno rhoi datganiadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Cawsom ddatganiad ysgrifenedig ddoe—yn gyfleus, siŵr o fod—y gallem weld y rheoliadau drafft cyntaf erbyn diwedd y flwyddyn, nid yr hydref. Mae'n debyg bod cael set lawn o reoliadau ar gyfer rownd 2 wedi bod yn rhy gymhleth i'w wneud. Tybed beth fydd yn digwydd i amserlen rownd 3 o'r safonau nawr. Ond rwy'n gweld roeddwn i'n tybied yr un peth pan gyhoeddodd y comisiynydd ei hadroddiad llynedd hefyd. Mae'r ansicrwydd yn parhau.

Scrutinising the Welsh Government on any issues related to the Welsh language can be a frustrating experience—just look at what everybody did to ensure changes to the planning Act. Three weeks ago, I asked the leader of the house when we could expect an update on the timetable for the second round of standards. The draft regulations were supposed to be drafted in the autumn, but there is no sign of them coming forward. We were told that the Welsh Government wished to make statements as work progressed. We received a written statement yesterday–-I'm sure that was very convenient—that we would see the first draft regulations by the end of the year, not in the autumn. It appears that having a full set of regulations for round 2 has proved to be too complex a task. I wonder what will happen to the timetable for round 3 of the standards. But I note that I was wondering the same thing when the commissioner published her report last year as well. The uncertainty continues.

A sôn am adroddiad diwethaf y comisiynydd, roeddwn yn falch o weld ei bod yn codi'r cwestiwn o doriadau i gludiant addysg ôl-16, ac mae hi wedi gwneud hynny eto eleni. Nid yw rhai penderfyniadau a wnaed gan awdurdodau lleol ynghylch toriadau i gludiant addysg ôl-16 yn ymddangos eu bod yn adlewyrchu dyletswydd awdurdodau i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Edrychaf ymlaen at nodyn cyngor y comisiynydd ar ddarparu gwasanaethau i blant. Hoffwn i fod wedi gweld adroddiad eleni yn bod yn fwy eglur am farn y comisiynydd ar y fframwaith canlyniadau blynyddoedd cynnar a sut y gallai ei swyddfa hi gefnogi cyflwyno rhywfaint o allu iaith Gymraeg i mewn i'r gweithlu darpariaeth cyn ysgol, gan gynnwys, wrth gwrs, ardaloedd Dechrau'n Deg.

Speaking of the commissioner's last report, I was pleased to see that she raised the question of cuts to transport for post-16 education; she has done so again this year. Some decisions made by local authorities with regard to cuts to transport for post-16 education do not seem to reflect authorities' duty to promote Welsh-medium education. I look forward to the commissioner's advice note on the provision of services to children. I would have liked to have seen this year's report being clearer on the commissioner's opinion regarding the early years outcomes framework and how her office could support the introduction of an element of Welsh-language proficiency into the workforce in pre-school provision, including of course Flying Start areas.

Rwyf hefyd yn falch bod y comisiynydd wedi gofyn am safonau newydd ynglŷn â mesur y galw am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg, ac am amlinellu manteision yr iaith Gymraeg wrth gynnig cyngor gyrfaoedd i ddysgwyr. Cytunodd y Cynulliad y dylai awdurdodau addysg lleol gymryd y ddyletswydd o baratoi cynlluniau statudol Cymraeg mewn addysg. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cynnal ymchwiliad i effeithiolrwydd y cynlluniau hynny , ac nid ydyn nhw wedi creu argraff dda. Rwy'n gobeithio, Brif Weinidog, y byddwch yn ystyried canfyddiadau'r pwyllgor ac yn eu cadw mewn cof wrth ichi roi ystyriaeth briodol i gais y comisiynydd ar safonau newydd yn y maes hwn.

I'm also pleased that the commissioner has asked for new standards to measure the demand for educational provision and training through the medium of Welsh, and for the advantages of the Welsh language to be outlined in the careers advice given to learners. The Assembly agreed that local education authorities should have a duty to prepare statutory Welsh in education schemes. The Children, Young People and Education Committee has held an inquiry into the effectiveness of those schemes, and they have not created a good impression. I hope, First Minister, that you will consider our findings and bear them in mind as you give due consideration to the commissioner's request for new standards in this area.

Os wyf yn deall yn iawn, mae'r gyllideb ar gyfer cyfathrebu—cyllideb sy'n llai, fel mae Simon Thomas wedi sôn amdano—wedi cael ei gwario ar godi ymwybyddiaeth hawliau siaradwyr Cymraeg. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn cwynion, fel mae hi'n dweud, ond, er gwaethaf hynny—yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth—rwyf yn dal yn gweld dryswch ymhlith pobl Cymru. Yn anochel, mae Aelodau'r Cynulliad wedi derbyn cwynion gan ddinasyddion yng ngogledd Cymru sy'n canfod bod cyflwyno safonau yn arwain at anffafriaeth: gofynion newydd am sgiliau iaith Gymraeg mewn swyddi lle nad oedd rhai o'r blaen a rhai unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio o'r cyfle i wneud cais am y swyddi hynny pan nad oeddent o'r blaen. Rwy'n hyderus bod ceisiadau o'r fath yn fater o gamddealltwriaeth, nid anffafriaeth. Rydym yn gwybod bod yn rhaid i safonau gael eu cymhwyso yn rhesymol ac yn gymesurol. Gall sefydliadau apelio os nad ydyn nhw. Fodd bynnag, rwy'n aneglur am hyn: beth am unigolyn sy'n credu y gallai'r sefydliad ei hun fod yn dehongli'r safonau'n oreiddgar? Gall y comisiynydd ymateb i gŵyn fel yr un yn erbyn Cartrefi Cymunedol Gwynedd, lle'r oedd y gofyniad Cymraeg yn rhy wan, ond beth sy'n digwydd i rai sy'n meddwl bod y safonau wedi cael eu cymhwyso yn rhy gryf?

As I understand it, the commissioner's restricted communications budget, as Simon Thomas mentioned, has been spent on raising awareness of Welsh speakers' rights. This has led to an increase in complaints, as the commissioner states, but, despite this—this awareness-raising campaign—I still perceive some confusion amongst the people of Wales. Inevitably, Assembly Members have received complaints from residents of north Wales who feel that the introduction of standards has led to discrimination, with new requirements for Welsh-language skills in positions where there were no such requirements in the past and some individuals then feeling excluded from the opportunity to apply for these positions when they did not in the past. I'm confident that cases like these are a matter of misunderstanding, not discrimination. We know that standards must be applied in a reasonable and proportionate manner. Institutions can appeal if they're not. However, what I'm unclear about is this: what about an individual who believes that an institution is interpreting the standards over-zealously? The Welsh Language Commissioner can respond to a complaint like the one made against Cartrefi Cymunedol Gwynedd, where it appears that the Welsh-language requirement was too weak, but what happens to those complaints that the standards have been applied too robustly?

16:14 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n falch, hefyd, i gyfrannu i'r ddadl y prynhawn yma ac i ddiolch i'r comisiynydd am ei adroddiad blynyddol. Mae'r blynyddoedd diwethaf yn y Cynulliad wedi bod yn bwysig iawn i'r iaith. Dangosodd cyfrifiad 2011 bod yr her yn parhau i godi nifer y siaradwyr Cymraeg ac amddiffyn nifer y cymunedau Cymraeg. Mae'r comisiynydd, yn ei hadroddiad, yn dweud mai un o'r egwyddorion pwysicaf yw ddylai'r Gymraeg ddim cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae swyddfa'r comisiynydd wedi bod yn gweithio ar safonau, ac erbyn Mawrth eleni, roedd y Cynulliad wedi cytuno ar reoliadau sydd yn galluogi'r comisiynydd a'i swyddogion i osod y safonau ar nifer o sefydliadau. Beth roeddwn i'n hapus i'w weld oedd y twf yn nifer y bobl yn adrodd bod eu cyflogwyr yn cefnogi defnydd o'r iaith yn y gweithle. Yn y cyfamser, cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr gan Gyngor ar Bopeth, a chanfu ymchwil fod llawer yn fwy o siaradwyr Cymraeg yn dymuno cael gwasanaethau Cymraeg. Ymysg argymhellion yr adroddiad y mae'r angen i ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg wrth gynllunio gwasanaethau. Rwy'n gobeithio bydd y safonau presennol, a'r rhai sydd yn cael eu trafod nawr, yn mynd rhyw ffordd i normaleiddio hyn.

I'm also pleased to contribute to this afternoon's debate and to thank the commissioner for her annual report. The past few years in this Assembly have been extremely important for the Welsh language. The 2011 census demonstrated that the challenge remains to increase the number of Welsh speakers and to protect the number of Welsh-speaking communities. The commissioner, in her report, states that one of the most important principles is that the Welsh language should not be treated less favourably than the English language. Over the past three years, the commissioner's office has been working on the standards, and by March of this year the Assembly had agreed the regulations that enable the commissioner and her officials to impose the standards on a number of organisations. What I was pleased to see was the increase in the number of people reporting that their employers were supporting the use of the Welsh language in the workplace. In the meantime, a comprehensive report was published by Citizens Advice, and research found that far more Welsh speakers wanted to access Welsh-medium services. Among the recommendations of the report is the need to engage with Welsh speakers in planning services. I very much hope that the current standards, and those currently being discussed, will go some way to normalising this.

Fel un sydd wedi dioddef mewn ysbyty oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg ac roedd fy mab, hefyd, pan oedd yn blentyn bach, wedi cael gwasanaeth di-Gymraeg, roeddwn yn falch o weld y comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad, 'Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol', y llynedd. Mae'r Llywodraeth nawr wedi paratoi rhaglen waith er mwyn cyflawni argymhellion yr adroddiad.

As one who has suffered in hospital because of a shortage of Welsh speakers and, also, my son, when he was young, did not receive a Welsh-medium service, I was pleased to see the commissioner publish the report, 'My Language, My Health: The Welsh Language Commissioner's Inquiry into the Welsh Language in Primary Care' last year. The Government has now prepared an action plan in order to deliver the recommendations of the report.

Ar ddeddfwriaeth, mae'n bwysig derbyn datganiad y comisiynydd, os yw'r Gymraeg i ffynnu, fod angen iddi fod yn ystyriaeth ganolog o'r cychwyn cyntaf wrth lunio unrhyw bolisi neu Ddeddf sy'n mynd i effeithio ar fywydau pobl Cymru, ac nid dim ond y polisïau sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith. Mae'n rhaid hefyd sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cymryd sylw o hyn hefyd. Roeddwn yn falch o weld bod y comisiynydd wedi datgan pryder am ran o Fesur Undebau Llafur Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac wedi llwyddo i gael gwelliannau, fel y dywedwyd yn ei hadroddiad blaenorol. Ond ble ŷm ni gyda'r Deyrnas Unedig a'r Llywodraeth yno? Wel, mae yna adroddiad, ac fe wnaf ei ddarllen e mas—mae yn y Saesneg:

On legislation, it is important that we accept the commissioner's statement that, if the Welsh language is to prosper, it needs to be a central consideration from the very outset as we formulate any policy or legislation that has an impact on the lives of the people of Wales, not only those policies that relate specifically to the Welsh language. We must also ensure that the UK Government also takes note of this. I was pleased to see that the commissioner had expressed concern about part of the UK Government's Trade Union Bill and had succeeded in getting amendments tabled, as stated in her previous report. But where are we in terms of the United Kingdom and the UK Government? Well, there is a report, and I will read it out:

The report of the Council of Europe's Committee of Experts on the Charter for Regional and Minority Languages notes concern that the British Government is not taking its duties and commitments under international law seriously in terms of promoting regional and minority language in the UK. It states that the Government's Welsh language provision is inconsistent and piecemeal as only some Crown bodies have Welsh language schemes. It notes concerns also regarding the effect of the budget cuts on minority languages and uncertainty in the broadcasting world, and the future of S4C in particular.

Mae adroddiad Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop ar y Siarter ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol a Lleiafrifol yn nodi pryder nad yw Llywodraeth Prydain yn cymryd ei dyletswyddau a'i hymrwymiadau o dan y cyfraith ryngwladol o ddifrif o ran hyrwyddo ieithoedd lleiafrifol a rhanbarthol yn y DU. Mae'n datgan bod darpariaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth yn anghyson a thameidiog gan mai dim ond rhai o gyrff y Goron sydd â chynlluniau iaith Gymraeg. Mae'n nodi pryderon hefyd ynglŷn ag effaith y toriadau yn y gyllideb ar ieithoedd lleiafrifol ac ansicrwydd yn y byd darlledu, a dyfodol S4C yn arbennig.

Fel mae sawl un wedi sôn yn barod, mae grŵp trawsbleidiol fan hyn yn y Cynulliad wedi ysgrifennu at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn gofidio am yr her sydd nawr i gyllideb S4C yn y dyfodol.

As many people have already mentioned, the cross-party group here at the Assembly has written to the Department for Culture, Media and Sport expressing concerns about the threat now to S4C's future budget.

I orffen, gair byr am addysg. Yn dilyn, efallai, beth ddywedodd Simon yn gynharach, yn yr adroddiad blynyddol, mae'r comisiynydd yn sôn am adroddiad Sioned Davies ar ail iaith yng nghyfnodau 3 a 4, adroddiad Donaldson ar y cwricwlwm dysgu a threfniadau asesu, adroddiad Furlong ar hyfforddiant cychwynnol athrawon, ac adroddiad Diamond ar gyllido addysg uwch a phellach. Gyda chymaint o dystiolaeth wedi'i chyhoeddi, bydd y blynyddoedd nesaf yn llawn newidiadau a gwelliannau sylweddol, gobeithio, yn y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn gefnogol iawn wrth sicrhau twf yn yr iaith yng Nghymru. Diolch.

To conclude, a brief word on education. Following on perhaps from what Simon said earlier, in the annual report, the commissioner mentions the Sioned Davies report on Welsh as a second language in key stages 3 and 4, the Donaldson review on the curriculum and assessment arrangements, the Furlong report on initial teacher training, and the Diamond report on funding further and higher education. With so much evidence published, the next few years will be full of significant changes and improvements, hopefully, in the educational system in Wales. I'm sure that this will support the growth of the Welsh language in Wales. Thank you.

16:19

## Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Yn y lle cyntaf, a gaf i ddatgan diddordeb o ran bod fy ngwraig i yn ymwneud â Choleg Cambria yn Wrecsam, lle mae'r Prif Weinidog yn agor canolfan, ar ddiwedd yr wythnos rwy'n meddwl? A gaf i hefyd ddiolch, fel mae rhai eisoes wedi'i wneud, i staff a'r comisiynydd ei hun am y ffaith ein bod ni, fel gyda rhai o'r comisiynwyr eraill, yn cael cyfarfodydd rheolaidd er mwyn datgan yn union beth yw'r sefyllfa? Rwyf hefyd yn cefnogi beth ddywedodd y Prif Weinidog a Simon Thomas ynglŷn â'r ffaith bod y comisiynydd yn nodi yn yr adroddiad yma ei bod hi'n teimlo, ar ôl tair blynedd, fod angen i ni ailedrych ar y Mesur. Hwyrach fydd yna siawns i ni wneud hynny yn y Cynulliad nesaf—rhai ohonom ni, beth bynnag. Rwy'n meddwl ei bod hi yn dweud bod yna or-fiwrocratiaeth o ran y system flaenorol. Wrth gwrs, mae'r ddadl y cawsom yn gynharach y prynhawn yma o ran agwedd Llywodraeth Prydain hefyd, hwyrach, yn gwneud hwn yn fater mwy pwysig i'r dyfodol na'r hyn yr oeddwn yn ei gredu ar y pryd.

Initially, may I declare an interest in that my wife is involved with Coleg Cambria in Wrexham, where the First Minister is opening a centre, at the end of this week I believe? May I also thank, as others have already done, the staff and the commissioner herself for the fact that we, as with some of the other commissioners, have regular meetings to update us on the situation? I also support what the First Minister and Simon Thomas said about the fact that the commissioner notes in this report that she feels that, after three years, there is a need for us to look again at the Measure. Perhaps there will be an opportunity for us to do that in the next Assembly—some of us, in any case. I think that she does state there is too much bureaucracy in terms of the previous system. Of course, the debate that we had earlier this afternoon in terms of the attitude of the UK Government perhaps makes this even more important for the future than we had thought at the time.

Rwyf hefyd yn gofyn i'r Prif Weinidog, neu'r Gweinidog yn y Llywodraeth nesaf, ystyried, fel mae rhai o'r Gweinidogion eisoes yn ei wneud, a oes angen inni gael ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth wedi'i gyhoeddi yn ysgrifenedig cyn rhyw ddadl yn ystod y sesiwn, gan ddiolch, wrth gwrs, am y ffaith ein bod ni yn cael dadl beth bynnag. Byddwn yn cefnogi cynigion neu welliannau Plaid Cymru y prynhawn yma. Rwy'n deall beth mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud, sef bod yna broses y mae'n rhaid inni fynd drwyddi o ran safonau iaith, ond rwy'n meddwl bod cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cefnogi'r iaith Gymraeg a gweithredu ar safonau statudol wedi bod yn boenus o araf. Rwy'n meddwl bod y comisiynydd ei hun yn yr adroddiad yn gresynu am y broses hirfaith a llafurus—ei geiriau hi—o gael y safonau ar waith, a sut mae rhai rhannau o'r ddeddfwriaeth, fel rwyf i wedi'i ddweud, yn feichus yn weinyddol.

I also ask the First Minister, or the Minister in the next Government, to consider, as some Ministers are already doing, whether we need to have a formal response from the Government, published and in writing, before any debate during that session, while being grateful, of course, for the fact that we are having a debate regardless. We will support the Plaid Cymru amendments this afternoon. I understand what the First Minister says, which is that there is a process that must be adhered to in terms of language standards, but I think that the progress made by the Welsh Government to support the Welsh language and to introduce statutory standards has been painfully slow. I think that the commissioner herself, in the report, regrets this lengthy and laborious process, as she describes it, of implementing the standards, and how some parts of the legislation, as I have said, can be burdensome in administrative terms.

Mae, wrth gwrs, yn rhaid, wrth edrych hefyd i'r dyfodol, inni dderbyn bod cyllideb Llywodraeth Cymru yn un anodd ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni, fel Cynulliad, hefyd ofyn i'r Llywodraeth rhoi rhyw fath o sicrwydd o ran cyllideb y comisiynydd i'r dyfodol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi bod yna doriadau real o tua 25 y cant wedi digwydd ers i'r comisiynydd gael ei sefydlu yn 2012. Rwy'n meddwl y bydd rhagor o doriadau yn mynd i'r afael â'r cwestiwn: a fydd hynny'n galluogi'r comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol wrth symud ymlaen?

Of course, in looking to the future, we have to accept that the Welsh Government budget will be a very difficult one for the coming years. However, I do think that we, as an Assembly, also have to ask the Government to give some degree of certainty about the commissioner's budget for the future. This annual report does note that there have been real-term cuts of some 25 per cent since the commissioner was established in 2012. I think that further cuts would lead us to question whether that would enable the commissioner to fulfil her functions effectively in moving forward.

Ond rwyf am hefyd gyfeirio'r Prif Weinidog at rai o'r cwynion yr oedd yn sôn amdanyn nhw pan wnaeth o agor y ddadl yma, a gofyn iddo a yw'n dderbyniol, fel mae'r comisiynydd wedi ei ddweud, fod rhieni'n gorfod cwyno'n swyddogol i'r comisiynydd o ran y ffaith bod yna blant a rhieni yn ein hysbytai yng Nghymru ar hyn o bryd y mae pobl yn dweud wrthyn nhw i beidio â siarad yr iaith Gymraeg. Ddylai hynny ddim fod yn digwydd. Rwyf yn gresynu, yn y datganiad ddoe, ein bod ni'n edrych ar sefyllfa, fel y dywedodd Keith Davies, lle mae 'Fy Iaith, Fy Iechyd' wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2014, bod yna 33 o argymhellion, bod seminarau wedi cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth ar gyfer y sector iechyd ym mis Tachwedd 2014, bod y Gweinidog iechyd wedi datgan yn ffurfiol, wrth ymateb i'r ymholiad ac i'r argymhellion, bod yna waith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth, ac eto, roedd yna gyhoeddiad ddoe bod y Prif Weinidog yn dweud, hwyrach, y bydd yn rhaid ymgynghori ymhellach o ran y ffordd y mae'r safonau yn ymwneud â'r gwasanaeth iechyd. Mae'n rhaid imi ofyn: os oes gennym ni blant a'r henoed yn ein hysbytai ar hyn o bryd y mae pobl yn dweud wrthyn nhw, yn y gwasanaeth iechyd cenedlaethol, nad oes ganddynt yr hawl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg, lle'r ydym ni yn wir, wrth wario'r holl amser hyn yn trafod? Rwy'n meddwl hefyd ein bod ni wedi symud ymlaen, ond, fel rwy'n dweud, mae'r symud ymlaen, ar adegau, wedi bod yn boenus o araf.

However, I also want to refer the First Minister to some of the complaints that he spoke about when he opened this debate, and to ask him whether it's acceptable, as the commissioner has stated, that parents have to complain formally to the commissioner about the fact that there are children and parents in our hospitals at Wales at present being told not to speak Welsh. That should not be happening. I do regret, in relation to the statement made yesterday, that we are looking at a situation, as Keith Davies said, where 'My Language, My Health' was published in June 2014, that it contains 33 recommendations, that seminars were announced by the Government for the health sector in November 2014, that the health Minister has responded formally to the inquiry and the recommendations, that work is being done by the Government, and yet there was an announcement yesterday that the First Minister is saying that perhaps we will have to consult further in terms of the way in which the standards relate to the health service. I have to ask: if we have children and older people in our hospitals being told, within the national health service, that they don't have a right to use the Welsh language, where indeed, are we, having spent all this time discussing the issue? I also think that we have moved forward and made progress, but, as I've said, this progress has, at times, been painfully slow.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16.24.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16.25.*

16:24

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

16:24 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd, ac a gaf i ddiolch i'r siaradwyr y prynhawn yma? Gan ddechrau â'r sefyllfa o ran dysgu'r Gymraeg fel ail iaith, wel, y nod yw, wrth gwrs, sicrhau bod addysg yng Nghymru o'r safon uchaf. Byddwn ni'n cyhoeddi'r cynllun a fydd yn amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i adeiladu'r cwricwlwm newydd gyda'r proffesiwn. Mae'r Gymraeg yn hanfodol o bwysig ynglŷn â hynny, fel rwyf wedi sôn o'r blaen. A oes eisiau inni ystyried dysgu'r Gymraeg fel sgil, a llai, efallai, fel pwnc academaidd i rai disgyblion, er mwyn sicrhau, fel rwyf wedi ei ddweud o'r blaen, bod yr hyder ganddyn nhw i ddefnyddio o leiaf peth Cymraeg yn naturiol ac yn hyderus pan fyddant yn gadael yr ysgol unwaith y maent yn 16? Rwyf wedi gweld hyn yn digwydd. Rwyf wedi ei weld yn digwydd yn ysgol Treorci, er enghraifft—ysgol Saesneg sydd â pheth defnydd o'r Gymraeg, ac rwyf wedi clywed plant yn defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd hollol naturiol.

Thank you, Presiding Officer, and may I thank all the contributors this afternoon? If I could start with the situation of Welsh as a second language, well, the aim, of course, is to ensure that education in Wales is of the highest possible quality. We will be publishing a plan that will outline the steps we will take to develop the curriculum with the profession. The Welsh language is crucially important in that regard, as I've mentioned in the past. Do we want to consider the teaching of the Welsh language as a skill, and less, perhaps, as an academic subject for some pupils, in order to ensure, as I've said before, that they have the confidence to use at least some Welsh naturally and confidently when they leave school at the age of 16? I've seen it happen in Treorchy comprehensive, for example—an English-medium school that makes some use of the Welsh language, and I've heard pupils using the Welsh language in an entirely natural way.

Ynglŷn â'r rheoliadau, wel, fel y dywedais yn gynharach wrth glywed beth a ddywedodd Suzy Davies, fe ddywedon ni y byddai'r ail set o reoliadau'n cael eu datblygu cyn diwedd y flwyddyn hyn. Ni fyddai trydedd set, wrth gwrs, yn gallu cael ei datblygu cyn diwedd y Cynulliad hwn, ac felly byddai hynny'n fater i'r Cynulliad nesaf.

In terms of the regulations, well, as I said earlier in response to Suzy Davies's comments, we said that the second set of regulations would be developed before the end of this year. The third set, of course, will not be developed before the end of this Assembly term, and therefore that will be a matter for the next Assembly.

Ynglŷn â chludiant, wel, mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod nhw'n cadw at y cynlluniau strategol addysg Gymraeg maen nhw'n eu datblygu yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau nad yw unrhyw doriadau ynglŷn â chludiant i ysgolion Cymraeg yn torri ar draws y cynlluniau hynny. Ac, wrth gwrs, mae'r comisiynydd wedi datgan ei barn ar hwnnw.

In terms of transport, well, it's very important that local authorities ensure that they stick to the Welsh in education strategic plans that they are developing in their areas in order to ensure that any cuts in transport to Welsh-medium schools don't contravene those plans. And, of course, the commissioner has stated her views on that.

Ynglŷn â beth a ddywedodd Aled Roberts, allaf i ddim siarad ar ran Gweinidog y Llywodraeth nesaf, ond ynglŷn â beth sy'n digwydd hyd nawr, rwy'n deall, wrth gwrs, y pwysau sydd wedi bod ar gyllideb y comisiynydd, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei gydnabod, wrth gwrs, pan fydd yna benderfyniad yn cael ei wneud ynglŷn â chyllideb y comisiynydd erbyn y flwyddyn ariannol nesaf.

In terms of Aled Roberts's comments, I can't speak on behalf of any Minister in the next Government, but, in terms of what's happened to date, I do understand, of course, the pressures that there have been on the commissioner's budget, and that is something that I acknowledge, of course, when decisions are taken on the commissioner's budget for the next financial year.

Ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd, rydym ni wedi sôn am 'Fy Iaith, Fy Iechyd'. Mi oedd yna 241 o gwynion y flwyddyn ddiwethaf, sy'n rhywbeth, mewn ffordd, sy'n iachus er mwyn sicrhau bod y system yn gallu setlo yn y ffordd y byddai pobl yn moyn gweld, a hefyd fel bod pobl yn gwybod bod modd cwyno a bod pobl yn manteisio ar yr hawl hynny. Byddwn i'n erfyn, wrth gwrs, i gyrff ystyried y cwynion hynny er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwneud pethau yn iawn ynglŷn â chadw at y rheoliadau eu hunain. Byddwn i'n erfyn i gyrff iechyd gadw at reoliadau, fel maen nhw'n effeithio arnyn nhw, a lle nad ydyn nhw'n cadw at y rheoliadau hynny, efallai y bydd yn rhaid ateb i'r comisiynydd ei hun a sicrhau eu bod yn gwneud pethau'n well yn y pen draw.

In terms of using the Welsh language in the health service, we've talked about 'My Language, My Health'. There were 241 complaints last year, which is something, in a way, that is healthy in order to ensure that the system can settle, that people are aware that there is a complaints mechanism in place and that people do actually use that complaints mechanism. I would urge organisations to take account of those complaints to ensure that they do act properly in terms of adhering to the regulations. I would urge health bodies to adhere to the regulations, as they do impact them, and where they don't do that, then they would have to be accountable to the commissioner for their failings and ensure that improvements are ultimately made.

Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, bod yna heriau i ddod, unwaith eto, gyda'r iaith Gymraeg. Rydym ni'n gwybod bod llawer o'r ffordd i fynd eto, ond gallwn ni ddweud hefyd fod yna lot wedi cael ei wneud ynglŷn â'r safonau. Rydym ni'n gwybod bod swyddfa'r comisiynydd yn datblygu a'i bod yn barod i ymgymryd â rôl reoleiddio llawn pan fydd y safonau cyntaf yn dod i rym. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddan nhw'n parhau i weld datblygiadau mawr mewn perthynas â'r Gymraeg, wrth i setiau pellach o safonau gael eu datblygu, wrth i'r cwricwlwm ysgolion ddechrau gael ei ailwampio, ac wrth inni barhau i yrru datblygiadau strategol yn unol ag 'Iaith Fyw' a 'Bwrw Mlaen'. Rydym ni'n gwybod bod yna heriau yn dal i fod ynglŷn â newid ymddygiad ieithyddol, ond rwy'n grediniol bod angen inni newid y ffordd yr ydym yn siarad a meddwl am y Gymraeg, gan fod yn fwy positif ynghylch sut yr ydym ni, fel cenedl, yn trafod yr iaith er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn dal i gael ei defnyddio bob dydd ac, wrth gwrs, fel ein bod ni'n gweld estyniad yn nifer, nid yn unig yr unigolion, ond y cymunedau hefyd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith hollol naturiol, a gweld mwy o weithgareddau yn enwedig yn cymryd lle trwy gyfrwng y Gymraeg.

We know, of course, that there are challenges to come in relation to the Welsh language. We know that there is a long way to go, but we can also say that a great deal has been done in terms of standards. We know that the commissioner's office is evolving and is ready to take on the full regulatory role when the first set of standards come into force. During the next year, we will continue to see major developments in relation to the Welsh language as further rounds of standards are developed, as the school curriculum starts to be reformed and as we continue to drive strategic changes in accordance with 'A Living Language' and 'Moving Forward'. We know that challenges remain in terms of changes to linguistic behaviour, but I am convinced that we do need to change the way we talk and think about the Welsh language and be more positive about how we as a nation discuss the language, in order to ensure that the Welsh language continues to be used on a daily basis and that we do see an extension, not only in the number of individuals, but also communities who use the Welsh language naturally, and see more activities taking place through the medium of Welsh also.

Fel cenedl ddwyieithog, mae'n hanfodol bod y Gymraeg yn cael ei chlywed a'i gweld ar draws y wlad. Mae cannoedd o bethau y gall pawb eu gwneud pob dydd i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, pa lefel bynnag yw'r Gymraeg sydd ganddynt. Felly, mae'n flwyddyn lle mae llawer wedi cael ei wneud, ond, wrth gwrs, mae blwyddyn i ddod ynglŷn â'r rheoliadau yn enwedig, ynglŷn â bwrw ymlaen gyda chynlluniau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, ac, wrth gwrs, rydym ni fel Llywodraeth yn barod i sicrhau bod yr heriau yna yn cael eu cwrdd, a hefyd, wrth gwrs, i weithio gyda'r comisiynydd er mwyn sicrhau bod hybu'r iaith Gymraeg yn rhan ganolog o waith y Llywodraeth.

As a bilingual nation, it's crucial that the Welsh language should be heard and seen across the nation. There are things that everyone can do on a daily basis to increase the use of the Welsh language, whatever level of proficiency in Welsh that they have. So, it's a year where a great deal has been achieved, but of course, there is a new year in terms of regulations and in terms of proceeding with our plans to promote the use of the Welsh language, and, of course, we as a Government are ready to ensure that those challenges are met, and also to work with the commissioner in order to ensure that we promote the Welsh language as a central part of the work of Government.

16:29

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does anyone object? [Objection.] Object. Therefore I'll defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebu. Felly byddaf yn gohirio pob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:29

## 7. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

## 7. Debate on the General Principles of the Historic Environment (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 7, which is a debate on the general principles of the Historic Environment (Wales) Bill. I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to move the motion—Ken Skates.

Symudwn yn awr at eitem 7, sydd yn ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i gynnig y cynnig—Ken Skates.

Cynnig NDM5847 Kenneth Skates

Motion NDM5847 Kenneth Skates

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Historic Environment (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:29 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I move the motion.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

I'm happy to open this debate on the general principles of the Historic Environment (Wales) Bill, which I introduced to this Chamber in May. The Bill is the first piece of legislation exclusively for the Welsh historic environment. It will make significant changes to existing laws to improve the protection and the management of the historic environment. I'd like to place on record my thanks for the support offered by stakeholders throughout the development of the Bill. I'd also like to record my gratitude, Presiding Officer, to the Chairs and members of the two committees that have scrutinised the Bill.

Rwy'n hapus i agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynais i'r Siambr hon ym mis Mai. Y Bil yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru yn unig. Bydd yn gwneud newidiadau sylweddol i'r cyfreithiau presennol i wella'r ffordd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei diogelu a'i rheoli. Hoffwn gofnodi fy niolch am y cymorth a gafwyd gan randdeiliaid drwy gydol datblygiad y Bil. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch, Lywydd, i Gadeiryddion ac aelodau'r ddau bwyllgor sydd wedi craffu ar y Bil.

With regard to specific recommendations, I'm pleased to say that I shall accept the great majority. The Communities, Equality and Local Government Committee has called for guidance to support the legislation and to clarify its operation. Some of this guidance is already in production. The rest will be accommodated in future work programmes. Through mentoring and support, my officials will also help local authorities to introduce heritage partnership agreements, as specifically recommended, and use other new powers in the Bill. In recommendation 2, the committee called for historic place names to be included in the required contents of Wales's historic environment records. Place names are an important part of our heritage and I am happy to accept the committee's recommendation. I shall introduce an amendment at Stage 2 that will reference Wales's rich heritage of place names in every historic environment record.

O ran argymhellion penodol, rwy'n falch o ddweud y byddaf yn derbyn y mwyafrif helaeth. Mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi galw am ganllawiau i gefnogi'r ddeddfwriaeth ac i egluro ei gweithrediad. Mae rhai o'r canllawiau hyn eisoes yn cael eu cynhyrchu. Bydd y gweddill yn cael eu darparu mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol. Drwy fentora a chynnig cymorth, bydd fy swyddogion hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gyflwyno cytundebau partneriaeth treftadaeth, fel yr argymhellwyd yn benodol, ac yn defnyddio pwerau newydd eraill yn y Bil. Yn argymhelliad 2, mae'r pwyllgor yn galw am enwau lleoedd hanesyddol i gael eu cynnwys yn y cynnwys sy'n ofynnol o gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae enwau lleoedd yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac rwy'n fodlon derbyn argymhelliad y pwyllgor. Byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 a fydd yn cyfeirio at dreftadaeth gyfoethog Cymru o enwau lleoedd ym mhob cofnod amgylchedd hanesyddol.

I shall also willingly accept recommendation 10, which calls upon me to clarify the requirements for bilingual provision in the historic environment records, under the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Following the Welsh Language Commissioner's recent letter to the Communities, Equality and Local Government Committee on this matter, I've written to the commissioner to provide her with additional information on the content and operation of the historic environment records. My officials are actively engaged in discussions with her officials and on the application of the standards. I shall report the outcome of these discussions to the committee in due course.

Byddaf hefyd yn barod i dderbyn argymhelliad 10, sy'n galw arnaf i egluro'r gofynion ar gyfer darpariaeth ddwyieithog yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn dilyn llythyr diweddar Comisiynydd y Gymraeg i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar y mater hwn, rwyf wedi ysgrifennu at y Comisiynydd i roi gwybodaeth ychwanegol iddi am gynnwys a gweithrediad y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Mae fy swyddogion yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau gyda'i swyddogion ac ar gymhwyso'r safonau. Byddaf yn adrodd ar ganlyniad y trafodaethau hyn i'r pwyllgor maes o law.

In its linked recommendations 7 and 8, the committee asks for clarification of the intended status of the local land charge that the Bill will introduce. Our policy intention for this provision is clear: to encourage local planning authorities to use existing powers to halt further deterioration to listed buildings by giving them an effective mechanism to recover the costs of urgent works. There is case law to support the position that, as currently drafted, this can be interpreted as a priority charge. However, further consideration will need to be given to recommendation 8 during Stage 2.

Yn ei argymhellion cysylltiedig 7 ac 8, mae'r pwyllgor yn gofyn am eglurhad ar statws arfaethedig y pridiant tir lleol y bydd y Bil yn ei gyflwyno. Mae ein bwriad polisi ar gyfer y ddarpariaeth hon yn glir: sef annog awdurdodau cynllunio lleol i ddefnyddio pwerau presennol i atal dirywiad pellach i adeiladau rhestredig trwy roi mecanwaith effeithiol iddynt adennill costau'r gwaith brys. Mae cyfraith achosion i gefnogi'r safbwynt, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, y gellir dehongli hyn fel pridiant blaenoriaeth. Fodd bynnag, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i argymhelliad 8 yn ystod Cyfnod 2.

I am aware of the widespread concern across this Chamber —[Interruption.]

Rwy'n ymwybodol o'r pryder cyffredin ar draws y Siambr- —[Torri ar draws.]

16:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking the intervention?

A ydych yn cymryd yr ymyriad?

16:32

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Not at this stage. I'm aware of the widespread concern across this Chamber about listed buildings that are neglected by their owners. I shall therefore accept recommendation 9 and explore the feasibility of introducing financial penalties for owners who deliberately allow listed buildings to fall into disrepair. However, this will require research and stakeholder engagement. So, I accept this recommendation as a longer-term objective that is outside the scope of the Bill.

Ddim ar hyn o bryd. Rwy'n ymwybodol o'r pryder cyffredin ar draws y Siambr hon ynghylch adeiladau rhestredig sydd wedi eu hesgeuluso gan eu perchnogion. Byddaf felly yn derbyn argymhelliad 9 ac yn archwilio ymarferoldeb cyflwyno cosbau ariannol ar berchnogion sy'n fwriadol yn caniatáu i adeiladau rhestredig ddadfeilio. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Felly, rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn fel amcan tymor hwy sydd y tu allan i gwmpas y Bil.

Recommendation 4 urges me to consider how a system of statutory protection for historic parks and gardens could be accommodated within the Bill. As part of the scoping for the Bill, we did consider statutory protection. I am willing to look at this again and report to the committee before the close of Stage 2. Such protection would require a system of consents, appeals, offences and enforcement. Furthermore, I'm aware of the interest in local lists, both within the Chamber and more broadly in Welsh communities. I have thoroughly investigated a statutory requirement for local planning authorities to produce local lists as set out in the committee's recommendation 11. This will be costly; some £3.5 million will be needed to establish local lists across Wales. It will also place new burdens on local planning authorities.

Mae argymhelliad 4 yn fy annog i ystyried sut y gellid cynnwys system o amddiffyniad statudol ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol o fewn y Bil. Fel rhan o'r cwmpasu ar gyfer y Bil, gwnaethom ystyried diogelwch statudol. Rwy'n barod i edrych ar hyn eto ac adrodd i'r pwyllgor cyn diwedd Cyfnod 2. Byddai diogelwch o'r fath yn gofyn am system o gydsyniadau, apeliadau, troseddau a gorfodi. Ar ben hynny, rwy'n ymwybodol o'r diddordeb mewn rhestrau lleol, o fewn y Siambr ac yn fwy eang yng nghymunedau Cymru. Rwyf wedi ymchwilio gofyniad statudol yn drylwyr ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol i gynhyrchu rhestrau lleol fel y'u nodir yn argymhelliad 11 y pwyllgor. Bydd hyn yn gostus; bydd angen tua £3.5 miliwn i sefydlu rhestrau lleol ledled Cymru. Bydd hefyd yn rhoi beichiau newydd ar awdurdodau cynllunio lleol.

Some key stakeholders have also pointed out that statutory local lists would make the regulatory system for the historic environment more complex and could frustrate legitimate development or plans to adapt or to find new uses for unlisted historic buildings. I believe that the decision to create a local list and commit the necessary resources should be a matter for local democracy. While I am rejecting the committee's recommendation for statutory local lists, I acknowledge how strongly many communities feel about their local historic assets. Therefore, we have prepared guidance to help people identify the particular assets that make their communities distinctive and which matter to them.

Mae rhai rhanddeiliaid allweddol hefyd wedi nodi y byddai rhestrau lleol statudol yn sicrhau bod y system reoleiddio ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn fwy cymhleth a gallai rwystro datblygiad neu gynlluniau cyfreithlon i addasu neu i ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol anrhestredig. Credaf y dylai'r penderfyniad i greu rhestr leol ac ymrwymo adnoddau angenrheidiol fod yn fater i ddemocratiaeth leol. Er fy mod yn gwrthod argymhelliad y pwyllgor am restrau lleol statudol, rwy'n cydnabod pa mor gryf y mae llawer o gymunedau yn teimlo am eu hasedau hanesyddol lleol. Felly, rydym wedi paratoi canllawiau i helpu pobl i adnabod yr asedau penodol sy'n gwneud eu cymunedau yn unigryw ac sy'n bwysig iddyn nhw.

The Welsh historic environment records will have an important part to play in supporting such activity and recording the results. Of particular relevance to this recommendation is the wider work by Government to involve communities in decisions about the future of assets that they care about. The recent consultation, 'Protecting Community Assets', which asked how communities can be empowered to identify those assets that are most important to them, has also explored how communities can play an active role in protecting assets and the services provided by them. The Minister for Communities and Tackling Poverty will issue a statement on the outcome of the consultation in the coming weeks.

Bydd gan gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgaredd o'r fath a chofnodi'r canlyniadau. Yn arbennig o berthnasol i'r argymhelliad hwn y mae'r gwaith ehangach gan y Llywodraeth i gynnwys cymunedau mewn penderfyniadau am ddyfodol asedau y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r ymgynghoriad diweddar, 'Diogelu Asedau Cymunedol', a oedd yn gofyn sut y gall cymunedau gael eu grymuso i nodi'r asedau hynny sydd bwysicaf iddynt, hefyd wedi archwilio sut y gall cymunedau chwarae rhan weithredol o ran amddiffyn asedau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn cyhoeddi datganiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn yr wythnosau nesaf.

Turning to the seven recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I am pleased to accept the majority of them. Recommendation 5 asked for clarification of sections 39(1) and 39(2). In brief, the effect of 39(1) is to enable regulations or an Order under the Ancient Monuments and Archaeological Areas Act 1979 to make incidental provisions as the Welsh Ministers consider appropriate. It may be necessary to make incidental, supplemental or consequential provisions in connection with the new provisions of the Bill. The committee calls for such regulations that amend primary legislation to be subject to the affirmative procedure, and I shall table an amendment to that effect at Stage 2.

Gan droi at saith argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwy'n falch o dderbyn y mwyafrif ohonynt. Gofynnodd argymhelliad 5 am eglurhad o adrannau 39 (1) a 39 (2). Yn fyr, effaith 39 (1) yw galluogi rheoliadau neu Orchymyn o dan Ddeddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 i wneud darpariaethau cysylltiedig fel y mae Gweinidogion Cymru yn barnu sy'n briodol. Efallai y bydd angen gwneud darpariaethau cysylltiedig, atodol neu ganlyniadol mewn cysylltiad â'r darpariaethau newydd yn y Bil. Mae'r pwyllgor yn galw am i reoliadau o'r math sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a byddaf yn cyflwyno gwelliant i'r perwyl hwnnw yng Nghyfnod 2.

Section 39(2) is more straightforward. It is required to clarify that the Welsh Ministers' powers to make regulations or Orders under the 1979 Act are exercisable by statutory instrument and to set out the procedure that applies to many of those regulations or Orders. I will, however, not accept two of the committee's recommendations. Number 4 seeks to subject the regulation-making powers relating to membership of the advisory panel for the Welsh historic environment to the affirmative procedure. The main groups excluded from membership of the panel are already identified on the face of the Bill. Since the panel's role is purely advisory, I do not believe it is necessary or appropriate to subject those regulation-making powers to such scrutiny. In recommendation 7, the committee seeks to apply the negative procedure to certain commencement Orders. Commencement Orders are not subject to any Assembly procedure, since the provisions have already been scrutinised. I'm not prepared to accept this recommendation. Any transitional provisions would only be necessary to ensure that the provisions of the Bill effectively come into force.

Mae adran 39 (2) yn symlach. Mae'n ofynnol i egluro bod pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu Orchmynion o dan Ddeddf 1979 yn arferadwy drwy offeryn statudol ac i nodi'r weithdrefn sy'n berthnasol i lawer o'r rheoliadau neu'r Gorchmynion hynny. Ni fyddaf, fodd bynnag, yn derbyn dau o argymhellion y pwyllgor. Mae rhif 4 yn ceisio peri i'r pwerau i wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag aelodaeth y panel ymgynghorol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae'r prif grwpiau sydd wedi'u heithrio rhag bod yn aelodau o'r panel eisoes yn cael eu nodi ar wyneb y Bil. Gan fod rôl y panel yn un ymgynghorol yn unig, nid wyf yn credu ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol i fynnu bod y pwerau gwneud rheoliadau hynny yn agored i graffu o'r fath. Yn argymhelliad 7, mae'r pwyllgor yn ceisio cymhwyso'r weithdrefn negyddol i Orchmynion cychwyn penodol. Nid yw Gorchmynion Cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Cynulliad, gan fod y darpariaethau eisoes wedi cael eu harchwilio. Dydw i ddim yn fodlon derbyn yr argymhelliad hwn. Ni fyddai unrhyw ddarpariaethau trosiannol ond yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn dod i rym i bob pwrpas.

I'm very pleased that the Communities, Equality and Local Government Committee has recommended the approval of the Bill's general principles, and I'd like to urge Members to follow that advice. I'd like to thank the committees again for their constructive and helpful scrutiny of the Bill, which will undoubtedly make it a better piece of legislation, and I look forward to the debate.

Rwy'n falch iawn bod y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi argymell cymeradwyaeth egwyddorion cyffredinol y Bil, a hoffwn i annog yr Aelodau i ddilyn y cyngor hwnnw. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgorau eto am eu gwaith craffu adeiladol a defnyddiol ar y Bil, a fydd heb os yn ei wneud yn ddarn o ddeddfwriaeth well, ac edrychaf ymlaen at y ddadl.

16:37

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

16:37

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to contribute to this debate as the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, which is responsible for scrutinising the Bill. I would like to thank all those who gave evidence to inform our work on the Bill. In total, we made 14 recommendations aimed at strengthening the Bill and helping to ensure the effective implementation of its provisions. Now, given the time available today, I will focus on some of our main recommendations.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n falch o gyfrannu at y ddadl hon fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i lywio ein gwaith ar y Bil. Gwnaed cyfanswm o 14 o argymhellion gyda'r nod o gryfhau'r Bil a helpu i sicrhau gweithrediad effeithiol ei ddarpariaethau. Yn awr, o ystyried yr amser sydd ar gael heddiw, byddaf yn canolbwyntio ar rai o'n prif argymhellion.

Overall, respondents welcomed the Bill and agreed that it would go some way towards improving the protection and management of the historic environment in Wales. The evidence we received suggested that the provisions aimed at preventing damage to scheduled monuments and listed buildings would strengthen the already well-established arrangements for the protection and management of these assets. There was also strong support for placing the existing non-statutory register of historic parks and gardens and the historic environment records on a statutory footing. In the main, the Bill's provisions appear to be uncontentious and seek to address identified needs within existing arrangements for the protection and management of the historic environment. So, on this basis, we are pleased to recommend that the Assembly agrees the general principles of the Bill.

Despite the widespread support for the Bill, we heard that the successful delivery of its key aims will largely depend on the willingness and ability of authorities to use their enhanced powers. So, we have recommended in a number of areas that the Deputy Minister provide additional guidance and, where applicable, practical support to authorities to assist them with this.

Moving on to specific provisions, we very much welcome the proposal to place the register of historic parks and gardens on a statutory footing. This gives effect to a recommendation made by the committee in our report on the Welsh Government's historic environment policy, which we published in March 2013. However, there was a strong feeling among responders that the statutory register should be accompanied by additional protection for historic parks and gardens. We agree with this, and have therefore recommended that the Deputy Minister gives further consideration to how the system of statutory protection could be provided within the Bill, and I'm very pleased that the Deputy Minister is going to investigate this further in future stages.

We also heard strong evidence in support of giving statutory status to the historic environment records. There were, however, differing views amongst respondents about where the statutory responsibilities for these records should lie. There were concerns raised, mainly by individual councils, about the financial and resource implications for authorities of taking on this responsibility. While we acknowledge this concern, given that the Bill allows for the Welsh archaeological trusts to continue to maintain the records, and that the Deputy Minister has expressed a desire to encourage more effective use of the records by authorities, we are content with the approach provided.

We also received calls for guidance on the provision of bilingual records. In that regard, we asked the Deputy Minister to clarify whether the requirement on local authorities to comply with standards under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 will apply to the provision of the records. I am aware now that the Deputy Minister has recently written to the Welsh Language Commissioner on the issue of bilingual records. I'm pleased that the Deputy Minister has agreed that he will report back to the committee on the outcome of any further discussions with the commissioner on this matter.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r Bil a chytunwyd y byddai'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at wella'r ffordd y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei diogelu a'i rheoli yng Nghymru. Awgrymodd y dystiolaeth a gawsom mai nod y darpariaethau oedd atal difrod i henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig a fyddai'n cryfhau'r trefniadau sydd eisoes wedi'i hen sefydlu ar gyfer diogelu a rheoli'r asedau hyn. Roedd cefnogaeth gref hefyd i osod y gofrestr anstatudol bresennol o barciau a gerddi hanesyddol a'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ar sail statudol. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod darpariaethau'r Bil yn annadleuol ac yn ceisio mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd o fewn y trefniadau presennol ar gyfer gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Felly, ar y sail hon, rydym yn falch o argymell bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Er gwaethaf y gefnogaeth eang i'r Bil, clywsom y bydd cyflawni ei nodau allweddol yn llwyddiannus yn dibynnu i raddau helaeth ar barodrwydd a gallu awdurdodau i ddefnyddio'u pwerau estynedig. Felly, rydym wedi argymell mewn nifer o feysydd bod y Dirprwy Weinidog yn darparu canllawiau ychwanegol a, lle mae'n berthnasol, yn rhoi cefnogaeth ymarferol i awdurdodau i'w cynorthwyo gyda hyn.

Gan symud ymlaen at ddarpariaethau penodol, rydym yn croesawu'n fawr y cynnig i osod y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol ar sail statudol. Mae hyn yn gweithredu argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor yn ein hadroddiad ar bolisi amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2013. Fodd bynnag, roedd teimlad cryf ymysg ymatebwyr y dylid cael mwy o ddiogelwch ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol i gyd-fynd â'r gofrestr statudol. Rydym yn cytuno â hyn, ac felly wedi argymell bod y Dirprwy Weinidog yn rhoi ystyriaeth bellach i sut y gallai'r system o ddiogelwch statudol gael ei darparu o fewn y Bil, ac rwy'n falch iawn fod y Dirprwy Weinidog yn mynd i ymchwilio i hyn ymhellach mewn camau yn y dyfodol.

Clywsom hefyd dystiolaeth gref o blaid rhoi statws statudol i gofnodion amgylchedd hanesyddol. Fodd bynnag, roedd y farn yn amrywio ymysg ymatebwyr ynghylch pwy ddylai fod â'r cyfrifoldebau statudol dros y cofnodion hyn. Codwyd pryderon, yn bennaf gan gynghorau unigol, am y goblygiadau ariannol ac adnoddau i'r awdurdodau sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Er ein bod yn cydnabod y pryder hwn, o ystyried bod y Bil yn caniatáu i ymddiriedolaethau archeolegol Cymru barhau i gynnal y cofnodion, a bod y Dirprwy Weinidog wedi mynegi awydd i annog defnydd mwy effeithiol o'r cofnodion gan yr awdurdodau, rydym yn fodlon â'r dull a ddarparwyd.

Rydym hefyd wedi derbyn galwadau am arweiniad ar ddarparu cofnodion dwyieithog. O safbwynt hynny, rydym yn gofyn i'r Dirprwy Weinidog egluro a oedd y gofyniad ar awdurdodau lleol i gydymffurfio â safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i ddarpariaeth y cofnodion. Rwy'n ymwybodol erbyn hyn bod y Dirprwy Weinidog wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Gomisiynydd y Gymraeg ar fater cofnodion dwyieithog. Rwy'n falch bod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno y bydd yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar ganlyniad unrhyw drafodaethau pellach gyda'r comisiynydd ar y mater hwn.

On the issue of historic place names, we were concerned to hear that names that have been around for centuries can be changed with little or no challenge. We acknowledged that providing statutory protection for historic place names may be difficult to deliver, but nevertheless we did hear some very compelling evidence on this, and we believe that their inclusion within the historic environment records is a sensible way forward and that the Bill should be amended to be explicitly provide for this. I am delighted that the Deputy Minister has agreed to put an amendment forward on this.

Ar fater o enwau lleoedd hanesyddol, roeddem yn pryderu o glywed y gall enwau sydd wedi bod o gwmpas ers canrifoedd gael eu newid heb fawr ddim herio. Rydym yn cydnabod y gallai darparu diogelwch statudol ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol fod yn anodd ei gyflawni, ond er hynny clywsom rywfaint o dystiolaeth gymhellol iawn ar hyn, ac rydym yn credu bod eu cynnwys o fewn y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ffordd synhwyrol ymlaen ac y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i ddarparu yn benodol ar gyfer hyn. Rwyf wrth fy modd bod y Dirprwy Weinidog wedi cytuno i gyflwyno gwelliant ar hyn.

Finally, although respondents were generally supportive of the proposed advisory panel for the Welsh historic environment, there was concern about the risk of duplication between its work and that of the existing historic environment group. There was also concern about the lack of a formal reporting mechanism for the panel, which could make it difficult to measure its success. In order to address this issue, we have recommended that the Bill is amended to include a requirement on the advisory panel to report to the Welsh Minister annually on work undertaken and the outputs achieved, and that these reports are made publicly available.

Yn olaf, er bod ymatebwyr yn gefnogol yn gyffredinol i'r panel cynghori arfaethedig ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru, roedd pryder am y perygl o ddyblygu rhwng gwaith y panel a gwaith y grŵp amgylchedd hanesyddol sy'n bodoli eisoes. Roedd pryder hefyd ynghylch diffyg yn null adrodd ffurfiol y panel, a allai ei gwneud yn anodd i fesur ei lwyddiant. Er mwyn ymdrin â'r mater hwn, rydym wedi argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad ar y panel cynghori i adrodd i Weinidog Cymru yn flynyddol ar waith a wnaed a'r canlyniadau a gyflawnwyd, a bod yr adroddiadau hyn ar gael i'r cyhoedd.

So, in conclusion, if the Assembly agrees the general principles of the Bill today, I look forward to the committee's consideration of amendments at Stage 2.

Felly, i gloi, os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rwy'n edrych ymlaen at ystyriaeth y pwyllgor o'r gwelliannau yng Nghyfnod 2.

16:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

16:43

## David Melding [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you, Presiding Officer. As the Minister referred to, we made seven recommendations in our report when we examined this Bill, and they all relate to the making of subordinate legislation. I welcome the fact that the Minister has accepted a majority of the recommendations. However, he has not accepted two—recommendations 4 and 7. Can I just restate that our general principles in defending the rights of the legislature are that, if you amend the face of a Bill through secondary legislation, then you should use the affirmative procedure? It's up to us to decide whether that use is then appropriate, and not for the Minister. In terms of commencement orders, we'd have no argument with you if a commencement order just commenced, but, of course, when it does more than commence—you may say it's transitionary and consequential—but we do think if you do more than commence then it should be for the legislature to decide that you've used that power appropriately.

Diolch i chi, Lywydd. Fel y cyfeiriwyd gan y Gweinidog, gwnaed saith o argymhellion yn ein hadroddiad pan archwiliwyd y Bil hwn, ac maent i gyd yn ymwneud â gwneud is-ddeddfwriaeth. Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion. Fodd bynnag, nid yw wedi derbyn dau—argymhellion 4 a 7. Alla i ailddatgan mai ein hegwyddorion cyffredinol wrth amddiffyn hawliau'r ddeddfwrfa yw, os byddwch yn newid wyneb Bil drwy is-ddeddfwriaeth, yna dylech ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol? Mater i ni yw penderfynu a yw'r defnydd hwnnw wedyn yn briodol, ac nid i'r Gweinidog. O ran gorchmynion cychwyn, ni fyddai gennym unrhyw ddadl gyda chi pe byddai gorchymyn cychwyn yn cychwyn, ond, wrth gwrs, pan fydd yn gwneud mwy na chychwyn—efallai y byddwch yn dweud ei fod yn drosiannol ac yn ganlyniadol—ond rydym yn meddwl os ydych yn gwneud mwy na chychwyn, yna dylai fod yn fater i'r ddeddfwrfa i benderfynu eich bod wedi defnyddio'r pŵer hwnnw yn briodol.

I welcome the clarification he's provided on section 39 of the Bill, and the fact that he's going to bring forward an amendment to meet part of our concerns, anyway. It will be for the Stage 2 committee, obviously, to look at these matters now in detail.

Rwy'n croesawu'r eglurhad y mae'n ei ddarparu ar adran 39 o'r Bil, a'r ffaith ei fod yn mynd i gyflwyno gwelliant i ddiwallu rhan o'n pryderon, beth bynnag. Mater i'r pwyllgor Cyfnod 2, yn amlwg, fydd edrych ar y materion hyn yn awr yn fanwl.

Can I just refer briefly to human rights? We did explore this with the Deputy Minister, and the extent to which the Bill complies with articles 6 and 8 of the European convention on human rights. We considered the approach adopted to be reasonable.

Gaf i gyfeirio'n fyr at hawliau dynol? Gwnaethom archwilio hyn gyda'r Dirprwy Weinidog, ac i ba raddau y mae'r Bil yn cydymffurfio ag erthyglau 6 ac 8 o'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol. Roeddem yn ystyried bod y dull a fabwysiadwyd yn rhesymol.

I want to say a few words on consolidation. Overall, we do consider this to be a convoluted piece of law. Notably, the Bill amends two existing UK Acts, both of which have already been amended so that different provisions apply to different parts of the United Kingdom. Those Acts will now be further amended. As a result, it will become increasingly difficult for readers to identify which provisions apply to Wales. It would have been significantly better if introduced as a consolidation Bill, particularly given the number of organisations and people it could affect, and I do regard this as a very profound criticism. In seeking to address the lack of consolidation, the Deputy Minister spoke of timetabling issues and the limited resources available. However, the Welsh Government announced its intention to legislate in this area in May 2011 and started consulting with stakeholders on issues relating to the development of the Bill in 2012. It is unclear why consolidating provisions could not therefore have been brought alongside the new provisions of the Bill that was subsequently introduced, as the Minister said, in May this year. We also note the admission by the Welsh Government that stakeholders would have preferred a consolidated Bill, and I do think, again, that is a very significant criticism.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau am gydgrynhoi. Ar y cyfan, rydym yn ystyried hwn i fod yn ddarn cymhleth o gyfraith. Yn nodedig, mae'r Bil yn diwygio dwy Ddeddf sydd eisoes yn bodoli yn y DU, y ddwy ohonynt eisoes wedi cael eu diwygio fel bod darpariaethau gwahanol yn berthnasol i wahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Bydd y Deddfau hynny yn awr yn cael eu diwygio ymhellach. O ganlyniad, bydd yn mynd yn fwyfwy anodd i ddarllenwyr nodi pa ddarpariaethau sy’n gymwys i Gymru. Byddai wedi bod yn well o lawer pe byddant wedi cael eu cyflwyno fel Bil cydgrynhoi, yn enwedig o ystyried y nifer o sefydliadau a phobl y gallai effeithio arnynt, ac rwy’n ystyried hyn yn feirniadaeth ddwys iawn. Wrth geisio mynd i'r afael â'r diffyg cydgrynhoi, siaradodd y Dirprwy Weinidog am faterion amserlennu a'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ddeddfu yn y maes hwn ym mis Mai 2011 a dechreuodd ymgynghori â rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â datblygiad y Bil yn 2012. Nid yw'n eglur pam na allai darpariaethau cydgrynhoi felly fod wedi cael eu dwyn ochr yn ochr â'r darpariaethau newydd yn y Bil a gyflwynwyd ar ôl hynny, fel y dywedodd y Gweinidog, ym mis Mai eleni. Nodwn hefyd y cyfaddefiad gan Lywodraeth Cymru y byddai wedi bod yn well gan randdeiliaid gael Bil cydgrynhoi, ac rwy’n meddwl, unwaith eto, bod honno’n feirniadaeth sylweddol iawn.

Our recent report on making laws in Wales highlights consolidation of Welsh law as a key part of the challenge to make Welsh law more accessible to the people it affects, and if we lose opportunity after opportunity after opportunity to consolidate, then that window will be lost to us and we will not have a clearer code of law in Wales. We, however, recognise it is a difficult issue. Nevertheless, consolidating Welsh law must be addressed as a matter of urgency, in our view, and tackled head-on. It cannot be continually referred, as this Government is tempted to do, as a matter for future consideration with no action ultimately being taken.

Mae ein hadroddiad diweddar ar wneud deddfau yng Nghymru yn tynnu sylw at gydgyfnerthu cyfraith Cymru fel rhan allweddol o'r her i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch i'r bobl y mae'n effeithio arnynt, ac os ydym yn colli cyfle ar ôl cyfle ar ôl cyfle i gydgyfnerthu, yna bydd y cyfle yn cael ei golli i ni ac ni fydd gennym god cliriach o gyfraith yng Nghymru. Yr ydym, fodd bynnag, yn cydnabod ei fod yn fater anodd. Serch hynny, mae'n rhaid mynd i'r afael â chydgyfnerthu cyfraith Cymru fel mater o frys, yn ein barn ni, a mynd i'r afael â hynny’n uniongyrchol. Ni ellir parhau i’w atgyfeirio, fel y mae’r Llywodraeth hon yn cael ei themtio i’w wneud, fel mater i'w ystyried yn y dyfodol heb gymryd unrhyw gamau yn y pen draw.

16:46 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank, first of all, the Deputy Minister for his open-door approach during the whole process of the Bill so far, and the committees that have scrutinised this Bill—all three of them? I offer my special thanks to the Communities, Equality and Local Government Committee for its report, as I was only able to substitute for one session. But I’ll begin with my thoughts on the report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, amplifying some of the comments made by David Melding.

A gaf i ddiolch, yn gyntaf oll, i’r Dirprwy Weinidog am ei ddull drws agored yn ystod holl broses y Bil hyd yn hyn, a’r pwyllgorau sydd wedi craffu ar y Bil—y tri ohonynt? Rwy’n diolch yn arbennig i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol am ei adroddiad, gan nad oeddwn ond yn gallu dirprwyo am un sesiwn. Ond byddaf yn dechrau gyda fy meddyliau ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sy'n ymhelaethu ar rai o'r sylwadau a wnaed gan David Melding.

CLAC is not there to comment on policy, but it is there to help Government, through scrutiny, to produce better legislative instruments to bring before this Assembly. We have been consistent in three things in our advice over the years. Firstly, Government should bring forward new consolidating Bills rather than amending existing UK legislation. That means that the law for Wales is bilingual and all in one place. That means that any future changes would be to a Wales-only statute rather than further changes to any number of UK Acts. Secondly, the Government must apply the affirmative procedure to any secondary legislation that amends primary legislation, be it UK or Wales-only primary legislation. As David Melding said, it is for this Assembly to decide whether any such change is worth its detailed consideration or not. Thirdly, where the passing of certain secondary legislation is necessary in order to make the primary legislation capable of being acted upon, then Government must be under a duty to introduce that secondary legislation rather than be in the possession of a mere power to introduce it.

Nid yw CLAC yno i roi sylwadau ar bolisi, ond mae yno i helpu’r Llywodraeth, drwy graffu, i lunio offerynnau deddfwriaethol gwell i ddod gerbron y Cynulliad hwn. Rydym wedi bod yn gyson mewn tri pheth yn ein cyngor dros y blynyddoedd. Yn gyntaf, dylai'r Llywodraeth gyflwyno Biliau atgyfnerthu newydd yn hytrach na diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes yn y DU. Mae hynny'n golygu bod y gyfraith ar gyfer Cymru yn ddwyieithog ac i gyd mewn un lle. Mae hynny'n golygu y byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol i statud Cymru yn unig yn hytrach na newidiadau pellach i unrhyw nifer o Ddeddfau’r DU. Yn ail, rhaid i’r Llywodraeth gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, boed yn ddeddfwriaeth sylfaenol y DU neu Gymru yn unig. Fel y dywedodd David Melding, mater i'r Cynulliad hwn yw penderfynu a yw unrhyw newid o'r fath yn werth ei ystyried yn fanwl neu beidio. Yn drydydd, lle mae pasio is-ddeddfwriaeth benodol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir gweithredu ar y ddeddfwriaeth sylfaenol, yna mae’n ddyletswydd ar y Llywodraeth i gyflwyno’r is-ddeddfwriaeth honno yn hytrach na bod ym meddiant pŵer yn unig i'w gyflwyno.

Deputy Minister, I still find it hard to accept that this Bill planned as the last in the programme for government in a five-year Assembly has been drafted in the way it has on the grounds that there was no time to produce a consolidated Bill, especially as it is not as ambitious as originally envisaged. However, I am pleased that you’ve accepted the majority of CLAC’s recommendations, although I’m disappointed that the committee still had to make some of these recommendations in the first place dealing with primary legislation and the duty to introduce secondary legislation in certain circumstances. One day, I’m sure that this Assembly will decline to support a Bill unless a Government concedes that such recommendations should be accepted or actually not need to be made in future. I hope it’s not this one because Welsh Conservatives have been consistent in our wish to support a heritage Bill. While the Bill does not include certain matters that it might have, we still offer our support for the general principles today. Nevertheless, I hope that you will look favourably on the very reasonable suggestions in both reports, bearing in mind that this Government’s reluctance to—. Well, it is reluctant to support opposition amendments, even though so many of them do fall only on the Presiding Officer’s casting vote. You may find that early tabling of suitable Government amendments means that fewer will be tabled by us.

Ddirprwy Weinidog, rwy’n dal yn ei chael yn anodd derbyn bod y Bil hwn a gynlluniwyd fel yr olaf yn y rhaglen lywodraethu mewn Cynulliad pum mlynedd wedi'i ddrafftio yn y ffordd y mae ar y sail nad oedd amser i gynhyrchu Bil cyfunol, yn enwedig gan nad yw mor uchelgeisiol ag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, rwy’n falch eich bod wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion CLAC, er fy mod yn siomedig fod y pwyllgor yn dal i fod wedi gorfod gwneud rhai o'r argymhellion hyn yn y lle cyntaf wrth ymdrin â deddfwriaeth sylfaenol a'r ddyletswydd i gyflwyno is-ddeddfwriaeth mewn rhai amgylchiadau. Un diwrnod, rwy'n siŵr y bydd y Cynulliad hwn yn gwrthod cefnogi Bil oni fydd y Llywodraeth yn cyfaddef y dylai argymhellion o'r fath gael eu derbyn neu mewn gwirionedd nad oes angen eu gwneud yn y dyfodol. Rwy’n gobeithio nad hwn fydd, oherwydd mae’r Ceidwadwyr Cymreig wedi bod yn gyson yn ein dymuniad i gefnogi Bil treftadaeth. Er nad yw'r Bil yn cynnwys rhai materion y gallai fod wedi’u cynnwys, rydym yn dal i gynnig ein cefnogaeth i’r egwyddorion cyffredinol heddiw. Er hynny, rwy’n gobeithio y byddwch yn edrych yn ffafriol ar yr awgrymiadau rhesymol iawn yn y ddau adroddiad, gan gofio bod amharodrwydd y Llywodraeth hon i—. Wel, mae'n amharod i gefnogi gwelliannau'r gwrthbleidiau, er bod cynifer ohonynt yn methu yn unig ar bleidlais fwrw'r Llywydd. Efallai y gwelwch fod cyflwyno gwelliannau addas gan y Llywodraeth yn gynnar yn golygu y bydd llai yn cael eu cyflwyno gennym.

There are three other points I want to mention today. The first is the consistent assertion raised by witnesses that the main problem with the protection of heritage assets is money, not lack of law. The Finance Committee did ask that the assertions of the impact assessment be tested: was it realistic to say that this Bill would have very limited effect on local authority budgets? There is more to this than the keeping of records, and I think I would like to hear from others or, indeed, yourself on that, before we commit to supporting the financial resolution for this Bill.

Mae tri phwynt arall yr wyf am sôn amdanynt heddiw. Y cyntaf yw'r honiad cyson a godwyd gan dystion mai’r brif broblem gyda diogelu asedau treftadaeth yw arian, nid diffyg cyfraith. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid fod yr honiadau o'r asesiad effaith yn cael eu profi: a oedd hi'n realistig i ddweud y byddai’r Bil hwn yn cael effaith gyfyngedig iawn ar gyllidebau awdurdodau lleol? Mae mwy i hyn na chadw cofnodion, ac rwy’n credu y byddwn i’n hoffi clywed gan bobl eraill neu, yn wir, chi eich hun ar hynny, cyn i ni ymrwymo i gefnogi'r penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil hwn.

The second is that I would like a definitive reply from you, Deputy Minister, on why the advisory panel needs to be a statutory panel. Now, I'm not saying that Government cannot seek advice from experts—of course, I'm not. In Cadw, though, you do have the ultimate advisory group on heritage policy, so why do you need another permanent advisory group enshrined in statute? To me, it's an invitation to infer that, due to absorption into Government, Cadw is starting to lose its expertise as personnel changes.

Yr ail bwynt yw yr hoffwn gael ateb diffiniol gennych chi, Ddirprwy Weinidog, ynghylch pam y mae angen i'r panel cynghori fod yn banel statudol. Nawr, nid wyf yn dweud na all y Llywodraeth geisio cyngor gan arbenigwyr—wrth gwrs, dydw i ddim. Yn Cadw, fodd bynnag, mae gennych y grŵp cynghori gorau ar bolisi treftadaeth, felly pam mae arnoch angen grŵp cynghori parhaol arall sydd wedi'i ymgorffori mewn statud? I mi, mae'n wahoddiad i awgrymu bod Cadw, o ganlyniad i gael ei ymgorffori yn y Llywodraeth, yn dechrau colli ei arbenigedd wrth i bersonél newid.

Finally, I am concerned at the committee's suggestion—sorry, that's the communities committee—that new land charges might take priority over existing charges registered against title. I heard what the Deputy Minister said about case law, but I'm sure that the Council of Mortgage Lenders might have something to say on that, as well as there, possibly, being a question of competence on this. But, more than that, I still remain unhappy about the changes to the defence of ignorance in the event of damage to a scheduled monument, especially when the list will be expanded to include monuments that aren't especially apparent. I think of where someone has lived at a property for many years, and so will not be aware of an updated list of scheduled monuments, or who has acquired a property through inheritance, which does not prompt local searches. What must such individuals do to satisfy the law that they have taken reasonable steps to ascertain the existence of a scheduled monument on their property when they have absolutely no reason to think that one may exist? It's a testing question, Deputy Minister, and not necessarily covered off by the intended five-yearly cycles of visits by Cadw.

Yn olaf, rwy'n pryderu am awgrym y pwyllgor—mae'n ddrwg gennyf, y pwyllgor cymunedau—y gallai pridiannau tir newydd gymryd blaenoriaeth dros bridiannau presennol sydd wedi'u cofrestru yn erbyn teitl. Clywais yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidog am gyfraith achosion, ond rwy'n siŵr y byddai gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi rywbeth i'w ddweud am hynny, yn ogystal, o bosibl, â bod cwestiwn cymhwysedd ar hyn. Ond, yn fwy na hynny, rwy'n dal yn anfodlon ynghylch y newidiadau i'r amddiffyniad o anwybodaeth mewn achos o ddifrod i heneb gofrestredig, yn enwedig pan fydd y rhestr yn cael ei hehangu i gynnwys henebion nad ydynt yn arbennig o amlwg. Rwy'n meddwl am achos lle mae rhywun wedi byw mewn eiddo am nifer o flynyddoedd, ac felly ni fyddant yn ymwybodol o restr wedi'i diweddaru o henebion cofrestredig, neu rywun sydd wedi caffael eiddo drwy etifeddiaeth, nad yw'n annog chwiliadau lleol. Beth sy'n rhaid i unigolion o'r fath ei wneud i fodloni'r gyfraith eu bod wedi cymryd camau rhesymol i ganfod bodolaeth heneb gofrestredig ar eu heiddo pan nad oes ganddynt unrhyw reswm o gwbl dros feddwl y gall un fodoli? Mae'n gwestiwn anodd, Ddirprwy Weinidog, a heb ei gynnwys o reidrwydd gan y cylch arfaethedig o ymweliadau bob pum mlynedd gan Cadw.

16:52

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I support the aims of the Bill. I believe this Bill is desperately needed. I also believe that we'll have further Bills, which will be necessary to continue to preserve Welsh heritage. I want to concentrate on three areas: firstly, on the protection of the Welsh ecclesiastical heritage. In many of our older industrial areas of Wales, chapels dominate the landscape. The following is adapted from Cadw's draft strategic action plan on historic places of worship in Wales:

Rwy'n cefnogi amcanion y Bil. Rwy'n credu bod angen y Bil hwn yn fawr iawn. Credaf hefyd y bydd gennym Filiau pellach, a fydd yn angenrheidiol er mwyn parhau i ddiogelu treftadaeth Cymru. Hoffwn ganolbwyntio ar dri maes: yn gyntaf, ar warchod treftadaeth eglwysig Cymru. Mewn llawer o'r ardaloedd diwydiannol hŷn yng Nghymru, mae capeli'n dominyddu'r dirwedd. Mae'r canlynol yn cael ei addasu o gynllun gweithredu strategol drafft Cadw ar fannau addoli hanesyddol yng Nghymru:

'Places of worship occupy a special place in the historic environment of Wales'.

'Mae gan fannau addoli le arbennig yn amgylchedd hanesyddol Cymru'.

The most important are not just of local, but national and, even, international importance and significance. In that, I include Tabernacle in Morriston as being of international significance.

Mae'r rhai pwysicaf nid yn unig o bwysigrwydd ac arwyddocâd lleol, ond o bwysigrwydd cenedlaethol a, hyd yn oed, rhyngwladol. Yn eu plith, rwy'n cynnwys y Tabernacl yn Nhreforys fel un o bwysigrwydd rhyngwladol.

The sustainability of our historic places of worship across Wales is under threat. The focus of policy should be on people and communities using, enjoying and looking after our historic places of worship. We have thousands of chapels in Wales; it is not possible or, necessarily, wanted to protect them all, and many have been tastefully converted into flats, offices and centres for the community. This will inevitably continue as more chapels shut their doors—something like one a week. But what about the five grade I listed chapels in Wales, which include Tabernacle in Morriston, or the 80 grade II* listed chapels in Wales, including New Siloh in Landore? There is a desperate need for some organisation to become the owner of last resort to stop these great buildings becoming derelict.

Mae cynaliadwyedd ein mannau addoli hanesyddol ar draws Cymru dan fygythiad. Dylai ffocws y polisi fod ar bobl a chymunedau sy'n defnyddio, mwynhau a gofalu am ein mannau addoli hanesyddol. Mae gennym filoedd o gapeli yng Nghymru; nid yw'n bosibl nac, o reidrwydd, yn ddymunol i'w gwarchod nhw i gyd, ac mae llawer wedi eu haddasu yn chwaethus yn fflatiau, swyddfeydd a chanolfannau ar gyfer y gymuned. Bydd hyn yn anochel yn parhau wrth i fwy o gapeli gau eu drysau—rhywbeth fel un yr wythnos. Ond beth am y pum capel rhestredig gradd I yng Nghymru, sy'n cynnwys y Tabernacl yn Nhreforys, neu'r 80 capel rhestredig gradd II* yng Nghymru, gan gynnwys y Siloh Newydd yng Nglandŵr? Mae angen dybryd i ryw sefydliad gamu i mewn i'r bwlch er mwyn rhwystro'r adeiladau gwych hyn rhag mynd â'u pen iddynt.

The next thing I want to turn to is the protection of historic names. This is a relatively simple change to legislation and, more importantly, doesn't cost any money. The problem was highlighted by Dr Rhian Parry of the Welsh Place Name Society who told the Communities, Equality and Local Government Committee that legislation is needed and

Y peth nesaf yr wyf am droi ato yw diogelu enwau hanesyddol. Mae hwn yn newid cymharol syml i ddeddfwriaeth ac, yn bwysicach fyth, nid yw'n costio unrhyw arian.  Amlygwyd y broblem gan Dr Rhian Parry o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a ddywedodd wrth y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol bod angen deddfwriaeth ac

'nothing else is going to do. There is nothing, at the moment, that protects these place names...If we are going to acknowledge that place names are important, then they must be protected.'

'ni fydd dim byd arall yn gwneud y tro. Nid oes dim, ar hyn o bryd, sy'n amddiffyn yr enwau lleoedd hyn ...Os ydym yn mynd i gydnabod bod enwau lleoedd yn bwysig, yna rhaid iddynt gael eu diogelu.'

She gave some examples, one was Y Faerdre, in the Teifi valley near Llandysul:

Rhoddodd rai enghreifftiau, un oedd y Faerdre, yn nyffryn Teifi ger Llandysul:

'That name bears testament to the Welsh regime of administration in the middle ages,'

'Mae'r enw hwnnw'n dyst i drefn Gymreig o weinyddu yn yr oesoedd canol',

she said.

meddai.

'Now, it is under threat with the rather facetious name "Happy Donkey Hill".'

'Nawr, mae dan fygythiad gydag enw braidd yn wamal "Happy Donkey Hill".

She said that the society had attempted to change the name back and had been in discussions with the owners, who met them part of the way:

Dywedodd fod y gymdeithas wedi ceisio newid yr enw yn ôl ac wedi bod mewn trafodaethau gyda'r perchnogion, sydd wedi cyfaddawdu ryw ychydig:

'the name on the sign was translated, to allay our fears, to "Bryn yr Asyn Hapus" a literal translation,'

'cafodd yr enw ar yr arwydd ei gyfieithu, er mwyn tawelu ein hofnau, i "Bryn yr Asyn Hapus" cyfieithiad llythrennol',

she said.

meddai.

'So, Y Faerdre, along with its history, has been lost.'

'Felly, mae y Faerdre, ynghyd â'i hanes, wedi ei golli'.

Another name thought to be under threat is Cwm Cneifion in Snowdonia. Cwm Cneifion is better known as the Nameless Cwm because English speakers struggle with the pronunciation of 'cneifion'. There's nothing to stop any name being changed. We can end up with a whole series of sea views, ocean views and happy valleys across Wales. These ancient names are as much a part of our heritage as the buildings; they need equal protection.

Enw arall yr ystyrir sydd dan fygythiad yw Cwm Cneifion yn Eryri. Mae Cwm Cneifion yn cael ei adnabod yn well fel y Nameless Cwm oherwydd bod siaradwyr Saesneg yn cael trafferth ynganu'r gair 'Cneifion'. Does dim byd i atal unrhyw enw rhag cael ei newid. Gall hyn arwain at gyfres gyfan o sea views, ocean views a happy valleys ledled Cymru. Mae'r enwau hynafol yn gymaint rhan o'n treftadaeth â'r adeiladau; mae angen eu diogelu'n gyfartal.

Finally, I want to discuss listed buildings that are left to fall into disrepair. I would like to ask, as the committee did, that the Deputy Minister explores the feasibility of introducing financial penalties for owners who deliberately allow their listed buildings to fall into disrepair. Can I talk about Danbert Hall in Morriston, a classic example of what can go wrong? It's a grade II listed building built in the nineteenth century, passed from private hands to become a Government office, then sold when the Government had no further use for it. Then it was just left, vegetation grew in it, fires occurred and it was broken into. The council did work to keep it safe. The story may have a happy ending. The council forced a sale to cover their costs. Hopefully, the new owners will develop it, but they could just leave it like the previous owners did. There's nothing to make people look after these buildings. Not only are they something that is part of our heritage, but they are a blight on the landscape. If you go and talk to the neighbours around there, they will tell you just how unhappy they are that this has just been left to fall into dereliction. These are great buildings and they are just left. Of course, we had the chapel in Cwmbwrla, which was left for long enough until it was eventually burnt down.

Yn olaf, rwyf am drafod adeiladau rhestredig sy'n cael eu gadael i ddadfeilio. Hoffwn ofyn, fel y gwnaeth y pwyllgor, fod y Dirprwy Weinidog yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno cosbau ariannol ar gyfer perchnogion sy'n fwriadol yn caniatáu i'w hadeiladau rhestredig ddadfeilio. A gaf i siarad am Danbert Hall yn Nhreforys, enghraifft glasurol o'r hyn all fynd o'i le? Mae'n adeilad rhestredig gradd II a adeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a basiodd o ddwylo preifat i fod yn swyddfa Llywodraeth, ac yna cafodd ei werthu pan nad oedd gan y Llywodraeth ddefnydd pellach iddo. Wedyn cafodd ei adael, a chafwyd llystyfiant ynddo, bu tanau yno a thorrwyd i mewn iddo. Gwnaeth y cyngor waith i'w gadw'n ddiogel. Efallai y bydd gan y stori ddiweddglo hapus. Gorfodwyd y cyngor i'w werthu i dalu am eu costau. Gobeithio y bydd y perchnogion newydd yn ei ddatblygu, ond gallent ei adael fel y gwnaeth y perchnogion blaenorol. Does dim byd i wneud i bobl edrych ar ôl yr adeiladau hyn. Nid yn unig y maent yn rhywbeth sy'n rhan o'n treftadaeth, ond maent yn falltod ar y dirwedd. Os siaradwch â'r cymdogion yn y fan honno, fe ddywedant wrthych yn union pa mor anhapus ydynt bod yr adeilad wedi cael ei adael i fynd â'i ben iddo. Mae'r rhain yn adeiladau nodedig ac maent yn cael eu gadael. Wrth gwrs, roedd y capel yng Nghwmbwrla hefyd, a gafodd ei adael am ddigon hir nes iddi gael ei losgi i lawr yn y pen draw.

There are only two logical decisions that we can make on these: whether we de-list them and let them be knocked down, or bring in a fining process to force the owners either to look after them or sell them. Perhaps this could initially be started off with just grade I listed buildings and then be brought in gradually for grade II* and grade II. It is our heritage. We have a chance to save it—let's take it.

Nid oes ond dau benderfyniad rhesymegol y gallwn eu gwneud ar y rhain: a ydym yn eu dad-restru nhw a gadael iddyn nhw gael eu bwrw i lawr, neu'n cyflwyno proses ddirwyo i orfodi'r perchnogion naill ai i ofalu amdanynt neu eu gwerthu. Efallai y gellid dechrau hyn yn y lle cyntaf gydag adeiladau rhestredig gradd I yn unig ac yna ei gyflwyno'n raddol ar gyfer gradd II* a gradd II. Dyma ein treftadaeth. Mae gennym gyfle i'w hachub—gadewch i ni gymryd y cyfle hwnnw.

16:56

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just want to start by saying that Plaid Cymru does support the principle of protecting Wales's historic environment through tighter legislation and the general aims of this Bill, but I think, as has been reflected by some of the speakers today, that we have to see it as a missed opportunity. Given the importance of the subject, it would have been far more preferable if we were here today considering a wider, more comprehensive piece of legislation on the historic environment instead of a complex ad hoc Bill. A consolidation Bill is what we would have preferred to have seen, as David Melding put so eloquently earlier. I think that much of what is not in this particular Bill will be set out in guidance. Whenever I approach legislation I approach it as to how approachable we can be with the wider public and how understandable that piece of legislation will be. So, you tell us today, Deputy Minister, that there will be a consultation now going forward by the Minister, Lesley Griffiths, with regard to how we regenerate certain buildings, how we can utilise those buildings, and how people will be able to track what happens with those particular consultations and the various pieces of guidance that go along with this law so that the people of Wales can fully understand what your Government is intending to do.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud bod Plaid Cymru yn cefnogi'r egwyddor o ddiogelu amgylchedd hanesyddol Cymru drwy ddeddfwriaeth dynnach a nodau cyffredinol y Bil hwn, ond rwy'n meddwl, fel sydd wedi ei adlewyrchu gan rai o'r siaradwyr heddiw, bod yn rhaid inni ei weld fel cyfle a gollwyd. O ystyried pwysigrwydd y pwnc, byddai wedi bod yn llawer gwell pe baem yma heddiw yn ystyried darn ehangach a mwy cynhwysfawr o ddeddfwriaeth ar yr amgylchedd hanesyddol yn hytrach na Bil ad hoc cymhleth. Byddai wedi bod yn well gennym weld Bil cydgrynhoi, fel y dywedodd David Melding mor huawdl yn gynharach. Credaf y bydd llawer o'r hyn nad yw yn y Bil penodol hwn yn cael ei nodi mewn canllawiau. Pryd bynnag y byddaf yn ymdrin â deddfwriaeth byddaf yn mynd ati i weld pa mor hygyrch y gallwn ni fod gyda'r cyhoedd ehangach a pha mor ddealladwy y bydd y darn hwnnw o ddeddfwriaeth. Felly, rydych yn dweud wrthym heddiw, Ddirprwy Weinidog, y bydd ymgynghoriad nawr yn digwydd gan y Gweinidog, Lesley Griffiths, i drafod sut yr ydym yn adfywio rhai adeiladau, sut y gallwn ddefnyddio'r adeiladau hynny, a sut y bydd pobl yn gallu cadw golwg ar yr hyn sy'n digwydd gyda'r ymgynghoriadau penodol hynny a'r gwahanol ganllawiau sy'n cyd-fynd â'r gyfraith hon er mwyn i bobl Cymru ddeall yn llawn yr hyn y mae eich Llywodraeth yn bwriadu ei wneud.

Previously, the royal commission did say that it had an absence of radical or innovative thinking. I know they've changed their opinions down the line, but I will echo what Suzy Davies said. Suzy and I sat in Aberystwyth in 2011 discussing the ideas around a Bill. I thought, for one, that it would be much wider in its scope than what we have here today. I think that's something that we will regret down the line.

Yn flaenorol, dywedodd y comisiwn brenhinol ei fod yn brin o syniadau radical neu arloesol. Rwy'n gwybod eu bod wedi newid eu barn yn ddiweddarach, ond byddaf yn adleisio'r hyn a ddywedodd Suzy Davies. Bu Suzy a fi yn trafod syniadau am Fil yn Aberystwyth yn 2011. Roeddwn i'n meddwl, yn bersonol, y byddai'n llawer ehangach ei gwmpas na'r hyn sydd gennym yma heddiw. Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y byddwn yn edifar ohono yn ddiweddarach.

We welcome, as a party, the committee's recommendation to include Welsh place names in historic environment records and hope that you, as Deputy Minister, will bring forward amendments to do this following the comments made by the committee. We also agree with the committee recommendations that lists of assets of local interest should be placed on a statutory basis as it would give communities a voice regarding the local assets that are important to them. But the Minister should commit to a full audit of the historic environment records before responsibility for their maintenance is transferred to local planning authorities, because if these audits identify the need for further work, then this should be budgeted for. We also need to ensure that there is capacity for the maintenance of the historic environment records within the sector as a whole at a time of shrinking authority budgets.

Rydym yn croesawu, fel plaid, argymhelliad y pwyllgor i gynnwys enwau lleoedd Cymraeg yn y cofnodion am yr amgylchedd hanesyddol ac yn gobeithio eich bod chi, fel Dirprwy Weinidog, yn cyflwyno gwelliannau i wneud hyn yn dilyn y sylwadau a wnaed gan y pwyllgor. Rydym hefyd yn cytuno ag argymhellion y pwyllgor sy'n rhestru asedau o ddiddordeb lleol y dylid eu rhoi ar sail statudol gan y byddai'n rhoi llais i gymunedau ynglŷn â'r asedau lleol sy'n bwysig iddynt hwy. Ond dylai'r Gweinidog ymrwymo i archwiliad llawn o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol cyn i gyfrifoldeb am eu gwaith cynnal a chadw gael ei drosglwyddo i awdurdodau cynllunio lleol, oherwydd os yw'r archwiliadau hyn yn nodi'r angen am waith pellach, yna dylid cyllidebu ar gyfer hynny. Mae angen hefyd sicrhau bod capasiti ar gyfer cynnal a chadw cofnodion amgylchedd hanesyddol o fewn y sector yn ei gyfanrwydd ar adeg pan mae cyllidebau awdurdodau yn crebachu.

I do have similar reservations to those echoed earlier with regard to the setting up of the advisory panel. We did hear evidence to say that there could be duplication and that the historic environment group do have the powers to give advice to the Minister. I wonder, at a time when we are talking about budgets and budgets being tight, why set up a new panel, when the historic environment group could be amended, reconstituted, re-energised and perform that role for you, alongside the expertise that Cadw give you already and the royal commission give you already, and those within the sector, whether they're small businesses that are working in the archaeological sector or other such experts in the field.

Mae gennyf amheuon tebyg i'r rhai a adleisiwyd yn gynharach mewn perthynas â sefydlu panel ymgynghorol. Gwnaethom glywed tystiolaeth i ddweud y gallai fod dyblygu a bod gan y grŵp amgylchedd hanesyddol y pwerau i roi cyngor i'r Gweinidog. Tybed, ar adeg pan ydym yn sôn am gyllidebau a chyllidebau tynn, pam sefydlu panel newydd, pan allai'r grŵp amgylchedd hanesyddol gael ei ddiwygio, ei ailgyfansoddi, ei ail fywiogi a pherfformio'r rôl honno i chi, ochr yn ochr â'r arbenigedd y mae Cadw yn ei roi i chi yn barod ac mae'r comisiwn brenhinol yn ei roi i chi yn barod, a'r rhai yn y sector, boed yn fusnesau bach sy'n gweithio yn y sector archeolegol neu yn arbenigwyr eraill yn y maes.

I did sit in on many of the evidence sessions as a substitute to the committee. While I see merit in much of what the committee recommends, I would want to give some comments on the committee's report. In paragraph 50 of the report, the Deputy Minister said that time constraints meant that a consolidation Bill could not be brought forward. My view is that most of the sector agrees with this as the way forward now, as it is the only game in town. If timetabling and resource were such an issue, why not wait? Why not defer it to another time? Or, why not make sure that everything was in place before now, so that timetabling was possible? I, for one, know, from having done my private Member's Bill, that I was expected to get everything in order with regard to timetabling and resource, trying to seek information from the Government, which was very difficult to get. Why cannot you do that as a Government Minister too?

Eisteddais i mewn ar lawer o'r sesiynau tystiolaeth fel dirprwy i'r pwyllgor. Er fy mod yn gweld gwerth mewn llawer o'r hyn y mae'r pwyllgor yn ei argymell, byddwn am roi rhai sylwadau ar adroddiad y pwyllgor. Ym mharagraff 50 yr adroddiad, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod cyfyngiadau amser yn golygu na ellid cyflwyno Bil cydgrynhoi. Fy marn i yw bod y rhan fwyaf o'r sector yn cytuno â hyn fel y ffordd ymlaen yn awr, gan mai dyma'r unig un o'i bath sydd ar gael. Os yw amserlennu ac adnoddau yn broblem o'r fath, beth am aros? Beth am ei ohirio am y tro? Neu, beth am wneud yn siŵr bod popeth yn ei le cyn hyn, fel bod amserlennu yn bosibl? Yr wyf i, o leiaf, yn gwybod, ar ôl gwneud fy Mil Aelod preifat, fod disgwyl i mi gael popeth mewn trefn o ran amserlennu ac adnoddau, ceisio gofyn am wybodaeth gan y Llywodraeth, a oedd yn anodd iawn ei chael. Pam na allwch chi wneud hynny hefyd, fel Gweinidog y Llywodraeth?

The report does say that it may cost more in the long term—the committee report. We received evidence from a legal expert to suggest that it will inevitably have to be consolidated in the future. So, why miss this opportunity now, when we have the powers to make these changes now? Paragraph 90 is all about giving information to the public on the defence of ignorance. The report from the committee says that we expect the Deputy Minister to consider how best to do this. Well, I would go further. I think the Minister needs to put forward an amendment to show how he will make sure this is done. Again, it comes down to: if somebody doesn't know that something is there, how can they then defend themselves when they do accidentally dig something up that they don't know is of historical importance? I see that I'm running out of time, but I'm sure we will all have opportunities in the amendment stages to put forward some new ideas.

Mae'r adroddiad yn dweud y gallai fod yn costio mwy yn y tymor hir—adroddiad y pwyllgor. Cawsom dystiolaeth gan arbenigwr cyfreithiol i awgrymu y bydd yn anochel yn gorfod cael ei gydgrynhoi yn y dyfodol. Felly, pam colli'r cyfle hwn yn awr, pan mae'r pwerau gennym i wneud y newidiadau hyn yn awr? Mae paragraff 90 yn ymwneud â rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ar yr amddiffyniad o anwybodaeth. Mae adroddiad y pwyllgor yn dweud ein bod yn disgwyl i'r Dirprwy Weinidog ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Wel, byddwn i'n mynd gam ymhellach. Credaf fod angen i'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud. Unwaith eto, mae'n fater o: os nad yw rhywun yn gwybod bod rhywbeth yno, sut y gallant wedyn amddiffyn eu hunain pan fyddant yn ddamweiniol yn dod ar draws rhywbeth nad ydynt yn gwybod ei fod o bwysigrwydd hanesyddol? Gwelaf fod fy mod yn rhedeg allan o amser, ond rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn cael cyfle yn y camau diwygio i gynnig rhai syniadau newydd.

17:01

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Can I, first of all, thank the Minister for agreeing to accept some of the recommendations in the report? I think it's refreshing that, when you get a Bill in front of you, Ministers are able to listen to the committee and take notice. It isn't the case on all Bills, as we will obviously discuss later on this afternoon.

A gaf i, yn gyntaf oll, ddiolch i'r Gweinidog am gytuno i dderbyn rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad? Rwy'n credu ei fod yn chwa o awyr iach, pan fyddwch yn cael Bil o'ch blaen, bod Gweinidogion yn gallu gwrando ar y pwyllgor a chymryd sylw. Nid yw'n wir am bob Bil, fel y byddwn yn amlwg yn trafod yn nes ymlaen y prynhawn yma.

Can I just agree, first of all, in terms of the issue of consolidation? I think that the Constitutional and Legislative Affairs Committee is absolutely right in terms of making sure that we have consolidated legislation whenever possible. I think that, clearly, this is going to be confusing, where you have a situation, as David Melding has already outlined, where, effectively, we are amending two Bills that have already been amended. It will be difficult sometimes, not just for solicitors, but also for local authorities and the people who are, crucially, having to protect these historic monuments, to understand the legislation, the thrust of it, and what their obligations are under that legislation.

A gaf i gytuno, yn gyntaf oll, o ran y mater o gydgrynhoi? Credaf fod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn hollol gywir o ran gwneud yn siŵr bod gennym ddeddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi pryd bynnag y bo modd. Credaf, yn amlwg, bod hyn yn mynd i fod yn ddryslyd, lle mae gennych sefyllfa, fel yr amlinellwyd eisoes gan David Melding, pan rydym, mewn gwirionedd, yn diwygio dau Fil sydd eisoes wedi cael eu diwygio. Bydd yn anodd weithiau, nid yn unig i gyfreithwyr, ond hefyd i awdurdodau lleol a'r bobl sydd, yn hollbwysig, yn gorfod gwarchod yr henebion hanesyddol hyn, i ddeall y ddeddfwriaeth, ei byrdwn, a beth yw eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth honno.

I notice that the Minister has said that there isn't enough time to do this, and David Melding has referred to that. But, of course, in the case of my own private Member's Bill, we effectively rewrote that Bill—well, the Government rewrote that Bill for me—in about three months to make it into a consolidated Bill. So, I think it is possible to do that, and I think the problem we are facing here is that the Government has introduced a lot of legislation very late in the Assembly term. If they had started at the beginning of the Assembly term instead of waiting—. I think it was something like 12 months before we had the first piece of proper legislation, the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012 being the exception. I think we could have done much better if the Government had paced itself on this and delivered a better Bill in terms of consolidating this.

Sylwaf fod y Gweinidog wedi dweud nad oes digon o amser i wneud hyn, ac mae David Melding wedi cyfeirio at hynny. Ond, wrth gwrs, yn achos fy Mil Aelod preifat fy hun, yn wir gwnaethom ail ysgrifennu'r Bil hwnnw—wel, gwnaeth y Llywodraeth ail ysgrifennu'r Bil hwnnw i mi—mewn tua thri mis er mwyn ei wneud yn Fil wedi'i gydgrynhoi. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bosibl gwneud hynny, ac rwy'n meddwl mai'r broblem yr ydym yn ei hwynebu yma yw bod y Llywodraeth wedi cyflwyno llawer o ddeddfwriaeth yn hwyr iawn yn nhymor y Cynulliad. Pe byddent wedi dechrau ar ddechrau tymor y Cynulliad yn hytrach nag aros—. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth fel 12 mis cyn i ni gael y darn cyntaf o ddeddfwriaeth briodol, sef Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, a oedd yr eithriad. Rwy'n credu y gallem fod wedi gwneud yn well o lawer pe bai'r Llywodraeth wedi gwneud yn siŵr fod ganddi'r amser ac wedi cyflwyno Bil gwell o ran cydgrynhoi hyn.

I also agree with what Suzy Davies said about money. Clearly, no matter how much law you pass, if you don't have the money to bring these buildings back into use, and if you don't have a use for them, the buildings are going to fall into disrepair. That is a major problem. It's not just a problem in terms of finding uses for the buildings; it's also a problem, of course, in terms of local government adequately enforcing the obligations that it has and the obligations owners have under this legislation. There are so many examples where local authorities have effectively backed off from taking enforcement action because they felt that, if they did so, they would end up effectively carrying the bill.

Cytunaf hefyd â'r hyn a ddywedodd Suzy Davies am arian. Yn amlwg, ni waeth faint o gyfraith y byddwch yn ei phasio, os nad oes gennych yr arian i allu ailddefnyddio'r adeiladau hyn, ac os nad oes gennych ddefnydd iddynt, mae'r adeiladau yn mynd i ddadfeilio. Mae hynny'n broblem fawr. Nid problem o ran dod o hyd i ddefnydd ar gyfer yr adeiladau yn unig; mae hefyd yn broblem, wrth gwrs, o ran llywodraeth leol yn gorfodi'r rhwymedigaethau sydd ganddi yn ddigonol a'r rhwymedigaethau sydd gan berchnogion dan y ddeddfwriaeth hon. Mae cymaint o enghreifftiau lle mae awdurdodau lleol mewn gwirionedd wedi osgoi cymryd camau gorfodi oherwydd eu bod yn teimlo, pe byddent yn gwneud hynny, y byddent yn y pen draw yn cario'r bil i bob pwrpas.

[Inaudible.]—in my own region, the Palace Theatre in Swansea, the local authority effectively found some money for emergency repairs, but of course, we are still looking at about £6 million to bring that building back into use. Mike Hedges referred to Libanus chapel on Cwmbwrla roundabout, which has sadly now burned down. But, of course, there was also, previously in Manselton, the Bethel Chapel on Robert Street, which was actually stripped of all its furniture and everything, including the lightning conductor. So, its fate eventually was that it was hit by lightning and there were pall stones flying all over the street, demolishing people's cars and hitting their property. That building had to be demolished. But that's an example of where buildings have been allowed to deteriorate because local authorities have not stepped in and fulfilled their obligation in putting them right.

[Anghlywadwy.]—yn fy rhanbarth fy hun, Theatr y Palas yn Abertawe, daeth yr awdurdod lleol o hyd i rywfaint o arian i wneud atgyweiriadau brys, ond wrth gwrs, rydym yn dal i edrych ar tua £6 miliwn i allu ailddefnyddio'r adeilad hwnnw. Cyfeiriodd Mike Hedges at gapel Libanus ar gylchfan Cwmbwrla, sydd erbyn hyn wedi llosgi yn anffodus. Ond, wrth gwrs, roedd hefyd ar un adeg ym Manselton, Gapel Bethel ar Robert Street, a gafodd ei wacáu o'i holl ddodrefn a phopeth, gan gynnwys y dargludydd mellt. Felly, ei dynged yn y pen draw oedd ei fod wedi cael ei daro gan fellten ac roedd cerrig yn hedfan ar draws y stryd, yn chwalu ceir pobl a tharo eu heiddo. Bu'n rhaid dymchwel yr adeilad hwnnw. Ond dyna ichi enghraifft o adeiladau'n cael eu gadael i ddirywio oherwydd nad yw awdurdodau lleol wedi camu i mewn a chyflawni eu hymrwymiad i'w hatgyweirio.

It is absolutely crucial, if we are going to have a Bill that is going to try to protect the historic environment, that we do address those problems somehow, and we maybe consolidate not just the Bill, but also what heritage we think we can afford to keep, and maybe prioritise the most important buildings, because, at the end of the day, that's going to be the reality anyway: you keep the buildings you can afford to keep; the rest will just fall apart, unless you do something about it. That's a sad truth, but is a truth nevertheless.

Mae'n gwbl hanfodol, os ydym yn mynd i gael Bil sydd yn mynd i geisio diogelu'r amgylchedd hanesyddol, ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau hynny rywsut, a'n bod efallai yn cydgrynhoi nid yn unig y Bil, ond hefyd pa dreftadaeth yr ydym yn meddwl y gallwn ni fforddio ei chadw, ac efallai roi blaenoriaeth i'r adeiladau pwysicaf, oherwydd, ar ddiwedd y dydd, mae hynny'n mynd i fod yn realiti beth bynnag: rydych yn cadw'r adeiladau y gallwch chi fforddio eu cadw; bydd y gweddill yn dadfeilio, oni bai eich bod yn gwneud rhywbeth yn ei gylch. Dyna wirionedd trist, ond mae'n wir er hynny.

Again, in terms of the recommendations, I'm very much pleased that the Minister has agreed to come forward with an amendment on historic place names. I look forward to that one, because I'm not quite sure how you're going to address that, Minister, but we shall see what comes out of it. I'm a bit sceptical about how that can be done, but I'm sure we should be able to do something. I think it's important that we do that.

Unwaith eto, o ran yr argymhellion, rwy'n falch iawn bod y Gweinidog wedi cytuno i gyflwyno gwelliant ar enwau lleoedd hanesyddol. Edrychaf ymlaen at hwnnw, oherwydd nid wyf yn hollol siŵr sut yr ydych yn mynd i'r afael â hynny, Weinidog, ond cawn weld beth ddaw ohono. Rwyf ychydig yn amheus ynghylch sut y gellir ei wneud, ond rwy'n siŵr y dylem fod yn gallu gwneud rhywbeth. Rwy'n credu ei fod yn bwysig ein bod yn gwneud hynny.

On local lists, I think, again, it's important that something is done on this. I'm disappointed in the sense that the Minister is saying that this is not going to be statutory. So, the question then is: how is that going to be enforced? There are some examples of good, local buildings that have not been listed or supported by the local authority, even though they are locally significant. The Royal Buildings and Custom House in Port Talbot are a good example of that, where the council effectively washed their hands of it and allowed the building to be developed. I think it's important, therefore, that local authorities do have some duties put upon them in terms of these local lists, and I think we need to look at what amendment the Minister's going to bring forward in terms of that.

Ar restrau lleol, rwy'n meddwl, unwaith eto, ei bod yn bwysig bod rhywbeth yn cael ei wneud ar hyn. Rwy'n siomedig yn yr ystyr bod y Gweinidog yn dweud nad yw hyn yn mynd i fod yn statudol. Felly, y cwestiwn wedyn yw: sut y bydd hyn yn cael ei orfodi? Ceir rhai enghreifftiau o adeiladau da, lleol nad ydynt wedi'u rhestru neu eu cefnogi gan yr awdurdod lleol, er eu bod yn bwysig yn lleol. Mae'r Adeiladau Brenhinol a Custom House ym Mhort Talbot yn enghraifft dda o hynny, lle mae'r cyngor mewn gwirionedd wedi golchi eu dwylo ohono ac wedi caniatáu i'r adeilad gael ei ddatblygu. Rwy'n credu ei fod yn bwysig, felly, bod awdurdodau lleol yn cael rhywfaint o ddyletswyddau wedi'u eu rhoi arnynt yn nhermau'r rhestrau lleol hyn, ac rwy'n credu bod angen inni edrych ar ba welliant y mae'r Gweinidog yn mynd i'w gyflwyno o ran hynny.

I think the issue, in terms of recommendation 9, about introducing financial penalties for owners who deliberately allow their listed buildings to fall into disrepair, is also crucial. We do need to make sure that if an owner does allow their building to fall into disrepair—they neglect an important, listed, historic building—there have to be penalties. I would ask the Minister maybe to look at some fixed penalties for this, because, in that instance, I think, in terms of fixed penalties, local authorities would be able to keep the income from that and use that for further enforcement measures. I hope the Minister will take forward that and come forward with some amendments on that as well.

Rwy'n meddwl bod y mater, o ran argymhelliad 9, am gyflwyno cosbau ariannol ar gyfer perchnogion sy'n fwriadol yn caniatáu i'w hadeiladau rhestredig ddadfeilio, yn hollbwysig hefyd. Mae angen i ni wneud yn siŵr os bydd perchennog yn caniatáu i'w adeilad ddadfeilio—mae'n esgeuluso adeilad pwysig, rhestredig, hanesyddol—rhaid cael cosbau. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog efallai i edrych ar rai cosbau penodedig ar gyfer hyn, oherwydd, yn yr achos hwnnw, rwy'n meddwl, o ran cosbau penodedig, byddai awdurdodau lleol yn gallu cadw'r incwm o hynny a'i ddefnyddio ar gyfer mesurau gorfodi pellach. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn datblygu hynny ac yn cyflwyno rhai newidiadau ar hynny hefyd.

17:06

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I very much welcome the historic environment Bill, Llywydd. I believe it is of great importance to Wales for the sorts of reasons we've already heard about. Local communities very much value their historic environment, their historic local buildings. They identify with them, they give a very strong sense of belonging, and, of course, they're very important for our tourism offer, and tourism is a very important part of our general economic development scene here in Wales.

Croesawaf yn fawr y Bil amgylchedd hanesyddol, Lywydd. Rwy'n credu ei fod yn bwysig iawn i Gymru am y math o resymau yr ydym eisoes wedi clywed amdanynt. Mae cymunedau lleol yn gwerthfawrogi yn fawr iawn eu hamgylchedd hanesyddol, eu hadeiladau hanesyddol lleol. Maent yn uniaethu gyda nhw, maent yn rhoi ymdeimlad cryf iawn o berthyn, ac, wrth gwrs, maen nhw'n bwysig iawn o ran ein harlwy i dwristiaid, ac mae twristiaeth yn rhan bwysig iawn o'n datblygiad economaidd cyffredinol yma yng Nghymru.

It is necessary, obviously, to strike an appropriate balance, I believe, between providing greater protection for our historic environment while at the same time allowing more flexibility, which would deal with some of the issues that Members have raised regarding historic buildings that deteriorate, become an eyesore, and cause all sorts of problems for communities—practical problems—while at the same time causing them a great sense of grievance because of the importance that they attach to those buildings. So, I do believe that it is important to provide greater flexibility to allow for alternative uses of those buildings, because I believe that's preferable to the deterioration of those buildings in the way that I've described, which does cause so much grief for local communities and so many practical problems.

Mae'n angenrheidiol, yn amlwg, taro ar y cydbwysedd priodol, rwy'n credu, rhwng darparu mwy o ddiogelwch ar gyfer ein hamgylchedd hanesyddol gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd ar yr un pryd, a fyddai'n ymdrin â rhai o'r materion y mae Aelodau wedi'u codi ynglŷn ag adeiladau hanesyddol sy'n dirywio, yn mynd yn ddiolwg, ac yn achosi pob math o broblemau i gymunedau— problemau ymarferol—tra ar yr un pryd yn creu ymdeimlad cryf o achwyniad iddynt oherwydd y pwysigrwydd y maent yn ei roi ar yr adeiladau hynny. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig rhoi mwy o hyblygrwydd i ganiatáu ar gyfer defnydd amgen o'r adeiladau hynny, oherwydd credaf fod hynny'n well na gweld dirywiad yr adeiladau hynny yn y ffordd yr wyf wedi'i disgrifio, sy'n achosi cymaint o ofid i gymunedau lleol a chymaint o broblemau ymarferol.

I also believe, Llywydd, that local lists are a very significant part of the general picture—again, because local communities identify very strongly with local buildings that may not be considered to have sufficient noteworthiness to qualify for listed building protection, but which are nonetheless very much identified with and very much part of that sense of local belonging and local pride that our communities thankfully have. So, I do believe that it should be an important part of this legislation that those local lists are taken forward effectively, and I would like to hear from the Minister as to how the guidance that he mentioned earlier could provide the necessary reassurance that that protection and that importance would be part of taking this legislation forward.

Rwyf hefyd yn credu, Lywydd, bod rhestri lleol yn rhan bwysig iawn o'r llun cyffredinol—eto, oherwydd bod cymunedau lleol yn uniaethu'n gryf iawn gydag adeiladau lleol nad ystyrir efallai sydd â digon o hynodrwydd i fod yn gymwys ar gyfer gwarchod adeiladau rhestredig, ond, serch hynny yr uniaethir yn fawr â nhw, ac sy'n rhan bwysig o'r ymdeimlad o berthyn lleol a balchder lleol sydd gan ein cymunedau, diolch byth. Felly, rwy'n credu y dylai fod yn rhan bwysig o'r ddeddfwriaeth hon bod y rhestrau lleol hynny yn cael eu datblygu'n effeithiol, a hoffwn glywed gan y Gweinidog ynglŷn â sut y gallai'r canllawiau a grybwyllodd yn gynharach ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol y byddai'r diogelwch a'r pwysigrwydd hwnnw'n rhan o ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon.

In summary, Llywydd, as I began by mentioning, I do believe this Bill is very, very important. I do believe that it does strike the necessary balance between that greater protection and sufficient flexibility for alternative use. So, I'm very happy to support the Bill and to commend the Minister for bringing it before us today.

I grynhoi, Lywydd, fel y dechreuais drwy sôn, rwy'n credu bod y Bil hwn yn bwysig iawn, iawn. Rwy'n credu ei fod yn taro'r cydbwysedd angenrheidiol rhwng mwy o ddiogelwch a digon o hyblygrwydd at ddefnydd arall. Felly, rwy'n hapus iawn i gefnogi'r Bil ac i ganmol y Gweinidog am ddod ag ef ger ein bron heddiw.

17:09 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n datgan buddiant fel aelod o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Mae gen i ddiddordeb lleyg yn y pwnc yma, ac mae nifer o achosion yn fy rhanbarth sy'n effeithio ar y materion yn y Bil.

I declare an interest as a member of the Dyfed Archaeological Trust. I have a lay interest in this issue, but there are also a number of cases in my region that are relevant to the Bill.

Rwyf eisiau ymdrin â dau beth yn fyr iawn. Yn gyntaf oll, ynglŷn â'r mater o amddiffyn enwau lleoedd, rwy'n credu bod enwau lleoedd yn gymaint o ran o'n treftadaeth hanesyddol ni ac y mae'r caeau y maent wedi'u henwi ar eu hôl a'r waliau a'r cerrig sy'n rhan ohonyn nhw. Rwyf i, fel nifer o Aelodau eraill mae'n siŵr, wedi bod yn canfasio'n brysur yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwyf wedi galw mewn sawl tŷ o'r enw Rivendell, ac rwy'n gwybod o le mae'r rheini wedi'u henwi, ond yng nghefn gwlad rydych yn galw yng Nghae Delyn a llefydd felly—enwau tai sy'n disgrifio'r caeau a'r tirlun o'u cwmpas. Er fy mod yn derbyn bod pobl yn mynd i enwi eu tai ar ôl eu hunain neu ar ôl yr hanes maen nhw wedi cael neu enw sy'n bert iddyn nhw, rwyf hefyd yn meddwl ei fod yn hynod bwysig ein bod yn cofnodi'r enwau hanesyddol a bod yr enw hanesyddol o bryd i'w gilydd hefyd yn enw swyddogol ar eiddo neu ar y darn o dir hwnnw. Mae'n hynod bwysig ar gyfer ymwybyddiaeth leol ac ar gyfer ein treftadaeth a'n hanes bod hynny'n digwydd. Felly rwy'n awyddus i fynd ychydig yn bellach na'r hyn sydd wedi cael ei grybwyll gan y pwyllgor ac wedi cael ei dderbyn gan y Gweinidog yn hynny o beth.

I want to deal briefly with two issues. First of all, on the issue of protecting place names, I do think that place names are as much a part of our historic heritage as the fields that they are named after and the walls and stones that make them up. I, like many other Members, I'm sure, have been busily canvassing over the past few weeks and I have called at a number of homes called Rivendell, and I know after where they've been named, but in rural areas you call into places such as Cae Delyn—places with names that are descriptive of the landscape around them. Although I do accept that people will name their homes after themselves or their own story or a name that they think is pretty, I think that it's very important that we record the historic names and that the historic names are sometimes also the official name of that property or piece of land. It's very important for local awareness and for our wider history and heritage that that happens. Therefore, I am eager to go a little further than the committee recommended and what has been accepted by the Minister in that regard.

Because laughing donkeys come and go, Mike Hedges, but the names of place names in Wales stay. And they're not just Welsh-language place names; there are historic English-language place names also in Wales.

Oherwydd bod asynnod sy'n chwerthin yn mynd a dod, Mike Hedges, ond mae'r enwau lleoedd yng Nghymru yn aros. Ac nid dim ond enwau lleoedd Cymraeg ydyn nhw; mae enwau lleoedd Saesneg hanesyddol hefyd yng Nghymru.

The second aspect that I wanted to briefly address was recommendations 7, 8 and 9 of the report regarding historic buildings that have fallen into disrepair. I have four buildings in my region that were described by Save Britain's Heritage as coming into this category the last time I looked at the list that they produced. I'll give one example that I think is very apposite to this debate today, which is Island House in Laugharne. It's right in the middle on the sea front in Laugharne, under the castle. It's a medieval house that's fallen into complete and utter disrepair. It's Grade II listed and something that hasn't had anything done to it for a very long time. There have been efforts to try and improve that building, but of course the current legislation means that, as soon as an owner does a little bit on a listed building, the legal steps to try and address that go into abeyance because something's been done. Then, something drags on for years after that.

Yr ail agwedd yr oeddwn am gyfeirio'n fyr ati oedd argymhellion 7, 8 a 9 yr adroddiad ynghylch adeiladau hanesyddol sydd wedi mynd â'u pen iddynt. Mae gen i bedwar adeilad yn fy rhanbarth a gafodd eu disgrifio gan Save Britain's Heritage fel rhai sy'n dod i'r categori hwn y tro diwethaf i mi edrych ar y rhestr y maent yn ei chynhyrchu. Byddaf yn rhoi un enghraifft y credaf sy'n berthnasol iawn i'r ddadl hon heddiw, sef Island House yn Nhalacharn. Mae'n union yn y canol ar lan y môr yn Nhalacharn, dan y castell. Mae'n dŷ canoloesol sydd wedi dadfeilio'n llwyr. Mae'n adeilad rhestredig Gradd II ac yn rhywbeth nad yw wedi cael unrhyw beth wedi'i wneud iddo am amser hir iawn. Bu ymdrechion i geisio gwella'r adeilad hwnnw, ond wrth gwrs mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn golygu, cyn gynted ag y mae perchennog yn gwneud ychydig bach o waith ar adeilad rhestredig, mae'r camau cyfreithiol i geisio mynd i'r afael â hynny yn mynd yn ddi-rym oherwydd bod rhywbeth wedi cael ei wneud. Yna, mae'n llusgo ymlaen am flynyddoedd ar ôl hynny.

So, I'm particularly interested in recommendation 9 that there should be potentially financial penalties for owners who do not take the necessary steps to either repair these historic buildings or in some way allow them to be taken over by the community as a community asset, as a heritage, as a trust status, or indeed give up ownership of those buildings so that they can at least return to the community where they rightly belong and be appreciated by that community. There are several other examples of that kind of neglect that have happened in my region. I very much hope, therefore, that, as we move forward with this Bill, sufficient powers will be taken by the Government to ensure that not only private owners, but sometimes other owners as well, are held to account for the historic heritage that they've inherited or they've bought or they've taken over and that we see the improvements that will, in turn, also be economically beneficial for our communities.

Felly, mae gen i ddiddordeb arbennig yn argymhelliad 9 y dylai fod cosbau a allai fod yn ariannol i berchnogion nad ydynt yn cymryd y camau angenrheidiol i naill ai atgyweirio'r adeiladau hanesyddol hyn, neu mewn rhyw ffordd yn caniatáu iddynt gael eu cymryd drosodd gan y gymuned fel ased cymunedol, fel treftadaeth, fel statws ymddiriedolaeth, neu yn wir ildio perchnogaeth yr adeiladau hynny fel y gallant o leiaf gael eu dychwelyd i'r gymuned lle maent yn perthyn ac yn cael eu gwerthfawrogi gan y gymuned honno. Mae nifer o enghreifftiau eraill o'r math hwnnw o esgeulustod sydd wedi digwydd yn fy rhanbarth i. Gobeithio yn fawr, felly, wrth inni symud ymlaen gyda'r Bil hwn, y bydd pwerau digonol yn cael eu cymryd gan y Llywodraeth i sicrhau nid yn unig bod perchnogion preifat, ond weithiau berchnogion eraill hefyd, yn cael eu dwyn i gyfrif am y dreftadaeth hanesyddol y maent wedi ei hetifeddu neu maen nhw wedi'i phrynu neu y maent wedi'i chymryd drosodd, ac y byddwn yn gweld y gwelliannau a fydd, yn eu tro, hefyd o fudd economaidd i'n cymunedau.

17:13

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to reply to the debate—Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl–Ken Skates.

17:13

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'd like to thank Members across the Chamber for what has been a stimulating debate, which I have listened to with great interest. First of all, if I could deal with the issue and the question of consolidation of legislation: I accept that there is much to recommend in a future Bill that would seek to consolidate and update the existing historic environment legislation for Wales, not least in terms of making it easier for the public to access. I can't make such a commitment at this stage, because it would be for a future Government to decide on its legislative priorities. However, I can see merit in taking such an approach.

Diolch i chi, Lywydd. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau ar draws y Siambr am yr hyn sydd wedi bod yn ddadl ysgogol, yr wyf wedi gwrando arni gyda diddordeb mawr. Yn gyntaf oll, pe gallwn i ymdrin â'r mater a'r cwestiwn o gydgrynhoi deddfwriaeth: rwy'n derbyn bod llawer i'w argymell mewn Bil yn y dyfodol a fyddai'n ceisio cydgyfnerthu a diweddaru'r ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol sy'n bodoli eisoes ar gyfer Cymru, yn enwedig o ran ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael mynediad. Ni allaf wneud ymrwymiad o'r fath ar hyn o bryd, oherwydd y byddai'n fater i Lywodraeth yn y dyfodol i benderfynu ar ei blaenoriaethau deddfwriaethol. Fodd bynnag, gallaf weld gwerth mewn cymryd ymagwedd o'r fath.

The approach that I have taken will enable us to deliver the policy objectives for the Bill within the framework of legislation that is already familiar within the heritage sector and with planners and many members of the public in Wales. By means of amendments, the current Bill will still be able to deliver important benefits for the Welsh historic environment and the people of Wales. I think it is worth recognising that this legislation will place Wales at the forefront of protection of any historic environment.

Bydd y dull yr wyf wedi'i gymryd yn ein galluogi i gyflawni'r amcanion polisi ar gyfer y Bil o fewn fframwaith y ddeddfwriaeth sydd eisoes yn gyfarwydd yn y sector treftadaeth a gyda chynllunwyr a llawer o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru. Trwy gyfrwng gwelliannau, bydd y Bil presennol yn dal i allu sicrhau manteision pwysig ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a phobl Cymru. Credaf ei bod yn werth cydnabod y bydd y ddeddfwriaeth hon yn rhoi Cymru ar flaen y gad wrth warchod unrhyw amgylchedd hanesyddol.

In terms of some of the points that Members have raised this afternoon, first of all, with regard to historic place names, as I say, I shall bring forward an amendment to section 33(2) of the Bill, as recommended by the CELG Committee. I also recognise the extraordinary value of historic place names in unlocking our social and our linguistic history. I'm also aware of the very important work that has taken place, by a wide variety of organisations and individuals, to record and document place names of special interest in Wales and, of course, I'm aware of the valuable contribution being made by voluntary organisations, such as the Welsh Place-name Society, which is doing much to raise awareness of the value of place names and of intangible heritage. As acknowledged in the CELG report, it would be incredibly challenging and difficult to provide statutory protection for historic place names, and I do not believe that putting any legislative controls in place to regulate changes to place names would be effective, workable or appropriate. It would also be very costly to administer, very difficult to enforce, and is likely to have human rights implications.

O ran rhai o'r pwyntiau y mae Aelodau wedi'u codi'r prynhawn yma, yn gyntaf oll, o ran enwau lleoedd hanesyddol, fel y dywedais, byddaf yn cyflwyno gwelliant i adran 33 (2) o'r Bil, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. Rwyf hefyd yn cydnabod gwerth anhygoel enwau lleoedd hanesyddol wrth ddatgloi ein hanes cymdeithasol ac ieithyddol. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith pwysig iawn sydd wedi digwydd, gan amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion, i gofnodi a dogfennu enwau lleoedd o ddiddordeb arbennig yng Nghymru ac, wrth gwrs, rwy'n ymwybodol o'r cyfraniad gwerthfawr a wneir hefyd gan sefydliadau gwirfoddol, megis Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, sy'n gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth o werth enwau lleoedd ac o dreftadaeth anniriaethol. Fel y cydnabyddir yn adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, byddai'n hynod heriol ac anodd darparu diogelwch statudol ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol, ac nid wyf yn credu bod rhoi unrhyw reolaethau deddfwriaethol ar waith i reoleiddio newidiadau i enwau lleoedd yn effeithiol, yn ymarferol nac yn briodol. Byddai hefyd yn gostus iawn i'w weinyddu, yn anodd iawn i'w orfodi, ac mae'n debygol o fod â goblygiadau hawliau dynol.

In terms of parks and gardens, which was raised by the Chair of the—

O ran parciau a gerddi, a godwyd gan Gadeirydd—

*Bethan Jenkins a gododd—*

*Bethan Jenkins rose—*

17:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

17:16

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

17:16

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just a point of clarification to understand how you've got to that opinion. Have you done some research to show that legislation wouldn't be possible in this area? I know the committee says that, but the committee didn't do that much work in terms of costings and finding out how much would be possible and would not be possible.

Dim ond pwynt o eglurhad i ddeall sut yr ydych wedi cyrraedd y farn honno. Ydych chi wedi gwneud rhywfaint o ymchwil i ddangos na fyddai deddfwriaeth yn bosibl yn y maes hwn? Rwy'n gwybod bod y pwyllgor yn dweud hynny, ond ni wnaeth y pwyllgor lawer o waith o ran costau a darganfod faint fyddai'n bosibl ac na fyddai'n bosibl.

17:16

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In terms of costings, the Member may be aware that, if there was statutory protection offered for this, then it would require application processes, enforcement processes, appeals, and those would require considerable resources. Again, I reiterate the point that there would, in all potential, be human rights implications to this.

O ran costau, efallai y bydd yr Aelod yn ymwybodol, pe byddai amddiffyniad statudol yn cael ei gynnig ar gyfer hyn, yna byddai angen prosesau ymgeisio, prosesau gorfodi, apeliadau, a byddai'r rhain yn gofyn am adnoddau sylweddol. Unwaith eto, rwy'n ailadrodd y pwynt y byddai, ym mhob posibilrwydd, goblygiadau hawliau dynol i hyn.

Turning to the question of historic parks and gardens, a further piece of work will be undertaken over the next few weeks to look again at how a system of protection for historic parks and gardens could work, and I will report back to the committee on this matter no later than at the completion of Stage 2. It is worth stating, though, that historic parks and gardens already have a high level of protection from inappropriate change, including through the key features of gardens being protected as listed or scheduled assets, with additional controls applied through the planning system.

Gan droi at y cwestiwn o barciau a gerddi hanesyddol, bydd darn arall o waith yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf i edrych eto ar sut y gallai system o ddiogelwch ar gyfer parciau a gerddi hanesyddol weithio, a byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar y mater hwn heb fod yn hwyrach nag ar ddiwedd Cyfnod 2. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod gan barciau a gerddi hanesyddol eisoes lefel uchel o amddiffyniad rhag newid amhriodol, gan gynnwys drwy nodweddion allweddol gerddi yn cael eu gwarchod fel asedau rhestredig neu a drefnwyd, gyda rheolaethau ychwanegol yn berthnasol drwy'r system gynllunio.

In terms of urgent work notices and the points raised by Simon Thomas in his contribution, we intend to publish guidance on managing historic assets at risk during the latter part of 2016. This will provide guidance to local planning authorities on the use of statutory powers in respect of buildings at risk, including urgent works and the changes introduced in the Bill. Local planning authority conservation officers are already familiar with the procedures involved and it will be possible to issue specific advice on the use of urgent works notices in advance of the broader guidance on managing historic assets at risk to accompany the commencement of the Bill's provisions.

O ran hysbysiadau gwaith brys a'r pwyntiau a godwyd gan Simon Thomas yn ei gyfraniad, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar reoli asedau hanesyddol sydd mewn perygl yn ystod rhan olaf 2016. Bydd hyn yn rhoi arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ar y defnydd o bwerau statudol mewn perthynas ag adeiladau sydd mewn perygl, gan gynnwys gwaith brys a'r newidiadau a gyflwynwyd yn y Bil. Mae swyddogion cadwraeth awdurdodau cynllunio lleol eisoes yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau dan sylw a bydd yn bosibl cyhoeddi cyngor penodol ar y defnydd o hysbysiadau gwaith brys cyn y canllawiau ehangach ar reoli asedau hanesyddol sydd mewn perygl i gyd-fynd â chychwyn darpariaethau'r Bil.

In terms of the financial penalties that could be introduced against owners who deliberately neglect listed buildings—and this was raised by a number of Members, including my colleague Mike Hedges—I see this as a longer term commitment outside the scope of the Bill. Local planning authorities already have a range of statutory powers to tackle the neglect and the disrepair of listed buildings, all of which either require the owner to carry out repairs, or permit the local planning authority to acquire the building or carry out repairs and recover their costs. Nonetheless, I accept the committee's recommendation and, as I say, I see this as a longer term commitment that currently stands outside the scope of the Bill.

O ran y cosbau ariannol y gellid eu cyflwyno yn erbyn perchnogion sy'n fwriadol esgeuluso adeiladau rhestredig—a chodwyd hyn gan nifer o Aelodau, gan gynnwys fy nghydweithiwr Mike Hedges—rwy'n gweld hyn fel ymrwymiad tymor hwy tu allan i gwmpas y Bil. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ystod o bwerau statudol eisoes i fynd i'r afael ag esgeulustod a diffyg atgyweirio adeiladau rhestredig, bob un ohonynt naill ai'n ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog i wneud gwaith atgyweirio, neu ganiatáu i'r awdurdod cynllunio lleol gaffael yr adeilad neu wneud atgyweiriadau ac adennill eu costau. Serch hynny, rwy'n derbyn argymhelliad y pwyllgor ac, fel y dywedais, rwy'n gweld hyn fel ymrwymiad tymor hwy sydd ar hyn o bryd y tu allan i gwmpas y Bil.

The question of historic environment records was raised, and I should repeat that my officials are in discussions with the Welsh language commissioner, and they are discussing in particular what is proportionate and achievable in relation to the historic and archival content of the HERs in terms of bilingual content. HERs have been audited for correctness as well, so they should be up to date at the point of this Bill being passed into law.

Codwyd y cwestiwn o gofnodion amgylchedd hanesyddol, a dylwn ailadrodd bod fy swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda chomisiynydd y Gymraeg, ac maent yn trafod yn benodol yr hyn sy'n gymesur ac yn gyflawnadwy mewn perthynas â chynnwys hanesyddol ac archifol y CAH yn nhermau cynnwys dwyieithog. Mae CAH wedi cael eu harchwilio o ran cywirdeb hefyd, felly dylent fod yn gyfredol ar adeg pan fydd y Bil hwn yn cael ei basio yn gyfraith.

With regard to the lists of local assets of special local interest, the cost of placing a duty on local authorities at what is a time of severe austerity is estimated to be in the region of £3.5 million, and this is unaffordable at the moment. It represents, in terms of Cadw's budget, almost 20 per cent of the available budget. There would also be, of course, ongoing annual costs of maintaining local lists. Instead, it's felt that the decision to commit resources and create a local list, based on the good practice guidance that we have brought forward, will be a matter for local democracy. And, as part of the historic environment records provisions, the records will contain details of any historic assets that the local authority considers to be of historic archaeological or architectural interest.

O ran y rhestrau o asedau lleol o ddiddordeb lleol arbennig, amcangyfrifir bod y gost o osod dyletswydd ar awdurdodau lleol ar yr hyn sy'n adeg o galedi difrifol oddeutu £3.5 miliwn, ac mae hyn yn rhy ddrud ar hyn o bryd. Mae'n cynrychioli, o ran cyllideb Cadw, bron i 20 y cant o'r gyllideb sydd ar gael. Byddai hefyd, wrth gwrs, costau blynyddol parhaus o gynnal a chadw rhestrau lleol. Yn lle hynny, teimlir y bydd y penderfyniad i ymrwymo adnoddau a chreu rhestr leol, yn seiliedig ar y canllawiau arfer da yr ydym wedi'u cyflwyno, yn fater i ddemocratiaeth leol. Ac, fel rhan o'r darpariaethau cofnodion amgylchedd hanesyddol, bydd y cofnodion yn cynnwys manylion unrhyw asedau hanesyddol y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod o ddiddordeb archeolegol neu bensaernïol hanesyddol.

With regard to the advisory panel, the advisory panel on the Welsh historic environment will work against a three-year work programme. So, whilst the principle of the panel reporting on their work is accepted, it is likely that a report at the end of each three-year work programme would be more appropriate than an annual report. The objectives of the advisory panel are to ensure that individual experts can offer their insight to complement the expertise of Cadw officials and the representation of organisations that are on the historic environment group.

O ran y panel ymgynghori, bydd y panel cynghori ar amgylchedd hanesyddol Cymru yn gweithio yn erbyn rhaglen waith tair blynedd. Felly, er bod egwyddor y panel yn adrodd ar eu gwaith yn cael ei dderbyn, mae'n debygol y byddai adroddiad ar ddiwedd pob rhaglen waith tair blynedd yn fwy priodol nag adroddiad blynyddol. Amcanion y panel cynghori yw sicrhau y gall arbenigwyr unigol gynnig eu dealltwriaeth i ategu arbenigedd swyddogion Cadw a chynrychiolaeth o sefydliadau sydd ar y grŵp amgylchedd hanesyddol.

There are many other issues that have been raised by Members today, including resources and the availability of funding within local authorities. But, in conclusion, I would like to encourage Members to give their support to the Bill's general principles so that we can continue to work to ensure that we protect our past for future generations.

Mae nifer o faterion eraill sydd wedi'u codi gan Aelodau heddiw, gan gynnwys adnoddau ac argaeledd cyllid o fewn awdurdodau lleol. Ond, i gloi, hoffwn annog Aelodau i roi eu cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol y Bil fel y gallwn barhau i weithio i sicrhau ein bod yn diogelu ein gorffennol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

17:21

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Dim gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:21

# 8. Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

# 8. Debate on the Financial Resolution of the Historic Environment (Wales) Bill

Y Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 8, which is a debate on the financial resolution of the Historic Environment (Wales) Bill, and I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to move the motion—Ken Skates.

Symudwn yn awr at eitem 8, sef dadl ar benderfyniad ariannol Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i gynnig y cynnig—Ken Skates.

Cynnig NDM5848 Jane Hutt

Motion NDM5848 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Historic Environment (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:21 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I formally move.

Cynigiaf yn ffurfiol.

17:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally move. I have no speakers. Do you wish to add anything else, Minister? No. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Interruption.] Sorry, was that an objection or a—. No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Cynigiaf yn ffurfiol. Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. A ydych chi'n dymuno ychwanegu unrhyw beth arall, Weinidog? Na. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Torri ar draws.] Mae'n ddrwg gennyf, ai gwrthwynebiad oedd hwnna neu—. Na. Mae'r cynnig wedi ei dderbyn felly, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:21

## 9. Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

## 9. Debate on the General Principles of the Environment (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to a debate on the general principles of the Environment (Wales) Bill, and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru), a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig-Carl Sargeant.

Cynnig NDM5849 Carl Sargeant

Motion NDM5849 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru).

Agrees to the general principles of the Environment (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

17:22 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to open this debate on the general principles of the Environment (Wales) Bill, and formally move.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n falch o agor y ddadl hon ar egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru), a'i gynnig yn ffurfiol.

The Bill delivers against our programme for government's commitment to introduce new legislation for the environment, as well as a number of other strategic commitments, including those in relation to positioning Wales as a low carbon, green economy. The overarching aim of the Bill is to put in place legislation that will enable Wales's resources to be managed in a proactive, sustainable and joined-up way, and to establish the legislative framework necessary to tackle climate change. By putting in place a clear statutory framework for the sustainable management of natural resources, I am proud to say that this Bill is the first in the UK, and, as far as we are aware, in the EU, to enshrine the United Nations Convention on Biological Diversity and the ecosystem approach into domestic legislation. This Bill has also been designed in parallel with, and directly supports delivery of, the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, while working with the Planning (Wales) Act 2015 by applying the principles of sustainable development to the management of Wales's natural resources.

Mae'r Bil yn cyflawni yn erbyn ein rhaglen yn ymwneud ag ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd, yn ogystal â nifer o ymrwymiadau strategol eraill, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â lleoli Cymru fel economi werdd, carbon isel. Nod cyffredinol y Bil yw rhoi deddfwriaeth ar waith a fydd yn galluogi adnoddau Cymru i gael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol, gynaliadwy a chydgysylltiedig, ac i sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Drwy sefydlu fframwaith statudol clir ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, yr wyf yn falch o ddweud mai'r Bil hwn yw'r cyntaf yn y DU, a, hyd y gwyddom, yn yr UE, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a'r dull ecosystem mewn deddfwriaeth ddomestig. Mae'r Bil hwn hefyd wedi ei gynllunio ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac mae'n cefnogi cyflwyno'r Ddeddf honno yn uniongyrchol, gan weithio â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 drwy gymhwyso egwyddorion datblygu cynaliadwy i reoli adnoddau naturiol Cymru.

Over the last few years, we've seen widespread recognition—including from the Assembly's Environment and Sustainability Committee—that a smarter and more joined-up approach to the way we manage Wales's natural resources is needed to deliver real and lasting benefits for the environment, the economy and our communities. On that basis, the Bill aims to safeguard and enhance the resilience of natural systems to continue to provide benefits in the long-term, while making the most of the opportunities to sustainably use Wales's natural resources.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cydnabyddiaeth eang—gan gynnwys gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad—bod angen ymagwedd fwy craff a mwy cydgysylltiedig tuag at y ffordd yr ydym yn rheoli adnoddau naturiol Cymru i sicrhau manteision gwirioneddol a pharhaol ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a'n cymunedau. Ar sail hynny, nod y Bil yw diogelu a gwella cydnerthedd systemau naturiol i barhau i ddarparu buddion yn y tymor hir, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy.

We've taken time to carefully develop the approach set out in the Bill over the last five years. Throughout this process, we've received strong support at each key consultation stage, including through the 'A Living Wales' consultation in 2010, the Green Paper of 2012, and, most recently, the environment Bill White Paper. I believe that, as a result, we've presented a clear and thought-through package of provisions in the Bill.

Rydym wedi cymryd amser i ddatblygu'r ymagwedd a nodir yn y Bil yn ofalus dros y pum mlynedd diwethaf. Drwy gydol y broses hon, rydym wedi derbyn cefnogaeth gref ym mhob cyfnod ymgynghori allweddol, gan gynnwys drwy ymgynghoriad 'Cymru Fyw' yn 2010, Papur Gwyrdd 2012, ac, yn fwyaf diweddar, Papur Gwyn Bil yr amgylchedd. Credaf, o ganlyniad i hynny, ein bod wedi cyflwyno pecyn clir o ddarpariaethau sydd wedi eu hystyried yn llawn yn y Bil.

I welcome the views and input from the Assembly committees on the Bill, and I would like to say thank you to the chairs and members of each of the committees for their thorough scrutiny. Clearly, there are points of detail in each of the committee reports that we are considering so that we can take this opportunity to further refine the position and provisions within the Bill where they're needed. Notwithstanding some of the detailed points, I am pleased to see that the general principles have been welcomed by the committees.

Rwyf yn croesawu sylwadau a chyfraniad pwyllgorau'r Cynulliad ar y Bil, a hoffwn ddweud diolch wrth gadeiryddion ac aelodau pob un o'r pwyllgorau am eu gwaith craffu trylwyr. Yn amlwg, mae manylion ym mhob un o adroddiadau'r pwyllgor yr ydym yn eu hystyried er mwyn gallu manteisio ar y cyfle hwn i fireinio'r safbwynt a'r darpariaethau yn y Bil ymhellach, pan fo angen gwneud hynny. Er gwaethaf rhai o'r pwyntiau manwl, rwy'n falch o weld bod yr egwyddorion cyffredinol wedi eu croesawu gan y pwyllgorau.

If I may turn to some of the key recommendations of the Environment and Sustainability Committee, Presiding Officer, I'd like to firstly address the issue in relation to Crown consents in relation to the Secretary of State's decision to withhold Minister of the Crown consent for section 6 of the Bill. I am aware of reports that the consents were not sought until after the Bill was introduced. First and foremost, and for the record, I would state that is wholly incorrect. The First Minister wrote to the Secretary of State on 1 April 2015 to formally request the consents prior to the introduction of the Bill, and his letter followed many months of liaison by my officials and the Wales Office. The letter of 7 August, which has been referred to in the media, from the First Minister, was the follow-up to his original letter. Discussions are ongoing with the UK Government with a view to resolving this issue as a matter of urgency, and the First Minister has written again to the Secretary of State on this matter.

Os caf droi at rai o argymhellion allweddol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llywydd, yn gyntaf, hoffwn i fynd i'r afael â mater cydsyniadau'r Goron o ran penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i atal cydsyniad Gweinidog y Goron ar gyfer adran 6 y Bil. Rwy'n ymwybodol o'r adroddiadau na ofynnwyd am y cydsyniadau tan ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno. Yn bennaf oll, ac er mwyn cofnodi hynny, rwyf yn dweud bod hynny'n gwbl anghywir. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Ebrill 2015 i ofyn am y cydsyniadau yn ffurfiol cyn cyflwyno'r Bil, ac roedd ei lythyr yn dilyn misoedd lawer o gydgysylltu rhwng fy swyddogion i a Swyddfa Cymru. Llythyr 7 Awst, y cyfeiriwyd ato yn y cyfryngau, oddi wrth y Prif Weinidog, oedd yr un a ddilynodd ei lythyr gwreiddiol. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU gyda golwg ar ddatrys y mater hwn fel mater o frys, ac mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol eto ar y mater hwn.

Definitions and language recommendations: there has been a lot of discussion about the definitions provided in the Bill, in particular for 'biodiversity' and 'ecosystems'. I have considered this carefully and agree that it is important that there is consistency with the UN Convention on Biological Diversity. I'm happy to consider how the provisions of the Bill can better reflect what we mean by 'biodiversity' and 'ecosystems'. I've listened carefully to the call from some stakeholders to strengthen the language in certain sections, and I'm therefore intending to bring forward amendments to strengthen the provisions where the phrase

Diffiniadau ac argymhellion iaith: bu llawer o drafod o ran y diffiniadau a ddarperir yn y Bil, yn arbennig ar gyfer 'bioamrywiaeth' ac 'ecosystemau'. Rwyf wedi ystyried hyn yn ofalus ac rwy'n cytuno ei bod yn bwysig bod cysondeb â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol. Rwy'n hapus i ystyried sut y gall darpariaethau'r Bil adlewyrchu'n well yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth 'fioamrywiaeth' ac 'ecosystemau'. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar y galwad gan rai rhanddeiliaid i gryfhau'r iaith mewn rhai adrannau, ac felly rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliannau i gryfhau'r darpariaethau lle mae'r ymadrodd

'take such steps as appear to them to be reasonably practicable'

appears and to insert 'take all reasonable steps' in their place. This will ensure consistency with the language used in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

'y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol'

yn ymddangos a mewnosod 'cymryd pob cam rhesymol' yn ei lle. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb â'r iaith a ddefnyddir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

The committee highlighted the need for consultation requirements to be included in certain areas of the Bill, in particular in relation to the state of natural resources report and area statements. At present, section 4(c) of the principles refers clearly to collaboration and co-operation. However, to provide greater reassurance, I will consider an amendment to clarify that section 4 includes making appropriate arrangements for public participation in decision making, which could include consultation.

Amlygodd y pwyllgor yr angen i ofynion ymgynghori gael eu cynnwys mewn rhannau penodol o'r Bil, yn arbennig o ran yr adroddiad cyflwr adnoddau naturiol a datganiadau ardal. Ar hyn o bryd, mae adran 4(c) yr egwyddorion yn cyfeirio yn glir at gydweithio a chydweithredu. Fodd bynnag, er mwyn darparu mwy o sicrwydd, byddaf yn ystyried gwelliant i egluro bod adran 4 yn cynnwys gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau, a allai gynnwys ymgynghori.

Stakeholders have also asked for clarification of the purpose of an area statement. I'd like to respond to this directly today. The primary purpose of an area statement is to draw together evidence in relation to the natural resources in an area and the key risks and opportunities associated with them. This will both enable NRW to prioritise and organise their activities and inform wider public service delivery and the democratic governance at a local level within the area.

Mae rhanddeiliaid hefyd wedi gofyn am eglurhad o bwrpas datganiad ardal. Hoffwn ymateb i hyn yn uniongyrchol heddiw. Prif ddiben datganiad ardal yw tynnu at ei gilydd dystiolaeth ynglŷn â'r adnoddau naturiol mewn ardal a'r risgiau a'r cyfleoedd allweddol sy'n gysylltiedig â hwy. Bydd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i flaenoriaethu a threfnu eu gweithgareddau a hysbysu darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ehangach a'r llywodraethu democrataidd ar lefel leol yn yr ardal.

There's been much discussion on the need to include targets in the Bill, Presiding Officer, for measuring the progress made in halting the decline in biodiversity. I'm pleased that the committee supports our approach and view that this can be better delivered through the existing legislative framework now out in place by the wellbeing of future generations Act. The consultation on the biodiversity element of the wellbeing of future generations indicators began yesterday, and I've written to Assembly Members to confirm this.

Bu llawer o drafod ynglŷn â'r angen i gynnwys targedau yn y Bil, Lywydd, ar gyfer mesur y cynnydd a wnaed wrth atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth. Rwy'n falch bod y pwyllgor yn cefnogi ein hymagwedd a'n safbwynt y gellir cyflawni hyn yn well drwy'r fframwaith deddfwriaethol presennol sydd bellach wedi ei sefydlu gan Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar yr elfen bioamrywiaeth o ddangosyddion llesiant cenedlaethau'r dyfodol ddoe, ac rwyf wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad i gadarnhau hyn.

It's quite clear that our proposed statutory target of at least an 80 per cent reduction in greenhouse emissions by 2050 is welcomed by the majority of stakeholders. The committee has recommended that the Bill be amended so that it provides a power to allow Welsh Ministers to vary the emission target either up or down to provide a more robust structure for responding to the developments in global efforts to reduce emissions. I am content to consider bringing forward an amendment for this purpose. Stakeholders have also called for an expansion of the parameters of the advisory body on climate change so that they'll be required to take account of the criteria provided in section 32(3) when advising the Welsh Ministers in the setting or amending of interim targets and carbon budgets. I can also see the merit in doing this, and I will look to bring forward an amendment to address this also.

Mae'n gwbl glir bod ein targed statudol arfaethedig sef gostyngiad o 80 y cant o leiaf mewn allyriadau tŷ gwydr erbyn 2050 wedi ei groesawu gan y rhan fwyaf o randdeiliaid. Mae'r pwyllgor wedi argymell bod y Bil yn cael ei ddiwygio er mwyn iddo ddarparu pŵer i ganiatáu Gweinidogion Cymru i amrywio targed allyriadau i fyny neu i lawr er mwyn darparu strwythur mwy cadarn ar gyfer ymateb i ddatblygiadau mewn ymdrechion byd-eang i leihau allyriadau. Rwyf yn fodlon ystyried cyflwyno gwelliant i'r diben hwn. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi galw am ymestyn paramedrau'r corff ymgynghorol ar newid yn yr hinsawdd er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried y meini prawf a ddarperir yn adran 32(3) wrth gynghori Gweinidogion Cymru o ran gosod neu ddiwygio targedau dros dro a chyllidebau carbon. Gallaf hefyd weld y fantais mewn gwneud hyn, a byddaf yn ceisio cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â hyn hefyd.

I acknowledge the recommendations on the need to produce statutory guidance for specific sections of the Bill, in particular, guidance on NRW's general purpose. I intend to do this following Royal Assent to the Bill, subject to that, next year.

Rwy'n cydnabod yr argymhellion ar yr angen i gynhyrchu canllawiau statudol ar gyfer adrannau penodol o'r Bil, yn arbennig, canllawiau ar bwrpas cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n bwriadu gwneud hyn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, yn amodol ar hynny, y flwyddyn nesaf.

Following discussions with the shellfish industry, I also plan to publish guidance explaining how the provisions will be applied and interpreted that will take into account both the needs of the applicants of several or regulating Orders in addition to the Welsh Ministers' responsibilities under the habitats directive.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r diwydiant pysgod cregyn, rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio sut y bydd y darpariaethau yn cael eu cymhwyso a'u dehongli mewn modd a fydd yn ystyried anghenion ymgeiswyr nifer o Orchmynion neu Orchmynion rheoleiddio yn ogystal â chyfrifoldebau Gweinidogion Cymru o dan y gyfarwyddeb cynefinoedd.

Finally, Presiding Officer, I am giving careful consideration to the committees' reports and their recommendations, and I would like to thank the Environment and Sustainability Committee for highlighting the areas where we can further refine this important piece of legislation and improve, with their support. Thank you.

Yn olaf, Lywydd, rwyf yn rhoi ystyriaeth ofalus i adroddiadau'r pwyllgorau a'u hargymhellion, a hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd am dynnu sylw at y meysydd lle y gallwn fireinio'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth ymhellach a'i wella, gyda'u cefnogaeth nhw. Diolch.

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 17.30.*

*Sandy Mewies took the Chair at 17.30.*

17:30 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Environment and Sustainability Committee, Alun Ffred Jones.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Alun Ffred Jones.

17:30 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ddiolch ar y dechrau i staff y pwyllgor, y Gwasanaeth Ymchwil ardderchog a'r clercod am eu cefnogaeth a'u harweiniad? Rwy'n gwerthfawrogi hefyd gyfraniad gwerthfawr y nifer mawr o dystion a ddaeth o'n blaenau ac a gynigiodd dystiolaeth ac, wrth gwrs, rwy'n diolch i'r cyd-Aelodau am eu cyfraniad hwythau. Felly, am y trydydd tro, a'r tro olaf, rwy'n cyflwyno adroddiad ar un o Filiau'r Cynulliad ac mae gennyf rai sylwadau, fel o'r blaen, i'w cyfleu i'r Gweinidog o ran sut mae Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth hon. Ond rwyf am ddechrau ar nodyn cadarnhaol: fel pwyllgor, rydym ni'n cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Mi af i drwy bob Rhan o'r Bil a thynnu sylw at ein hargymhellion allweddol, ond a gaf i ddweud fy mod i'n croesawu sylwadau'r Gweinidog yn fawr iawn? Er fy mod i'n gwybod yn iawn mai yn y manylion y byddwn ni'n gallu barnu i ba raddau y mae o'n derbyn sylwadau'r pwyllgor, roeddwn i wedi cael fy nghalonogi gan y sylwadau a wnaeth o wrth ymateb i'r adroddiad.

May I thank, first of all, the staff of the committee, the excellent Research Service and the clerks for their support and guidance? I appreciate also the valuable contribution made by the large number of witnesses who came before us to give evidence, and I, of course, thank my fellow Members for their contribution. So, for the third and final time I present a report on an Assembly Bill and I have some similar points to relay to the Minister in terms of how the Welsh Government has approached this legislation. But I want to begin on a positive note: as a committee, we support the general principles of this Bill. I will run through all Parts of the Bill and draw attention to our key recommendations, but may I say that I welcome the Minister's comments very much? Even though I know very well that it's in the detail that we will be able to judge to what extent he accepts the committee's recommendations, I was encouraged by the comments that he made in response to the report.

Felly, os caf i edrych ar Ran gyntaf y Bil, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol—Rhan bwysig iawn—rydym ni'n cefnogi'n fras y fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol y mae Rhan 1 yn ceisio'i sefydlu, ond mae angen mireinio agweddau ar y dull trwy'r camau diwygio, os ydy'r fframwaith yma i fod yn effeithiol. Rydym ni hefyd yn croesawu'r camau i egluro pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru, gan fod diffyg eglurder—sydd wedi bodoli mewn perthynas â hyn—yn ein barn ni, wedi gwneud gwaith y corff yn fwy anodd yn ei flynyddoedd cynnar, ac mae wedi achosi rhai problemau i'w bartneriaid hefyd. Yn ein barn ni, y ffordd orau i gyflawni hyn yw cysylltu amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gyda nod llesiant 'Cymru gydnerth'. Mae argymhelliad 6 gennym ni yn rhoi sylw i hyn. Rydym ni'n credu y gellir cryfhau'r agwedd yma'n sylweddol trwy ymgorffori rhestrau bioamrywiaeth y darperir ar eu cyfer yn adran 7 mewn ffordd well yng ngweddill Rhan 1 y Bil. Mae hyn yn cael sylw yn argymhelliad 15 gennym ni.

So, if I could look at the first Part of the Bill, sustainable management of natural resources—a very important Part—we broadly support the framework for managing natural resources that Part 1 seeks to establish, but there are aspects of the approach require refinement through the amending stages if this framework is to be effective. We also welcome the steps to clarify NRW's purpose, as the lack of clarity that has existed in relation to this has, in our view, made that body's job all the more difficult in its early years, and it has also caused some problems for its partners. In our view, the best way to achieve this is to link the objective of sustainable management of natural resources with the 'resilient Wales' wellbeing goal. Our recommendation 6 addresses this. We believe that this approach can be strengthened considerably by better embedding the biodiversity lists provided for in section 7 within the rest of Part 1 of the Bill. This is addressed by our recommendation 15.

Wedyn, Rhan 2 y Bil—yr ail Ran—newid yn yr hinsawdd, rydym ni'n falch bod Cymru wedi ymuno â'r Alban a'r Deyrnas Unedig trwy ddeddfu ar ostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Er ei bod hi'n anarferol inni fel pwyllgor fod eisiau darparu pwerau i Weinidogion Cymru, o ran 2050 fel targed, rydym ni'n credu y dylid cael hyblygrwydd i amrywio'r targed hwn ac rydym ni'n gofyn yn argymhelliad 28 i'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r perwyl yma. Credwn hefyd fod angen inni symud ymlaen i sefydlu cyllidebau carbon. Mae modd gwneud hynny cyn diwedd 2018, sef y dyddiad cau ar ei gyfer yn y Bil. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i amserlen fwy uchelgeisiol, a dyna rydym ni'n galw amdano yn argymhelliad 32.

Moving in to Part 2 of the Bill, on climate change, we are pleased that Wales has joined Scotland and the United Kingdom in legislating for an 80 per cent reduction in greenhouse gas emissions by 2050. Even though it's unusual for us a committee to want to provide powers to Welsh Ministers, in relation to the 2050 target, we believe there should be flexibility to vary this target, and we ask in recommendation 28 that the Minister brings forward an amendment to this effect. We also believe that we need to get moving on establishing carbon budgets. It is possible to do this before the end of 2018, which is the deadline provided for in the Bill. The Welsh Government should commit to a more ambitious timescale, and that's what we are calling for in recommendation 32.

Wedyn, symud ymlaen i Ran 3 y Bil, codi taliadau am fagiau siopa —mae Rhan 3 ac ymlaen, wrth gwrs, yn ymwneud â nifer o wahanol agweddau ar yr amgylchedd. Felly, codi taliadau am fagiau siopa—mae angen ystyried manylion y cynigion ar gyfer newidiadau i'r tâl am fagiau siopa trwy is-ddeddfwriaeth pan fyddan nhw'n cael eu gwneud. Ond, yn gyffredinol, nid ydym ni'n gweld unrhyw broblemau gydag ystyried ymestyn y cynllun codi tâl. Ond, credwn y dylai'r cynlluniau presennol gael eu gadael heb lawer o newidiadau ac, wrth ymestyn y cynllun, rydym ni wedi galw am gyfeirio'r enillion a ddaw yn sgil hyn at elusennau amgylcheddol sy'n gweithredu yn Nghymru—argymhelliad 41.

Moving on, then, to Part 3 of the Bill, charges for carrier bags—Part 3 onwards, of course, relates to a number of different aspects on the environment. So, charges for carrier bags—we need to consider the detail of proposals for changes to the charge for carrier bags that are made through secondary legislation, when those changes are made. But, in general, we see no problem with considering an extension of the charging scheme. But we do believe that the existing schemes should be left with minimal change and, in extending the scheme, we have called for the proceeds of this to be directed to environmental charities that operate in Wales—recommendation 41.

Rhan 4, wedyn, casglu a gwaredu gwastraff—y brif neges sydd gennym ni o ran y Rhan yma o'r Bil sy'n ymdrin â chasglu a chael gwared ar wastraff yw bod angen mwy o ymgysylltu â'r busnesau sy'n cael eu heffeithio gan y darpariaethau hyn. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y darpariaethau, ac mewn rhai achosion, gallent gael effaith negyddol ar gyflogaeth. Dyna nod argymhellion 42 i 48.

Part 4, then, the collection and disposal of waste—the main message from us in terms of this part of the Bill, which deals with the collection and disposal of waste, is that there needs to be more engagement with the businesses affected by these provisions. There is still a degree of uncertainty around these provisions, and in some cases, they could have a negative impact on employment. This is the aim of recommendations 42 to 48.

Rhan 5, pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn—roedd y Gweinidog yn cyfeirio at hyn—unwaith eto, mae'r diwydiant sy'n cael ei effeithio gan y cynigion hyn angen eglurder a sicrwydd y Gweinidog ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddo unwaith y bydd deddfu ar y cynigion hyn. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi sylw i hwn drwy gyhoeddi canllawiau, fel y nodir yn argymhelliad 49.

On Part 5, fisheries for shellfish—the Minister referred to this—again, the industry affected by these proposals needs clarity and certainty from the Minister about what is expected of it once these proposals are enacted. We recommend that the Minister addresses this by issuing guidance, and that is stated in recommendation 49.

O ran trwyddedu morol, mae'n bwysig bod proses ymgynghori lawn yn cael ei chynnal cyn cyflwyno cyfundrefn trwyddedu morol newydd, ac rydym yn argymell rhai ffactorau y dylid eu hystyried fel rhan o'r broses yma yn argymhelliad 51. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi ymrwymo i sicrhau bod y ffioedd a godir o weithgarwch trwyddedu yn cael eu hail-fuddsoddi yn y gwasanaeth trwyddedu.

In terms of marine licensing, it's important that a full consultation process is conducted before introducing a new marine licensing regime, and we recommend some factors that should be considered as part of that process in recommendation 51. We are pleased that the Minister has committed to seeing the fees raised from licensing activity reinvested in the licensing service.

O ran materion mwy cyffredinol, buaswn yn gwneud tri phwynt. Mae'r cyntaf yn un cyffredinol am yr amrywiaeth o faterion sy'n cael eu trafod yn y Bil. Mae yna wyth Rhan benodol i'r Bil yma, ac nid ydynt yn perthyn i'w gilydd yn dda iawn. Buasai rhai Rhannau o'r Bil yma yn gallu ffurfio un Bil. Fodd bynnag, mae materion eraill sy'n cael sylw yn y Bil hwn yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau deddfwriaeth ar wahân. Rwy'n cyfeirio yn benodol at ddiwygio'r dull o reoli adnoddau naturiol a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Cyflwynwyd deddfwriaeth newid yn yr hinsawdd fel un Bil i Seneddau'r Alban a'r Deyrnas Unedig. Y broblem i ni, fel rhai sy'n delio gyda deddfwriaeth fel hyn, yw nad yw'r amser yn caniatáu inni gael digon o gyfle gyda rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad i ymchwilio i bob un o'r materion hyn mewn digon o ddyfnder a manylder. Rwy'n credu bod hwn yn fater y dylai Llywodraethau'r dyfodol ei ystyried yn fanwl cyn cyflwyno deddfwriaeth.

In terms of more general issues, I would make three points. The first is a general point about the breadth of issues covered in the Bill. There are eight distinct Parts to this Bill and they are largely unrelated. Some parts of the Bill could form a single Bill. However, there are other issues addressed in this Bill that are significant enough to warrant being separate pieces of legislation. I refer, in particular, to reforming the approach to natural resource management and tackling climate change. Climate change legislation was introduced as a single Bill to both Scottish and UK Parliaments. The problem for us, as those dealing with such legislation, is that there is insufficient time for us to have sufficient opportunity with stakeholders and Assembly Members to investigate all of these issues in sufficient depth and detail. I believe that this is a matter that future Governments should consider in detail before putting forward legislation.

Mae'r ail bwynt rwy'n dymuno ei wneud yn cyfeirio at eglurder y gyfraith yn y maes hwn. Pan roeddem yn ystyried y Gorchmynion sefydlu ar gyfer un corff amgylcheddol i Gymru, awgrymodd rhagflaenydd y Gweinidog yr angen i gyfuno cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn credu bod hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth nesaf Cymru ei ystyried, gan fod y gyfraith fel y mae'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei ben ei hun yn dod yn fwyfwy cymhleth ac anodd ei ddehongli. Mae'n bwysig cadw mewn cof y dylem fod yn anelu at wneud cyfreithiau y gall pobl Cymru eu deall heb orfod troi at gyngor cyfreithiol arbenigol. Mae'r pwynt hwnnw wedi cael ei wneud gan eraill mewn cyd-destun arall y prynhawn yma.

The second point that I wish to make relates to the clarity of the law in this area. When we considered the establishment Orders for a single environment body for Wales, the Minister's predecessor suggested that environmental law in Wales needed to be consolidated. We believe that this is something that should be considered by the next Welsh Government as the law, as it relates to Natural Resources Wales alone, becomes increasingly complicated and difficult to interpret. It is important to keep in mind that we should be aspiring to make laws that the people of Wales can understand without having to turn to specialist legal advice. That point has been made by others in another context this afternoon.

Yn olaf, rwy'n troi at fater cydsyniad Gweinidogion y Goron. O'r wybodaeth a oedd gennym ni, roedd hi'n ymddangos fel pe bai'r Gweinidog wedi ceisio cydsyniad ffurfiol yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Awst. Heddiw, mae'r Gweinidog wedi dweud bod llythyr wedi mynd ar 1 Ebrill gan y Prif Weinidog, ond rhaid i mi ddweud nad yw'r wybodaeth honno wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor, ac felly nid oeddem ni'n ymwybodol o hynny. Byddem ni'n ddiolchgar iawn, fel pwyllgor, petaem ni'n cael copi o'r llythyr hwnnw, achos ein barn ni yw y dylid ceisio'r cydsyniad hwn cyn cyflwyno Bil. Felly, mi wnaf i aros nes y cawn ni'n wybodaeth berthnasol.

Finally, I turn to the issue of Minister of the Crown consents. From the information that we had, it appeared as though the Minister had formally sought the Secretary of State's consent in August. Now, today, the Minister has stated that a letter had been sent on 1 April from the First Minister, but I have to say that that information has not been passed to the committee, so we weren't aware of that. We would be very grateful, as a committee, if we were to receive a copy of that correspondence, because our opinion is that consent should be sought before the introduction of a Bill. So, I will wait until we receive the relevant information.

P'run bynnag, rydym mewn sefyllfa nawr lle bydd yn rhaid diwygio'r Bil, mae'n debyg, os na cheir cydsyniad Gweinidogion y Goron. Yn amlwg, nid yw'r Gweinidog yn mynd i dynnu'r Bil yn ôl heddiw, fel roedd wedi bygwth ei wneud yn y pwyllgor, ond mi fydd angen cefnogaeth y gwrthbleidiau arno er mwyn iddo allu gwneud hynny. Oherwydd natur sylwadau'r Gweinidog, mae'n ymddangos i mi y byddwn ni'n gallu dod i ddealltwriaeth ac y bydd llawer iawn o'r pwyntiau sydd wedi cael eu codi gan y pwyllgor yn cael sylw gan y Gweinidog, ac y bydd y Bil yn cael ei gryfhau wrth inni fwrw ymlaen yn ystod y misoedd nesaf gyda'r broses. Diolch yn fawr.

That aside, we are in a situation now where it appears that the Bill will have to be amended if it doesn't receive consent by a Minister of the Crown. The Minister is obviously not going to withdraw the Bill today, as he threatened to do in committee, but the opposition parties' support will be needed in order to do that. Due to the nature of the Minister's response, it appears to me that we will be able to come to an understanding, that a great many of the points that have been raised by the committee will be given due regard by the Minister, and that the Bill will then be strengthened as a result, as we continue with the process over the coming months. Thank you very much.

17:39

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

17:39 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Chair. The Finance Committee has carefully considered the financial implications of the Bill. We took evidence from the Minister and produced a report containing seven recommendations. One of our main concerns with this Bill is the presentation of costs and the inclusion of monetised benefits. Now, this is an issue that's been raised a number of times in relation to other Welsh Government legislation. The Auditor General for Wales has said that there's nothing wrong with providing monetised valuations of benefits, but it is potentially misleading for such benefits to be mixed in the middle of a table of cash figures, and we agree with him. Now, for this Bill we recommend that that the regulatory impact assessment within the explanatory memorandum be amended to show separate tables of cost and monetised environmental benefits, to prevent any misunderstanding.

Diolch yn fawr, Gadeirydd. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ystyried goblygiadau ariannol y Bil yn ofalus. Cawsom dystiolaeth gan y Gweinidog ac rydym wedi cynhyrchu adroddiad sy'n cynnwys saith o argymhellion. Un o'n prif bryderon gyda'r Bil hwn yw cyflwyno costau a chynnwys buddion ariannol. Nawr, mae hwn yn fater sydd wedi cael ei godi nifer o weithiau ynglŷn â deddfwriaeth arall gan Lywodraeth Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud nad oes dim o'i le ar ddarparu prisiadau ariannol o fuddion, ond ei bod bosibl i fuddion o'r fath gael eu cymysgu yng nghanol tabl o ffigurau arian parod fod yn gamarweiniol, ac rydym ni'n cytuno ag ef. Nawr, ar gyfer y Bil hwn, rydym ni'n argymell y dylid diwygio'r asesiad effaith rheoleiddiol yn y memorandwm esboniadol i ddangos tablau ar wahân o gost a buddion amgylcheddol ariannol, i atal unrhyw gamddealltwriaeth.

Furthermore, we recommend that the Welsh Government do not present costs and benefits in this way in future legislation. This approach is confusing and unintentionally misleading. We would like to see the Welsh Government work with the Auditor General for Wales to agree on the best way to present cost and benefit information in impact assessments.

Yn ogystal, rydym yn argymell nad yw Llywodraeth Cymru yn cyflwyno costau a buddion yn y modd hwn mewn deddfwriaeth yn y dyfodol. Mae'r dull hwn yn ddryslyd ac yn anfwriadol gamarweiniol. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru i gytuno ar y ffordd orau o gyflwyno gwybodaeth am gost a budd mewn asesiadau o effaith.

Another area of concern for the committee is cost implications of this Bill for Natural Resources Wales. This is of particular concern, given the other pieces of recently passed legislation, such as the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Planning (Wales) Act 2015, which also have cost impact for Natural Resources Wales. We recognise that the overlapping nature of these three pieces of legislation means that it is difficult to precisely estimate the resulting costs. However, it became clear, when questioning the Minister about this Bill, that his view varied from the view presented by Natural Resources Wales. We would like to see the Minister working closely with NRW to ensure that the work required by all three pieces of legislation is adequately funded. The committee also considered the costs implications of the Bill on the Welsh Government. Whilst we are content with the majority of the Minister's evidence in this area, we did note that there were no costs in the regulatory impact assessment in relation to the marine licensing scheme. In evidence, it was said that there is currently no detail available about those costs. As a committee, we firmly believe that a Bill should not be introduced unless there is a clear indication of costs of all aspects. We recommend that the Minister provide clarity of the costs associated with marine licensing.

Maes arall sy'n peri pryder i'r pwyllgor yw goblygiadau cost y Bil hwn ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn peri pryder arbennig, o ystyried y darnau eraill o ddeddfwriaeth a basiwyd yn ddiweddar, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sydd hefyd yn cael effaith o ran cost ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn cydnabod bod y ffaith bod y tri darn hyn o ddeddfwriaeth yn gorgyffwrdd yn golygu ei bod yn anodd amcangyfrif y costau sy'n deillio ohonynt yn union. Fodd bynnag, daeth yn amlwg, wrth holi'r Gweinidog am y Bil hwn, fod ei farn yn wahanol i'r farn a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Byddem yn hoffi gweld y Gweinidog yn gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod y gwaith sy'n ofynnol gan bob un o'r tri darn o ddeddfwriaeth yn cael ei ariannu'n ddigonol. Mae'r pwyllgor hefyd wedi ystyried goblygiadau costau'r Bil ar Lywodraeth Cymru. Er ein bod yn fodlon ar y rhan fwyaf o dystiolaeth y Gweinidog yn y maes hwn, nodwyd gennym nad oedd unrhyw gostau yn yr asesiad o effaith rheoleiddiol yn ymwneud â'r cynllun trwyddedu morol. Mewn tystiolaeth, dywedwyd nad oes unrhyw fanylion ar gael am y costau hynny ar hyn o bryd. Fel pwyllgor, credwn yn gryf na ddylai Bil gael ei gyflwyno oni bai bod arwydd clir o gostau pob agwedd. Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn darparu eglurder o'r costau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol.

Another area of concern was the cost for organisations associated with the separation of waste. The evidence shows that organisations are concerned about the additional costs of the practical impact of implementing separation of waste. As a committee, we would like assurance that costs for waste companies will be lower in the medium to long term, and we recommend that the Minister work with those organisations to ensure they are able to continue operations throughout the transition period, and that access to finance is available to them.

Maes arall a oedd yn peri pryder oedd y gost i sefydliadau sy'n gysylltiedig â gwahanu gwastraff. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod sefydliadau yn pryderu am y costau ychwanegol o ganlyniad i effaith ymarferol rhoi gwahanu gwastraff ar waith. Fel pwyllgor, byddem yn hoffi sicrwydd y bydd y costau hyn ar gyfer cwmnïau gwastraff yn is yn y tymor canolig i'r tymor hir, ac rydym yn argymell bod y Gweinidog yn gweithio gyda'r sefydliadau hynny i sicrhau eu bod yn gallu parhau â gweithrediadau drwy gydol y cyfnod pontio, a bod cyllid ar gael iddynt.

One final area of concern in relation to this Bill relates to subordinate legislation. There are several areas of the Bill where the detail of regulations has yet to be decided and these decisions have the potential to substantially affect costs. Evidence from organisations such as the Federation of Small Businesses, local authorities and NRW—they have all said it is difficult to understand the detail of implementation and enforcement of the Bill without seeing the regulations. The committee would like the Welsh Government to consistently follow the example of the health Minister, who indicated that the explanatory memorandum and impact assessment for the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill 2015 will be updated as subordinate legislation is drafted and costed. The committee commends this approach, and we would like to see other Ministers follow that lead.

Mae un maes olaf o bryder o ran y Bil hwn yn ymwneud ag is-ddeddfwriaeth. Mae sawl maes o'r Bil lle y mae manylion y rheoliadau eto i'w penderfynu ac mae gan y penderfyniadau hyn y potensial i effeithio yn sylweddol ar y costau. Cafwyd tystiolaeth gan sefydliadau fel y Ffederasiwn Busnesau Bach, awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru—maent i gyd wedi dweud ei bod yn anodd deall manylion gweithredu a gorfodi'r Bil heb weld y rheoliadau. Mae'r pwyllgor yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddilyn yn gyson esiampl y Gweinidog iechyd, a nododd y bydd memorandwm esboniadol ac asesiad o effaith Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2015 yn cael eu diweddaru wrth i is-ddeddfwriaeth gael ei drafftio a'i chostio. Mae'r pwyllgor yn cymeradwyo'r dull hwn, a byddem yn hoffi gweld Gweinidogion eraill yn dilyn yr esiampl honno.

17:43

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding. [Assembly Members: 'Hear, hear.']

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch. ']

17:43

## David Melding Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair, and thank you for that welcome. We reported on this Bill on 1 October. Can I turn first to the issue of consents, which is clearly a matter of concern to the Assembly? We do know the Bill was introduced with a number of consents from the Secretary of State outstanding. The Minister told us that the general election 'came upon us' and that this had delayed the granting of the consents. At the time of giving evidence, the Minister expected all of the consents to be granted. Now, it's up to the Stage 2 committee to take these matters further, particularly the new information about consents having been sought during the general election campaign, if I've got that right, if 1 April was such. But anyway, there's a need to clarify these issues, I think, and it's probably best that that's done in committee at some point now. However, we do know that, as of today, the Secretary of State has yet to agree to one outstanding consent. This, at least, demonstrates the danger of introducing legislation for which consents are outstanding, and I do note what the subject committee Chair said in relation to this. I won't labour the point, but you did have knowledge of when the general election was going to take place, and I think there was an intention to legislate in this area for some time. So, I do refer you to our 'Making Laws in Wales' report and the call there for more rigorous and structured processes within the Welsh Government's internal co-ordination or the preparation of Bills. That may at least prevent this confusion in future.

Diolch, Gadeirydd, a diolch am y croeso yna. Cyflwynwyd adroddiad ar y Bil hwn gennym ar 1 Hydref. A gaf i droi yn gyntaf at fater y cydsyniadau, sydd yn amlwg yn fater o bryder i'r Cynulliad? Rydym yn gwybod bod y Bil wedi ei gyflwyno heb i nifer o gydsyniadau fod wedi eu cael gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr etholiad cyffredinol wedi 'dod ar ein pennau' a bod hyn wedi gohirio'r broses o roi cydsyniadau. Ar adeg rhoi tystiolaeth, roedd y Gweinidog yn disgwyl i bob un o'r cydsyniadau gael eu rhoi. Nawr, cyfrifoldeb pwyllgor Cyfnod 2 yw mynd â'r materion hyn ymhellach, yn enwedig y wybodaeth newydd bod cydsyniadau wedi eu ceisio yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol, os wyf i wedi cael hynny'n iawn, os mai 1 Ebrill yw hynny. Ond beth bynnag, mae angen egluro'r materion hyn, rwy'n meddwl, ac mae'n debyg y byddai'n well gwneud hynny yn y pwyllgor ar ryw bwynt nawr. Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod, heddiw, bod yr Ysgrifennydd Gwladol eto i gytuno i un cydsyniad nad yw wedi ei gael. Mae hyn, o leiaf, yn dangos y perygl o gyflwyno deddfwriaeth pan nad yw cydsyniad wedi ei dderbyn, ac rwy'n nodi'r hyn a ddywedodd Cadeirydd y pwyllgor ynglŷn â hyn. Nid wyf eisiau mynd ymlaen yn ormodol am y pwynt hwn, ond roeddech chi'n gwybod pryd y byddai'r etholiad cyffredinol yn cael ei gynnal, ac rwy'n credu y bu bwriad i ddeddfu yn y maes hwn ers cryn amser. Felly, rwyf yn eich cyfeirio at ein hadroddiad 'Deddfu yng Nghymru' a'r galw ynddo am brosesau mwy trwyadl a strwythuredig ym mhrosesau cyd-drefnu mewnol neu baratoi Biliau Llywodraeth Cymru. Gallai hynny o leiaf atal y dryswch hwn yn y dyfodol.

Can I now refer to the powers to make regulations? Broadly, we believe the Minister has struck the right balance between primary and secondary legislation. We therefore have only made recommendations in relation to four provisions, and I only wish to draw attention to two of these this afternoon. The first is the section 24 power to amend periods for the preparation and publication of documents. The Welsh Government have proposed applying the negative procedure to enable the amendment of primary legislation in this section. We have repeatedly called throughout this Assembly for secondary legislation that amends primary law to be accorded at least the affirmative procedure. This we regard as a core principle, and we always comment when the Government breaks that core principle in our view. And so, we have recommended that an amendment be tabled to apply the affirmative procedure to regulations made under section 24.

A gaf i nawr gyfeirio at y pwerau i wneud rheoliadau? Yn gyffredinol, rydym o’r farn bod y Gweinidog wedi taro’r cydbwysedd cywir rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd. Felly, rydym wedi gwneud argymhellion dim ond ynglŷn â phedair darpariaeth, ac rwyf yn dymuno tynnu sylw at ddim ond dwy o'r rheini y prynhawn yma. Y gyntaf yw'r pŵer yn adran 24 i ddiwygio’r cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig defnyddio'r weithdrefn negyddol i alluogi diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn yr adran hon. Rydym wedi galw dro ar ôl tro drwy gydol y Cynulliad hwn am i’r weithdrefn gadarnhaol o leiaf gael ei defnyddio ar gyfer deddfwriaeth eilaidd sy'n diwygio cyfraith sylfaenol. Mae hyn yn ein barn ni yn egwyddor graidd, ac rydym bob amser yn gwneud sylwadau pan fydd y Llywodraeth yn torri’r egwyddor graidd hon yn ein barn ni. Ac felly, rydym wedi argymell bod gwelliant yn cael ei gyflwyno i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol i reoliadau a wneir o dan adran 24.

Section 63 relates to regulations made with the Secretary of State, and we have recommended the removal of section 63, which would provide for the making of carrier bag regulations for England and Wales in one instrument. The Minister told us that there were no current plans to bring forward such joint regulations, and we therefore feel that this provision should just be removed, as it's redundant, frankly.

Mae adran 63 yn ymwneud â rheoliadau a wneir gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac rydym wedi argymell cael gwared ar adran 63, a fyddai'n darparu ar gyfer gwneud rheoliadau ar fagiau siopa untro i Gymru a Lloegr mewn un offeryn. Dywedodd y Gweinidog wrthym nad oedd unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno rheoliadau ar y cyd o'r fath, ac felly rydym o’r farn y dylai'r ddarpariaeth hon gael ei dileu, gan ei bod, a dweud y gwir, yn ddiangen.

Finally, on human rights, we explored this matter with the Minister and examined the extent to which the Bill appears compliant with the European Convention on Human Rights, and we are content that sufficient safeguards have been built into the Bill in this regard. Thank you, chair.

Yn olaf, ar hawliau dynol, gwnaethom archwilio’r mater hwn gyda'r Gweinidog gan ystyried i ba raddau y mae'n ymddangos bod y Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac rydym yn fodlon bod digon o fesurau diogelu wedi eu cynnwys yn y Bil yn hyn o beth. Diolch, gadeirydd.

17:47

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. There are seven speakers down—there are seven people who want to speak in this debate. If you could keep it slightly more succinct than perhaps you would have done, I will try very hard to get all of those speakers in. First is Jenny Rathbone.

Diolch. Mae saith o siaradwyr i lawr—saith o bobl sydd eisiau siarad yn y ddadl hon. Pe gallech gadw hyn ychydig yn fwy cryno nag efallai y byddech wedi ei wneud, byddaf yn gwneud pob ymdrech i gynnwys yr holl siaradwyr hynny. Jenny Rathbone sydd gyntaf.

17:47 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, cadeirydd. It's useful to know that the Government applied to the Secretary of State for consent on 1 April, because it means that it took them nearly six months to respond in the negative on this section 6 of the Bill. This is the section that relates to maintaining and enhancing biodiversity across Wales and whether or not it should involve the Crown lands in Wales—some 5 per cent of the landmass of our country. I think it is unfortunate that the Crown lands are not included in the objective of maintaining and enhancing our biodiversity. It will mean that the salmon swimming up a river to spawn could encounter less advantageous conditions as it passes through Crown lands. Similarly, rare birds flying across Crown lands will not just have a greater chance of being shot, but their nests will not enjoy the same protection that they would have on other public lands. So, if the UK Government continues in this vein, it seems somewhat likely that there will be disputes over who is responsible for failure to reverse biodiversity declines or to enhance our ecosystem. So, clear definitions of who is responsible for what will help us to keep the lid on our legal bills, as we don't want to be involved in a job-creation scheme for lawyers.

So, I do hope the Minister will pick up on the committee's recommendation that the Bill should include (a) the UN definition of biodiversity, so we're all clear in what we're talking about and (b) the UN convention definition of an ecosystem—not a word in common parlance—as a dynamic complex of plant, animal and micro-organism communities and their non-living environment interacting as a functional unit. It's not common parlance, but obviously an important definition, so that we're all clear about what we mean by an ecosystem. And, additionally, to insert the resilient Wales goal, as described in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, so that we're locking in the combined intentions of both the wellbeing of future generations Bill with this environment Bill. In particular, I hope that it'll be possible for the Minister to consider underlining the precautionary principle and acting within environmental limits to make clear what we are hoping public bodies will do. So, I hope that this will then protect the excellent intentions of the Bill from the predators circling who pay little or no intention to the consequences of their actions on the environment.

On the issue of carrier bags, obviously we all agree that it is one of our most successful policies—a simple levy on the single-use carrier bag. I'm sure the committee is right not to want to disrupt the public support for that in the way that it might be amended. However, it's interesting to note that the committee's own outreach survey showed that over two thirds of respondents support limiting the levy on carrier bags to environmental charities—the ones that clear up after, or mitigate the impact of continuing to scatter single-use bags over the landscape. That seems to me a logical position. We ultimately want to eliminate this levy and encourage everybody to do the right thing. So, whilst I appreciate that many shopkeepers are using this as a way of collecting money for good causes, it is sending a mixed message about something when we actually want people to not use single-use carrier bags.

Diolch, gadeirydd. Mae'n ddefnyddiol cael gwybod bod y Llywodraeth wedi gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am gydsyniad ar 1 Ebrill, gan fod hyn yn golygu ei bod wedi cymryd bron i chwe mis iddynt ymateb yn negyddol ynglŷn â'r adran 6 hon o'r Bil. Hon yw'r adran sy'n ymwneud â chynnal a gwella bioamrywiaeth ledled Cymru ac a ddylai gynnwys tiroedd y Goron yng Nghymru—rhyw 5 y cant o dir ein gwlad. Credaf ei bod yn anffodus nad yw tiroedd y Goron wedi eu cynnwys yn yr amcan o gynnal a gwella ein bioamrywiaeth. Bydd hyn yn golygu y gallai'r eog sy'n nofio i fyny afon i silio ddod ar draws amodau llai manteisiol wrth fynd drwy tiroedd y Goron. Yn yr un modd, bydd adar prin wrth hedfan dros diroedd y Goron nid yn unig yn fwy tebygol o gael eu saethu ond ni fydd eu nythod ychwaith yn mwynhau yr un warchodaeth ag a fyddai ganddynt ar diroedd cyhoeddus eraill. Felly, os bydd Llywodraeth y DU yn parhau yn y modd hwn, mae'n ymddangos yn debygol y bydd dadlau ynghylch pwy sy'n gyfrifol am fethiant i wrthdroi'r dirywiad bioamrywiaeth, neu i wella ein hecosystem. Felly, bydd diffiniadau clir o bwy sy'n gyfrifol am beth yn ein helpu i gyfyngu ar ein biliau cyfreithiol, gan nad ydym yn dymuno bod yn rhan o gynllun creu swyddi i gyfreithwyr.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn dilyn argymhelliad y pwyllgor y dylai'r Bil gynnwys (a) diffiniad y Cenhedloedd Unedig o fioamrywiaeth, er mwyn i ni gyd fod yn glir am yr hyn yr ydym yn sôn amdano a (b) diffiniad confensiwn y Cenhedloedd Unedig o ecosystem—nad yw'n air a defnyddir yn gyffredin—fel system gymhleth ddeinamig o gymunedau planhigion, anifeiliaid a micro-organeb a'u hamgylchedd anfyw yn rhyngweithio fel uned weithredol. Nid yw'n iaith gyffredin, ond yn amlwg mae'n ddiffiniad pwysig, er mwyn i ni i gyd fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ei olygu wrth ecosystem. Ac, yn ogystal â hynny, i fewnosod yr amcan Cymru gydnerth, fel y'i disgrifir ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), er mwyn i ni fod yn cynnwys bwriadau cyfunol Bil llesiant cenedlaethau'r dyfodol gyda'r Bil amgylchedd hwn. Yn arbennig, rwy'n gobeithio y bydd yn bosibl i'r Gweinidog ystyried tanlinellu'r egwyddor ragofalus a gweithredu o fewn terfynau amgylcheddol i wneud yn glir yr hyn yr ydym yn gobeithio y bydd cyrff cyhoeddus yn ei wneud. Felly, rwy'n gobeithio y bydd hyn wedyn yn amddiffyn bwriadau ardderchog y Bil rhag yr ysglyfaethwyr sy'n troelli ac sy'n talu ychydig neu ddim sylw i ganlyniadau eu gweithredoedd ar yr amgylchedd.

O ran mater y bagiau siopa, yn amlwg rydym i gyd yn cytuno mai hwn yw un o'n polisïau mwyaf llwyddiannus—ardoll syml ar y bag siopa untro. Rwy'n siwr bod y pwyllgor yn iawn i beidio â bod eisiau amharu ar y gefnogaeth gyhoeddus i hynny yn y ffordd y gallai gael ei ddiwygio. Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi bod arolwg allgymorth y pwyllgor ei hun yn dangos bod dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cefnogi cyfyngu ar yr ardoll ar fagiau siopa i elusennau amgylcheddol—y rhai sy'n clirio'r llanast, neu'n lliniaru effaith parhau i wasgaru bagiau untro dros y dirwedd. Mae hynny'n ymddangos i mi yn safbwynt rhesymegol. Rydym yn y pen draw yn awyddus i gael gwared ar yr ardoll hon ac annog pawb i wneud y peth iawn. Felly, er fy mod yn sylweddoli bod llawer o siopwyr yn defnyddio hyn fel ffordd o gasglu arian at achosion da, mae'n anfon neges gymysg am rywbeth pan ein bod mewn gwirionedd yn awyddus i bobl beidio â defnyddio bagiau siopa untro.

In that vein, I think it's important that we support the extension of a levy to other carrier bags, the so-called 'bags for life', which at the moment commands less support from the public according to the committee survey, but nevertheless is an extension of the principle to reduce our consumption of the world's resources before we reuse and recycle the ones we do need to use. I went to a conference last week where delegates were provided with a large white carrier bag and it contained precisely two pieces of paper. What was that about? I don't know. It certainly didn't seem to me necessary. In terms of our commitment in this Bill to an 80 per cent reduction in carbon emissions by 2050, which I hope we all support, we have to acknowledge that the world's resources are finite and we need to do what is necessary for sustainable development, the food we eat, the transport we use and the houses we build. I hope the Minister will take account of these things.

Yn yr un modd, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn cefnogi ymestyn ardoll i fagiau siopa eraill, y 'bagiau am oes' fel y'i gelwir, sydd ar hyn o bryd yn ennyn llai o gefnogaeth gan y cyhoedd yn ôl arolwg y pwyllgor, ond serch hynny mae'n estyniad o'r egwyddor i leihau ein defnydd o adnoddau'r byd cyn i ni ailddefnyddio ac ailgylchu y rhai y mae angen i ni eu defnyddio. Es i i gynhadledd yr wythnos diwethaf lle y darparwyd bag siopa mawr gwyn i'r cynrychiolwyr ac ynddo ddim ond dau ddarn o bapur? Pam hynny? Nid wyf yn gwybod. Yn sicr nid oedd yn ymddangos yn angenrheidiol i mi. O ran ein hymrwymiad yn y Bil hwn i ostyngiad o 80 y cant mewn allyriadau carbon erbyn 2050, yr wyf yn gobeithio ein bod i gyd yn ei gefnogi, mae'n rhaid i ni gydnabod bod adnoddau'r byd yn gyfyngedig ac mae angen i ni wneud yr hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu cynaliadwy, y bwyd yr ydym yn ei fwyta, y cludiant a ddefnyddiwn a'r tai yr ydym yn eu hadeiladu. Rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried y pethau hyn.

17:52

## Janet Haworth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to start my contribution today by looking at the principles that this Bill should promote and safeguard. So, I will start with what appears to be the current scant regard for the internationally understood importance of landscape. This is not some mythical notion I am referring to, but particular places, woods, waterfalls, valleys, rivers, mountains and beaches that are our landscape of Wales. Many stakeholders have given compelling evidence for the inclusion of the UN definition of landscape to be included in this Bill. This important principle warrants a place on the face of the Bill. Together with the well-established precautionary principle, these two principles seek to ensure that proposed developments take full account of the impact of their proposals on landscape and recognise the need to fully investigate potential consequences.

Hoffwn ddechrau fy nghyfraniad heddiw drwy edrych ar yr egwyddorion y dylai'r Bil hwn eu hyrwyddo a'u diogelu. Felly, rwyf am ddechrau gyda'r hyn sy'n ymddangos yn ystyriaeth brin ar hyn o bryd i bwysigrwydd tirwedd, a ddeallir yn rhyngwladol. Nid rhyw syniad chwedlonol yr wyf yn cyfeirio ato, ond lleoedd penodol, coedwigoedd, rhaeadrau, dyffrynnoedd, afonydd, mynyddoedd a thraethau sef ein tirwedd yng Nghymru. Mae llawer o randdeiliaid wedi rhoi tystiolaeth gymhellol ar gyfer cynnwys diffiniad y Cenhedloedd Unedig o dirwedd yn y Bil hwn. Mae'r egwyddor bwysig hon yn haeddu lle ar wyneb y Bil. Ynghyd â'r egwyddor ragofalus sydd wedi'i hen sefydlu, mae'r ddwy egwyddor hyn yn ceisio sicrhau bod datblygiadau arfaethedig yn rhoi ystyriaeth lawn i effaith eu cynigion ar dirwedd a chydnabod yr angen i ymchwilio'r canlyniadau posibl yn llawn.

An appreciation of the importance of landscape and respect for the precautionary principle should not be seen as a barrier to development and change. The duty to consult fully needs to be another guiding principle of this Bill. Consultation seeks to enable fair inquiry and a Bill that could protect and sustain our environment for future generations needs to do that. This Bill does contain important future-focused intentions, but they will not fulfil their promise if they fail to inspire those stakeholders who are vital to its practical implication, namely the local authorities of Wales and various environmental agencies.

Ni ddylai gwerthfawrogiad o bwysigrwydd tirwedd a pharch tuag at yr egwyddor ragofalus gael eu hystyried yn rhwystr i ddatblygu a newid. Mae angen i'r ddyletswydd i ymgynghori'n llawn fod yn egwyddor arweiniol arall o'r Bil hwn. Bwriad ymgynghoriad yw galluogi ymchwiliad teg ac mae angen i Fil a allai amddiffyn a chynnal ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol wneud hynny. Mae'r Bil yn cynnwys bwriadau pwysig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, ond ni fyddant yn cyflawni eu haddewid os byddant yn methu ag ysbrydoli'r rhanddeiliaid hynny sy'n hanfodol i'w goblygiadau ymarferol, sef awdurdodau lleol Cymru ac asiantaethau amgylcheddol amrywiol.

Sustainable development is an important organising principle for guiding our use of finite resources, which are increasingly understood to be necessary for supporting the life of future generations on this planet. Protecting these resources will not be enough to ensure that future generations will have the life-support system that we have enjoyed. We also have a responsibility to go beyond protecting and maintaining, to regeneration and improving. To do that, we will have to engage in innovation and research.

Mae datblygiad cynaliadwy yn egwyddor drefnu bwysig ar gyfer llywio ein defnydd o adnoddau cyfyngedig, y deallir yn gynyddol eu bod yn angenrheidiol ar gyfer cefnogi bywyd cenedlaethau'r dyfodol ar y blaned hon. Ni fydd diogelu'r adnoddau hyn yn ddigon i sicrhau y bydd gan genedlaethau'r dyfodol y system cynnal bywyd yr ydym ni wedi ei mwynhau. Mae gennym hefyd gyfrifoldeb i fynd y tu hwnt i amddiffyn a chynnal, i adfywio a gwella. I wneud hynny, bydd yn rhaid i ni arloesi ac ymchwilio.

The principle of sustainability is not just about seeking to maintain the status quo. A number of organisations have highlighted the need to include the international agreed understanding of the concepts of biodiversity and ecosystems. The Wildlife Trusts Wales make a case for Natural Resources Wales's purpose to mirror that of the Scottish Environment Protection Agency. SEPA's legal duty is to protect and improve the environment, contribute to improving the health and wellbeing of people in Scotland, and achieve sustainable growth, except where it would be inconsistent with its primary purpose of protecting the environment.

Nid ceisio cynnal y status quo yn unig yw bwriad yr egwyddor cynaliadwyedd. Mae nifer o sefydliadau wedi tynnu sylw at yr angen i gynnwys y ddealltwriaeth o gysyniadau bioamrywiaeth ac ecosystemau y cytunir arnynt yn rhyngwladol. Mae Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru yn gwneud achos i ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru adlewyrchu diben Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban. Dyletswydd gyfreithiol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban yw diogelu a gwella'r amgylchedd, cyfrannu at wella iechyd a lles pobl yn yr Alban, a chyflawni twf cynaliadwy, ac eithrio lle y byddai'n anghyson â'i brif ddiben o warchod yr amgylchedd.

Most of Wales is rural. There are approximately 18,000 farmers, who represent generations of hard-working people who have been the stewards of this land we call Wales. Any environment and sustainability Bill endorsed by this Assembly must recognise that achievement and the critical importance of the agricultural community's endeavours, knowledge and skills, and recognise their ongoing contribution to the wellbeing and future of our rural communities. The environment committee has heard evidence from many stakeholders about the actions proposed in this Bill for area statements and experimental schemes, leading possibly to the adoption of general binding rules. This Bill speaks of what will be done, but it is currently weak on the how, the when and at what cost, as has been pointed out by our colleague from the Finance Committee. While the Minister has offered his reassurance that it is the Welsh Labour Government's intention to consult with stakeholders, this does not mean that it will, or that this Government has a legal duty to consult.

Mae'r rhan fwyaf o Gymru yn wledig. Mae tua 18,000 o ffermwyr, sy'n cynrychioli cenedlaethau o bobl weithgar sydd wedi bod y stiwardio'r tir hwn yr ydym yn ei alw'n Gymru. Mae'n rhaid i unrhyw Fil yr amgylchedd a chynaliadwyedd a gymeradwyir gan y Cynulliad hwn gydnabod y cyflawniad hwnnw a phwysigrwydd hanfodol ymdrechion, gwybodaeth a sgiliau y gymuned amaethyddol, a chydnabod ei chyfraniad parhaus i les a dyfodol ein cymunedau gwledig. Mae pwyllgor yr amgylchedd wedi clywed tystiolaeth gan nifer o randdeiliaid ynghylch y camau a gynigir yn y Bil hwn ar gyfer datganiadau ardal a chynlluniau arbrofol, gan arwain o bosibl at fabwysiadu rheolau gorfodol cyffredinol. Mae'r Bil hwn yn sôn am yr hyn a fydd yn cael ei wneud, ond mae'n wan ar hyn o bryd ynglyn â sut, pryd ac am ba gost, fel y nodwyd gan ein cydweithiwr o'r Pwyllgor Cyllid. Er bod y Gweinidog wedi cynnig ei sicrwydd mai bwriad Llywodraeth Lafur Cymru yw ymgynghori â rhanddeiliaid, nid yw hyn yn golygu y bydd yn gwneud hynny, na bod gan y Llywodraeth hon ddyletswydd gyfreithiol i ymgynghori.

This Bill still has work to do on air pollution, the management of waste, and sustaining the integrity of our freshwater systems, just to mention a few. I would urge the Minister not to shrink from strengthening this Bill by endorsing the principles of landscape, ecosystems and biodiversity on the face of this Bill. The established precautionary principle should not be shirked, and the duty to consult should be embraced. Minister, these are the general principles I am supporting today, so that the good intentions of this Bill to be a custodian and a guardian of our environment can be achieved—

Mae gwaith i'w wneud o hyd yn y Bil ar lygredd aer, rheoli gwastraff, a chynnal cyfanrwydd ein systemau dŵr croyw, i enwi dim ond rhai. Byddwn yn annog y Gweinidog i beidio â thynnu'n ôl rhag cryfhau'r Bil hwn drwy ategu egwyddorion tirwedd, ecosystemau a bioamrywiaeth ar wyneb y Bil hwn. Ni ddylai'r egwyddor ragofalus sydd wedi ei sefydlu gael ei hosgoi, a dylai'r ddyletswydd i ymgynghori gael ei chroesawu. Weinidog, dyma'r egwyddorion cyffredinol yr wyf yn eu cefnogi heddiw, er mwyn i fwriadau da y Bil hwn i fod yn geidwad ac yn warcheidwad i'n hamgylchedd gael eu cyflawni—

17:57 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wind up, please.

Mae'n rhaid i chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda.

17:57 **Janet Haworth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and Wales sustained for future generations. Thank you.

[Yn parhau.] – a bod Cymru yn cael ei chynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Diolch.

17:57 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mi ddechreuaf i drwy ategu'r siom na chafwyd y cydsyniadau angenrheidiol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig cyn gosod y Bil. Ond, ta waeth pa bryd y gofynnwyd am hynny—ac, wrth gwrs, un o argymhellion y pwyllgor, yr argymhelliad cyntaf, yw y dylid cyhoeddi'r holl ohebiaeth fel bod y darlun yna'n dod yn gliriach—mi ddylai'r cydsyniadau wedi bod yn eu lle cyn symud ymlaen. Nawr, wrth gwrs, effeithio ar un agwedd ar y Bil y mae'r diffyg cydsyniad, a hynny mewn perthynas â chanran gymharol fach o dirwedd Cymru. Mi fydd, wrth gwrs, yn cael effaith negyddol, ond nid effaith andwyol yn fy marn i. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog i'w gwneud yn glir inni wrth ymateb i'r ddadl y prynhawn yma na fydd diffyg cydsyniad yn arwain at y Llywodraeth yn tynnu'r Bil yn ôl, oherwydd mi wnaethpwyd yn glir i'r pwyllgor ym mis Mawrth bod hynny yn bosibilrwydd real, ac rwy'n meddwl bod angen eglurder ynglŷn ag i ba gyfeiriad y mae'r Llywodraeth yn symud yn hynny o beth.

I will start by endorsing the disappointment that the necessary consents weren't received from the UK Government before the Bill was tabled. Never mind when that was requested—and, of course, one of the recommendations of the committee, the first recommendation, is that all of the correspondence should be published so that that picture becomes clearer—the consents should have been in place before this proceeded. Now, of course, that has an impact on one aspect of the Bill, in relation to relatively small percentage of Welsh landscape. It will, of course, have a negative impact, but not a totally detrimental impact in my opinion. I would ask the Minister to make it clear in responding to the debate this afternoon that the absence of consent won't lead to the Government withdrawing this Bill, because it was made clear to the committee in March that that was a real possibility, and I think we need some clarity on the direction of travel of the Government in that regard.

Mae'r Bil hwn hefyd yn gyfle pwysig i ddiffinio'n gliriach yn fy marn i ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Gweinidog wedi esbonio ei bod yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru, ar y cyd â phob corff cyhoeddus arall, wrth gwrs, gyflawni holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac na ddylai blaenoriaeth gael ei rhoi i unrhyw un nod wrth i swyddogaethau corff cyhoeddus gael eu cyflawni. Mae hynny'n codi cwestiwn yn fy meddwl i, serch hynny. Er fy mod yn derbyn bod yn rhaid i gorff cyhoeddus roi sylw i bob un o'r nodau, nid wyf yn gweld rhwystr sy'n atal corff cyhoeddus rhag cael un diben cyffredinol, sef y nod y mae ganddo'r dasg benodol o'i hyrwyddo.

This Bill is also an important opportunity to clearly define the purpose of Natural Resources Wales in my opinion. The Minister has responded in saying that it's a requirement of NRW, along with other public bodies, of course, to achieve all of the aims of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and that no priority should be given to a single goal as a public authority's functions are delivered. That raises a question in my mind, however. Although I accept that a public body does have to address all of the goals, I don't see any barrier preventing any public body from having one general purpose, that is, the goal that they have the specific task of promoting.

Mi ddefnyddiwyd enghraifft y gwasanaeth iechyd, wrth gwrs, yn y dystiolaeth a gafwyd gan y pwyllgor, sef, er ei fod yn ofynnol i'r gwasanaeth iechyd gyflawni pob agwedd ar nodau Deddf cenedlaethau'r dyfodol, mae yna ddisgwyl, yn gywir ddigon, wrth gwrs, iddo roi blaenoriaeth i'w swyddogaeth graidd o ddarparu gwasanaethau iechyd, ac nid wyf yn gweld y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru, yn y cyd-destun amgylcheddol ac adnoddau naturiol, fod yn wahanol. Rydym eisoes wedi clywed cyfeiriad at ddyletswydd gyfreithiol Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, ac mi fuaswn yn galw ar y Llywodraeth i edrych eto ar hyn. Mi fuaswn i hefyd yn ategu sylwadau Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynglŷn â chostau gweithredu'r ddeddfwriaeth yma a goblygiadau'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol i Gyfoeth Naturiol Cymru yn y Bil hwn ac mewn Deddfau blaenorol. Mae yna berygl i ni greu cybolfa fiwrocrataidd a fydd yn llethu Cyfoeth Naturiol Cymru os nad yw'r Llywodraeth yn ofalus.

The health service was used as an example in the evidence to committee. Although it's a requirement of the health service to deliver all aspects of the future generations Act, it is properly expected to give a priority to its core function of providing health services, and I don't see that NRW, in the environmental and natural resources context, should be any different. We've already heard reference to the legal duty of the Scottish Environment Protection Agency, and I would call on the Government to look again at that. I would also endorse the comments made by the Finance Committee Chair on the cost of implementing this legislation and the implications of all the additional duties and responsibilities for Natural Resources Wales in this Bill and in previous Acts. There is a risk that we create a bureaucratic complexity that will overwhelm NRW if the Government is not careful.

Rwy'n croesawu'r targedau statudol ar allyriadau. Yn sicr, mae Plaid Cymru wedi galw am hynny ers rhai blynyddoedd, ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi derbyn bod y Bil yma yn gyfle addas i weithredu hynny. Rwy'n cydnabod yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol, ac yn ei annog yn arbennig i dderbyn yr argymhellion ar adolygu targedau bob pum mlynedd, ychwanegu'r egwyddor o gadw newid hinsawdd o fewn dau radd 'centigrade', ac i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd tuag at y targed.

I welcome the statutory targets on emissions. Certainly, Plaid Cymru has called for these over a number of years, and we welcome the fact that the Government has accepted that this Bill is an appropriate vehicle to deliver those targets. I acknowledge what the Minister said in his opening remarks, and I would encourage him particularly to accept the recommendations on reviewing targets every five years, on adding the principle of limiting climate change to 2 degrees centigrade, and on reporting annually on progress towards that target.

Tra bod galw wedi bod am dargedau bioamrywiaeth statudol, nid oedd y pwyllgor, fel mae'r Gweinidog wedi cydnabod, yn teimlo bod hynny'n addas ar hyn o bryd. Ond, ddylai'r Gweinidog ddim tybio nad oes angen cryfhau'r agwedd hon ar y Bil. Rwy'n croesawu ei barodrwydd i edrych ar hyn, yn enwedig yr angen i fabwysiadu diffiniadau confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar fioamrywiaeth ac ecosystemau, ond hefyd yr angen i ychwanegu'r egwyddorion o dan adran 4 i gynnwys cyfeiriad at yr egwyddor ragofalus ac at weithredu o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd. Os nad oes targedau bioamrywiaeth statudol am fod, yna mae'n gwbl hanfodol cael cerrig milltir a dangosyddion cryf a chlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ac mi ddylai fod, yn fy marn i, ddyletswydd ar y Gweinidog i wneud datganiad ar y gweithredu fydd ei angen os nad yw'r cerrig milltir yna, yng nghyd-destun bioamrywiaeth, yn sicr, yn cael eu cyrraedd.

While there has been a call for statutory biodiversity targets, the committee, as the Minister recognised, didn't feel that that was appropriate at the moment. But the Minister shouldn't assume that we don't need to strengthen this aspect of the Bill. I welcome his willingness to look at this, particularly the need to adopt the definitions within the United Nations convention on biodiversity and ecosystems, but also the need to add the principles under section 4 in order to include a reference to the precautionary principle and to working within the limitations of our environment. If statutory biodiversity targets are not to be put in place, then it's crucial that we have clear, robust milestones and indicators under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Also, there should be a duty, in my view, on the Minister to make a statement on the actions required if those milestones, particularly in the context of biodiversity, aren't achieved.

Yn olaf, mae yna'n dal i fod waith i'w wneud, yn fy marn i, gan y Llywodraeth i esbonio sut bydd y Bil yma yn cydblethu â Deddfau eraill a rhaglenni eraill. Er enghraifft, sut bydd y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol yn effeithio ar y cynllun datblygu gwledig a rhaglenni fel Glastir? Ac mae angen deall hefyd pa effaith a pha ddylanwad fydd y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a datganiadau ardal yn eu cael ar agweddau ar gynllunio yng Nghymru, megis y fframwaith datblygu cenedlaethol arfaethedig a chynlluniau datblygu lleol ac, yn wir, cynllun morol cenedlaethol Cymru. Byddai rhywun wedi disgwyl efallai fod hyn i gyd wedi cael ei amlinellu ar gychwyn y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach, ond rwyf jest yn teimlo bod yna'n dal i fod cryn ddryswch ynglŷn â'r modd y mae y Deddfau a'r Biliau yma yn cydblethu.

Finally, there is still work to be done, in my view, by Government to explain how this Bill will dovetail with other legislation and other programmes. For example, how will the natural resources policy impact upon the rural development plan and programmes such as Glastir? We need to understand also what impact and influence the national natural resources policy and area statements will have on aspects of planning in Wales, such as the proposed national development framework, the local development plans and, indeed, the national marine plan for Wales. One would have expected, perhaps, that all of this would have been outlined at the beginning of the legislative programme, so0 I just feel that there is still some confusion about the way in which these Acts and Bill actually dovetail.

Mae Plaid Cymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil, ond, wrth gwrs, mae yna lawer o waith i'w wneud cyn y byddwn ni'n hapus y bydd y Bil yn cyflawni'r hyn y dylai gyflawni yn y modd y dylai ei gyflawni.

Plaid Cymru supports the general principles of the Bill, but, of course, there's a great deal of work to be done before we will be content that the Bill actually achieves what it should achieve and in the way in which it should be achieved.

18:02

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As has already been acknowledged on all sides of the Chamber, this Bill is wide-ranging in its scope and of fundamental importance. Indeed, climate change is without doubt the single biggest issue that we face. It is therefore vitally important that we get this Bill right, and my overarching message today is that this Bill needs to be more ambitious.

Fel sydd eisoes wedi ei gydnabod ar bob ochr i'r Siambr, mae'r Bil hwn yn eang ei gwmpas ac o bwysigrwydd sylfaenol. Yn wir, newid yn yr hinsawdd heb os yw'r mater unigol mwyaf sy'n ein hwynebu. Mae'n hanfodol bwysig felly ein bod yn cael y Bil hwn yn iawn, a fy neges gyffredinol heddiw yw bod angen i'r Bil hwn fod yn fwy uchelgeisiol.

Firstly, looking at climate change target—and I was encouraged by the content and tone of the Minister's comments in this regard—for the first time, we have the opportunity to be setting statutory targets for the reduction of greenhouse gas emissions, bringing us in line with Scotland and the rest of the UK. I think that we can and need to do more. There is a strong case for Wales to set a legally binding target to bring net greenhouse gas emissions to zero by 2050, and, indeed, this has been enshrined in Welsh Liberal Democrat policy for some time.

Yn gyntaf, gan edrych ar y targed newid yn yr hinsawdd—a chefais fy nghalonogi gan gynnwys a thôn sylwadau'r Gweinidog yn hyn o beth—am y tro cyntaf, mae gennym y cyfle i fod yn gosod targedau statudol ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan ddod â ni yn unol â'r Alban a gweddill y DU. Credaf y gallwn ac y bydd angen i ni wneud mwy. Mae achos cryf i Gymru osod targed gydag ymrwymiad cyfreithiol i ddod ag allyriadau nwyon tŷ gwydr net i lawr i sero erbyn 2050, ac, yn wir, mae hyn wedi ei ymgorffori ym mholisïau Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ers cryn amser.

Since the Climate Change Act 2008 set a target of reducing our carbon emissions by 80 per cent by 2050, climate change scientists have warned that progress to limit global warming to the all-important 2 degrees centigrade is too slow and that we cannot afford not to up our pace.

Ers i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 osod targed i leihau ein hallyriadau carbon gan 80 y cant erbyn 2050, mae gwyddonwyr newid yn yr hinsawdd wedi rhybuddio bod y cynnydd i gyfyngu cynhesu byd-eang i'r 2 radd canradd hollbwysig yn rhy araf ac na allwn fforddio peidio â chynyddu ein cyflymder.

The Environment and Sustainability Committee has recommended that the principle of keeping global warming within 2 degrees centigrade be included in the Bill and I very much support this, but, as Stop Climate Chaos have highlighted in their evidence, exceeding 2 degrees is not an acceptable risk. The Minister is rightly proud of the fact that Wales is world-leading in its approach to the wellbeing of future generations—let us be world-leading too in our approach to climate change.

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi argymell cynnwys yr egwyddor o gadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd canradd yn y Bil ac rwy'n cefnogi hyn yn fawr iawn, ond, fel y tynodd Atal Anhrefn Hinsawdd sylw ato yn eu tystiolaeth, nid yw mynd yn fwy na 2 radd yn risg derbyniol. Mae'r Gweinidog yn iawn i ymfalchïo yn y ffaith fod Cymru yn arwain y byd o ran ei hymagwedd tuag at les cenedlaethau'r dyfodol—gadewch inni arwain y byd hefyd yn ein hymagwedd tuag at newid yn yr hinsawdd.

I also welcome the multi-portfolio approach to tackling climate change and the fact that the Minister will not have sole responsibility, but that it will have wider ministerial cross-cutting responsibility across portfolios. This is very much the way for a less siloed approach, and it's to be welcomed. Climate change affects all of us and will affect everyone. However, in the process of spreading responsibility, we must ensure that we are not diluting accountability.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ymagwedd aml-bortffolio i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'r ffaith na fydd gan y Gweinidog y cyfrifoldeb llwyr, ond y bydd yn gyfrifoldeb trawsbynciol gweinidogol ehangach ar draws portffolios. Dyma'n sicr y ffordd ar gyfer cael dull llai rhanedig, ac mae hynny i'w groesawu. Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, a bydd yn effeithio ar bawb. Fodd bynnag, yn y broses o ledaenu cyfrifoldeb, mae'n rhaid inni sicrhau nad ydym yn gwanhau atebolrwydd.

I turn now briefly to biodiversity. Existing targets on biodiversity have consistently been missed. The EU biodiversity 2020 strategy is halfway through its implementation, and yet ecosystems across Europe, including Wales, continue to be degraded. My committee has put forward a set of recommendations that could bring the Bill much closer to where we want to be in terms of protecting and restoring biodiversity, but much of it on the species and habitat-based indicators and milestones is currently being developed and worked on under the wellbeing of future generations Act. It would be beneficial, in my view, to have more information from the Minister—and I ask him for it today—on what biodiversity indicators are currently being developed. The need for reporting and accountability is also paramount if these duties and indicators are indeed to be meaningful, and so I ask also whether or not the Minister will commit to an amendment to require him to make statements on a regular basis on the actions that will be taken if biodiversity milestones are not being met.

Trof nawr yn fyr at fioamrywiaeth. Mae'r targedau presennol ar fioamrywiaeth wedi eu methu yn gyson. Mae strategaeth bioamrywiaeth 2020 yr UE hanner ffordd drwy ei weithrediad, ac eto mae ecosystemau ledled Ewrop, gan gynnwys Cymru, yn parhau i gael eu diraddio. Mae fy mhwyllgor i wedi cyflwyno cyfres o argymhellion a allai ddod â'r Bil yn llawer agosach at ble yr ydym yn dymuno bod o ran diogelu ac adfer bioamrywiaeth, ond mae llawer ohono ar y dangosyddion a'r cerrig milltir sy'n seiliedig ar rywogaethau a chynefinoedd yn cael ei ddatblygu a gwaith yn cael ei wneud arno ar hyn o bryd o dan Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Byddai'n fuddiol, yn fy marn i, i gael mwy o wybodaeth gan y Gweinidog—a gofynnaf iddo amdani heddiw—ynglŷn â pha ddangosyddion bioamrywiaeth sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'r angen am adrodd ac atebolrwydd hefyd yn hollbwysig os yw'r dyletswyddau a'r dangosyddion hyn i fod yn ystyrlon mewn gwirionedd, ac felly rwyf yn gofyn hefyd a fydd y Gweinidog yn ymrwymo i welliant i'w gwneud yn ofynnol iddo wneud datganiadau yn rheolaidd ar y camau a fydd yn cael eu cymryd os nad yw cerrig milltir bioamrywiaeth yn cael eu bodloni.

Limited time means that I can refer only briefly to the issue of waste and carrier bags. I think that this Bill provides an ideal opportunity for Wales to be a zero-waste nation, as the Welsh Government has previously committed to being, and I would like to see statutory targets in this regard. I also fully support the recommendation that the proceeds of any new arrangements regarding carrier bag charges, including bags for life, be directed at environmental causes operating in Wales, and I believe that there are strong arguments in favour of this being implemented.

Mae amser yn gyfyngedig sy'n golygu na allaf ond cyfeirio'n fyr at y materion gwastraff a bagiau siopa. Credaf fod y Bil hwn yn rhoi cyfle delfrydol i Gymru fod yn genedl ddiwastraff, fel y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fod eisoes, a byddwn yn hoffi gweld targedau statudol yn hyn o beth. Rwyf hefyd yn cefnogi'n llwyr yr argymhelliad bod yr enillion o unrhyw drefniadau newydd o ran taliadau am fagiau siopa untro, gan gynnwys bagiau am oes, yn cael eu cyfeirio at achosion amgylcheddol sy'n gweithredu yng Nghymru, a chredaf fod dadleuon cryf o blaid gweithredu hyn.

In conclusion, we are supporting the general principles of the Bill today, but I believe, and my group believes, that the underlying theme of the Bill is the need to live within our environmental limits, and, whilst elements in this Bill take us in a very positive direction, there is more to be done. I also think that there is some futureproofing that needs to be done for this piece of legislation in the case, which is a real possibility, that our country finds itself forced to leave the European Union, which is so important for our environmental protection. We need to look at a degree of futureproofing and explore all scenarios in that regard.

I gloi, rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, ond rwyf yn credu, ac mae fy ngrŵp yn credu, mai thema sylfaenol y Bil yw'r angen i fyw o fewn ein terfynau amgylcheddol, ac, er bod elfennau yn y Bil hwn yn mynd â ni i gyfeiriad cadarnhaol iawn, mae mwy i'w wneud. Rwyf hefyd yn credu bod rhywfaint o ddiogelu ar gyfer y dyfodol y mae angen ei wneud ar y darn hwn o ddeddfwriaeth ar gyfer y sefyllfa, sydd yn bosibilrwydd gwirioneddol, y bydd ein gwlad yn canfod ei hun yn gorfod gadael yr Undeb Ewropeaidd, sydd mor bwysig ar gyfer gwarchod ein hamgylchedd. Mae angen i ni edrych ar rywfaint o ddiogelu ar gyfer y dyfodol ac archwilio’r holl sefyllfaoedd posibl yn y cyd-destun hwnnw.

18:07

## Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am grateful for the opportunity to speak in this important debate today, and can I join Alun Ffred Jones in thanking all the witnesses who came before us and, indeed, the officials who helped to put our views together? The Environment (Wales) Bill will hopefully become the final part of the three big pieces of legislation that have been brought before this Assembly, the first two, of course, being the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Planning (Wales) Act 2015, to which this Bill is closely linked. I must declare an interest here, as I was the Minister for Communities and Tackling Poverty when the future generations Bill was initially published by the Welsh Government, and it is mainly the links between this Act, now, and the Bill that we are considering today that I would like to focus my attention on.

Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle i siarad yn y ddadl bwysig hon heddiw, ac a gaf i ymuno ag Alun Ffred Jones i ddiolch i’r holl dystion a ddaeth ger ein bron ac, yn wir, y swyddogion a helpodd i roi ein safbwyntiau at ei gilydd? Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru), gobeithio, yn dod yn rhan olaf y tri darn mawr o ddeddfwriaeth sydd wedi cael eu dwyn gerbron y Cynulliad hwn, y ddau gyntaf, wrth gwrs, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, y mae’r Bil hwn wedi'i gysylltu'n agos â nhw. Rhaid imi ddatgan buddiant yma, gan mai fi oedd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi pan gyhoeddwydd Bil cenedlaethau'r dyfodol yn wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, ac yn bennaf, y cysylltiadau rhwng y Ddeddf hon, nawr, a'r Bil yr ydym yn ei ystyried heddiw yr hoffwn i ganolbwyntio fy sylw arnynt.

Acting Llywydd, earlier on during questions to the First Minister, I spoke on the issue of implementation of the future generations Act. I made particular reference to the seven wellbeing goals that the Act puts in place for public bodies in Wales to work towards meeting and the importance of the goals being treated equally. Now, I am, of course, a member of the Environment and Sustainability Committee, which has scrutinised the general principles of this Bill and which subsequently issued a number of recommendations with regard to its refinement and improvement. While I agree with the broad thrust of the committee’s report, I do have reservations about the recommendation that Natural Resources Wales should give overarching priority to the resilient Wales goal of the Act. I did make this view clear prior to publication of the committee’s report on the Bill, but, nevertheless, I accept that the report reflects the broadly agreed view of the committee.

Lywydd Dros Dro, yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog, siaradais am y mater o weithredu Deddf cenedlaethau'r dyfodol. Cyfeiriais yn benodol at y saith nod lles y mae’r Ddeddf yn eu rhoi ar waith ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru i weithio tuag at eu bodloni a phwysigrwydd trin y nodau yn gyfartal. Nawr, yr wyf, wrth gwrs, yn aelod o Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, sydd wedi craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn ac wedyn wedi cyhoeddi nifer o argymhellion o ran ei fireinio a’i wella. Er fy mod yn cytuno â phwyslais cyffredinol adroddiad y pwyllgor, mae gennyf amheuon am yr argymhelliad y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi blaenoriaeth drosfwaol i’r nod Cymru gydnerth yn y Ddeddf. Fe wnes y safbwynt hwn yn glir cyn cyhoeddi adroddiad y pwyllgor ar y Bil, ond, serch hynny, rwy’n derbyn bod yr adroddiad yn adlewyrchu barn y pwyllgor y cytunwyd arni’n gyffredinol.

I welcome the intention of the Bill to put in place the legislative framework for sustainably managing our natural resources in line with the provisions of the future generations Act. For example, the proposals on statutory climate change targets are important, and I'm pleased that the Welsh Government has decided to include such targets following recommendations by the Environment and Sustainability Committee in its scrutiny of the future generations Act as well as similar recommendations on carbon budgets that were made by the committee for the scrutiny of the First Minister. As I stated previously, these two Bills are closely interlinked in a number of ways, especially when it comes to ensuring the sustainable use of our natural resources. In this respect, I also welcome the recommendation in the environment committee's report on the Bill, calling on the Welsh Government to publish further information on what biodiversity indicators will be developed under the future generations Act.

Rwy'n croesawu bwriad y Bil i roi ar waith y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn unol â darpariaethau Deddf cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft, mae'r cynigion ar dargedau newid yn yr hinsawdd statudol yn bwysig, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnwys targedau o'r fath yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ei waith craffu ar Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol ynghyd ag argymhellion tebyg ar gyllidebau carbon a wnaed gan y pwyllgor ar gyfer gwaith craffu ar y Prif Weinidog. Fel y dywedais eisoes, mae cysylltiad agos rhwng y ddau Fil hyn mewn nifer o ffyrdd, yn enwedig pan ddaw i sicrhau defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol. Yn hyn o beth, yr wyf hefyd yn croesawu'r argymhelliad yn adroddiad pwyllgor yr amgylchedd ar y Bil, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi rhagor o wybodaeth am ba ddangosyddion bioamrywiaeth fydd yn cael eu datblygu o dan Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol.

So, in conclusion, acting Llywydd, I will be supporting the general principles of this Bill today, and I look forward to further scrutiny, including amendments, in the months ahead. I will work with the Welsh Government constructively to get this significant piece of legislation right. Given that it links to two other big Acts that we have passed in this Assembly—both commitments of our programme for government—it is important that we get this final piece of the jigsaw right. The future sustainable development of Wales is the key challenge facing Assembly Members of today and tomorrow, as we would all surely agree.

Felly, i gloi, Lywydd dros dro, byddaf yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil hwn heddiw, ac edrychaf ymlaen at graffu pellach, gan gynnwys gwelliannau, yn y misoedd nesaf. Byddaf yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn adeiladol i sicrhau bod y darn sylweddol hwn o ddeddfwriaeth yn iawn. O ystyried ei fod yn gysylltiedig â dwy Ddeddf fawr arall yr ydym wedi eu pasio yn y Cynulliad hwn—y ddwy yn ymrwymiadau yn ein rhaglen lywodraethu—mae'n bwysig ein bod yn cael y darn olaf o'r jig-so yn iawn. Datblygiad cynaliadwy Cymru yn y dyfodol yw'r her allweddol sy'n wynebu Aelodau'r Cynulliad heddiw ac yfory, fel y byddem i gyd yn bendant yn cytuno.

18:11

## Russell George Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to focus on the way in which the Bill, as it stands, fails to explicitly recognise the role of landscapes in natural resource management. During the evidence, the environment committee felt that the Campaign for the Protection of Rural Wales and the Alliance for National Parks provided compelling evidence to support the inclusion of the term 'landscape' in either the objective in section 3 or the principles under section 4. The Minister has previously stated that the Bill's provisions are broad enough to allow it to apply at a landscape scale, and that he feels that there would be indirect consequences for other areas of policy, such as planning. But, for me, the absence of any definition of ecosystems and the absence of the explicit recognition of landscapes in the Bill is concerning. I'm also unconvinced that the Bill, as it stands, recognises the important role that landscapes play in regard to sustainable management of Wales's natural resources. Surely, an environment Bill must have protecting our landscapes at its core. That is surely fundamental. To suggest, as I think the Minister may have in committee, that the relationship between biodiversity and landscapes can be safeguarded by simply working at a landscape scale, I think, is perhaps misjudged or not thought through. But I completely agree with witnesses who expressed the view that natural resources management must be based upon the principles of managing all the elements of the environment and therefore a holistic approach is to be achieved. Landscapes cannot be ignored and, on the contrary, landscapes must be a central part of the Bill.

Hoffwn ganolbwyntio ar y ffordd y mae'r Bil, ar ei wedd bresennol , yn methu â chydnabod yn benodol swyddogaeth tirweddau wrth reoli adnoddau naturiol. Yn ystod y dystiolaeth, roedd y pwyllgor amgylchedd yn teimlo bod Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig a Chynghrair y Parciau Cenedlaethol wedi darparu tystiolaeth gymhellol i gefnogi cynnwys y term 'tirwedd' naill ai yn yr amcan yn adran 3 neu'r egwyddorion o dan adran 4. Mae'r Gweinidog wedi datgan o'r blaen fod darpariaethau'r Bil yn ddigon eang i'w alluogi i fod yn gymwys ar raddfa tirwedd, a'i fod yn teimlo y byddai canlyniadau anuniongyrchol ar gyfer meysydd polisi eraill, fel cynllunio. Ond, i mi, mae absenoldeb unrhyw ddiffiniad o ecosystemau ac absenoldeb y gydnabyddiaeth benodol o dirweddau yn y Bil yn peri pryder. Nid wyf ychwaith wedi fy argyhoeddi bod y Bil, fel ag y mae, yn cydnabod y swyddogaeth bwysig sydd gan dirweddau o ran rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Yn sicr, mae'n rhaid i ddiogelu ein tirweddau fod yn nodwedd graidd o Fil yr amgylchedd. Mae hynny'n sicr yn sylfaenol. Mae awgrymu, fel y credaf fod y Gweinidog wedi ei wneud yn y pwyllgor, fod y berthynas rhwng bioamrywiaeth a thirweddau yn gallu cael ei diogelu yn syml trwy weithio ar raddfa tirwedd, rwy'n meddwl, yn gamfarn efallai neu heb ei ystyried yn llawn. Ond rwyf yn cytuno'n llwyr â thystion a fynegodd y farn bod yn rhaid i reoli adnoddau naturiol gael ei seilio ar egwyddorion rheoli holl elfennau'r amgylchedd, gan gyflawnir dull cyfannol felly. Ni ellir anwybyddu tirweddau ac, i'r gwrthwyneb, mae'n rhaid i dirweddau fod yn rhan ganolog o'r Bil.

I would urge the Minister to provide assurances that landscapes will be adequately addressed by the term 'ecosystems' and will provide a definition of the term, as others have said, because, without a definition of ecosystems on the face of the Bill, how are we to understand the implied scope of the term and how they can be interpreted? Furthermore, like the Campaign for the Protection for Rural Wales, I reject the idea that recognition of landscapes on the face of the Bill would amount to blocking developments. You only have to look at how national parks have skilfully and sympathetically designed developments that take place and which take into account the surroundings and demonstrate that this can be done.

Byddwn yn annog y Gweinidog i roi sicrwydd y bydd tirweddau yn cael sylw digonol gan y term 'ecosystemau' ac y bydd yn rhoi diffiniad o'r term, fel y mae eraill wedi ei ddweud, oherwydd, heb ddiffiniad o ecosystemau ar wyneb y Bil, sut ydym ni i ddeall y cwmpas sydd ymhlyg yn y term a sut y gellir ei ddehongli? Hefyd, fel Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, rwyf yn gwrthod y syniad y byddai cydnabyddiaeth o dirweddau ar wyneb y Bil yn gyfystyr â rhwystro datblygiadau. Does dim ond rhaid i chi edrych ar sut y mae parciau cenedlaethol wedi cynllunio datblygiadau yn fedrus ac yn gydymdeimladol, ac sy'n ystyried yr amgylchoedd ac sy'n dangos y gall hyn gael ei wneud.

In summary, acting Presiding Officer, it's my view that the Bill should include a clear commitment that recognises landscapes and seascapes, and I urge the Minister to revisit this approach and to give consideration to the way in which landscapes can be explicitly recognised in the Bill. Clearly, there is much that I can support in the Bill and I've just focused on one area that I do have concern in, but I'm happy to support the general principles of the Bill.

I grynhoi, Lywydd dros dro, fy marn i yw y dylai'r Bil gynnwys ymrwymiad clir sy'n cydnabod tirweddau a morweddau, ac yr wyf yn annog y Gweinidog i edrych eto ar y dull hwn ac ystyried y ffordd y gellir cydnabod tirweddau yn benodol yn y Bil. Yn amlwg, mae llawer y gallaf ei gefnogi yn y Bil ac rwyf ond wedi canolbwyntio ar un maes yn unig y mae gennyf bryder amdano, ond rwy'n hapus i gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

18:14

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think we'd all agree that the test of any piece of legislation is the impact that it has on local communities and local people. In speaking this afternoon I'd like to seek the Minister's reassurance that this Bill will provide protections for people whose local environment is being affected by illegality in terms of the management of waste.

Rwy'n credu ein bod i gyd yn cytuno mai prawf unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth yw'r effaith y mae'n ei gael ar gymunedau lleol a phobl leol. Wrth siarad y prynhawn yma, hoffwn ofyn am sicrwydd gan y Gweinidog y bydd y Bil hwn yn darparu amddiffyniadau ar gyfer pobl y mae eu hamgylchedd lleol yn cael ei effeithio gan anghyfreithlondeb o ran rheoli gwastraff.

The Minister may be aware that a waste management company in my constituency has caused significant problems since a fire on the site in January 2013. In fact, the manager of that company, Adrian Lewis, was imprisoned on Friday as a consequence of repeated breaches of environmental permits. The fire in January 2013 burned for over 10 days and cost £70,000 to clear up. Since then, NRW have been involved in trying to manage that site and ensure that permit conditions are met. I have nothing but praise for the staff and officers of NRW, who've worked extraordinarily hard to keep people safe in and around the site in Nantyglo.

Efallai y bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod cwmni rheoli gwastraff yn fy etholaeth i wedi achosi problemau sylweddol ers tân ar y safle ym mis Ionawr 2013. Yn wir, carcharwyd rheolwr y cwmni hwnnw, Adrian Lewis, ddydd Gwener o ganlyniad i dorri trwyddedau amgylcheddol dro ar ôl tro. Llosgodd y tân ym mis Ionawr 2013 am dros 10 diwrnod a chostiodd £70,000 i'w glirio. Ers hynny, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymryd rhan wrth geisio rheoli'r safle hwnnw a sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu bodloni. Nid oes gennyf ddim ond canmoliaeth i staff a swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi gweithio yn hynod o galed i gadw pobl yn ddiogel o amgylch y safle yn Nantyglo.

However, we now find ourselves in a situation whereby successive warnings were ignored and now we face a situation where there is over 4,000 tonnes of waste on that site against a 620-tonne limit for the site. We now believe that, to clean up this site, would cost £1.3 million. This demonstrates to me that the current legislative framework is not sufficient in order to provide the safeguards that I think we all require and need. I am very aware, Minister, that you've placed great emphasis on combating waste crime, but, in combating waste crime, we need to ensure that NRW has the powers available to it to ensure that they can take early and robust action against offenders and against potential offenders before we reach a situation as we've reached here in this particular example. And, at the same time, we create the framework that enables investment in a circular economy that will, in itself, be a part of a wider green economy that will deliver new opportunities for green growth and the creation of green jobs.

Fodd bynnag, rydym bellach mewn sefyllfa lle yr anwybyddwyd rhybuddion olynol ac erbyn hyn rydym yn wynebu sefyllfa lle y mae dros 4,000 tunnell o wastraff ar y safle hwnnw o'i gymharu â chyfyngiad o 620 tunnell ar gyfer y safle. Rydym bellach yn credu, i lanhau y safle hwn, y bydd yn costio £1.3 miliwn. Mae hyn yn dangos i mi nad yw'r fframwaith deddfwriaethol presennol yn ddigonol i ddarparu'r diogelwch y credaf sy'n ofynnol ac yn angenrheidiol ar ein cyfer ni i gyd. Rwyf yn ymwybodol iawn, Weinidog, eich bod wedi rhoi pwyslais mawr ar fynd i'r afael â throseddau gwastraff, ond, wrth fynd i'r afael â throseddau gwastraff, mae angen i ni sicrhau bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru y pwerau ar gael iddo i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu'n gynnar ac yn gadarn yn erbyn troseddwyr ac yn erbyn troseddwyr posibl cyn i ni gyrraedd sefyllfa fel yr ydym wedi ei chyrraedd yma yn yr enghraifft benodol hon. Ac, ar yr un pryd, ein bod yn creu fframwaith sy'n galluogi buddsoddi mewn economi gylchol a fydd, ynddo'i hun, yn rhan o economi werdd ehangach a fydd yn darparu cyfleoedd newydd ar gyfer twf gwyrdd a chreu swyddi gwyrdd.

So, I hope that this Bill, Minister—I hope that you'll be able to reassure us—will provide both the carrot and the stick, if you like: the stick to ensure that we do have powers given to NRW that are more robust than those that exist at present, that they will then have the ability to manage these sites in a way that is far more effective than we've seen done; and then we have the opportunity to create a new form of economic growth. If we're able to do those two things then, not only will this Bill provide the framework for protecting and managing our natural resources in a way I think there'll be widespread support for—and I think there is widespread support for across the Chamber—we will also be able to pass the test of providing protection for local people and local communities, and ensuring that it is the right of those people, wherever they may be in Wales, to live in an environment that is not being disrupted in the way that the people of Nantyglo have suffered in the last few years.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd y Bil hwn, Weinidog—rwy'n gobeithio y byddwch chi'n gallu tawelu ein meddyliau—yn darparu'r foronen a'r ffon, os dymunwch: y ffon i sicrhau ein bod yn cael y pwerau i Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n fwy cadarn na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd, y bydd ganddynt wedyn y gallu i reoli'r safleoedd hyn mewn ffordd sy'n llawer mwy effeithiol nag yr ydym wedi gweld hynny'n cael ei wneud; ac yna bydd gennyf gyfle i greu math newydd o dwf economaidd. Os ydym yn gallu gwneud y ddau beth hynny, nid yn unig y bydd y Bil hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd yr wyf yn meddwl y bydd cefnogaeth eang iddi—ac rwy'n credu bod cefnogaeth eang ym mhob rhan o'r Siambr—byddwn hefyd yn gallu llwyddo yn y prawf o ddarparu diogelwch i bobl leol a chymunedau lleol, a sicrhau bod gan y bobl hynny yr hawl, lle bynnag y maent yng Nghymru, i fyw mewn amgylchedd nad yw'n cael ei amharu yn y modd y mae pobl Nantyglo wedi ei ddioddef yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

18:17

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for Natural Resources, Carl Sargeant, to reply to the debate.

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Carl Sargeant, i ymateb i'r ddadl.

18:18

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, acting Presiding Officer. Can I welcome the opportunity for comments made by Members today during this session? Undoubtedly, there are points of detail that, as we progress through the scrutiny process, we'll need to debate further. I'll pick up some of the points that Members have raised specifically, but I just wanted to take the broader point, which I didn't refer to in my opening remarks, about the recommendations from the environment committee. At this point in time, while it's still too early to write back, out of the 51 recommendations, it looks like we're only going to be resisting around five at the current position. So, we have sought to support the majority of the recommendations of the committee.

Diolch i chi, Lywydd dros dro. A gaf i groesawu'r cyfle i Aelodau nodi sylwadau heddiw yn ystod y sesiwn hwn? Yn ddiau, mae manylion, wrth inni symud drwy'r broses graffu, y bydd angen i ni eu trafod ymhellach. Byddaf yn codi rhai o'r pwyntiau y mae Aelodau wedi eu nodi'n benodol, ond roeddwn i eisiau nodi'r pwynt ehangach, na chyfeiriais ato yn fy sylwadau agoriadol, am argymhellion pwyllgor yr amgylchedd. Ar hyn o bryd, er ei bod yn dal yn rhy gynnar i ysgrifennu'n ôl, allan o'r 51 o argymhellion, mae'n ymddangos na fyddwn ond yn gwrthsefyll oddeutu pump yn y sefyllfa bresennol. Felly, rydym wedi ceisio cefnogi y rhan fwyaf o argymhellion y pwyllgor.

Again, I thank the committee Chairs for their positive comments. Can I just pick up on some of the issues that both the Chair of the committee and Bill Powell, I think, raised of bringing us in line around climate change with Scotland and the UK? Can I say I don't agree with the Members on that basis? I think, actually, we're going further than Scotland and the UK are. The description is very clear of enshrining at least an 80 per cent reduction on climate change targets, whereas Scotland and the UK have kept it as an 80 per cent threshold. We have the ability to go beyond that, and it would be certainly my ambition to try and seek to achieve that too.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i Gadeiryddion y pwyllgor am eu sylwadau cadarnhaol. A gaf i godi rhai o'r materion a gododd Cadeirydd y pwyllgor a Bill Powell, rwy'n meddwl, sef dod â ni yn unol â newid yn yr hinsawdd yn yr Alban a'r DU? A gaf i ddweud nad wyf yn cytuno â'r Aelodau ynglŷn â hynny? Rwy'n credu, mewn gwirionedd, ein bod yn mynd ymhellach na'r Alban a'r DU. Mae'r disgrifiad yn glir iawn o ymgorffori o leiaf gostyngiad o 80 y cant ar dargedau newid yn yr hinsawdd, tra bod yr Alban a'r DU wedi ei gadw fel trothwy 80 y cant. Mae gennym ni'r gallu i fynd y tu hwnt i hynny, a byddai'n sicr yn uchelgais i mi i geisio cyflawni hynny hefyd.

Jenny raised many issues and, again, I welcome her comments. One issue I need still to be convinced on is with regard to the carrier bag levy. I do share her view in terms of—. Let's hope that that reduces significantly and, therefore, it would become a non-levy effectively. Other Members, including Jenny, from the committee have made recommendations that we target the finances to an environmental charity. I have a concern that—. The current position is that donations go to many local charities, across many constituencies within Wales, and I certainly am not seeking, as the Minister, to propose that a shopkeeper doesn't give the funds of the levy to, perhaps, the local hospice, or other organisations, or to schools. I am quite keen to ensure that we give as much flexibility as possible. However, I will give that further consideration at the stages through scrutiny, as Members may be able to convince me otherwise.

Cododd Jenny llawer o faterion ac, unwaith eto, rwy'n croesawu ei sylwadau. Un mater yr wyf eto i gael fy argyhoeddi yn ei gylch yw'r ardoll bagiau siopa. Nid ydw i'n rhannu ei barn o ran—. Gadewch i ni obeithio y bydd hynny yn lleihau'n sylweddol ac, felly, na fyddai'n ardoll yn weithredol. Mae aelodau eraill, gan gynnwys Jenny, o'r pwyllgor wedi gwneud argymhellion ein bod yn targedu'r cyllid i elusen amgylcheddol. Mae gen i bryder bod—. Y sefyllfa bresennol yw bod rhoddion yn mynd i nifer o elusennau lleol, ledled nifer o etholaethau yng Nghymru, ac yn sicr nid wyf i'n bwriadu, fel y Gweinidog, cynnig nad yw siopwr yn rhoi arian yr ardoll i, efallai, yr hosbis lleol , neu sefydliadau eraill, neu i ysgolion. Rwyf yn eithaf awyddus i sicrhau ein bod yn rhoi cymaint o hyblygrwydd ag y bo modd. Fodd bynnag, byddaf yn rhoi mwy o ystyriaeth i hynny yn y camau craffu, gan y gallai Aelodau fy argyhoeddi fel arall o bosibl.

The issue that Janet and Russell George raised was around landscapes. Again, I've listened carefully through the scrutiny process and to their current position today. I believe Part 1 of the Bill fully considers the importance of landscapes. There is a dedicated provision within the Bill, recognising the need to consider the role, and scale, and importance of social and cultural aspects. The absence of the word 'landscape' doesn't mean that it isn't considered. I believe we have strong principles within the Bill that do encompass the whole landscape management.

Roedd y mater a godwyd gan Janet a Russell George yn ymwneud â thirweddau. Unwaith eto, yr wyf wedi gwrando'n ofalus drwy'r broses graffu ac ar eu safbwynt presennol heddiw. Rwy'n credu bod Rhan 1 y Bil yn ystyried pwysigrwydd tirweddau yn llawn. Ceir darpariaeth bwrpasol o fewn y Bil, sy'n cydnabod yr angen i ystyried swyddogaeth, graddfa, a phwysigrwydd agweddau cymdeithasol a diwylliannol. Nid yw absenoldeb y gair 'tirwedd' yn golygu nad yw'n cael ei ystyried. Rwy'n credu bod gennym egwyddorion cryf yn y Bil sy'n cwmpasu rheoli tirwedd yn ei gyfanrwydd.

On the issue Janet raised, I share her view with regard to consultation being a very important part of the process, not only within this Bill, but also within the links to the future generations Act. And I think many Members—Jeff, Llyr and yourself—raised the issue of how do we embed this, in terms of one piece of legislation. Across the department, we have introduced the jigsaw—the suite of tools—for managing our natural resources: the Planning (Wales) Act 2015, of course, and the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015.

O ran y mater a gododd Janet, rwyf yn rhannu ei barn o ran bod ymgynghori yn rhan bwysig iawn o'r broses, nid yn unig yn y Bil hwn, ond hefyd o fewn y cysylltiadau â Deddf cenedlaethau'r dyfodol. Ac yr wyf yn meddwl bod llawer o Aelodau—Jeff, Llyr a chithau eich hun—wedi codi'r mater o sut y byddwn yn ymgorffori hyn, mewn un darn o ddeddfwriaeth. Ym mhob rhan o'r adran, rydym wedi cyflwyno'r jig-so—y gyfres o offerynnau—ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol: Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, wrth gwrs, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

The issue of enshrining the targets in the well-being of future generations Act is actually the provision where, now, we have a more collective responsibility, I believe, in terms of public bodies across Wales, in terms of how they respond to all of the goals within the Act. And, therefore, I think it actually strengthens the issues of the environment Bill, as it links together.

Y mater o ymgorffori'r targedau yn y Ddeddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol mewn gwirionedd yw'r ddarpariaeth lle, nawr, mae gennym gyfrifoldeb mwy cyfunol, yn fy marn i, o ran cyrff cyhoeddus ledled Cymru, o ran sut y maent yn ymateb i bob un o'r nodau yn y Ddeddf. Ac, felly, rwy'n credu ei bod mewn gwirionedd yn cryfhau materion Bil yr amgylchedd, gan fod cysylltiad rhyngddynt.

Bill also raised a point around being ambitious—the climate change ambition, I think, he raised in his contribution. I think we are being ambitious. We are the first—I believe—state or region across Europe to introduce carbon budgeting and the ecosystem approach in our legislation. No other country has done this. I think that shows our ambition in terms of dealing with the very eloquently posed position of the risk to climate change, and the future.

Cododd Bill bwynt hefyd ynghylch bod yn uchelgeisiol—yr uchelgais newid yn yr hinsawdd, rwy'n meddwl, a gododd yn ei gyfraniad. Rwyf i'n credu ein bod yn uchelgeisiol. Ni yw'r wladwriaeth neu ranbarth cyntaf ledled Ewrop—rwy'n credu—i gyflwyno cyllidebu carbon a'r dull ecosystem yn ein deddfwriaeth. Nid oes unrhyw wlad arall wedi gwneud hyn. Credaf fod hynny'n dangos ein huchelgais o ran ymdrin â'r sefyllfa a fynegwyd yn huawdl iawn o ran y risg i newid yn yr hinsawdd, a'r dyfodol.

The other points that were raised during the debate: one, particularly, was raised by a few Members, regarding the consenting process. I'm very happy to share the letters and the correspondence that we have had with the UK Government. But, I'm surprised at some of the comments made by Members. Let me just remind Members of that process again. The First Minister wrote to the Secretary of State on 1 April 2015 to formally request the consents, prior to the introduction of the Bill, and that followed on from many months of discussion, prior, with the UK Government with regard to that. I found it surprising that, during that timescale, we had the opportunity—or, certainly, the UK Government had the opportunity—to be reasonable in the aspect of confirming positively or negatively prior to the general election. I don't find that an issue that we were responsible for. Unfortunately, the UK Government failed to respond to our requests. I'm more than happy, although I do share Members' concerns that that may not have been as clear as it could be to Members. I will share that correspondence with them, so as to outline the important principles of the opportunities we gave to the UK Government to give us clarity, prior to the launch of the Bill.

Y pwyntiau eraill a godwyd yn ystod y ddadl: un, yn arbennig, a godwyd gan sawl Aelod, am y broses gydsynio. Rwy'n hapus iawn i rannu'r llythyron a'r ohebiaeth yr ydym wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU. Ond, rwy'n synnu at rai o'r sylwadau a wnaed gan Aelodau. Gadewch i mi atgoffa Aelodau o'r broses honno eto. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Ebrill 2015 i wneud cais ffurfiol am y cydsyniadau, cyn cyflwyno'r Bil, ac roedd hynny yn dilyn ymlaen o'r misoedd lawer o drafod, yn flaenorol, gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hynny. Roedd yn syndod i mi, yn ystod yr amserlen honno, ein bod wedi cael cyfle—neu, yn sicr, bod Llywodraeth y DU wedi cael y cyfle—i fod yn rhesymol o ran cadarnhau yn gadarnhaol neu'n negyddol cyn yr etholiad cyffredinol. Nid wyf yn gweld bod hwnnw yn fater yr oeddem ni'n gyfrifol amdano. Yn anffodus, methodd Llywodraeth y DU ag ymateb i'n ceisiadau. Rwy'n fwy na bodlon, er fy mod yn rhannu pryderon yr Aelodau, nad oedd hynny mor eglur ag y gallai fod i'r Aelodau. Byddaf yn rhannu'r ohebiaeth gyda hwy, er mwyn amlinellu'r egwyddorion pwysig o'r cyfleoedd a roddwyd gennym i Lywodraeth y DU i roi eglurder i ni, cyn lansio'r Bil.

Finally, as I said, we've—. Sorry, I'll pick up just on Alun Davies's points. He's absolutely right: the issue of environmental permitting, there is an expectation by the public that, when we have regulations, and a body that manages these processes—[Inaudible.]—as he's alluded to in his own constituency, it does trouble me. Indeed, I met with Natural Resources Wales today, to look at the lessons learned from experiences, such as the one that the Member raised with me, to see whether we need to bring forward primary legislation—include it in this Bill—or secondary legislation, which we can attach to this process, and to see if we can strengthen the opportunity for NRW to be much more robust in their actions with organisations that fail to comply.

Yn olaf, fel y dywedais, rydym—. Mae'n ddrwg gennyf, rwyf am godi pwyntiau Alun Davies. Mae ef yn llygad ei le: y mater o gydsyniad amgylcheddol, mae disgwyliad gan y cyhoedd, pan fo gennym reoliadau, a chorff sy'n rheoli'r prosesau hyn—[ Anghlywadwy.] —fel y mae wedi cyfeirio ato yn ei etholaeth ei hun, mae hyn yn fy mhoeni i. Yn wir, cefais gyfarfod â Chyfoeth Naturiol Cymru heddiw, i edrych ar y gwersi a ddysgwyd o brofiadau, fel yr un a gododd yr Aelod gyda mi, er mwyn gweld pa un a oes angen i ni gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol—a'i chynnwys yn y Bil hwn—neu ddeddfwriaeth eilaidd , y gallwn ei chysylltu â'r broses hon, ac i weld a allwn ni gryfhau'r cyfle i Gyfoeth Naturiol Cymru fod yn llawer mwy cadarn yn eu camau gweithredu gyda sefydliadau sy'n methu â chydymffurfio.

I'm pleased to acknowledge the reports from all of the committees. It's been a very interesting process or the start of the scrutiny, but I think we can strengthen this Bill with the comments made by Members and with the evidence that's been provided through committee. I look forward to further debate during Stage 2 scrutiny and I ask Members to approve the motion and agree the general principles of the Environment (Wales) Bill today.

Rwy'n falch o gydnabod yr adroddiadau gan bob un o'r pwyllgorau. Mae wedi bod yn broses ddiddorol iawn ar gyfer dechrau ar y craffu, ond rwy'n meddwl y gallwn ni gryfhau'r Bil hwn gyda'r sylwadau a wnaed gan Aelodau a chyda'r dystiolaeth sydd wedi ei darparu drwy'r pwyllgorau. Edrychaf ymlaen at ddadl bellach yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 a gofynnaf i'r Aelodau gymeradwyo'r cynnig a chytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil yr Amgylchedd (Cymru) heddiw.

18:25 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:26

## 10. Dadl ar Benderfyniad Ariannol Bil yr Amgylchedd (Cymru)

## 10. Debate on the Financial Resolution of the Environment (Wales) Bill

Senedd.tv Fideo Video

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

We now move to the debate on the financial resolution of the Environment (Wales) Bill and I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at y ddadl ar benderfyniad ariannol Mesur yr Amgylchedd (Cymru) a galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i symud y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5850 Jane Hutt

Motion NDM5850 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil yr Amgylchedd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Environment (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69, arising in consequence of the Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:26

### Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Formally.

Yn ffurfiol.

18:26

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, therefore, I call on the Minister for Natural Resources to—. Well, he can't reply to the debate, can he? [Laughter.]

Nid oes gennyf siaradwyr, felly, galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i—. Wel, ni all ef ymateb i'r ddadl, na all? [Chwerthin.]

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36. We now move to item 11.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae'r cynnig wedi ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Symudwn yn awr at eitem 11.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 18:26.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 18:26.*

18:26

## 11. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

## 11. Stage 4 Debate on the Local Government (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That item 11 is the Stage 4 debate on the Local Government (Wales) Bill. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Eitem 11 yw dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5855 Leighton Andrews

Motion NDM5855 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

Approves the Local Government (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

18:26

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Deputy Presiding Officer, I'd like to begin by thanking the Chairs and members of the Communities, Equality and Local Government Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee, as well as other Members who have contributed to the scrutiny of the Local Government (Wales) Bill. I'm also grateful to all stakeholders who responded to the consultation and contributed evidence to the scrutiny process.

Ddirprwy Lywydd, hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Cadeiryddion ac aelodau y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r Pwyllgor Cyllid, yn ogystal ag Aelodau eraill sydd wedi cyfrannu at graffu ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r holl randdeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a gyfrannodd dystiolaeth i'r broses graffu.

I'd like to thank my predecessor, Lesley Griffiths, for initiating a response to the report of the Commission on Public Service Governance and Delivery and for her early involvement in the development of this Bill and the first in the series of White Papers on reforming local government, which began the process of shaping our vision for the future of local government in Wales. I also extend my thanks to my officials and to Assembly Commission staff for their support throughout the Bill process.

Hoffwn ddiolch i fy rhagflaenydd, Lesley Griffiths, am gychwyn yr ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac am ei chyfranogiad cynnar yn natblygiad y Bil hwn a'r cyntaf yn y gyfres o Bapurau Gwyn ynglŷn â diwygio llywodraeth leol, a ddechreuodd y broses o lunio ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Rwyf hefyd yn estyn fy niolch i fy swyddogion ac i aelodau staff Comisiwn y Cynulliad am eu cefnogaeth drwy gydol proses y Bil.

Deputy Presiding Officer, two political parties provide leadership for the bulk of local authorities in Wales. I want to thank the Plaid Cymru spokesperson for constructive discussions on the way forward for this legislation.

Ddirprwy Lywydd, dwy blaid wleidyddol sy'n darparu arweinyddiaeth ar gyfer y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Hoffwn ddiolch i lefarydd Plaid Cymru am y trafodaethau adeiladol ynglŷn â'r ffordd ymlaen ar gyfer y ddeddfwriaeth hon.

As I have explained throughout the scrutiny process, this is the first of two Bills to deliver our agenda for local government reform. Understandably, there is much interest in the future shape and role of local government in Wales. In February, I set out our proposals for the reform of local government in the 'Reforming Local Government: Power to Local People' White Paper. Over 700 responses were received to this consultation and over 3,000 people shared their views through the online survey. The responses received are helping to shape the drafting of the second local government Bill, which I will publish for consultation later this autumn.

Fel yr wyf wedi egluro drwy gydol y broses graffu, hwn yw'r cyntaf o ddau Fil i gyflawni ein hagenda ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Yn ddealladwy, mae llawer o ddiddordeb ynglŷn â ffurf a swyddogaeth llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol. Ym mis Chwefror, gosodais ein cynigion ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'. Derbyniwyd dros 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a rhannodd dros 3,000 o bobl eu barn drwy'r arolwg ar-lein. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd yn helpu i lywio'r broses o ddrafftio'r ail Fil llywodraeth leol, y byddaf yn ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddarach yr hydref hwn.

At the same time, we will consult on our preferred future configuration of local government, based on eight or nine local authorities, the details of which I published in June. Consultation on the draft second Bill will present a further opportunity for everyone in Wales to contribute their views.

Ar yr un pryd, byddwn yn ymgynghori ar y cyfluniad a ffefrir gennym o ran llywodraeth leol yn y dyfodol, yn seiliedig ar wyth neu naw o awdurdodau lleol, a chyhoeddais fanylion hynny ym mis Mehefin. Bydd ymgynghori ar yr ail Fil drafft yn cyflwyno cyfle arall i bawb yng Nghymru i gyfrannu eu safbwyntiau.

Our focus today, however, is the first local government Bill currently before the Assembly. This Bill enables important preparatory work to be commenced, ahead of the full merger and reform programme. Without this Bill, the process of reorganisation would be more rushed, haphazard and susceptible to the kind of abuses that have characterised previous reorganisations, such as in the 1990s.

Ein pwyslais ni heddiw, fodd bynnag, yw'r Bil llywodraeth leol cyntaf sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae'r Bil hwn yn galluogi gwaith paratoadol pwysig i gael ei ddechrau, cyn y rhaglen lawn ar gyfer uno a diwygio. Heb y Bil hwn, byddai'r broses o ad-drefnu yn fwy brysiog, yn fwy anhrefnus ac yn fwy agored i'r math o gamarfer a oedd yn nodweddu ad-drefnu blaenorol, fel yn y 1990au.

The Bill provides for the establishment of transition committees to ensure that essential planning and preparations will take place as early as possible. The Bill will enable the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to undertake electoral arrangements reviews for proposed new authority areas, so that the new authorities are elected on the basis of proposals put forward by the independent body responsible for such matters.

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio er mwyn sicrhau bod cynllunio hanfodol a pharatoadau yn digwydd mor gynnar â phosib. Bydd y Bil yn galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i gynnal arolygon o drefniadau etholiadol mewn ardaloedd awdurdodau newydd arfaethedig, fel bod yr awdurdodau newydd yn cael eu hethol ar sail cynigion a gyflwynwyd gan y corff annibynnol sy'n gyfrifol am faterion o'r fath.

The Bill will enable the Independent Remuneration Panel for Wales to make determinations on councillor pay and allowances in respect of shadow authorities and proposed new principal local authorities. Importantly, the Bill will also enable the Welsh Ministers to implement a regime for limiting the scope for negative behaviour by existing authorities in the run—up to merger by requiring them to seek the opinion or consent of a designated person, such as a transition committee, a shadow authority or the Welsh Ministers, before undertaking restrictive activities. These include the recruitment of senior staff, entering contracts, land acquisitions or disposals, financial assistance, and planned use of reserves when setting budgets. Whilst we look to authorities to act responsibly, previous experience of local government reorganisation points to the importance of having these powers at our disposal. Although the timetable would be challenging, the Bill also enables us to consider proposals for voluntary merger of authorities should any applications come forward.

Bydd y Bil yn galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wneud penderfyniadau ar gyflog a lwfansau cynghorwyr o ran awdurdodau cysgodol a phrif awdurdodau lleol newydd arfaethedig. Yn bwysig, bydd y Bil hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu trefn i gyfyngu ar y posibilrwydd o ymddygiad negyddol gan awdurdodau presennol yn y cyfnod sy'n arwain at uno drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt geisio barn neu gydsyniad person dynodedig, megis pwyllgor pontio, awdurdod cysgodol neu Weinidogion Cymru, cyn ymgymryd â gweithgareddau cyfyngol. Mae'r rhain yn cynnwys recriwtio uwch aelodau staff, cytuno contractau, caffael neu waredu tir, cymorth ariannol, a defnydd a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn wrth osod cyllidebau. Er ein bod ni'n disgwyl i awdurdodau ymddwyn yn gyfrifol, mae profiad blaenorol o ad-drefnu llywodraeth leol yn nodi'r pwysigrwydd o gael y pwerau hyn ar gael i ni. Er y byddai'r amserlen yn heriol, mae'r Bil hefyd yn ein galluogi i ystyried cynigion ar gyfer uno gwirfoddol rhwng awdurdodau os bydd unrhyw geisiadau yn cael eu cyflwyno.

None of the provisions in the Bill preclude the next Government from taking a different approach to aspects of the reform process should it so wish. We accept the Assembly elections in May 2016 will provide the necessary mandate for the next Welsh Government to proceed at pace with local government reform. The Bill, when enacted, will give the next Government the necessary tools to begin work immediately on the model and footprints for such reforms as voted for by the electorate. We recognise that such reforms, under a new Welsh Government, may include alternative delivery models and electoral arrangements other than those currently proposed. The current Welsh Government will therefore hold the powers given in this Bill to Ministers to issue instructions to the boundary commission on specific electoral reviews in abeyance until a Government is formed after the next Assembly election.

Nid oes yr un o'r darpariaethau yn y Bil yn atal y Llywodraeth nesaf rhag defnyddio dull gwahanol ar gyfer agweddau ar y broses ddiwygio pe byddai'n dymuno gwneud hynny. Rydym yn derbyn y bydd etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016 yn darparu'r mandad angenrheidiol i Lywodraeth nesaf Cymru symud ymlaen yn gyflym o ran diwygio llywodraeth leol. Bydd y Bil, pan ddaw i rym, yn rhoi'r offer angenrheidiol i'r Llywodraeth nesaf ddechrau gweithio ar unwaith ar y model a'r trefniadau ar gyfer y diwygiadau y bydd yr etholwyr wedi pleidleisio drostynt. Rydym yn cydnabod y gall diwygiadau o'r fath, o dan Lywodraeth newydd yng Nghymru, gynnwys modelau darparu amgen a threfniadau etholiadol sy'n wahanol i'r rhai a gynigir ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth bresennol Cymru, felly, yn cadw'r pwerau a roddir yn y Bil hwn i Weinidogion i gyflwyno cyfarwyddiadau i'r comisiwn ffiniau ar adolygiadau etholiadol penodol yn anarferedig hyd nes y bydd Llywodraeth yn cael ei ffurfio ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad.

During scrutiny of the Bill, we were unable to support opposition amendments that sought to impose duties on the Welsh Ministers and local authorities in respect of certain Welsh language arrangements. As I set out at Stages 2 and 3, whilst we support the principle of those amendments, they sought to address factors already covered by the Welsh language standards. However, I recognise that local authorities, along with others, have a vital role in the delivery of services through the medium of Welsh, in the economic development of predominantly Welsh—speaking areas, and in strengthening the daily use of the Welsh language in the workplace and in the wider community. I propose, therefore, to establish a task and finish group to explore best practice in the use of Welsh in the administration of local government and on the role of local government as a facilitator of economic development in the predominantly Welsh—speaking areas of west and north—west Wales in particular.

Yn ystod y gwaith craffu ar y Bil, nid oeddem yn gallu cefnogi gwelliannau'r gwrthbleidiau a oedd yn ceisio gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol o ran trefniadau penodol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Fel y nodais yng Nghyfnodau 2 a 3, er ein bod yn cefnogi egwyddor y gwelliannau hynny, roeddent yn ceisio mynd i'r afael â ffactorau a oedd eisoes wedi'u cwmpasu gan Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol, ynghyd ag eraill, ran hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn natblygiad economaidd ardaloedd lle y siaredir y Gymraeg yn bennaf, ac mewn cryfhau'r defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach. Rwyf yn bwriadu, felly, sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio arfer gorau o ran defnyddio'r Gymraeg wrth weinyddu llywodraeth leol ac o ran swyddogaeth llywodraeth leol i hwyluso datblygiad economaidd yn yr ardaloedd sy'n siarad y Gymraeg yn bennaf yn y gorllewin ac yn y gogledd-orllewin yn arbennig.

Deputy Presiding Officer, in summary, this Bill begins the process of significant local government reform in Wales. It lays the groundwork and, with the second Bill, to be introduced after the 2016 Assembly elections, will ensure that the next Welsh Government can move quickly to implement these important reforms. Let no—one in local government now doubt that reform is coming and reorganisation will happen.

Ddirprwy Lywydd, yn gryno, mae'r Bil hwn yn dechrau'r broses o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru yn sylweddol. Mae'n gosod y sylfaen a, gyda'r ail Fil, sydd i'w gyflwyno ar ôl etholiadau'r Cynulliad yn 2016, bydd yn sicrhau y gall Llywodraeth nesaf Cymru symud yn gyflym i weithredu'r diwygiadau pwysig hyn. Peidied â gadael i neb mewn llywodraeth leol amau bellach bod diwygio ar y gorwel, ac y bydd ad-drefnu yn digwydd.

18:32

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Deputy Presiding Officer, just two weeks ago, the Welsh Labour Government were running scared, regretting their own lack of consultation over this heavily flawed Bill, regretting their callous dismissal of really meaningful opposition amendments, and regretting a lack of earlier engagement across this Chamber. That Labour had to go begging, cap in hand, for opposition votes just goes to show that their faith in this Bill had wavered. Now, barely 72 hours after criticising Labour at the SNP conference, we understand that Plaid Cymru have rolled over and have done a deal with this Government, and all this at a cost of local democracy and accountability. According to their latest press release, Plaid Cymru has stopped Labour from forcing centralisation of local government without any mandate. What utter rubbish. There wasn't any democratic mandate until you decided to play with them. I'd like to ask the spokesperson for Plaid just how you've achieved this. How and why have you sold out on our front—line workers, our elected members and our residents? Plaid Cymru say they will push out Welsh Labour in May of next year, and yet today you prop them up. Shame on you, Plaid Cymru. This astonishing hypocrisy shows absolute blatant disregard for our Welsh communities, and now just goes to prove: next May, vote Plaid, get Labour.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Ddirprwy Lywydd, dim ond pythefnos yn ôl, roedd Llywodraeth Lafur Cymru yn byw mewn ofn, yn difaru eu diffyg ymgynghori eu hunain ynglŷn â'r Bil diffygiol iawn hwn, yn difaru eu gwrthodiad dideimlad o welliannau gwirioneddol ystyrlon gan y gwrthbleidiau, ac yn difaru peidio ag ymgysylltu yn gynharach ar draws y Siambr hon. Mae'r ffaith y bu'n rhaid i'r Blaid Lafur fynd i ymbil, a'i chap yn ei llaw, am bleidleisiau'r gwrthbleidiau yn dangos bod eu ffydd yn y Bil hwn wedi edwino. Nawr, dim ond 72 awr ar ôl beirniadu Llafur yn y gynhadledd SNP, rydym ar ddeall bod Plaid Cymru wedi ildio a dod i gytundeb â'r Llywodraeth hon, a bod hyn i gyd ar draul democratiaeth ac atebolrwydd lleol. Yn ôl eu datganiad diweddaraf i'r wasg, mae Plaid Cymru wedi atal Llafur rhag gorfodi canoli llywodraeth leol heb unrhyw fandad. Mae hynny'n sothach llwyr. Nid oedd unrhyw fandad democrataidd yn bodoli cyn i chi benderfynu chwarae gyda nhw. Hoffwn ofyn i lefarydd Plaid yn union sut yr ydych chi wedi cyflawni hyn. Sut a pham yr ydych chi wedi bradychu ein gweithwyr rheng flaen, ein haelodau etholedig a'n trigolion? Mae Plaid Cymru yn dweud y byddant yn gwthio Llafur Cymru allan ym mis Mai y flwyddyn nesaf, ac eto, rydych chi heddiw yn cynnal y blaid honno. Rhag eich cywilydd, Plaid Cymru. Mae'r rhagrith syfrdanol hwn yn dangos diystyrwch cwbl ddigywilydd tuag at ein cymunedau Cymraeg, ac mae'n profi'r ffaith: mis Mai nesaf, os byddwch chi'n pleidleisio dros Plaid, Llafur fyddwch chi'n ei gael.

Now, unlike Plaid Cymru, who, just like Labour, are endorsing the centralisation of our locally delivered services, the Welsh Conservatives will continue to oppose the Welsh Labour Government's forced mergers. We shall continue to stand up for the diverse and natural cultures that exist within our proud communities here in Wales, and we have been very clear from the beginning: where councils can work together, share services and save money, they have the absolute backing and support of Welsh Conservatives, but not before our local communities have had their say and influence. Therefore, we will continue to call for transparent and viable democracy, to ensure communities have the final say in any merger decision via a referendum.

Nawr, yn wahanol i Blaid Cymru, sydd, yn union fel y Blaid Lafur, yn cymeradwyo canoli ein gwasanaethau a ddarperir yn lleol, bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn parhau i wrthwynebu uno gorfodol Llywodraeth Lafur Cymru. Byddwn yn parhau i sefyll yn gadarn dros y diwylliannau amrywiol a naturiol sy'n bodoli yn ein cymunedau balch yma yng Nghymru, ac rydym ni wedi bod yn glir iawn o'r dechrau: pan fo cynghorau yn gallu cydweithio, rhannu gwasanaethau ac arbed arian, byddant yn cael cefnogaeth ddiamod Ceidwadwyr Cymru, ond nid cyn bod ein cymunedau lleol wedi cael dweud eu dweud a dylanwadu. Felly, byddwn yn parhau i alw am ddemocratiaeth dryloyw a hyfyw, i sicrhau bod cymunedau yn cael y gair olaf o ran unrhyw benderfyniad i uno drwy refferendwm.

Now, that both Labour and Plaid are happy for this Bill to progress without a number of committee—recommended amendments will be of great concern to the people of Wales: for example, the recommendation of the Constitutional and Legislative Affairs Committee that any guidance should be subject to the negative procedure, the recommendation of the Communities, Equality and Local Government Committee to include provision in the Bill to require local government to follow the code of practice on workforce matters, and the recommendation of the same committee and the Auditor General for Wales to amend the Public Audit (Wales) Act 2004. It really does beg the question: what is the point of taking evidence in committee when the Chair can use a casting vote against any resulting non—party—political recommendations? We have not seen any cost—benefit analysis, risk and redundancy analysis, impact assessment for this Welsh Labour Government's reorganisation proposals—and now Plaid Cymru giving in to supporting the Minister's proposed reorganisation, for which there is no evidential cost saving or solid business case.

Nawr, bydd y ffaith fod Llafur a Phlaid Cymru yn fodlon i'r Bil hwn symud yn ei flaen heb nifer o welliannau a argymhellwyd gan bwyllgorau yn achos pryder mawr i bobl Cymru: er enghraifft, argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai unrhyw ganllawiau fod yn amodol ar y weithdrefn negyddol, argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gynnwys darpariaeth yn y Bil a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol ddilyn y cod ymarfer ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu, ac argymhelliad gan yr un pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae hyn wir yn gofyn y cwestiwn: beth yw pwrpas cymryd tystiolaeth mewn pwyllgor pryd y gall y Cadeirydd ddefnyddio pleidlais fwrw yn erbyn unrhyw argymhellion canlyniadol nad ydynt yn berthnasol i blaid wleidyddol? Nid ydym wedi gweld unrhyw ddadansoddiad o gost a budd, dadansoddiad o risg a diswyddo, nac asesiad o effaith ar gyfer cynigion ad-drefnu y Llywodraeth Lafur Cymru hon—ac mae Plaid Cymru bellach yn ildio i gefnogi ad-drefnu arfaethedig y Gweinidog, pan nad oes unrhyw dystiolaeth o arbed costau nac achos busnes cadarn .

I would ask the Minister: what about the £151 million highlighted by the KPMG, pre any merger, that could be saved with backroom facilities? You're doing nothing on that whatsoever. There has been no action on working to achieve these attainable savings. Now, we'd all like to see Labour focusing on achieving these, rather than forcing through this rushed and untested reorganisation model. The Welsh Labour Government's approach to reorganising local government is piecemeal at best and is bizarre. And that we're finally debating this Bill today, when the Minister has outright rejected all three voluntary merger proposals —and that was a criticism levelled by Plaid Cymru earlier this year in the strongest terms. What was it that you said, the spokesman for Plaid Cymru? That, really, they were really taking the 'p' out of this Assembly. [Assembly Members: 'Oh.']

Gofynnaf i'r Gweinidog: beth am y £151 miliwn a amlygwyd gan y KPMG, cyn unrhyw uno, y gellid ei arbed drwy gyfleusterau cefndirol? Nid ydych yn gwneud dim byd o gwbl ynglŷn â hynny. Ni wnaed unrhyw gamau tuag at weithio i gyflawni'r arbedion cyraeddadwy hyn. Nawr, byddem ni gyd yn dymuno gweld Llafur yn canolbwyntio ar gyflawni'r rhain, yn hytrach na mynnu bod y model ad-drefnu brysiog hwn nad yw wedi ei brofi yn cael ei basio. Mae dull Llywodraeth Lafur Cymru o ad-drefnu llywodraeth leol yn dameidiog ar y gorau, ac mae'n rhyfedd iawn. Ac rydym ni o'r diwedd yn trafod y Bil hwn heddiw, pan fo'r Gweinidog wedi gwrthod pob un o'r tri chynnig ar uno gwirfoddol yn llwyr—a beirniadwyd hynny'n gryf iawn gan Blaid Cymru yn gynharach eleni. Beth oedd yr hyn a ddywedasoch, llefarydd Plaid Cymru? Eu bod mewn gwirionedd, yn cymryd y 'p' o'r Cynulliad hwn. [Aelodau'r Cynulliad: 'O.'.]

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

18:37

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You've changed. You had a sea change on that one— [Interruption.]

Rydych chi wedi newid. Rydych chi wedi newid yn sylweddol ar hynna— [Torri ar draws.]

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, please. [Interruption.] Order.

Trefn, os gwelwch yn dda. [Torri ar draws.]Trefn.

18:37

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With two options on the table for north Wales— [Interruption.]

Mae dau ddewis ar y bwrdd ar gyfer y gogledd [Torri ar draws.]

18:37

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. We should have pungent and full debate, even at Stage 4. It's important that principles that parties have adopted are clearly laid out, but, you know, there is a minimum required for decorum, and I know, sometimes, when you're speaking, one can get carried away or lose that perfect phrase, but, please, let's—[Laughter.] Well, I think we're all guilty of that sometimes, so, please. Now, move to a conclusion and do so in appropriately moderate terms.

Trefn. Dylem gael dadl lem a llawn, hyd yn oed yng Nghyfnod 4. Mae'n bwysig bod yr egwyddorion y mae partïon wedi'u mabwysiadu yn cael eu cyflwyno'n glir, ond, wyddoch chi, mae'r hyn sydd o leiaf yn ofynnol ar gyfer gwedduster, ac rwyf yn gwybod, weithiau, pan eich bod yn siarad, gall rhywun fynd dros ben llestri neu golli'r ymadrodd perffaith hwnnw, ond, os gwelwch yn dda, beth am— [Chwerthin.] Wel, rwyf yn meddwl ein bod ni i gyd yn euog o hynny weithiau, felly, os gwelwch yn dda. Nawr, symudwch i gasgliad, a gwnewch hynny mewn termau sy'n briodol o gymedrol.

18:38

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Okay. I was just quoting, and I didn't use the full word, by the way. [Laughter.]

With two options on the table for north Wales, I certainly hope that Plaid's hypocritical support for this Bill will not see my own constituency of Conwy forced into a merger that residents, communities and the council are firmly against, and one that could see our own authority centralised beyond any belief. We do continue to hold real concerns about the lack of proper scrutiny that this Bill allows for. We will not be supporting this Bill today, and we will vote against this hasty and piecemeal approach to local government reorganisation. Let there be no doubt where the Welsh Conservatives stand, and that is very much on the side of the communities who we serve.

Iawn. Dim ond dyfynnu oeddwn i, a wnes i ddim defnyddio'r gair llawn, gyda llaw. [Chwerthin.]

Gyda dau ddewis ar y bwrdd ar gyfer y gogledd, rwyf yn sicr yn gobeithio na fydd cefnogaeth ragrithiol Plaid Cymru i'r Bil hwn yn gweld fy etholaeth i yng Nghonwy yn cael ei gorfodi i dderbyn uno y mae trigolion, cymunedau a'r cyngor yn llwyr yn ei erbyn, ac uno a allai weld ein hawdurdod ni yn cael ei ganoli i'r graddau na ellir ei gredu. Rydym ni'n parhau i fod â phryderon gwirioneddol ynghylch y diffyg craffu priodol a ganiateir gan y Bil hwn. Ni fyddwn ni'n cefnogi'r Bil hwn heddiw, a byddwn yn pleidleisio yn erbyn y dull brysiog a thameidiog hwn tuag at ad-drefnu llywodraeth leol. Gadewch inni fod yn glir ble mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn sefyll, ac mae hynny'n bendant ar ochr y cymunedau yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

18:38

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Plaid Cymru will be allowing Stage 4 of the Bill to proceed today. We do that from a position of leadership in five authorities—we lead three and are in a position of leadership in the other two. And we do that, not because we agree with the Labour Party's map, and not because we agree with the Labour Party's electoral proposals, but we agree that there needs to be reform for local government, and, if we become the next Government next May, we will use this Bill, which we pass here tonight, to enact our reforms and our vision of local government. But at least we have a vision. At least we know where we are. I heard nothing from the Conservative benches opposite of any vision for local government at all, and the rank hypocrisy on the day that the Westminster Conservative MPs are voting for tax credit cuts for the poorest workers in Wales, to come here and talk about front—line services and front—line workers—rank hypocrisy.

Bydd Plaid Cymru yn caniatáu i Gam 4 y Bil i fynd yn ei flaen heddiw. Rydym ni'n gwneud hynny o sefyllfa o arweinyddiaeth mewn pum awdurdod—rydym yn arwain tri ac mewn sefyllfa o arweinyddiaeth yn y ddau arall. Ac rydym ni'n gwneud hynny, nid am ein bod yn cytuno â map y Blaid Lafur, ac nid oherwydd ein bod yn cytuno â chynigion etholiadol y Blaid Lafur, ond rydym ni yn cytuno bod angen diwygio llywodraeth leol, ac, os mai ni fydd y Llywodraeth nesaf ym mis Mai y flwyddyn nesaf , byddwn yn defnyddio'r Bil hwn, yr ydym yn ei basio yma heno, i weithredu ein diwygiadau a'n gweledigaeth ni o lywodraeth leol. Ond o leiaf mae gennym weledigaeth. O leiaf rydym yn gwybod ble yr ydym. Ni chlywais unrhyw beth o feinciau'r Ceidwadwyr gyferbyn am unrhyw weledigaeth ar gyfer llywodraeth leol o gwbl, ac mae'n rhagrith llwyr ar y diwrnod y mae Aelodau Seneddol Ceidwadol San Steffan yn pleidleisio dros doriadau credyd treth i'r gweithwyr tlotaf yng Nghymru, i ddod i'r fan yma a siarad am wasanaethau rheng flaen a gweithwyr rheng flaen—rhagrith llwyr.

18:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. I let the first to go because, I think, I didn't quite catch the Conservative spokesperson when she used a similar phrase. If it happens occasionally—I mean, I don't want to interrupt debate constantly, but I don't want the 'hypocrisy' word used frequently, and it should never be used of a particular individual because that really would bring the full wrath of the Chair upon whichever Member offended in that way. But, please, there are ways of describing inconsistencies as you see them without using the 'h' bomb. Simon Thomas.

Trefn, trefn. Ni thynnais sylw at y tro cyntaf oherwydd, rwyf yn credu, nad oeddwn i wedi deall llefarydd y Ceidwadwyr yn llawn pan ddefnyddiodd hi eiriau tebyg. Os yw'n digwydd o bryd i'w gilydd—hynny yw, nid wyf eisiau torri ar draws y ddadl o hyd, ond nid wyf yn dymuno gweld y gair 'rhagrith' yn cael ei ddefnyddio'n aml, ac ni ddylid byth ei ddefnyddio i ddisgrifio unigolyn penodol oherwydd byddai hynny wir yn golygu y byddai pa bynnag Aelod a fyddai'n tramgwyddo yn y modd hwnnw dan lach y Cadeirydd yn llwyr. Ond, os gwelwch yn dda, mae modd o ddisgrifio'r anghysondebau fel yr ydych chi yn eu gweld nhw heb ddefnyddio'r bom 'h'. Simon Thomas.

18:40 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. What a felicitous way of putting it—'inconsistencies as we perceive them'. And, of course, it wasn't the Member I was referring to, but the whole party—the whole party are condemned by these words.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Dyna ffordd ddedwydd o'i fynegi—'anghysondebau fel yr ydym ni yn eu gweld nhw '. Ac, wrth gwrs, nid oeddwn i'n cyfeirio at yr Aelod, ond y parti cyfan—mae'r parti cyfan yn cael eu condemnio drwy'r geiriau hyn.

Plaid Cymru's vision is very different for local government. We will be working with combined authorities; we will be working in grouping authorities. My colleague, Elin Jones, made a very crucial and important contribution last week to the debate around the future of health boards in Wales, and how we can take primary and social care together and operate those in the hands of the original vision of Aneurin Bevan in operating at a local authority level. And I think we can work with that grain of change. We can work with that reform agenda. But, in order for that to happen, somebody has to give a mandate for a party to do that here. I accept that we have not, as Plaid Cymru, had a mandate for full local government reform. Neither has the party opposite—the Labour Party—they took a mandate for a commission in their manifesto. Certainly, the party there has no mandate at all for local government reform. We will seek that mandate in May, and whichever party wins the election will then be in a position to enact its reform agenda for local government. But reform must come. We have allowed ourselves to debate national government without addressing regional and local government enough here in Wales. Plaid Cymru's prepared to do that, and we're also prepared to support legislation that will give us the tools to achieve it on the ground.

Mae gweledigaeth Plaid Cymru ar gyfer llywodraeth leol yn wahanol iawn. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cyfunol; byddwn yn gweithio mewn awdurdodau grwpio. Gwnaeth fy nghyd-Aelod, Elin Jones, cyfraniad hanfodol a phwysig iawn yr wythnos diwethaf i'r ddadl ynghylch dyfodol byrddau iechyd yng Nghymru, a sut y gallwn gymryd gofal sylfaenol a chymdeithasol gyda'i gilydd a'u gweithredu yn nwylo gweledigaeth wreiddiol Aneurin Bevan wrth weithredu ar lefel awdurdodau lleol. Ac rwyf yn credu y gallwn ni weithio gyda'r graen hwnnw o newid. Gallwn weithio gyda'r agenda ddiwygio honno. Ond, er mwyn i hynny ddigwydd, mae'n rhaid i rywun roi mandad i barti i wneud hynny yma. Rwyf yn derbyn nad ydym ni, Plaid Cymru, wedi cael mandad ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn llawn. Nid yw'r blaid gyferbyn ychwaith—y Blaid Lafur—cymeron nhw fandad ar gyfer comisiwn yn eu maniffesto. Yn sicr, nid oes gan y parti yn y fan yna unrhyw fandad o gwbl ar gyfer diwygio llywodraeth leol. Byddwn ni'n ceisio cael y mandad hwnnw ym mis Mai, a bydd pa bynnag blaid a fydd yn ennill yr etholiad wedyn mewn sefyllfa i weithredu ei hagenda ddiwygio ar gyfer llywodraeth leol. Ond mae'n rhaid i ddiwygiad ddod. Rydym ni wedi caniatáu i ni ein hunain drafod llywodraeth genedlaethol heb fynd i'r afael yn ddigonol â llywodraeth ranbarthol a lleol yma yng Nghymru. Mae Plaid Cymru yn barod i wneud hynny, ac rydym ni hefyd yn barod i gefnogi deddfwriaeth a fydd yn rhoi'r offer inni gyflawni hynny ar lawr gwlad.

So, local government reform is a matter for the elections in May, and, by achieving what we've done today, we will ensure that nothing is done that will thwart the ambitions of an incoming Government if it is different to the Labour Government. A different map; different electoral arrangements—I hope that there can be a consensus in this place around the single transferrable vote after the next election. We will be working in the elections to put that forward. We think that's the biggest reform agenda for new blood and new energy in local government, as well as taking authorities forward.

Felly, mae diwygio llywodraeth leol yn fater i'r etholiadau ym mis Mai, a, thrwy gyflawni'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud heddiw, byddwn yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud a fydd yn rhwystro uchelgais y Llywodraeth nesaf os bydd yn wahanol i'r Llywodraeth Lafur. Gwahanol fap; gwahanol drefniadau etholiadol—rwy'n gobeithio y gallwn gael consensws yn y lle hwn ynglŷn â'r bleidlais drosglwyddadwy sengl ar ôl yr etholiad nesaf. Byddwn yn gweithio yn yr etholiadau i symud hynny yn ei flaen. Rydym yn credu mai dyna'r agenda ddiwygio fwyaf ar gyfer gwaed newydd ac egni newydd mewn llywodraeth leol, yn ogystal â symud awdurdodau yn eu blaenau.

So, local government reorganisation cannot be started before May. The powers can be in place, certain preparatory work can happen, but maps cannot happen. And, as Members who served on the committee know, the Bill as currently worded does allow certain instructions to be given. We will ensure that those instructions are those that do not close the door for further reform agendas and different reform agendas that will emerge post—May. It's different and it's possible to conceive of a different agenda and a very different model. But the choice will be between our model and the Labour Party model; we've heard nothing from the other parties yet. To be fair, the Liberal Democrats do stand for STV and we will support them in that.

Felly, ni ellir dechrau ad-drefnu llywodraeth leol cyn mis Mai. Gall y pwerau fod wedi'u sefydlu, gall gwaith paratoi penodol ddigwydd, ond ni all mapiau ddigwydd. Ac, fel y mae Aelodau a fu'n gwasanaethu ar y pwyllgor yn gwybod, mae'r bil fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd yn caniatáu i rai cyfarwyddiadau gael eu rhoi. Byddwn yn sicrhau mai'r cyfarwyddiadau hynny fydd y rhai nad ydynt yn cau'r drws ar gyfer agendâu diwygio pellach ac agendâu diwygio gwahanol a fydd yn dod i'r amlwg ar ôl mis Mai. Mae'n wahanol ac mae'n bosibl i feddwl am agenda wahanol a model gwahanol iawn. Ond bydd y dewis rhwng ein model ni a model y Blaid Lafur; nid ydym wedi clywed unrhyw beth gan y pleidiau eraill eto. I fod yn deg, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol o blaid STV a byddwn ni yn eu cefnogi yn hynny o beth.

I also welcome what the Minister said about the task and finish group on the use of the Welsh language. I accept that really it's not a legislative way forward—we already have enough legislation around the Welsh language; I accept that—it's about political will. It's about ensuring that any reform of local government doesn't lose the prizes that we've won already in internal administration in places like Gwynedd and the progress being made in places like Ceredigion and sir Gâr. That is not a matter for the implementation as such, but it's welcome that the Minister has said these things, because we will work with the grain of that as well.

Rwyf hefyd yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am y grŵp gorchwyl a gorffen ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg. Rwyf yn derbyn nad yw'n ymwneud mewn gwirionedd â ffordd ymlaen o ran deddfwriaeth—mae gennym eisoes ddigon o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg; rwyf yn derbyn hynny—mae'n ymwneud ag ewyllys gwleidyddol. Mae'n ymwneud â sicrhau nad yw unrhyw ddiwygio llywodraeth leol yn colli'r gwobrau yr ydym ni eisoes wedi eu hennill am weinyddiaeth fewnol mewn ardaloedd fel Gwynedd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn ardaloedd fel Ceredigion a Sir Gâr. Nid yw hynny'n fater ar gyfer y gweithredu fel y cyfryw, ond mae'r ffaith fod y Gweinidog wedi dweud y pethau hyn i'w groesawu, oherwydd byddwn yn gweithio â graen hynny hefyd.

There's been an exchange of letters between the leader of Plaid Cymru and the leader of the Labour Party that confirms this way forward, and how we will work on this agenda. What's important now is that two things emerge from this debate: firstly, that local government in Wales is clear that those parties that lead in local government in Wales are serious about reform, and, secondly, that the people of Wales are clear that no map will be imposed and nothing will be done until they have their say in the May general Welsh elections. Our vision of local government will be put in those elections clearly, without favour and without any local referenda. It will be done on the basis of a national approach to a national problem. I'm sure the Labour Party will do the same thing, and we will return in May and June with the powers in hand for the incoming Government to take forward the reform agenda.

Bu arweinydd Plaid Cymru ac arweinydd y Blaid Lafur yn cyfnewid llythyrau sy'n cadarnhau'r ffordd hon ymlaen, a sut y byddwn yn gweithio ar yr agenda hon. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw bod dau beth yn dod i'r amlwg o'r ddadl hon: yn gyntaf, bod llywodraeth leol yng Nghymru yn glir bod y pleidiau hynny sy'n arwain mewn llywodraeth leol yng Nghymru o ddifrif ynglŷn â diwygio, ac, yn ail, fod pobl Cymru yn glir na fydd unrhyw fap yn cael ei orfodi ac na fydd unrhyw beth yn cael ei wneud hyd y byddant yn cael dweud eu dweud yn etholiadau cyffredinol Cymru ym mis Mai. Bydd ein gweledigaeth ni o lywodraeth leol yn cael ei nodi yn glir yn yr etholiadau hynny, heb ffafrio a heb unrhyw refferenda lleol. Bydd hyn yn cael ei wneud ar sail dull cenedlaethol ar gyfer problem genedlaethol. Rwyf yn siŵr y bydd y Blaid Lafur yn gwneud yr un peth, a byddwn yn dychwelyd ym mis Mai ac ym Mehefin gyda'r pwerau ar gael i'r Llywodraeth nesaf fwrw ymlaen â'r agenda diwygio.

18:44 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I start by declaring an interest as a member of a local authority in Wales, in accordance with the Standing Orders? And I noted the Minister's—I'll use another 'h' word now—hyperbole in introducing this, in claiming that this Bill now has leadership from two parties in this Chamber in terms of local government reform. I think that that's just been proven to be incorrect by what Simon Thomas has just said. And, if you do have leadership, it's very much akin to the grand old Duke of York, because, in terms of this Bill, you're leading us up a hill and back down again, and not taking us anywhere in particular. Even Plaid have said that the Minister's preferred option is not their option and they plan to take a different direction, if they're able to, after May's election. So, so much for a combined leadership approach in terms of this local government Bill. The Minister, in fact, I think, went on his knees to Plaid Cymru to ask them to pass this Bill, and Plaid, in response to that, went back on their previous pronouncement in return for—well, in return for nothing, in fact: a task and finish group I think is what we have coming out of this, and I think that, really, is not a great deal at all.

A gaf i ddechrau drwy ddatgan buddiant fel aelod o awdurdod lleol yng Nghymru, yn unol â'r Rheolau Sefydlog? A nodais ormodiaeth y Gweinidog wrth gyflwyno hyn, wrth honni bod gan y Bil hwn arweinyddiaeth gan ddwy blaid yn y Siambr hon o ran diwygio llywodraeth leol. Credaf fod hynny newydd gael ei brofi yn anghywir gan yr hyn y mae Simon Thomas newydd ei ddweud. Ac, os oes gennych arweinyddiaeth, mae'n debyg iawn i hwnnw oedd gan hen Ddug mawreddog Caerefrog, oherwydd, o ran y Bil hwn, rydych chi yn ein harwain ni i ben bryn ac yn ôl i lawr eto, ac nid ydych yn mynd â ni i unrhyw le arbennig. Mae hyd yn oed Plaid Cymru wedi dweud nad y dewis a ffefrir gan y Gweinidog yw eu dewis hwy a'u bod yn bwriadu mynd i gyfeiriad gwahanol, os byddant yn gallu, ar ôl etholiad mis Mai. Felly, dyna ddigon am ymagwedd arweinyddiaeth gyfunol o ran y Bil llywodraeth leol hwn. Aeth y Gweinidog, mewn gwirionedd, rwyf yn credu, ar ei liniau i Blaid Cymru i ofyn iddynt basio'r Bil hwn, ac mae Plaid Cymru, mewn ymateb i hynny, wedi troi eu cefnau ar eu cyhoeddiad blaenorol er mwyn cael—wel, er mwyn cael dim, mewn gwirionedd: grŵp gorchwyl a gorffen yn fy marn i yw'r hyn sydd gennym yn dod allan o hyn, ac rwyf yn meddwl nad yw hynny, mewn gwirionedd, yn llawer iawn o gwbl.

The Bill will not help to deliver Plaid Cymru's vision—I think that is absolutely clear—because Plaid Cymru's vision appears to be the status quo plus a few regional bodies on top of that, when, actually, what you do need, if you're going to have a proper reform of local government, is a proper and considered approach to it, and not the piecemeal approach that this Bill actually delivers. That is the problem, and that's why we cannot support this Bill, because, firstly, it does take a piecemeal approach to local government reorganisation, offering voluntary mergers, which are never going to happen. This is a dead end in that regard, and a pointless waste of our time debating a Bill that is never going to lead to any outcome, apart from another Bill later on, which is actually where we're going to have the final delivery in terms of after the next Assembly election. It doesn't offer the single transferrable vote for local government at all, which is fair voting. If you're going to have a small number of councils, with fewer councillors, it's absolutely crucial that you have a proper voting system, which means that the outcome of election to those bodies actually reflects the way that people voted, and, of course, if you have more representative local government, you have more accountable local government, you have more transparent local government, and you get better services as a result of that. [Interruption.] I'm not going to—[Inaudible.]

Ni fydd y Bil yn helpu i gyflwyno gweledigaeth Plaid Cymru—credaf fod hynny'n gwbl glir—gan ei bod hi'n ymddangos mai gweledigaeth Plaid Cymru yw'r status quo yn ogystal â rhai cyrff rhanbarthol eraill, pan, mewn gwirionedd, yr hyn sydd ei angen arnoch, os ydych yn mynd i gael diwygiad priodol o lywodraeth leol, yw dull sy'n briodol ac yn ystyriol ar ei gyfer, ac nid y dull tameidiog y mae'r Bil hwn mewn gwirionedd yn ei gyflawni. Dyna yw'r broblem, a dyna pam na allwn gefnogi'r Bil hwn, oherwydd, yn gyntaf, mae'n cynnig dull tameidiog o ad-drefnu llywodraeth leol, gan gynnig uno gwirfoddol, na fyddant byth yn digwydd. Mae hwn yn llwybr na fydd yn arwain i unman yn hynny o beth, ac yn wastraff dibwrpas o'n hamser yn trafod Bil na fydd byth yn arwain at unrhyw ganlyniad, ar wahân i Fil arall yn nes ymlaen, sef lle yr ydym ni mewn gwirionedd yn mynd i gael y cyflawniad terfynol o ran ar ôl etholiad nesaf y Cynulliad. Nid yw'n cynnig y bleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer llywodraeth leol o gwbl, ac mae hynny'n bleidleisio teg. Os ydych yn mynd i gael nifer fach o gynghorau, â llai o gynghorwyr, mae'n gwbl hanfodol bod gennych system bleidleisio briodol, sy'n golygu bod canlyniad yr etholiad i'r cyrff hynny yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio mewn gwirionedd, ac, wrth gwrs, os oes gennych lywodraeth leol sy'n fwy cynrychiadol, mae gennych lywodraeth leol sy'n fwy atebol, mae gennych lywodraeth leol sy'n fwy tryloyw, a byddwch yn cael gwasanaethau gwell o ganlyniad i hynny. [Torri ar draws.] Nid wyf yn mynd i—[Anghlywadwy.]

And, of course, in terms of where we should go forward on this, the Welsh Liberal Democrats do have a vision for local government reform, and that is that we should be looking at natural boundaries; we should be having a boundary commission to actually put in place a proper review of what is going to be sustainable over the long term. My concern is that by taking the approach the Government is taking at the moment—this piecemeal approach with this Bill, followed by a map that they're going to then impose of eight or nine local authorities on Wales—it means that we will end up, in 20 years' time, with yet another local government reorganisation because this hasn't worked out at all. If you're going to have a local government reorganisation, let's do it properly, on a scale that is a reasonable scale—I think eight or nine is too few; I'm looking more at 11 or 12, maybe slightly more that that—and, certainly, with a proper boundary commission review based on natural boundaries. And let's look at devolving power further from this Welsh Assembly to those local councils. Let's give them more responsibilities if they're going to be reduced in size to fewer councils. Let's make sure that they have a real ability to determine issues in their own authorities, in terms of transport, in terms of public health, in terms of some other health issues, and in terms of economic development. Let's start giving them powers to do things and make a difference in their own areas. Let's make them powerhouses in their own local area, which can deliver on behalf of their local constituents, instead of everything being top—down and centralised from this Welsh Assembly and from this Welsh Government.

Ac, wrth gwrs, o ran ble y dylem ni symud ymlaen ar hyn, mae gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru weledigaeth ar gyfer diwygio llywodraeth leol, a hynny yw y dylem fod yn edrych ar ffiniau naturiol; dylem gael comisiwn ffiniau i roi adolygiad priodol ar waith mewn gwirionedd o'r hyn sy'n mynd i fod yn gynaliadwy dros y tymor hir. Fy mhryder i yw trwy gymryd yr ymagwedd y mae'r Llywodraeth yn ei chymryd ar hyn o bryd—yr ymagwedd dameidiog hon sy'n rhan o'r Bil hwn, a ddilynnir gan fap y byddant yn ei orfodi wedyn ar wyth neu naw o awdurdodau lleol yng Nghymru—mae'n golygu y byddwn yn y pen draw, ymhen 20 mlynedd, yn ad-drefnu llywodraeth leol unwaith eto gan na fydd hyn wedi gweithio o gwbl. Os ydych chi'n mynd i ad-drefnu llywodraeth leol, beth am i ni ei wneud yn iawn, ar raddfa sy'n raddfa resymol—nid wyf yn credu bod wyth neu naw yn ddigon; rwyf yn meddwl mwy am tua 11 neu 12, efallai ychydig bach yn fwy na hynny—ac, yn sicr, gydag adolygiad priodol gan y comisiwn ffiniau yn seiliedig ar ffiniau naturiol. A beth am i ni edrych ar ddatganoli pŵer ymhellach oddi wrth y Cynulliad hwn i'r cynghorau lleol hynny. Beth am roi mwy o gyfrifoldebau iddynt os ydynt yn mynd i gael eu lleihau mewn maint i lai o gynghorau. Beth am i ni wneud yn siŵr bod ganddynt allu gwirioneddol i benderfynu ar faterion yn eu hawdurdodau eu hunain, o ran trafnidiaeth, o ran iechyd y cyhoedd, o ran rhai materion iechyd eraill, ac o ran datblygiad economaidd. Beth am i ni ddechrau rhoi pwerau iddynt i wneud pethau a gwneud gwahaniaeth yn eu hardaloedd eu hunain. Beth am i ni eu gwneud yn bwerdai yn eu hardal leol eu hunain, sy'n gallu cyflawni ar ran eu hetholwyr lleol, yn hytrach na bod popeth o'r brig i lawr ac yn ganolog oddi wrth y Cynulliad Cymru hwn ac oddi wrth y Llywodraeth Cymru hon.

And, yes, we need a mandate. No party in this Assembly has a mandate for reform. No party in this Assembly has a mandate for this Bill. We need to go to the Welsh electorate and put our proposals to them, and let's get a mandate. This Bill, as I said, will lead to piecemeal reform, not proper reorganisation. If we're going to have proper reorganisation, let's reject this Bill now and let's do it properly after the next Assembly elections. Let's have a proper consultation; let's have a proper evaluation of the communities that are going to be represented by which authorities; let's make sure we have an electoral system, which is representative, and which delivers a proper local government, which is going to properly represent people; and let's make sure that we deliver a vision for local government, which is going to empower local people, not basically impose a map and a structure on local people, which is the desire of one party in this Assembly, rather than everyone in a proper consensus.

Ac, oes, mae arnom angen mandad. Nid oes gan unrhyw blaid yn y Cynulliad hwn fandad ar gyfer diwygio. Nid oes gan unrhyw blaid yn y Cynulliad hwn fandad ar gyfer y Bil hwn. Mae angen i ni fynd at etholwyr Cymru a rhoi ein cynigion iddynt, a gadewch i ni gael mandad. Bydd y Bil hwn, fel y dywedais, yn arwain at ddiwygio tameidiog, ac nid ad-drefnu priodol. Os ydym yn mynd i gael ad-drefnu priodol, beth am i ni wrthod y Bil hwn yn awr a'i wneud yn iawn ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad. Beth am i ni gael ymgynghoriad priodol; beth am i ni gael gwerthusiad priodol o ba gymunedau sydd yn mynd i gael eu cynrychioli gan ba awdurdodau; beth am i ni sicrhau bod gennym system etholiadol, sy'n gynrychioliadol, ac sy'n darparu llywodraeth leol briodol, sydd yn mynd i gynrychioli pobl yn briodol; a beth am i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n darparu gweledigaeth ar gyfer llywodraeth leol, sydd yn mynd i rymuso pobl leol, ac nid dim ond gosod map a strwythur ar bobl leol, sef dymuniad un o bleidiau'r Cynulliad hwn, yn hytrach na chynnwys pawb mewn consensws priodol.

18:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

18:49 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Deputy Presiding Officer, I am standing here in the Chamber; I'm not on my knees and I have no cap in my hands. I have to say that I did, during the contribution of the Conservative spokesperson, feel like a bystander in this debate as the bile seemed to be flying straight across the Chamber without any engagement with the proposals of the Government. But I will pick out a couple of things quickly that the Conservative spokesperson said. She talked about the £151 million potential savings per annum identified by the KPMG report. I would remind her that I commissioned that report. That report was published in June. We are working with local government already to deliver those savings.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn sefyll yma yn y Siambr hon; nid wyf i ar fy ngliniau ac nid oes gennyf gap yn fy nwylo. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n teimlo, yn ystod cyfraniad llefarydd y Ceidwadwyr, fel gwyliwr yn y ddadl hon gan fod y bustl yn ymddangos i fod yn hedfan yn syth ar draws y Siambr heb unrhyw ymgysylltiad â chynigion y Llywodraeth. Ond byddaf yn dewis un neu ddau o bethau yn gyflym a ddywedodd llefarydd y Ceidwadwyr. Mae hi'n siarad am y £ 151 miliwn o arbedion posib yn y flwyddyn a nodwyd yn adroddiad KPMG. Byddwn yn ei hatgoffa mai fi gomisiynodd yr adroddiad hwnnw. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwnnw ym mis Mehefin. Rydym yn gweithio gyda llywodraeth leol eisoes i gyflawni'r arbedion hynny.

On Friday, I visited Cheshire West and Chester Council, a local authority formed from a merger, and what they found, through their merger process, was that the costs of merger were lower than in the business case—significantly—and the savings that they found per annum were greater than were in the original business case. So, I think we are embarking on a programme that will be important for the future of our public services.

Ddydd Gwener, ymwelais a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, awdurdod lleol a ffurfiwyd drwy uno, a'r hyn ganfuwyd ganddyn nhw, drwy eu proses uno, oedd bod y costau o uno yn is nag yn yr achos busnes—yn sylweddol felly—ac roedd yr arbedion a welwyd bob flwyddyn yn fwy nag a oedd yn yr achos busnes gwreiddiol. Felly, rwyf yn credu ein bod ni yn cychwyn ar raglen a fydd yn bwysig ar gyfer dyfodol ein gwasanaethau cyhoeddus.

The Liberal Democrats asked about leadership in local government. What I was saying in my opening remarks was that there are two political parties that provide the bulk of leadership in local government in Wales. Those two political parties have agreed that we need to take reform forward, and I agree with the remarks of the Plaid Cymru spokesperson that reform must come. It is absolutely right, of course, that we allow the electorate to determine the form of that reform next year.

Gofynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol am arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol. Yr hyn yr oeddwn i yn ei ddweud yn fy sylwadau agoriadol oedd mai dwy blaid wleidyddol sydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r arweinyddiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r ddwy blaid wleidyddol hynny wedi cytuno bod angen i ni symud ymlaen â'r diwygio, ac rwyf yn cytuno â sylwadau llefarydd Plaid Cymru bod yn rhaid i ddiwygio ddod. Mae'n hollol iawn, wrth gwrs, ein bod ni'n caniatáu i'r etholwyr benderfynu ar ffurf y diwygiad hwnnw y flwyddyn nesaf.

I will also say to the Liberal Democrats that, yes, we are prepared to devolve power further to local government. The First Minister has made that clear before and it was made clear in the White Paper 'Reforming Local Government: Power to Local People', which we published in February. We will do that on the basis of a reformed system of local government. Deputy Presiding Officer, as I said earlier, reform of local government is coming; reorganisation of local government will happen.

Rwyf hefyd am ddweud wrth y Democratiaid Rhyddfrydol, ydym, rydym yn barod i ddatganoli pŵer ymhellach i lywodraeth leol. Mae'r Prif Weinidog wedi gwneud hynny'n glir o'r blaen ac fe'i gwnaed yn glir yn y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol', a gyhoeddwyd gennym ym mis Chwefror. Byddwn yn gwneud hynny ar sail system ddiwygiedig o lywodraeth leol. Ddirprwy Lywydd, fel y dywedais yn gynharach, mae diwygio llywodraeth leol yn dod; bydd ad-drefnu llywodraeth leol yn digwydd.

18:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:51 — Senedd.tv Fideo Video

## 12. Cyfnod Pleidleisio

## 12. Voting Time

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we'll vote first on the debate on the Welsh Government's response to the Welsh Language Commissioner's annual report.

Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly byddwn yn pleidleisio yn gyntaf ar y ddadl ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad blynyddol Comisiynydd y Gymraeg.

I call for a vote on amendment 1 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 26. In accordance with Standing Order 6.20, I exercise my casting vote against the amendment, which consequently falls.

Galwaf am bleidlais ar welliant 1 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 26 wedi pleidleisio o blaid. Mae 26 wedi pleidleisio yn erbyn. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.20, rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd felly yn methu.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 26, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 26, Against 26, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5845

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5845

18:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call for a vote on amendment 2 tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52. No votes against. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 52 wedi pleidleisio o blaid. Dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5845

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5845

18:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5845 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5845 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2014—15, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 28 Medi 2015, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

1. Acknowledges the Welsh Language Commissioner's Annual Report for 2014—15, laid before the Assembly on 28 September 2015, which details the work undertaken by the Commissioner to promote and facilitate the use of the Welsh language.

*2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo yn ei strategaeth iaith 'Iaith fyw: iaith byw' i wneud 'safonau a fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod dyletswyddau ar gwmnïau'r sector preifat sy'n rhan o gwmpas Mesur y Gymraeg, gan gynnwys cwmnïau telathrebu, gweithredwyr bysiau a threnau, a chwmnïau cyfleustodau'.*

*2. Notes that the Welsh Government has committed in its language strategy, 'A living language: a language for living', to 'make standards, which will enable the Commissioner to impose duties on private sector companies which fall within the scope of the Welsh Language Measure, including telecommunications companies, bus and train operators, and utility companies'.*

18:52

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 52. No votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 52 wedi pleidleisio o blaid. Dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5845 fel y'i diwygiwyd: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5845 as amended agreed: For 52, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5845 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5845 as amended

18:52 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We will now vote on the Stage 4 debate on the Local Government (Wales) Bill. I call for a vote on the motion tabled in the name of Leighton Andrews. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 26. There voted against 17. There were nine abstentions. Therefore, the motion is agreed.

Pleidleisiwn yn awr ar ddadl Cyfnod 4 ynglŷn â Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Leighton Andrews. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Mae 26 wedi pleidleisio o blaid. Mae 17 wedi pleidleisio yn erbyn. Mae naw wedi ymatal. Felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5855: O blaid 26, Yn erbyn 17, Ymatal 9.*

*Motion NDM5855 agreed: For 26, Against 17, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5855 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5855 as amended

18:53 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:53.*

*The meeting ended at 18:53.*